



Home Office

Cam-drin Domestig

Canllawiau Statudol

Gorffennaf 2022



© Crown copyright 2022

© Hawlfraint y Goron 2022

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn <https://www.gov.uk/government/consultations/domestic-abuse-act-statutory-guidance>.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn: domesticabuseenquiries@homeoffice.gov.uk.

Cynnwys

Cynnwys	4
Cynnwys yn fanwl	7
Rhagair Gweinidogol	12
Crynodeb Gweithredol	13
Pwrpas a statws cyfreithiol	13
Cynulleidfa	13
Strwythur	15
Pennod 1 – Amcanion	17
Amcanion Deddf Cam-drin Domestig 2021	17
Amcanion y Canllawiau Statudol ar Gam-drin Domestig	18
Pennod 2 – Deall Cam-drin Domestig	19
Cefndir	19
Diffiniad statudol	21
Mathau o gam-drin domestig	24
Pennod 3 – Cydnabod Cam-drin Domestig	29
Cam-drin corfforol, ymddygiad treisgar neu fygythiol	29
Cam-drin rhywiol	30
Ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol	32
Aflonyddu neu Stelcio	35
Cam-drin economaidd	36
Cam-drin emosiynol neu seicolegol	38
Cam-drin geiriol	39
Cam-drin wedi'i hwyluso gan dechnoleg	39
Cam-drin yn ymwneud â ffydd	41
Cam-drin ar sail 'anrhydedd'	43
Tactegau cyflawnwyr	46
Pennod 4 – Effaith Cam-drin Domestig	50
Effaith ar Ddiodefswyr	50

Effaith ar ddiodefwr sy'n blant	54
Pennod 5 – Gwahanol brofiadau, anghenion ac ystyriaethau cysylltiedig	60
Oedran	62
Anabledd	64
Dioddefwyr byddar	66
Lleferydd, iaith, a chyfathrebu	67
Cyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth Rhywedd	68
Rhyw	69
Beichiogrwydd	71
Crefydd neu gred	72
Hil ac ethnigrwydd	73
Statws mewnfudo a diodefwr mudol	74
Camddefnyddio alcohol a sylweddau	79
Iechyd meddwl	80
Cefndir economaidd-gymdeithasol	81
Pennod 6 – Ymateb Asiantaeth i Gam-drin Domestig	82
Adnabod ac ymateb	82
Asesu risg	83
Ymateb i blant a phobl ifanc	84
Addysg	85
Gofal Cymdeithasol	90
Iechyd	96
Tai	103
Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol	109
Plismona	109
Gwasanaeth Erlyn y Goron	117
Fframwaith Arfer Gorau Cam-drin Domestig ar gyfer y Llysoedd	119
Carchar a Phrawf	120
Timau Troseddau Ieuencid	122
System Cyfiawnder Troseddol a Sifil - Llysoedd Troseddol, Sifil a Theulu	123
Canolfan Byd Gwaith	127

Cyflogwyr	128
Gwasanaethau Ariannol	131
Cysylltiadau â'r sector gwirfoddol	132
Pennod 7 – Ymateb Amlasiantaethol i Gam-drin Domestig	134
Gweithio amlasiantaethol	134
Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaethol	137
Gwaith amlasiantaethol i ddiogelu plant	138
Egwyddorion ar gyfer gweithio amlasiantaethol	139
Mynd i'r afael ag ymddygiad y cyflawnwr	149
Adolygiadau Lladdiad Domestig	154
Atodiad A – Cymorth sydd ar gael i Ddiodefwr	155
Atodiad B – Geirfa Acronymau	160
Atodiad C – Dogfennau Cyfarwyddyd	162
Atodiad D – Tabl o Orchmynion Amddiffyn	167

Cynnwys yn fanwl

Cynnwys	4
Cynnwys yn fanwl	7
Rhagair Gweinidogol	12
Crynodeb Gweithredol	13
Pwrpas a statws cyfreithiol	13
Cynulleidfa	13
Strwythur	15
Pennod 1 – Amcanion	17
Amcanion Deddf Cam-drin Domestig 2021	17
Amcanion y Canllawiau Statudol ar Gam-drin Domestig	18
Pennod 2 – Deall Cam-drin Domestig	19
Cefndir	19
Diffiniad statudol	21
Mathau o gam-drin domestig	24
Cam-drin gan bartner agos	24
Cam-drin mewn perthnasoedd yn yr ardegau	24
Cam-drin plentyn-i-riant	27
Pennod 3 – Cydnabod Cam-drin Domestig	29
Cam-drin corfforol, ymddygiad treisgar neu fygythiol	29
Cam-drin rhywiol	30
Ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol	32
Aflonyddu neu Stelcio	35
Cam-drin economaidd	36
Cam-drin emosiynol neu seicolegol	38
Cam-drin geiriol	39
Cam-drin wedi'i hwyluso gan dechnoleg	39

Cam-drin yn ymwneud â ffydd	41
Priodas ac ysgariad crefyddol	41
Cam-drin ar sail ‘anrhydedd’	43
Priodas dan Orfod	44
Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM)	45
Tactegau cyflawnwyr	46
Pennod 4 – Effaith Cam-drin Domestig	50
Effaith ar Ddioddefwyr	50
Corfforol	50
Seicolegol	50
Hunanladdiad	51
Caethiwed	52
Troseddu	52
Bywoliaeth	53
Effaith ar ddioddefwyr sy'n blant	54
Pennod 5 – Gwahanol brofiadau, anghenion ac ystyriaethau cysylltiedig	60
Oedran	62
Anabledd	64
Dioddefwyr byddar	66
Lleferydd, iaith, a chyfathrebu	67
Cyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth Rhywedd	68
Rhyw	69
Dioddefwyr benyw	69
Dioddefwyr gwryw	69
Beichiogrwydd	71
Crefydd neu gred	72
Hil ac ethnigrwydd	73
Statws mewnfudo a dioddefwyr mudol	74
Ceiswyr Lloches	78
Dim hawl i arian cyhoeddus (NRPF) - newid amodau	78
Hepgoriadau Ffioedd	78
Camddefnyddio alcohol a sylweddau	79
Iechyd meddwl	80

Cefndir economaidd-gymdeithasol	81
Pennod 6 – Ymateb Asiantaeth i Gam-drin Domestig	82
Adnabod ac ymateb	82
Asesu risg	83
Ymateb i blant a phobl ifanc	84
Addysg	85
Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant	85
Ysgolion a cholegau	86
Addysg Uwch	89
Gofal Cymdeithasol	90
Gofal Cymdeithasol Plant	90
Gofal Cymdeithasol i Oedolion	94
Iechyd	96
Rôl a strwythurau	96
Ymholiadau	97
Ymateb integredig	99
Tai	103
Rôl ac ymagwedd	103
Angen blaenoriaethol dioddefwyr digartrefedd a cham-drin domestig am lety	104
Ymateb tai	106
Llety Diogel	107
Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol	109
Plismona	109
Cysylltiad rhwng erledigaeth a throsteddu	113
Dioddefwyr â statws mewnfudo ansicr	113
Cynllun Datgelu Trais Domestig	113
Mechnïaeth	114
Cyfweliad Presenoldeb Gwirfoddol	115
Hysbysiadau a Gorchmynion Amddiffynnol	115
Comisiynwyr yr Heddlu a Throsteddu	117
Gwasanaeth Erllyn y Goron	117
Cynllun Hawl Dioddefwr i Adolygiad	119
Fframwaith Arfer Gorau Cam-drin Domestig ar gyfer y Llysoedd	119
Carchar a Phrawf	120

Timau Troseddau Ieuencid	122
System Cyfiawnder Troseddol a Sifil - Llysoedd Troseddol, Sifil a Theulu	123
Llysoedd troseddol a mesurau arbennig yn y llysoedd troseddol	123
Llysoedd sifil a mesurau arbennig yn y llysoedd sifil	124
Llysoedd teulu a mesurau arbennig yn y llysoedd teulu	125
Gorchmynion Amddiffyn	127
Canolfan Byd Gwaith	127
Cyflogwyr	128
Gwasanaethau Ariannol	131
Cysylltiadau â'r sector gwirfoddol	132
Pennod 7 – Ymateb Amlasiantaethol i Gam-drin Domestig	134
Gweithio amlasiantaethol	134
Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaethol	137
Gwaith amlasiantaethol i ddiogelu plant	138
Egwyddorion ar gyfer gweithio amlasiantaethol	139
Gweld ac ymateb i'r darlun cyfan	139
Cynllunio ymyriadau ac ymatebion o amgylch anghenion dioddefwyr	141
Ffocws strategol clir	143
Cymryd rhan fel partneriaid gweithredol a chydgysylltiedig	144
Sgiliau arbenigol	145
Rhannu gwybodaeth yn ddiogel ac yn effeithiol	145
Gwerthfawrogi a chyflogi staff sydd â'r gwerthoedd cywir	147
Mynd i'r afael ag ymddygiad y cyflawnwr	147
Mynd i'r afael ag ymddygiad y cyflawnwr	149
Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd	149
Paneli Cyflawnwyr	150
Rhaglenni Cyflawnwyr	151
Ymyriadau Newid Ymddygiad	152
Adolygiadau Lladdiad Domestig	154
Atodiad A – Cymorth sydd ar gael i Ddioddefwyr	155
Atodiad B – Geirfa Acronymau	160
Atodiad C – Dogfennau Cyfarwyddyd	162
Atodiad D – Tabl o Orchmynion Amddiffyn	167

Rhagair Gweinidogol

Mae cam-drin domestig yn greulon a chymhleth, a gall effeithio ar unrhyw un, gan adael creithiau corfforol ac emosiynol a all barhau am oes. Mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr 2019 i 2020 (CSEW) yn amcangyfrif bod 2.3 miliwn o oedolion rhwng 16 a 74 oed yng Nghymru a Lloegr wedi profi cam-drin domestig yn y flwyddyn flaenorol, y mwyafrif ohonynt yn fenywod.¹

Gwyddom fod llawer gormod o unigolion yn cael eu dinistrio gan gam-drin domestig. Fodd bynnag, i gynifer, mae eu profiad o gam-drin wedi'i stigmatiddio, wedi'i leihau, neu'n waeth byth, wedi'i anwybyddu. Gwyddom hefyd fod cam-drin domestig yn cael effaith ddinistriol ar blant a phobl ifanc. Gall tyfu i fyny ar aelwyd o ofn a braw effeithio ar eu hiechyd, eu lles a'u datblygiad, ag effeithiau parhaol pan fyddant yn oedolion. Mae angen i ni adeiladu cymdeithas nad oes ganddi unrhyw oddefgarwch tuag at gam-drin domestig, ac sy'n grymuso dioddefwyr, cymunedau a gweithwyr proffesiynol i fynd i'r afael ag ef a'i herio, a darparu'r cymorth y maent yn ei haeddu i ddiodefwyr cam-drin domestig, gan gynnwys plant. Dyna pam mae'r Llywodraeth wedi ymrwmo i drawsnewid yr ymateb i'r drosedd ofnadwy hon, a welir drwy gyflwyno Deddf Cam-drin Domestig 2021 ('Deddf 2021') a'r canllawiau statudol cysylltiedig â hyn. Mae disgwyl i Ddeddf 2021 helpu miliynau drwy gryfhau'r ymateb ar draws yr holl asiantaethau – o'r heddlu a'r llysoedd i awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau. Mae'n darparu amddiffyniadau pellach i'r rhai sy'n profi cam-drin domestig, ac yn gwella'r mesurau sydd ar waith i ddod â chyflawnwyr o flaen eu gwell.

Gall unrhyw un fod yn ddiodefwr cam-drin domestig, waeth beth fo'u rhyw, ei dewis ailbennu rhywedd, oedran, ethnigrwydd, statws economaidd-gymdeithasol, rhywioldeb neu gefndir. Mae Deddf 2021 yn cyflwyno diffiniad statudol o gam-drin domestig, ac ynghyd â'r canllawiau statudol hyn, mae'n darparu astudiaethau achos clir o sut beth yw cam-drin. Yn rhy aml, sonnir am gam-drin domestig mewn perthynas â'r rhai sy'n achosion 'risg uchel', ond i lawer o ddiodefwyr, mae'r cam-drin y maent yn ei ddiodef yn gyfrinachol, mae'n gynnil, ac mae'n barhaol.

Mae'r canllawiau hyn wedi bod yn destun ymgysylltu helaeth ag arbenigwyr o'r sector, Comisiynwyr annibynnol, academyddion, a'r rhai ar y rheng flaen. Rydym yn cydnabod ac yn diolch yn arbennig i'r sefydliadau yn y sector cam-drin domestig a gydweithiodd â swyddogion i ddrafftio'r canllawiau hyn, gan roi adborth ac edrych ar bob adran yn fanwl yn y camau datblygu. Diolchwn hefyd i bawb a ymatebodd yn ystod y cyfnod ymgynghori a rannodd eu sylwadau, eu mewnwelediadau a'u profiadau i gynorthwyo i gwblhau'r ddogfen hon.

Cyhyd ag y bydd cam-drin domestig yn bodoli, rhaid i gefnogaeth fodoli i ddiodefwyr, ac i'r rhai sy'n gweithio i amddiffyn diodefwyr, bydd y canllawiau hyn yn helpu i sicrhau ein bod i gyd yn chwarae ein rhan wrth fynd i'r afael â'r drosedd ffaidd hon.

Y Gwir Anrhydeddus Priti Patel AS, Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref

¹ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). [Nodweddion diodefwyr cam-drin domestig, Cymru a Lloegr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](https://ons.gov.uk): Blwyddyn ddata a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020.

Crynodeb Gweithredol

Pwrpas a statws cyfreithiol

Cyhoeddir y canllawiau statudol hyn o dan adran 84 o [Ddeddf Cam-drin Domestig 2021](#) ('Deddf 2021'). Y bwriad yw cynyddu ymwybyddiaeth a llywio'r ymateb i gam-drin domestig. Mae hefyd yn cyfleu safonau ac yn hyrwyddo arfer gorau.

Mae adran 84(4) o Ddeddf 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus, y mae'r canllawiau'n ymwneud â hwy, roi sylw i'r canllawiau wrth arfer y swyddogaethau hynny. Efallai y bydd gan rai sefydliadau hefyd ddyletswyddau statudol penodol i ddiogelu dioddefwyr cam-drin domestig. Felly, dylid darllen y canllawiau hyn ar y cyd â chanllawiau a chodau ymarfer perthnasol eraill, y cyfeirir at nifer ohonynt yn y ddogfen.

Mae'r canllawiau hyn yn canolbwyntio ar gymorth i ddioddefwyr. Nid yw pawb sydd wedi profi, neu sydd yn profi, cam-drin domestig yn dewis disgrifio eu hunain fel 'dioddefwr' ac efallai y byddai'n well defnyddio termau eraill fel 'goroeswr'. Rydym yn cydnabod y ddau derm, fodd bynnag, mae'r canllawiau'n defnyddio'r term 'dioddefwr' yn bennaf i fod yn gyson â therminoleg Deddf 2021.

Cynulleidfa

Mae'r canllawiau statudol hyn wedi'u hanelu at sefydliadau sy'n gweithio gyda dioddefwyr, cyflawnwyr a gwasanaethau comisiynu, gan gynnwys yr heddlu, awdurdodau lleol, a'r GIG. Mae hefyd yn berthnasol i sefydliadau sy'n delio â chanlyniadau cam-drin domestig megis cyflogwyr a sefydliadau ariannol. Mae rhestr anghyflawn o'r rhai y bwriedir y canllaw hwn ar eu cyfer wedi'i nodi isod:

- Awdurdodau lleol Cymru a Lloegr
- Heddluoedd a Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd (CHTh)
- Gwasanaeth Erllyn y Goron (CPS)
- Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Cafcass) a Cafcass Cymru
- Gwasanaethau ar gyfer mathau o drais yn erbyn menywod a merched gan gynnwys unrhyw wasanaethau cam-drin domestig arbenigol (gan gynnwys gwasanaethau sy'n gwasanaethu dynion a bechgyn)
- Timau tai a digartrefedd lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig
- Blynyddoedd cynnar, gofal plant, ysgolion, colegau, a lleoliadau addysg uwch
- Darparwyr gofal cymdeithasol oedolion a gofal cymdeithasol plant

- NHS England a NHS Improvement (o 2022, NHS England)
- Grwpiau Comisiynu Clinigol (o fis Gorffennaf 2022, Byrddau Gofal Integredig)
- Partneriaethau Gofal Integredig (o fis Gorffennaf 2022)
- Ymddiriedolaethau GIG, Ymddiriedolaethau Sefydledig GIG
- Cyflogwyr
- Gwasanaethau Carchardai a Phrawf EM
- Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM
- Gwasanaethau Troseddau Ieuencid
- Y Ganolfan Byd Gwaith
- Gwasanaethau ariannol (banciau, cymdeithasau adeiladu ac ati)
- Grwpiau cymunedol a ffydd (gan gynnwys arweinwyr ffydd)

Mae'r canllawiau'n berthnasol i Loegr. Mae'n berthnasol i Gymru i'r graddau y mae'n ymwneud â materion yng Nghymru sydd wedi'u cadw i Lywodraeth y DU – plismona yw hyn yn bennaf, a chyfiawnder troseddol, sifil a theuluol. Yng Nghymru, mae wedi'i anelu at bersonau sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus sy'n ymwneud â'r materion hyn a rhaid i awdurdodau datganoledig Cymreig roi sylw i'r canllawiau hyn mewn perthynas â'r materion hyn.

Dylai pob sefydliad yng Nghymru gyfeirio at y ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol a'r canllawiau cysylltiedig mewn perthynas â materion datganoledig, megis [Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol \(Cymru\) 2015](#) ('Deddf 2015') a'i chanllawiau cysylltiedig.

Rydym yn disgwyl i'r rhai sy'n cyflawni swyddogaethau datganoledig a'r rhai heb eu datganoli barhau i gydweithio i roi dibenion Deddf 2015 a Deddf 2021 ar waith lle y bo'n berthnasol ac yn briodol.

Blwch 1.1: Canllawiau Statudol Deddf Cam-drin Domestig 2021

Deddf Cam-drin Domestig 2021 Canllawiau Statudol

Yn unol ag adran 84(2) o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021, mae'r canllawiau hyn yn nodi: (a) effaith adrannau 1 a 2, sy'n diffinio "cam-drin domestig" a "chysylltiedig yn bersonol" gan gynnwys canllawiau ar fathau penodol o ymddygiad sy'n gyfystyr â cham-drin domestig; a (b) effaith cam-drin domestig ar blant.

O dan adran 84(4), rhaid i berson sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus y rhoddir canllawiau iddo roi sylw iddynt wrth arfer y swyddogaethau hynny. Y tu hwnt i hyn, mae'r canllawiau'n darparu gwybodaeth ehangach am waith ymchwil a dyletswyddau, fframweithiau a strwythurau gweithredol presennol i helpu i lywio ymateb gweithwyr proffesiynol i gam-drin domestig, cefnogi gwaith amlasiantaethol, ac annog arfer gorau.

Er y dylid dilyn y canllawiau cyfan, nodwch os gwelwch yn dda lle:

- a. mae 'rhaid' neu 'mae ganddo/ganddo ddyletswydd i' yn cael ei ddefnyddio, mae'n adlewyrchu rhwymedigaethau cyfreithiol, gan gynnwys Deddf Cam-drin Domestig 2021 a deddfwriaeth arall.
- b. mae 'dylai', 'efallai', 'gall', neu 'gallai' yn cael eu defnyddio, mae'r canllawiau i'w dilyn lle bynnag y bo modd, ac mae'n nodi arfer gorau.

Strwythur

Mae'r canllawiau wedi'u rhannu'n saith pennod: [Amcanion; Deall Cam-drin Domestig; Cydnabod Cam-drin Domestig; Effaith Cam-drin Domestig; Gwahanol brofiadau, anghenion ac ystyriaethau cysylltiedig; Ymateb Asiantaeth i Gam-drin Domestig; ac Ymateb Amlasiantaethol i Gam-drin Domestig](#). Mae pob pennod yn cynnwys crynodeb o'r bennod, sy'n nodi ei ddiben a'i gynnwys.

Mae astudiaethau achos yn helpu i egluro rhai o'r pynciau a ddisgrifir. Mae'r astudiaethau achos sy'n ymwneud â phrofiadau dioddefwyr wedi'u anonymeiddio er mwyn helpu i ddiogelu eu hunaniaeth. Maent yn cyflwyno enghreifftiau ac ni fwriedir iddynt fod yn gynhwysfawr nac yn gynrychioliadol o'r profiadau o gam-drin y gall unrhyw grŵp o unigolion ddod ar eu traws, nac o unrhyw fath o gam-drin y maent yn ymwneud ag ef.

Mae atodiadau wedi'u cynnwys ar ddiwedd y canllawiau. Mae'r rhain yn cyfeirio at yr ystod o gymorth sydd ar gael i dioddefwyr ([Atodiad A](#)), yn diffinio acronymau a ddefnyddir yn y ddogfen ([Atodiad B](#)), yn amlygu canllawiau pellach sydd ar gael i gefnogi gweithwyr proffesiynol rheng flaen ([Atodiad C](#)), ac yn crynhoi gwahanol orchmynion diogelu y gellir eu cyhoeddi ([Atodiad D](#)).

Deunydd cysylltiedig

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi [Strategaeth Mynd i'r Afael â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched \(VAWG\)](#) ar ei newydd wedd a [Chynllun Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig](#) cyflenwol, gyda'r nod o drawsnewid ymateb cymdeithas gyfan i'r mater o drais yn erbyn menywod a merched (VAWG)², a helpu i atal a lleihau troseddau VAWG gan gynnwys cam-drin domestig. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi [Strategaeth Genedlaethol i](#)

² Mae'r term 'trais yn erbyn menywod a merched' yn cyfeirio at weithredoedd o drais neu gamdriniaeth y gwyddom sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched. Mae troseddau ac ymddygiadau a gwmpesir gan y term hwn yn cynnwys trais rhywiol a throseddau rhywiol eraill, cam-drin domestig, stelcio, cam-drin ar sail 'anrhydedd' (gan gynnwys anffurfio organau cenedlu benywod, priodas dan orfod, a lladd 'anrhydedd'), yn ogystal â llawer o rai eraill, gan gynnwys troseddau a gyflawnwyd ar-lein. Tra bod y term 'trais yn erbyn menywod a merched' yn cael ei ddefnyddio, mae hyn yn cyfeirio at holl ddioddefwyr y troseddau hyn.

[fynd i'r afael â Thrais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol \(VAWDASV\)](#) ar ei newydd wedd yn unol â'r ddyletswydd statudol a grëwyd o dan Ddeddf 2015 sydd hefyd yn ceisio mynd i'r afael ag achos ac effaith.

Mae'r Datganiad Sefyllfa [Cefnogi Dioddefwyr Gwryw](#), [Datganiad Disgwyliadau Cenedlaethol VAWG](#) a [Phecyn Cymorth Comisiynu VAWG](#) hefyd wedi'u diweddarau. Mae'r Datganiad Sefyllfa Cefnogi Dioddefwyr Gwryw (2022) yn iteriad wedi'i ddiweddarau o'r Datganiad Sefyllfa Dioddefwyr Gwryw (2019). Mae'n rhoi ffocws ar yr heriau ychwanegol y gall dioddefwyr troseddau gwryw eu hwynebu a ystyriwyd yn y Strategaeth Mynd i'r Afael â VAWG trawslywodraethol a'r Cynllun Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig, ac mae'n amlinellu'r ymrwymiad parhaus i alluogi dioddefwyr gwryw yn well i ddod ymlaen a derbyn y cymorth sydd arnynt ei angen. Mae'r Datganiad Disgwyliadau Cenedlaethol, a'r Pecyn Cymorth Comisiynu VAWG sy'n cyd-fynd ag ef, hefyd wedi'u diweddarau i ddarparu canllawiau clir a chyson i ardaloedd lleol ar sut i gomisiynu gwasanaethau cymorth i ddiodesfwr, ac i helpu i sicrhau bod eu hymateb i VAWG mor gydweithredol, cadarn ac effeithiol â gall fod.

Fel rhan o ddatblygu Canllawiau Statudol Deddf Cam-drin Domestig 2021, ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru a Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig a diolchwn iddynt am eu cyfraniadau. Diolchwn i'r sector cam-drin domestig am eu cyfranogiad yn yr ymgynghoriad ac am rannu arferion gorau o ran ffyrdd o weithio sydd wedi llywio'r canllawiau hyn. Diolchwn hefyd i'r nifer fawr o ddiodesfwr a goroeswyr a rannodd brofiadau byw a thystlythyrau a fu'n allweddol wrth ddatblygu'r canllaw hwn.

Pennod 1 – Amcanion

Mae'r bennod hon yn ymdrin ag:

- Amcanion Deddf Cam-drin Domestig 2021 – hybu ymwybyddiaeth, amddiffyn a chefnogi dioddefwyr, dwyn cyflawnwyr i gyfrif, trawsnewid yr ymateb cyfiawnder a gwella perfformiad.
- Amcanion y Canllawiau Statudol Cam-drin Domestig – darparu gwybodaeth glir ar beth yw cam-drin domestig, darparu a chyfeirio cymorth i'r sefydliadau hynny sydd angen ymateb, a chyfleu safonau ac arfer gorau ar gyfer ymateb asiantaeth ac amlasiantaethol.

Amcanion Deddf Cam-drin Domestig 2021

Mae atal cam-drin domestig ac amddiffyn pob dioddefwr wrth wraidd [Deddf Cam-drin Domestig 2021](#) ('Deddf 2021') a'i rhaglen waith ehangach. Mae'r mesurau yn Neddf 2021³ yn ceisio:

- **hyrwyddo ymwybyddiaeth** – rhoi cam-drin domestig ar frig agenda pawb, drwy gyflwyno diffiniad statudol sy'n cynnwys cam-drin economaidd a chydabod plant fel dioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain;
- **amddiffyn a chefnogi dioddefwyr** – sefydlu'n gyfreithiol swydd y Comisiynydd Cam-drin Domestig (DAC), cyflwyno Hysbysiad Diogelu Cam-drin Domestig (DAPN) a Gorchymyn Diogelu Cam-drin Domestig (DAPO) newydd, a gosod dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol haen un i ddarparu cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig, mewn llochesi a llety diogel arall;
- **dwyn cyflawnwyr i gyfrif** - ymestyn y drosedd ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol i gynnwys cam-drin ar ôl gwahanu, ymestyn y drosedd o ddatgelu ffotograffau a ffilmiau rhywiol preifat gyda'r bwriad o achosi gofid i gwmpasu bygythiadau i ddatgelu deunydd o'r fath, creu trosedd newydd o dagu neu ffigu person arall heb fod yn angheuol, gan egluro drwy ailddatgan mewn statud y sefyllfa gyffredinol na chaiff person gydsynio i achosi niwed difrifol a, thrwy estyniad, na all gydsynio i'w farwolaeth ei hun;
- **trawsnewid yr ymateb cyfiawnder** - helpu dioddefwyr i roi eu tystiolaeth orau yn y llysoedd troseddol trwy ddefnyddio tystiolaeth fideo, sgriniau a mesurau arbennig eraill, a sicrhau nad yw dioddefwyr cam-drin yn dioddef trawma pellach mewn achosion llys teulu trwy gael eu croesholi gan y troseddwr; a
- **gwella perfformiad** - ysgogi cysondeb a gwell perfformiad yn yr ymateb i gam-drin domestig gan gynnwys rhoi'r canllawiau ar gyfer y Cynllun Datgelu Trais Domestig

³ Mae tafenni ffeithiau wedi'u cyhoeddi sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am ddarpariaethau'r Ddeddf Cam-drin Domestig 2021: <https://www.gov.uk/government/publications/domestic-abuse-bill-2020-factsheets>.

(DVDS) ar sail statudol a darparu ar gyfer cod ymarfer statudol yn ymwneud â phrosesu data cam-drin domestig at ddibenion mewnfudo.

Bydd mesurau Deddf 2021 yn dod i rym ar wahanol adegau ar ôl cwblhau'r camau angenrheidiol ar gyfer eu gweithredu. Mae'r [amserlen gychwyn](#) ar gyfer darpariaethau'r ddeddfwriaeth wedi'i chyhoeddi ar GOV.UK. Ar adeg cyhoeddi'r canllawiau hyn nid yw holl ddarpariaethau Deddf 2021 mewn grym cyfreithiol. Dylai'r rhai sydd â dyletswydd i roi sylw i'r canllawiau hyn, ac eraill, hefyd gyfeirio at yr amserlen gychwyn.

Amcanion y Canllawiau Statudol ar Gam-drin Domestig

- 1. Darparu gwybodaeth glir am beth yw cam-drin domestig a sut i'w adnabod,** gan gynnwys yr ymddygiadau a all fod yn gyfystyr â cham-drin domestig a'r effaith ar ddiodefwyr sydd yn oedolion ac yn blant. Efallai na fydd unigolion yn ymwybodol eu bod yn dioddef cam-drin domestig, gallent feio eu hunain, ofni canlyniadau gadael y troseddwr, ddim yn gwybod ble y gallant ofyn am gymorth, neu ofni y byddant yn profi stigma a chywilydd os ydynt yn trio ceisio help. Nod y canllawiau hyn yw darparu gwybodaeth glir am beth yw cam-drin domestig a sut i'w adnabod.
- 2. Darparu canllawiau a chymorth i weithwyr proffesiynol rheng flaen, a sefydliadau eraill, gan gynnwys cyfeirio at adnoddau pellach.** Bydd y canllawiau'n cefnogi gweithwyr proffesiynol rheng flaen sydd â chyfrifoldebau i ddiogelu diodefwyr cam-drin domestig. Mae'n amlinellu rhai o'r fframweithiau strategol a gweithredol sy'n allweddol i ddarparu ymateb, a chomisiynu gwasanaethau cam-drin domestig. Mae hefyd yn cyfeirio gweithwyr proffesiynol rheng flaen a sefydliadau ehangach at adnoddau perthnasol eraill yn ymwneud â cham-drin domestig.
- 3. Cyfleu safonau a hyrwyddo arfer gorau ar gyfer ymateb asiantaeth ac amlasiantaethol.** Mae cryn dipyn o waith ar y gweill i wella ymateb staff rheng flaen i gam-drin domestig ar gyfer pob asiantaeth, ac i hyrwyddo ymatebion amlasiantaethol ac arferion gorau. Mae mynd i'r afael â cham-drin domestig yn galw am ddull system gyfan.

Pennod 2 – Deall Cam-drin Domestig

Mae'r bennod hon yn ymdrin â:

- Cefndir ar gam-drin domestig, a'n dealltwriaeth ohono, fel y nodir mewn data a thystiolaeth wedi'u llywio gan adborth gan ddiodefwyr.
- Mae'r diffiniad statudol o gam-drin domestig a gyflwynwyd gan Ddeddf Cam-drin Domestig 2021 wedi'i nodi'n fanwl.
- 'Mathau' allweddol o gam-drin, a fynegir fel cyd-destunau perthnasoedd gwahanol, gan gynnwys: cam-drin gan bartner agos, cam-drin o fewn perthnasoedd yn yr ardegau, cam-drin gan aelodau'r teulu a cham-drin plentyn-i-riant.

Cefndir

1. Mae cam-drin domestig yn drosedd niwed uchel, cyfaint uchel sy'n parhau i fod yn gudd i raddau helaeth. Fe wnaeth Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW)⁴ ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020 amcangyfrif bod 2.3 miliwn o oedolion 16 i 74 oed wedi profi cam-drin domestig yn y flwyddyn flaenorol.⁵ Amcangyfrifodd Data Lleol Plentynodod ar Risgiau ac Anghenion, rhwng 2019 a 2020, fod oddeutu 1 o bob 15 o blant o dan 17 oed yn byw ar aelwydydd lle mae rhiant yn ddiodefwyr cam-drin domestig.⁶
2. Cofnododd yr heddlu dros 1.5 miliwn o ddigwyddiadau a throseddau yn ymwneud â cham-drin domestig yng Nghymru a Lloegr yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021.⁷ Mae hyn yn gynydd o 6% ers y flwyddyn flaenorol. Mae digwyddiadau sy'n ymwneud â cham-drin domestig yn cynnwys adroddiadau lle mae'r heddlu, ar ôl ymchwiliad cychwynnol, wedi dod i'r casgliad na chyflawnwyd unrhyw drosedd hysbysadwy. Diffinnir troseddau sy'n ymwneud â cham-drin domestig fel unrhyw achosion o ymddygiad bygythiol, trais neu gam-drin (seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol) tuag at berson arall sydd yn "gysylltiedig yn bersonol", lle y canfuwyd bod trosedd wedi'i chyflawni.
3. Er nad yw cam-drin domestig ynddo'i hun yn drosedd benodol, gall cyflawnwyr gyflawni tramgwyddau troseddol. Gallai troseddau cysylltiedig gynnwys ond heb fod

⁴ Mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW) yn arolwg erledigaeth wyneb yn wyneb cynrychioliadol cenedlaethol, lle gofynnir i bobl sy'n byw mewn cartrefi yng Nghymru a Lloegr am eu profiadau o amrywiaeth o droseddau yn y 12 mis cyn y cyfweiliad. Mae hyn yn cynnwys modiwlau hunan-gwblhau ar bynciau penodol, gan gynnwys cam-drin domestig.

⁵ ONS. [Domestic abuse in England and Wales overview - Office for National Statistics \(ons.gov.uk\)](https://ons.gov.uk/domestic-abuse-in-england-and-wales-overview). Y flwyddyn ddata a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020.

⁶ Comisiynydd Plant. PLANT – [Local and national data on childhood vulnerability](https://www.plant.gov.uk/local-and-national-data-on-childhood-vulnerability). Data o 2017 i 2019.

⁷ ONS. [Domestic abuse in England and Wales overview - Office for National Statistics \(ons.gov.uk\)](https://ons.gov.uk/domestic-abuse-in-england-and-wales-overview). Y flwyddyn ddata a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021.

yn gyfyngedig i ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol⁸, aflonyddu, stelcio, difrod troseddol, ymosodiad corfforol, ymosodiad rhywiol, treisio a llofruddiaeth.

4. Gall cam-drin domestig effeithio ar unrhyw un – waeth beth fo'u hoedran, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rhywedd, modd ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred. Yn ogystal, gall cam-drin domestig amlygu ei hun mewn gwahanol ffyrdd o fewn gwahanol gymunedau.
5. Er y gall cam-drin domestig effeithio ar ddynion a menywod, menywod yw'r dioddefwyr yn anghymesur. Mae data diweddaraf CSEW ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020 yn amcangyfrif bod 1.6 miliwn o fenywod a 757,000 o ddynion rhwng 16 a 74 oed wedi profi cam-drin domestig yn ystod y flwyddyn flaenorol.⁹ Yn ôl y data hwn, roedd oddeutu un o bob pedair menyw rhwng 16 a 74 oed wedi dioddef cam-drin domestig yn ystod eu hoes, o gymharu ag oddeutu un o bob saith dyn.¹⁰
6. Menywod yw'r mwyafrif o ddioddefwyr lladdiadau domestig.¹¹ Roedd data ar gyfer y cyfnod Mawrth 2018 i 2020 yn dangos bod 276 o fenywod wedi dioddef lladdiad domestig ac mewn 97% o achosion roedd y sawl a ddrwgdybwyd yn wryw.¹² Dros yr un cyfnod, cafodd 86 o ddynion eu lladd mewn lladdiadau domestig. Mewn 62% o'r achosion roedd y sawl y drwgdybwyd iddo gyflawni'r lladdiadau hyn yn wryw, ac mewn 38% o'r achosion roedd y sawl a ddrwgdybwyd yn fenyw.¹³
7. Nid yw cam-drin domestig yn cael ei adrodd yn ddigonol o hyd. Gall fod llawer o rwystrau i ddatgelu cam-drin, ceisio canlyniadau cyfiawnder troseddol, a chyrchu gwasanaethau. Rhoddir ystyriaeth i hyn ym [Mhennod 5 – Gwahanol brofiadau, anghenion ac ystyriaethau cysylltiedig](#).
8. Gellir cymryd data CSEW i ddarparu amcangyfrifon o fynychder cam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr. Mae'n amlwg bod graddfa cam-drin domestig yn enfawr a'i effaith yn sylweddol. Amcangyfrifodd [ymchwil a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref](#) y byddai costau cymdeithasol ac economaidd cam-drin domestig oddeutu £66 biliwn i ddioddefwyr a nodwyd yng Nghymru a Lloegr o fewn y flwyddyn 2016 i 2017. Amcangyfrifwyd bod niwed corfforol ac emosiynol (yr ofn, gorbryder ac iselder a brofir gan ddioddefwyr o ganlyniad i gam-drin domestig) yn cyfrif am y mwyafrif llethol o'r costau cyffredinol. Mae'r effaith ar ddioddefwyr unigol yn ddifrifol a gall fod yn eang a pharhaol. Ceir rhagor o fanylion ym [Mhennod 4 – Effaith Cam-drin Domestig](#).

⁸ Gall ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol mewn perthynas agos neu deuluol fod yn drosedd o dan adran 76 o'r Ddeddf Troseddau Difrifol 2015.

⁹ ONS. [Domestic abuse in England and Wales overview - Office for National Statistics \(ons.gov.uk\)](#): Y flwyddyn ddata a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020.

¹⁰ ONS. [Domestic abuse prevalence and victim characteristics - Appendix tables - Office for National Statistics \(ons.gov.uk\)](#): Y flwyddyn ddata a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020.

¹¹ ONS. [Domestic abuse victim characteristics, England and Wales](#): Y flwyddyn ddata a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020.

¹² ONS. [Domestic abuse victim characteristics, England and Wales - Office for National Statistics \(ons.gov.uk\)](#): Data o 2017 i 2019.

¹³ ONS. [Domestic abuse victim characteristics, England and Wales - Office for National Statistics \(ons.gov.uk\)](#): 1.1 Lladdiad Domestig: Data o 2017 i 2019.

Diffiniad statudol

9. Mae adrannau 1 i 3 o [Ddeddf Cam-drin Domestig 2021](#) ('Deddf 2021') yn creu diffiniad statudol o gam-drin domestig. Nodir y diffiniad hwn ym Mlwch 2.1 isod.
10. Yn y diffiniad mae person "A" yn cyfeirio at gyflawnwr y cam-drin, ac mae person "B" yn cyfeirio at ddioddefwr y cam-drin. Defnyddir y term 'dioddefwr' yn Neddf 2021 i ddynodi rhywun sydd wedi profi cam-drin domestig. Mae hyn yn cynnwys plant sydd wedi gweld, clywed, neu brofi effeithiau cam-drin domestig, ac sy'n gysylltiedig â naill ai dioddefwr yr ymddygiad camdriniol, neu'r cyflawnwr (adran 3 o Ddeddf 2021).
11. Mae adran 1(3) o Ddeddf 2021 yn darparu ar gyfer yr hyn sy'n gyfystyr ag ymddygiad camdriniol. Gall yr ymddygiad hwn gynnwys un digwyddiad neu gwrs o ymddygiad. Mae adran 1(3)(c) yn cyfeirio at ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol. Gallai'r ymddygiad hwn fod yn drosedd o dan adran 76 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015. Er mwyn i'r drosedd gael ei chyflawni rhaid i'r ymddygiad fodloni'r prawf a nodir yn adran 76(1), mae hyn yn golygu bod rhaid iddo fod yn ailadroddus neu'n barhaus a rhaid i elfennau eraill y drosedd yn yr adran gael eu cyflwyno.
12. Mae adran 1(5) yn darparu, at ddibenion Deddf 2021, y gall ymddygiad A fod yn ymddygiad "tuag at" B er gwaethaf y ffaith ei fod yn ymddygiad sydd wedi'i gyfeirio at berson arall – er enghraifft plentyn B, aelod arall o'r teulu, ffrind neu gydweithiwr.
13. Mae adran 2 o Ddeddf 2021 yn darparu'r diffiniad o "gysylltiedig yn bersonol" ac mae hyn yn cynnwys y rhai a fyddai'n gyfystyr â "pherthynas" i'r dioddefwr. Mae i'r diffiniad o "relative" yr ystyr a roddir o dan adran 63(1) o [Ddeddf Cyfraith Teulu 1996](#) ('Deddf 1996') sy'n cynnwys teulu biolegol agos, llys-deulu a theulu estynedig unigolyn gan gynnwys aelodau o'r teulu presennol neu gyn-briod, partner sifil neu bartner sy'n cyd-fyw.
14. Nid oes angen i "A" a "B" fod yn byw gyda'i gilydd, nac yn cyd-fyw, i fod yn "gysylltiedig yn bersonol" o dan Ddeddf 2021.
15. Mae adran 2(3) o Ddeddf 2021, at ddibenion y diffiniad o "gysylltiedig yn bersonol", yn diffinio "plentyn" fel person o dan 18 oed. Bydd hyn yn cynnwys person 16 neu 17 oed.
16. Mae adran 3 yn darparu bod plentyn (person o dan 18 oed), at ddibenion Deddf 2021, yn cael ei gydnabod fel dioddefwr cam-drin domestig os yw'n gweld, yn clywed, neu'n profi effeithiau'r cam-drin, a'i bod yn gysylltiedig ag "A" neu "B".
17. Nid yw Deddf 2021 yn creu un tramgwydd troseddol o gam-drin domestig, a dylai ymatebwyr rheng flaen barhau i ystyried yr ystod lawn o ddeddfwriaeth a mesurau diogelu presennol i amddiffyn plant. Gallai'r troseddau i'w hystyried gynnwys ymosodiad cyffredin, ymosodiad sy'n achosi gwir niwed corfforol, ac achosi, neu ganiatáu, marwolaeth neu niwed difrifol, neu greulondeb, esgeulustod, a thrais i blant. Cafodd y drosedd olaf hon, o dan adran 1 o [Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933](#) ¹⁴ ei

¹⁴Mae Adran 1 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 yn ymwneud â chreulondeb i bersonau o dan un ar bymtheg oed.

ddiwygio yn 2015, i gynnwys achosi dioddefaint emosiynol neu seicolegol i blentyn, gan gynnwys drwy ddod i gysylltiad â cham-drin domestig. Yn unol ag adran 31(9) o Ddeddf Plant 1989 ystyr “niwed” yw cam-drin neu amharu ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn o ganlyniad i weld neu glywed person arall yn cael ei gam-drin. Ystyr “datblygiad” yw datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol; Mae “cam-drin” yn cynnwys cam-drin rhywiol a mathau o gam-drin nad ydynt yn gorfforol.

Blwch 2.1: Deddf Cam-drin Domestig 2021 – Rhan 1 – Diffiniad o gam-drin domestig

Adran 1: Diffiniad o “gam-drin domestig”

- (1) Mae'r adran hon yn diffinio “cam-drin domestig” at ddibenion y Ddeddf hon.
- (2) Mae ymddygiad person (“A”) tuag at berson arall (“B”) yn “gam-drin domestig”—
 - (a) bod A a B ill dau yn 16 oed neu drosodd ac yn “gysylltiedig yn bersonol” â'i gilydd, a
 - (b) bod yr ymddygiad yn gamdriniol.
- (3) Mae ymddygiad yn gamdriniol os yw'n cynnwys unrhyw un o'r dilynol—
 - (a) cam-drin corfforol neu rywiol;
 - (b) ymddygiad treisgar neu fygythiol;
 - (c) ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol;
 - (d) cam-drin economaidd (gweler is-adran (4));
 - (e) cam-drin seicolegol, emosiynol neu gam-drin arall;

ac nid oes gwahaniaeth a yw'r ymddygiad yn cynnwys un digwyddiad neu gwrs o ymddygiad.

- (4) Ystyr “cam-drin economaidd” yw unrhyw ymddygiad sy'n cael effaith andwyol sylweddol ar allu B i —
 - (a) gaffael, defnyddio neu gynnal arian neu eiddo arall, neu
 - (b) gael nwyddau neu wasanaethau.
- (5) At ddibenion y Ddeddf hon, gall ymddygiad A fod yn ymddygiad “tuag at” B er gwaethaf y ffaith ei fod yn ymddygiad sydd wedi'i gyfeirio at berson arall (er enghraifft, plentyn B).
- (6) Mae cyfeiriadau yn y Ddeddf hon at fod yn gamdriniol tuag at berson arall i'w darllen yn unol â'r adran hon.
- (7) I weld ystyr “cysylltiedig yn bersonol”, gweler adran 2.

Adran 2: Diffiniad o “gysylltiedig yn bersonol”

(1) Mae dau berson “yn gysylltiedig yn bersonol” â'i gilydd os yw unrhyw un o'r dilynol yn gymwys —

(a) maent, neu maent wedi bod, yn briod â'i gilydd;

(b) maent, neu maent wedi bod, yn bartneriaid sifil i'w gilydd;

(c) maent wedi cytuno i briodi ei gilydd (pa un a yw'r cytundeb wedi'i derfynu ai peidio);

(d) maent wedi ymrwymo i gytundeb partneriaeth sifil (pa un a yw'r cytundeb wedi'i derfynu ai peidio);

(e) maent, neu maent wedi bod, mewn perthynas bersonol agos â'i gilydd;

(f) mae gan bob un, neu fe fu amser pan fu gan bob un ohonynt, berthynas rhiant mewn perthynas â'r un plentyn (gweler is-adran (2));

(g) maent yn berthnasau.

(2) At ddibenion is-adran (1)(f) mae gan berson berthynas rhiant mewn perthynas â phlentyn —

(a) os yw'r person yn rhiant i'r plentyn, neu;

(b) os oes gan y person gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.

(3) Yn yr adran hon —

ystyr “plentyn” yw person o dan 18 oed;

mae i “gytundeb partneriaeth sifil” yr ystyr a roddir gan adran 73 o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004;

mae i “gyfrifoldeb rhiant” yr un ystyr ag yn Neddf Plant 1989;

mae i “berthynas” yr ystyr a roddir gan adran 63(1) o Ddeddf Cyfraith Teulu 1996.

Adran 3: Plant fel dioddefwyr cam-drin domestig

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo ymddygiad person (“A”) tuag at berson arall (“B”) yn gam-drin domestig.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Ddeddf hon at ddioddefwr cam-drin domestig yn cynnwys cyfeiriad at blentyn sydd —

(a) yn gweld neu'n clywed, neu'n profi effaith, y cam-drin, ac

(b) yn perthyn i A neu B.

(3) Mae plentyn yn perthyn i berson at ddibenion is-adran (2) os —

(a) mae'r person yn rhiant i'r plentyn, neu â chyfrifoldeb rhiant drosto, neu

(b) mae'r plentyn a'r person yn berthnasau.

(4) Yn yr adran hon —

ystyr “plentyn” yw person o dan 18 oed;

mae i “gyfrifoldeb rhiant” yr un ystyr ag sydd yn Neddf Plant 1989 (gweler adran 3 o'r Ddeddf honno);

mae i “perthynas” yr ystyr a roddir gan adran 63(1) o Ddeddf Cyfraith Teulu 1996.

Mathau o gam-drin domestig

18. Er mwyn darparu ymateb effeithiol, dylai gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau fod yn ymwybodol o'r gwahanol fathau o gam-drin domestig.

Cam-drin gan bartner agos

19. Mae cam-drin domestig yn digwydd fel arfer mewn perthnasoedd rhwng partneriaid agos, gan gynnwys perthnasoedd o'r un rhyw.¹⁵ Gall perthnasoedd agos fod ar wahanol ffurfiau, nid oes angen i bartneriaid fod yn briod neu mewn partneriaeth sifil a gall cam-drin ddigwydd rhwng partneriaid agos nad ydynt yn cyd-fyw. Fel gyda phob math o gam-drin, gall cam-drin mewn perthnasoedd agos amrywio o ran difrifoldeb ac amllder, gan amrywio o ddigwyddiad untro i batrwm ymddygiad parhaus.
20. Gall cam-drin barhau neu ddwysau pan fydd perthynas wedi dod i ben neu yn y broses o ddod i ben. Gall hwn fod yn gyfnod peryglus iawn i ddiodefwyr gan gynnwys risg uwch i'w ddiogelwch corfforol. Mae'n gyfnod hynod dyngedfennol ar gyfer sicrhau cefnogaeth i ddiodefwyr, gan y gallent ystyried dychwelyd at gyflawnwyr yn ystod y cyfnod yn syth ar ôl ffoi neu ddod â'r berthynas i ben. Gall gwahanu godi tebygolrwydd a chanlyniadau risg oherwydd diffyg rheolaeth canfyddedig y cyflawnwr.
21. Gall cam-drin ar ôl gwahanu gynnwys amrywiaeth o ymddygiad camdriniol, gweler ['Pennod 3 – Cydnabod Cam-drin Domestig'](#) am ragor o fanylion. Gall gael ei hwyluso gan dechnoleg a heb ymyrraeth effeithiol gall fod yn barhaus a gall waethygu. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021, cofnodwyd bod 57 o fenywod a 10 dyn wedi dioddef lladdiad gan bartner presennol neu gyn bartner.¹⁶ Yn ôl y Cyfrifiad Benywladdiad, cafodd 38% o'r menywod a laddwyd gan eu cyn bartner neu gyn-briod rhwng 2009 a 2018 eu lladd o fewn y mis cyntaf o wahanu ac 89% yn y flwyddyn gyntaf.^{17 18}

Cam-drin mewn perthnasoedd yn yr ardegau

22. Gall pobl ifanc brofi cam-drin domestig yn eu perthnasoedd. Efallai na fydd pobl ifanc yn eu harddegau yn adnabod eu hunain fel diodefwyr. Efallai eu bod yn gweld eu perthnasoedd yn 'achlysurol', er enghraifft ymgysylltu â phartneriaid rhamantus a

¹⁵ ONS. [Domestic abuse prevalence and victim characteristics - Appendix tables - Office for National Statistics \(ons.gov.uk\)](#): Data o'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020.

¹⁶ ONS. [Appendix tables: homicide in England and Wales - Office for National Statistics \(ons.gov.uk\)](#): Data o'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021.

¹⁷ Cyfrifiad Benywladdiad: [UK Femicides 2009-2018](#).

¹⁸ Noder nad oes diffiniad cytunedig o 'fenywladdiad'. Ar gyfer y Cyfrifiad Benladdiad, mae 'benywladdiad' yn ymwneud ag unrhyw laddiad o fenywod a merched gan ddynion. Mae'r Cyfrifiad yn dibynnu ar y cyfryngau a gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd ac yn hygyrch, ac felly gall gynrychioli darlun anghyflawn o'r holl 'fenywladdiadau'.

rhywiol lluosog trwy apiau dyddio. Gall y rhai sy'n ymddwyn yn gamdriniol geisio lleihau neu wadu'r cam-drin trwy ddatgan nad oeddent mewn perthynas.

23. Nid yw cam-drin mewn perthynas yn yr arddegau yn derm sy'n cael ei ddiffinio gan Ddeddf 2021, neu rywle arall yn y gyfraith. Fodd bynnag, os yw'r dioddefwr a'r troseddwr yn 16 oed o leiaf, gall cam-drin yn eu perthynas ddod o dan y diffiniad statudol o gam-drin domestig. Er y gall pobl ifanc o dan 16 oed brofi cam-drin mewn perthynas, byddai'n cael ei ystyried yn gam-drin plant fel mater o gyfraith. Gallai ymddygiadau camdriniol gan un person ifanc tuag at y llall, lle mae pob un rhwng 16 a 18 oed fod yn gam-drin plant ac yn gam-drin domestig fel mater o gyfraith. Yn y pen draw, wrth ymateb i achosion o gam-drin sy'n ymwneud â'r rhai dan 18 oed, dylid dilyn gweithdrefnau diogelu plant. Gweler yr adran '[Gweithio amlasiantaethol i ddiogelu plant](#)' ym [Mhennod 7 – Ymateb Aml-Asiantaeth i Gam-drin Domestig](#)' am ragor o fanylion.
24. Gall ymddygiad camdriniol o fewn perthnasoedd rhwng pobl ifanc gynnwys digwyddiadau neu batrymau ymddygiad tebyg i berthnasoedd oedolion. Ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau yn arbennig, gall cam-drin i aflonyddu neu reoli dioddefwyr ddigwydd trwy ddefnyddio technoleg, mae hyn yn cynnwys cyfryngau cymdeithasol, neu apiau olrhain seiliedig ar leoliad, megis Find My Friends. Mae bywydau pobl ifanc yn aml wedi'u seilio'n drwm ar-lein a gall y rhai sy'n cam-drin ecsbloetio hyn, gan fynnu mynediad at gyfrineiriau a monitro gweithgarwch ar-lein. Gall pobl ifanc hefyd brofi cam-drin delweddau personol o fewn eu perthnasoedd, gan gynnwys bygythiadau i ddatgelu delweddau personol.¹⁹
25. Mae cam-drin mewn perthynas yn yr arddegau yn aml yn digwydd y tu allan i leoliad domestig. Efallai y bydd dioddefwyr yn teimlo bod cam-drin domestig yn digwydd rhwng oedolion sy'n cyd-fyw neu'n briod yn unig. Gall dioddefwyr yn eu harddegau ei chael yn anodd adnabod ymddygiad camdriniol, er enghraifft, gall ymddygiad rheolaethol neu genfigennus gael ei gamddechongli fel cariad.
26. Gall cam-drin domestig mewn perthnasoedd yn yr arddegau fod yr un mor ddifrifol ac mae ganddo'r potensial i fygwth bywyd gymaint â cham-drin mewn perthnasoedd oedolion. Mae pobl ifanc sy'n profi cam-drin domestig yn gwneud hynny ar adeg arbennig o agored i niwed yn eu bywydau.²⁰ Gallant brofi trawsnewidiad cymhleth o blentyndod i fyd oedolion sy'n effeithio ar ymddygiad a phenderfyniadau. Gall effeithio ar y ffordd y maent yn ymateb i gam-drin neu os a sut y maent yn ymgysylltu â gwasanaethau.
27. Oherwydd y stigma sy'n gysylltiedig â hunaniaethau LHDT (Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thraws), efallai na fydd gan bobl ifanc o'r gymuned LHDT wybodaeth berthnasol a chywir am berthnasoedd iach, a all lywio ymddygiad a phenderfyniadau. Gall pobl ifanc LHDT wynebu rhwystrau unigryw i geisio cymorth, yn arbennig yng

¹⁹ Mae bygythiadau i ddatgelu ffotograffau a ffilmau rhywiol preifat, heb ganiatâd yr unigolyn perthnasol, a chyda'r bwriad o achosi gofid, wedi'i wneud yn drosedd benodol o dan adran 69 o Ddeddf 2021. I gael rhagor o wybodaeth, gweler yr adran '[Cam-drin a hwylusir gan dechnoleg](#)'.

²⁰ SafeLives. [Bywydau Ifanc Diogel: Pobl Ifanc a cham-drin domestig](#). 2017.

nghyd-destun perthynas gyntaf neu wrth ddod allan am y tro cyntaf oherwydd efallai na allant ymddiried yn eu cyfoedion neu deulu, oherwydd yr ymateb y gallent ei gael oherwydd eu rhywioldeb neu eu hunaniaeth rhywedd.²¹ Gweler '[Pennod 5 – Gwahanol brofiadau, anghenion ac ystyriaethau cysylltiedig](#)' am ragor o wybodaeth. Yn ogystal, am ragor o wybodaeth ynghylch ymateb gweler yr adran '[Ymateb i blant a phobl ifanc](#)'.

Cam-drin gan aelodau o'r teulu

28. Gall cam-drin domestig hefyd gael ei gyflawni gan aelod o'r teulu: gan blant, wyrion, rhieni, y rhai sydd â "chyfrifoldeb rhiant", brodyr a chwiorydd, neu deuluoedd estynedig gan gynnwys perthnasau yng nghyfraith.²² Mae'r diffiniad o "gysylltiedig yn bersonol" yn adran 2 o Ddeddf 2021 yn cyfeirio at berthnasau ac mae i berthynas yr ystyr a roddir gan adran 63 o Ddeddf Cyfraith Teulu 1996 ('Deddf 1996'), fel yr eglurir yn yr adran '[Diffiniad statudol](#)' o'r canllawiau hyn. Gall mwy nag un perthynas gyflawni cam-drin tuag at ddiodefwr.
29. Gall cam-drin o fewn teulu gwmpasu nifer o wahanol ymddygiadau niweidiol. Gall cam-drin gael ei gyflawni fel ffordd ganfyddedig o ddiogelu neu amddiffyn 'anrhydedd' unigolyn, teulu neu gymuned yn erbyn toriadau honedig neu ganfyddedig yn erbyn cod ymddygiad y teulu neu'r gymuned. Gall felly gynnwys cam-drin ar sail 'anrhydedd', priodas dan orfod, anffurfio organau cenhedlu benywod, ac arferion niweidiol eraill fel gorfodaeth atgenhedlu (ac fel rhan o hyn, erthylid gorfodol). Gweler '[Pennod 3 – Cydnabod Cam-drin Domestig](#)' am ragor o fanylion am y mathau hyn o gam-drin.
30. Gall pobl ifanc fod mewn mwy o berygl o gael eu cam-drin gan aelodau o'r teulu.²³ Gall pobl ifanc fod yn gynhenid yn fwy agored i niwed oherwydd ei bod yn anoddach iddynt wahaniaethu rhwng ymddygiadau normal a chamdriniol, a gall hyn fod yn arbennig o wir pan fo'r troseddwr yn aelod o'r teulu y gellir ymddiried ynddo. Gall person ifanc ei chael yn fwy anodd riportio neu ddatgelu cam-drin gan oedolyn. Efallai nad oes sianel ddiogel ar gyfer datgelu, gall pobl ifanc ofni ôl-ffeithiau datgelu neu efallai na fyddant am i aelodau eraill o'r teulu fynd i drafferth. Gall fod mwy o risg o gam-drin gan aelodau o'r teulu ar gyfer pobl ifanc LHDT. Mae ymchwil gan Galop yn awgrymu bod pobl ifanc LHDT (13 i 24 oed) yn datgelu lefelau anghymesur o uwch o gam-drin gan aelodau agos o'r teulu o gymharu â grwpiau oedran eraill.²⁴
31. Wrth ymateb i gam-drin gan aelodau o'r teulu, dylai gwasanaethau ystyried y ffyrdd y gall patrymau cam-drin fod yn wahanol i, neu mewn achosion, yn ymwneud â phatrymau cam-drin a geir mewn achosion o gam-drin gan bartner agos. Dylai

²¹ Magic, J, Kelly, Profiadau pobl LHDT+ o gam-drin domestig: adroddiad ar wasanaeth eirioli cam-drin domestig Galop: Galop: 2017.

²² Fel yr adlewyrchir yn y canllawiau cam-drin plant-i-riant wedi'u diweddarau, tra bod y diffiniad statudol hwn o gam-drin domestig yn berthnasol i gyflawnwyr 16 oed neu hyn, gall plant o dan 16 oed gymryd rhan mewn ymddygiad camdriniol.

²³ ONS. [Mynychder yr achosion o gam-drin domestig a nodweddion dioddefwyr - Tablau atodiad - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](#): Data o'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020.

²⁴ Mae'r ymchwil yn seiliedig ar ddadansoddiad o 626 o ddiodefwr LHDT+ a dderbyniodd gefnogaeth eiriolaeth gan wasanaeth cam-drin domestig Galop yn Llundain Fwyaf. Magic, J, Kelly, P. [Profiadau pobl LHDT+ o gam-drin domestig: adroddiad ar wasanaeth eirioli cam-drin domestig Galop](#): Galop: 2017.

gwasanaethau sicrhau bod gweithdrefnau asesu'n cael eu defnyddio'n briodol i nodi risg. Er enghraifft, dylai gweithwyr proffesiynol fod yn ymwybodol nad yw aelodau'r teulu bob amser yn ffigurau amddiffynnol ar gyfer y rhai sy'n profi cam-drin gan bartner agos, oherwydd mewn rhai amgylchiadau gall aelodau'r teulu fod yn risg eu hunain a bod yn rhan o gam-drin.

Cam-drin plentyn-i-riant

32. Mae cam-drin o fewn y teulu yn cynnwys cam-drin plentyn-i-riant, a elwir hefyd yn gyffredin fel Trais/Cam-drin y Glasoed i Rieni (APV/A) a Thrais a Cham-drin Plant a'r Glasoed i Rieni (CAPVA). Gall cam-drin plentyn-i-riant gynnwys plant o bob oed, gan gynnwys plant sy'n oedolion, a cham-drin tuag at frodyr a chwiorydd, neiniau a theidiau, modrybedd, ewythrod yn ogystal ag aelodau eraill o'r teulu fel y rhai sy'n gweithredu fel gofalwyr sy'n berthnasau. Os yw'r plentyn yn 16 oed neu'n hŷn, mae'r cam-drin yn dod o dan y diffiniad statudol o gam-drin domestig yn Neddf 2021.
33. Nid oes diffiniad cyfreithiol penodol o gam-drin plentyn-i-riant ond derbynnir yn gyffredinol ei fod yn cynnwys rhai o'r patrymau ymddygiad y gellir eu canfod mewn cyd-destunau perthnasoedd eraill. Gall ymddygiad gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, iaith waradwyddus a bychanol, trais a bygythiadau, ymddygiadau cenfigennus a rheolaethol, difrod i eiddo, lladrata ac ymddygiadau rhywiol uwch. Mae cam-drin plentyn-i-riant yn ymddangos i fod ar sail rhyw, gyda mwyafrif yr achosion yn cael eu cyflawni gan feibion yn erbyn eu mamau, er bod dynion a bechgyn yn ddiodefwr hefyd.²⁵
34. Yn yr un modd â mathau eraill o gam-drin, nodweddir cam-drin plentyn-i-riant gan gywilydd a stigma a allai olygu bod rhieni'n llai tebygol o riportio'r cam-drin i'r heddlu. Gall rhieni ofni cael eu beio, eu hanghredu, neu i'r gwrthwyneb i'w plentyn gael ei dynnu oddi arnynt neu ei droseddoli gan ei adael yn gyndyn i geisio cymorth. Mae digwyddiadau a gofnodir yn debygol o gynrychioli dim ond nifer fach o achosion gwirioneddol wrth i deuluoedd sy'n wynebu argyfwng wneud y penderfyniad anodd i ddatgelu eu cam-drin. Dylai diodefwr y math hwn o gam-drin hefyd dderbyn ymateb a chefnogaeth briodol i gam-drin domestig.
35. Mae'r Swyddfa Gartref yn bwriadu diweddarau'r canllawiau ar gam-drin plentyn-i-riant. I gael rhagor o wybodaeth am ymateb i blant gweler '[Pennod 6 – Ymateb Asiantaeth i Gam-drin Domestig](#)'.

Blwch 2.2: Astudiaeth Achos

Astudiaeth Achos

²⁵ Baker, V, Bonnick, H. [Deall CAPVA: Adolygiad cyflym o lenyddiaeth ar drais a cham-drin plant a'r glasgoed i rieni ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig](#): Respect: 2021.

Rhwng 2017-2019, profodd Caroline ymddygiad camdriniol cynyddol gan ei merch ifanc, gan gynnwys ymosodiadau corfforol a geiriol, yn ogystal â bygythiadau i ladd. Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd Caroline drafferth i ddod o hyd i gymorth a chefnogaeth gan wasanaethau ac asiantaethau statudol.

Pan ymosodwyd ar fab ieuengaf Caroline gan ei merch, penderfynodd na allai aros gartref yn ddiogel gyda'r teulu ond fe'i cyfarfu â'r bygythiad o adael erlyniad gan ei hawdurdod lleol. Er bod yr heddlu hefyd wedi codi pryderon, dywedodd y gwasanaethau gofal cymdeithasol bod rhaid iddi aros gartref, gan adael y teulu i ddelio â digwyddiadau risg uchel.

Gorfodwyd Caroline i addysgu ei merch gartref gan ei bod wedi rhoi'r gorau i fynychu'r ysgol. Drwy gydol y cyfnod hwn, roedd ymddygiad camdriniol ei merch ar gynydd ac roedd Caroline a'i theulu yn byw mewn ofn parhaus. Bu'n rhaid i Caroline roi'r gorau i'w swydd gan na allai adael ei merch gartref ar ei phen ei hun rhag ofn risg bellach i'r teulu. Anwybyddwyd ceisiadau Caroline am fwy o gymorth, ac i'w merch gael llety gwirfoddol gan yr awdurdod lleol o dan adran 20 o Ddeddf Plant 1989.

Roedd ymddygiad merch Caroline yn faes brwydr dyddiol o ymosodiadau corfforol a geiriol. Ni allai adael ei phlant eraill yn yr un ystafell gyda hi a bu'n rhaid iddi osod teledu cylch cyfyng. Yn y pen draw, cynigiwyd darpariaeth mewn cartref gofal i ferch Caroline am ddwy noson yr wythnos, gan roi rhywfaint o seibiant i'r teulu. Fodd bynnag, rhoddodd y gorau i fynychu yn fuan pan ddywedwyd wrthi nad oedd rhaid iddi wneud hynny.

Cynyddodd y digwyddiadau dros gyfnod o bum niwrnod yn 2019. Cododd meddyg teulu merch Caroline bryderon brys gan ei bod wedi dweud ei bod wedi bwriadu lladd ei mam. Awgrymodd asesiad iechyd meddwl nad oedd unrhyw broblemau iechyd meddwl, ond cododd gweithwyr proffesiynol bryderon eithafol ynghylch diogelwch a lles y teulu. Cododd yr heddlu bryderon hefyd, ond ni chynigiwyd cymorth gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol. Ar un adeg roedd y teulu mewn sefyllfa o argyfwng am dros 12 awr.

Arestwyd merch Caroline ond dywedwyd wrth Caroline ar y dechrau bod rhaid iddi ddod adref gan ei bod yn cyflwyno risg rhy uchel i gael llety a chan fod gan Caroline "gyfrifoldeb rhiant" mater iddi hi oedd gofalu amdani. Ar ôl saith diwrnod arall, cytunodd yr awdurdod lleol i'w merch ddod yn blentyn sy'n derbyn gofal o dan leoliad adran 20 gwirfoddol â llety. Gellid bod wedi osgoi'r sefyllfa pe byddai Caroline a'i theulu wedi cael gwrandawriad ar y cyfle cyntaf, pe byddai cefnogaeth wedi'i chynnig, a phe byddai gwaith therapiwtig wedi'i roi ar waith. Yn lle hynny, roedd yn wynebu bai, barn ac anwybyddwyd y difrifoldeb, gan ei gadael hi a'i theulu mewn perygl mawr o niwed.

Pennod 3 – Cydnabod Cam-drin Domestig

Mae'r bennod hon yn ymdrin â:

- Disgrifiadau ac enghreifftiau o ystod o ymddygiadau camdriniol i helpu i adnabod cam-drin domestig, gan gynnwys cam-drin corfforol, ymddygiad treisgar neu fygythiol, cam-drin rhywiol, ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol, aflonyddu neu stelcio, cam-drin economaidd, cam-drin geiriol, cam-drin a hwylusir gan dechnoleg, cam-drin yn ymwneud â ffydd, a cham-drin ar sail 'anrhydedd'.
- Tactegau gwahanol y gall cyflawnwyr eu defnyddio.

36. Gall cam-drin domestig gwmpasu ystod eang o ymddygiadau. Gall gynnwys gweithredoedd corfforol o drais ond nid oes rhaid iddo gynnwys ymddygiad bygythiol, ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol, cam-drin emosiynol, seicolegol, rhywiol a/neu economaidd. Gall cam-drin domestig gynnwys cam-drin sy'n cael ei hwyluso a'i gyflawni ar-lein neu all-lein. Cydnabyddir yn eang bod awydd y cyflawnwr i arfer pŵer a rheolaeth dros y dioddefwr yn ganolog i ymddygiadau camdriniol. Bydd llawer o ddioddefwyr yn profi ymddygiadau camdriniol ar yr un pryd, gall cyflawnwyr arddangos ystod eang a defnyddio tactegau gwahanol i ennill grym a rheolaeth.

Cam-drin corfforol, ymddygiad treisgar neu fygythiol

37. Gall cam-drin corfforol ac ymddygiad treisgar neu fygythiol gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Cael eich cicio, eich pwnio, eich pinsio, eich gwthio, eich llusgo, eich gwthio, eich taro, eich crafu, eich tagu, eich poeri arnoch a'ch brathu neu eich bygwith â'r rhain;
- Defnyddio, neu fygythiadau o ddefnyddio, arfau gan gynnwys cyllyll a heyrn;
- Cael eich llosgi, eich sgaldio, eich gwenwyno neu eich boddi, neu eich bygwith â'r rhain;
- Gwrthrychau'n cael eu taflu at y dioddefwr neu i gyfeiriad y dioddefwr;
- Trais, neu fygythiadau o gam-drin corfforol neu drais, yn erbyn aelodau'r teulu;
- Achos niwed trwy niweidio neu wrthod mynediad i gymhorthion neu offer meddygol – er enghraifft, gall person byddar gael ei atal rhag cyfathrebu mewn iaith arwyddion neu efallai y bydd ei gymhorthion clyw yn cael ei dynnu; a

- Niweidio rhywun tra'n cyflawni dyletswyddau 'gofalu', a gyflawnir yn aml gan berthnasau. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i unigolion sy'n ddibynnol iawn ar eraill, megis pobl anabl a phobl hŷn a gall gynnwys bwydo dan orfod, gorfeddyginiaethu, tynnu meddyginiaeth neu wrthod mynediad i ofal meddygol.

38. Mae adran 70 o [Ddeddf Cam-drin Domestig 2021](#) ('Deddf 2021') yn diwygio Rhan 5 o [Ddeddf Troseddau Difrifol 2015](#) i greu trosedd o dagu nad yw'n angheuol. Gellir defnyddio tagu nad yw'n angheuol fel ffurf o ymosodiad mewn cam-drin domestig a gall hanes o dagu gynyddu'r risg o farwolaeth yn y pen draw.²⁶ Nid yw marciau gweladwy bob amser yn bresennol; ni ddylai absenoldeb marciau danseilio cyfrif o dagu nad yw'n angheuol.
39. Defnyddir tagu nad yw'n angheuol yn aml i godi ofn ac i roi grym a rheolaeth.²⁷ Gall dioddefwyr sy'n profi tagu nad yw'n angheuol gredu ar yr adeg y byddant yn marw o ganlyniad.²⁸ Gall colli ymwybyddiaeth, hyd yn oed dros dro, achosi niwed i'r ymennydd, mae hyn yn cynnwys niwed niwrolegol hirdymor megis colli cof a chlwy'r wyneb. Yn ogystal, gall colli ymwybyddiaeth greu mwy o risg o gamesgor a strôc.
40. Mae Deddf 2021 hefyd yn mynd i'r afael â thagu nad yw'n angheuol mewn cyd-destun rhywiol, gweler yr adran ar 'Cam-drin rhywiol'.²⁹

Cam-drin rhywiol

41. Gall dioddefwyr cam-drin domestig brofi ymddygiad sy'n cam-drin yn rhywiol.³⁰ Gall y cam-drin hwn gynnwys:
- Treisio ac ymosodiadau rhywiol;
 - Cael eich rhoi dan bwysau i gael rhyw, neu weithredoedd rhywiol, gan gynnwys gyda phobl eraill;
 - Cael eich gorfodi i gymryd rhan mewn gweithredoedd rhywiol oherwydd bygythiadau i eraill, gan gynnwys plant;
 - Cyswllt neu ofynion rhywiol digroeso;
 - Treisio 'cywirol' (yr arfer o dreisio rhywun â'r nod o'i 'wella' o fod yn LHDT);
 - Amlygiad bwriadol i HIV (feirws diffyg imiwnedd dynol) neu heintiau a drosglwyddir yn rhywiol;

²⁶ Glass, N, et al. [Mae tagu nad yw'n angheuol yn ffactor risg pwysig ar gyfer lladdiad merched](#): J Emerg Med: 2008 Hyd; 35(3):329-335.

²⁷ Gweler [Tagu a Mygu - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#).

²⁸ Williams, R, Monkton-Smith, J. [Tagu nad yw'n Angheuol: Adroddiad cryno ar ddata a gasglwyd o arolwg SUTDA. Sefyll yn erbyn cam-drin domestig](#): 2020.

²⁹ Mae atodlen gychwyn Deddf Cam-drin Domestig 2021 yn nodi'r amseriad gwirioneddol a'r amserlen arfaethedig ar gyfer cychwyn darpariaethau'r Ddeddf: [Atodlen gychwyn Deddf Cam-drin Domestig 2021 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#).

³⁰ Dengys Arolwg Troseddau'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020, ers 16 oed, fod amcangyfrif o 4% o oedolion 16 i 74 oed wedi dioddef ymosodiad rhywiol yn ymwneud â cham-drin domestig ers 16 oed. Roedd menywod yn fwy tebygol o adrodd eu bod yn ddi-dioddefwyr; gyda 7.3% o fenywod a 0.7% o ddynion yn adrodd am ymosodiad rhywiol yn ymwneud â cham-drin domestig yn ystod eu hoes. ONS. [Mynychder yr achosion o gam-drin domestig a nodweddion dioddefwyr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#): Y flwyddyn ddata a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020.

- Cael eich rhoi dan bwysau neu gael eich twyllo i gael rhyw anniogel, gan gynnwys twyll dros y defnydd o reolaeth geni;
 - Gorfodaeth i wneud neu wyllo pornograffi; ac
 - Anafu dioddefwr yn ystod rhyw gan gynnwys tagu nad yw'n angheuol.
42. Gall cam-drin rhywiol gydfodoli â chamfanteisio rhywiol. Gall gweithredoedd rhyw gorfodol gynnwys gweithgareddau fel cael eich gorfodi i berfformio pornograffi neu i stripio yn bersonol, trwy we-gamera neu lwyfan ffrydio byw. Gall cyflawnwyr orfodi neu gymell dioddefwr i gyfnewid rhyw am gyffuriau, alcohol, neu arian, neu ei gymell i gyflawni trosedd, megis lladrad, i dalu, er enghraifft, am gyffuriau neu alcohol y cyflawnwr.
43. Gall “rhyw garw”, gan gynnwys gweithgaredd sadomasocistaidd, gynnwys achosi poen neu drais, wedi'i efelychu neu fel arall gyda'r nod o roi boddhad rhywiol i'r partion dan sylw. Gall y math hwn o weithgaredd gwmpasu ystod eang o ymddygiadau. Er y gall ddigwydd yn breifat a bod yn gydsyniol, mae adran 71 o Ddeddf 2021, sy'n datgan bod achos o niwed difrifol sy'n arwain at niwed corfforol gwirioneddol (ABH) neu anaf arall mwy difrifol³¹, yn golygu y bydd y person sy'n gyfrifol am yr anafiadau hynny yn atebol i erlyniad troseddol, ni waeth a roddwyd caniatâd gan y person a gafodd yr anafiadau ai peidio. Gall y mater o gydsynio fod yn heriol, oherwydd efallai na fydd dioddefwyr cam-drin domestig yn gallu adnabod lle maent wedi cael eu gorfodi i roi caniatâd.
44. Gall tagu nad yw'n angheuol nad yw'n gydsyniol neu niweidiol godi mewn cyd-destun rhywiol. Mae adran 70 o Ddeddf 2021 yn gwneud newid i Ddeddf Troseddau Difrifol 2015 i ddarparu bod person yn cyflawni'r drosedd o dagu neu fygu os yw'n tagu person arall yn fwriadol neu'n gwneud unrhyw weithred arall sy'n effeithio ar allu person arall i anadlu. Mae'r gweithredoedd hyn yn gyfystyr â churo. Er ei bod yn amddiffyniad i'r sawl a gyhuddir ddangos bod y person arall wedi cydsynio, nid yw hyn yn berthnasol pan fo'r person arall hwnnw'n dioddef niwed difrifol o ganlyniad i'r tagu neu unrhyw weithred arall, a bod y sawl a gyhuddir yn bwriadu achosi niwed i'r person arall hwnnw neu'n ddi-hid ynghylch a fyddai'r person arall hwnnw'n dioddef niwed difrifol.
45. Gall dioddefwyr cam-drin domestig hefyd fod yn destun gorfodaeth atgenhedlu, a all gynnwys:
- cyfyngu ar fynediad partner i reolaeth geni;
 - gwrthod defnyddio dull rheoli genedigaeth;
 - twyll ynglŷn â defnyddio rheolaeth geni gan gynnwys honni ar gam ei fod yn defnyddio atal cenhedlu; a

³¹ Mae achosi marwolaeth eisoes yn drosedd.

- gorfodi partner i gael erthyliad, IVF neu weithdrefn gysylltiedig arall; neu wrthod mynediad i weithdrefnau o'r fath.

46. Gall gorfodaeth atgenhedlu fod yn llai amlwg – er enghraifft, efallai na fydd cyflawnwr yn gorfodi'r dioddefwr yn weithredol i gael erthyliad, ond gall y cylch cyffredinol o gam-drin ei gadael yn teimlo nad oes ganddi ddewis. Gall menywod o grwpiau lleiafrifoedd ethnig fod yn fwy tebygol o brofi gorfodaeth atgenhedlu, gan gynnwys erthyliad gorfodol ar gyfer arferion sy'n seiliedig ar 'anrhydedd', ond prin yw'r ymchwil ar hyn o bryd.³² Mae rhagor o wybodaeth am orfodaeth wedi'i chynnwys yn yr adran ['Ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol'](#).

Ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol

47. Gall ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol fod yn drosedd o dan adran 76 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015. Mae'r drosedd yn cynnwys uchafswm cosb o bum mlynedd o garchar. Mae'n berthnasol dim ond lle:

- Mae'r dioddefwr a'r troseddwr yn "gysylltiedig yn bersonol" ar yr adeg y mae'r ymddygiad yn digwydd;
- Mae'r ymddygiad wedi cael effaith ddifrifol ar y dioddefwr, sy'n golygu ei fod wedi achosi i'r dioddefwr ofni y bydd trais yn cael ei ddefnyddio yn ei erbyn ar ddau achlysur neu fwy, neu ei fod wedi cael effaith andwyol sylweddol ar weithgareddau arferol y dioddefwr o ddydd i ddydd; a
- Mae'r ymddygiad yn digwydd dro ar ôl tro neu'n barhaus.

48. Mae'n rhaid bod y cyflawnwr yn gwybod y byddai ei ymddygiad yn cael effaith ddifrifol ar y dioddefwr, neu mae'n rhaid bod yr ymddygiad wedi bod yn un y dylai fod wedi gwybod y byddai'n cael yr effaith honno. Mae Adran 76 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015 yn nodi'n llawn y drosedd o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol.

49. Bydd adran 68 o Ddeddf 2021 yn diwygio'r diffiniad o "gysylltiedig yn bersonol" yn adran 76 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015. Bydd yn dileu'r gofyniad "byw gyda'i gilydd". Mae hyn yn golygu y bydd y drosedd yn berthnasol i bartneriaid, cyn-bartneriaid, neu aelodau o'r teulu, p'un a yw'r dioddefwr a'r troseddwr yn byw gyda'i gilydd neu beidio. Bydd felly'n berthnasol mewn cyd-destunau lle mae ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol gan bartner agos yn digwydd ar ôl gwahanu neu'n cael ei gyflawni gan aelod o'r teulu nad yw'n byw gyda'r dioddefwr.³³

50. Mae ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol hefyd yn rhan o'r diffiniad o gam-drin domestig yn adran 1(3)(c) o Ddeddf 2021. Mae'r enghreifftiau dilynol o fewn yr ystod o ymddygiadau y gellid eu hystyried yn ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol. Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr:

³² Gweler Y Prosiect Halo. "Diffiniad o Drais ar Sail Anrhydedd"; SafeLives. [Adroddiad Sbotolau # Dioddefwyr Cudd: Eich dewis: trais ar sail 'anrhydedd', priodas dan orfod a cham-drin domestig](#); 2017.

³³ Bwriedir i'r diwygiad hwn i'r drosedd ymddygiad sy'n rheoli neu orfodi ddod i rym yn ddiweddarach yn 2022 a bydd y canllawiau a'r deunydd hyfforddi perthnasol ar gyfer asiantaethau rheng flaen yn cael eu diweddarau. Bydd canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth o dan adran 77 o Ddeddf 2015, sy'n amlinellu'r hyn sy'n gyfystyr ag ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol, hefyd yn cael eu diweddarau.

- Rheoli neu fonitro gweithgareddau ac ymddygiad dyddiol y dioddefwr, gan gynnwys rhoi cyfrif am eu hamser, pennu beth y gallant ei wisgo, beth a phryd y gallant fwyta, pryd a ble y gallant gysgu;
- Rheoli mynediad dioddefwr at gyllid, gan gynnwys monitro eu cyfrifon neu eu gorfodi i rannu eu cyfrineiriau i gyfrifon banc er mwyn hwyluso cam-drin economaidd;
- Ynysu'r dioddefwr oddi wrth deulu, ffrindiau a gweithwyr proffesiynol a allai fod yn ceisio eu cefnogi, gan ryng-gipio negeseuon neu alwadau ffôn;
- Gwrthod dehongli a/neu rwystro mynediad i gyfathrebu;
- Atal y dioddefwr rhag cymryd meddyginiaeth, neu gyrchu offer meddygol a chymhorthion cynorthwyol, eu gor-feddyginiaethu, neu atal y dioddefwr rhag cyrchu gofal iechyd neu gymdeithasol (yn arbennig o berthnasol i ddioddefwyr anabl neu'r rhai â chyflyrau iechyd hirdymor);
- Defnyddio sylweddau i reoli dioddefwr trwy ddibyniaeth, neu reoli ei fynediad at sylweddau;
- Defnyddio plant i reoli'r dioddefwr, e.e. bygwth mynd â'r plant i ffwrdd;
- Defnyddio anifeiliaid i reoli neu orfodi dioddefwr, e.e. niweidio neu fygwth niweidio, neu roi i ffwrdd, anifeiliaid anwes neu gŵn cymorth;
- Bygythiadau i ddatgelu gwybodaeth sensitif (e.e. gweithgarwch rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol) neu wneud honiadau ffug i aelodau'r teulu, cymuned grefyddol neu leol gan gynnwys trwy ffotograffau neu'r rhyngwyd;
- Brawychu a bygythiadau o ddatgelu cyfeiriadedd rhywiol a/neu hunaniaeth rhywedd i deulu, ffrindiau, cydweithwyr, y gymuned ac eraill;
- Brawychu a bygythiadau o ddatgelu statws iechyd neu nam i deulu, ffrindiau, cydweithwyr a'r gymuned ehangach – yn arbennig lle gallai hyn achosi stigma yn y gymuned;
- Atal y dioddefwr rhag dysgu iaith neu wneud ffrindiau y tu allan i'w gefndir ethnig neu ddiwylliannol;
- Bygwth statws mewnfudo ansicr yn erbyn y dioddefwr, dal dogfennau yn ôl, rhoi gwybodaeth ffug i ddioddefwr am ei fisa neu gais am fisa, e.e. defnyddio cyfraith fewnfudo i fygwth y dioddefwr gyda'r posibilrwydd o gael ei alltudio;
- Defnyddio statws iechyd y dioddefwr i achosi ofn a chyfyngu ar ei ryddid i symud;
- Bygythiadau o sefydliadu (yn arbennig i ddioddefwyr anabl neu oedrannus); a
- Trais corfforol, ymddygiad treisgar neu fygythiol, cam-drin rhywiol, cam-drin emosïynol neu seicolegol, cam-drin economaidd a cham-drin geiriol (fel y manylir ymhellach yn y bennod hon).

51. Mae ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn batrwm o ymddygiad a gyflawnir yn aml ochr yn ochr â mathau eraill o gam-drin. Efallai na fydd dioddefwr yn ymwybodol o'r ymddygiadau camdriniol nac yn barod i wneud datgeliad. Wrth gefnogi dioddefwyr i fynd i'r afael ag ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol, dylai asiantaethau ystyried effaith gronnus ymddygiadau'r cyflawnwr (gan gynnwys y rhai a all ymddangos yn ddiniwed) a'r patrwm ymddygiad yng nghyd-destun y berthynas.
52. Dylid ymdrin ag ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol fel rhan o weithdrefnau diogelu ac amddiffyn y cyhoedd. Dylai gweithwyr proffesiynol fod yn ymwybodol o effaith yr ymddygiad hwn ar ddiodefwyr, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

Blwch 3.1: Astudiaeth Achos

53. Mae ymddygiad gorfodaethol neu reolaethol yn gyffredin mewn cam-drin domestig a gall fod yn sbardun i lawer o'r ymddygiadau eraill, fel y dangosir yn yr astudiaeth achos isod.

Astudiaeth Achos

Roedd Susan wedi bod gyda'i phartner ers bron i 20 mlynedd ac roedd ef wedi bod yn sarhaus tuag ati o adeg gynnar. Gorfodwyd hi i fenthyg arian gan deulu agos wrth iddo wagio ei chyfrif cyn gynted ag yr oedd ei chyflog yn mynd i mewn bob mis. Roedd ei phartner yn hynod o genfigennus pryd bynnag y byddai'n gadael y tŷ, hyd yn oed i fynd i'r gwaith. Byddai'n mynnu ei gyrru i ddrws ffrynt ei gweithle a'i chodi o'r un lle yn union. "Roedd wedi fy ngham-drin yn rhywiol yn gynnar yn ein perthynas. Rwy'n meddwl fy mod i wedi mynd yn ddideimlad iddo. Roedd bob amser yn ddig ac yn anghwrtais gyda mi; roedd yn aml yn fy nharo neu fy nghicio a sawl gwaith yn fy llosgi ac yn ceisio fy nhagu. Roedd yn meddwl fy mod yn gweld pobl eraill yn y gwaith. Oherwydd fy swydd roedd rhaid i mi gymryd amser i ffwrdd os oedd wedi fy nghuro'n wael iawn. Doeddwn i ddim am i neb wybod. Ond weithiau byddwn i'n defnyddio'r hen straeon fy mod i wedi disgyn yn ddamweiniol i lawr y grisiau neu wedi cerdded i mewn i ddrws. Pethau gwirion. Efallai eu bod i gyd yn gwybod. Ond ni ddywedodd neb erioed."

Oherwydd ei bod yn ddibynnol ar ei phartner i gyrraedd y gwaith, roedd hyn yn aml yn golygu ei fod yn gwrthod ei chymryd neu roedd hi'n hwyr ac, ynghyd â'r amser i ffwrdd a gafodd pan oedd wedi dioddef ymosodiad corfforol, roedd hyn yn achosi problemau gyda'i chyflogwr. Yn y diwedd fe ddywedon nhw fod rhaid iddi adael gan ei bod hi'n rhy annibynadwy i fod yn rhan o'r tîm. "Dyma fy mywyd i, beth roeddwn i wedi bod am ei wneud erioed. A seibiant o bopeth yn ôl adref. Cefais fy llorio'n llwyr pan gollais y cyfan. Hefyd, roedd yn golygu na allem dalu am y tŷ na dim byd. Aeth fy nghyn-bartner yn wyllt pan sylweddolodd beth oedd ystyr hyn."

Yn dilyn ymosodiad pellach lle cafodd Susan ei thrywanu â chyllell gegin gan ofni am ei bywyd, fe ffoniodd yr heddlu. Yna symudodd i loches.

54. Bydd y canllawiau statudol ar ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol, unwaith y cânt eu diweddarau, yn rhoi rhagor o fanylion am gydnabod y math hwn o gam-drin.

Aflonyddu neu Stelcio

55. Pan fo aflonyddu neu stelcio yn digwydd, a bod y sawl sy'n cyflawni'r drosedd a'r dioddefwr yn 16 oed neu'n hŷn ac yn "gysylltiedig yn bersonol", mae'r ymddygiad hwn yn dod o fewn cwmpas y diffiniad statudol o gam-drin domestig yn Neddf 2021. Er enghraifft, gall olygu cam-drin corfforol, ymddygiad bygythiol, ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol, neu gam-drin emosiynol neu seicolegol.

56. Nid oes diffiniad statudol o aflonyddu ond mae'n cynnwys ymdrechion mynych i orfodi cyfathrebu a chyswllt digroeso ar ddiodeffwr, mewn modd y gellid disgwyl iddo achosi gofid neu ofn. Cydnabyddir yn gyffredinol bod aflonyddu yn ymwneud ag ymddygiad y bwriedir iddo achosi braw neu ofid i berson neu beri iddo ofni trais pan fo'r cyflawnwr yn gwybod neu y dylai wybod bod ei ymddygiad yn gyfystyr ag aflonyddu. Lle mae tystiolaeth i ddangos bod ymddygiad o'r fath wedi digwydd ar fwy nag un achlysur, gallai'r troseddwr gael ei erlyn o dan [Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997](#) ('Deddf 1997).

57. Gall ymddygiad y cyflawnwr ddilyn patrwm, megis anfon negeseuon sy'n peri braw neu ofid i'r derbynnydd, neu sy'n peri iddo ofni trais. Fel arall, gall ymddygiad y troseddwr amrywio ar bob achlysur, er enghraifft gallent ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau i aflonyddu ar y diodeffwr megis anfon negeseuon bygythiol (er enghraifft trwy gyfrwng tecstio neu gyfryngau cymdeithasol) neu e-byst, gwneud galwadau sarhaus ar y ffôn, difrodi eiddo neu riportio person ar gam i'r heddlu pan nad ydynt wedi gwneud dim o'i le.

58. Yn yr un modd, nid oes diffiniad statudol o stelcio. Mae enghreifftiau o'r math o ymddygiad a ystyrir mewn amgylchiadau penodol yn weithredoedd, neu'n anweithiau, sy'n gysylltiedig â stelcio wedi'u nodi yn adran 2A o Ddeddf 1997. Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr, ac nid oes angen cysylltiad personol â'r drosedd ychwaith, sy'n golygu ei bod yn ehangach na cham-drin domestig ac yn wahanol iddo:

- Dilyn person;
- Cysylltu â pherson, neu geisio cysylltu ag ef mewn unrhyw fodd;
- Cyhoeddi unrhyw ddatganiad neu ddeunydd arall —
 - i. sy'n ymwneud â pherson neu'n honni ei fod yn ymwneud â pherson, neu
 - ii. sy'n honni ei fod yn tarddu o berson;
- Monitro'r defnydd gan berson o'r rhyngwrdd, e-bost neu unrhyw ffurf arall ar gyfathrebu electronig;
- Loetran mewn unrhyw le (boed yn gyhoeddus neu'n breifat);

- Ymyrryd ag unrhyw eiddo sydd ym meddiant person; a
- Gwyllo neu ysbïo ar berson.

59. Mae'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) hefyd wedi mabwysiadu'r disgrifiad dilynol, sy'n ymddangos yn y [canllawiau statudol ar Orchmynion Amddiffyn rhag Stelcio](#), a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Diogelu rhag Stelcio 2019: mae stelcio yn batrwm o ymddygiad digroeso, sefydlog ac obsesiynol sy'n ymwthiol. Gall gynnwys aflonyddu sy'n gyfystyr â stelcio neu stelcio sy'n achosi ofn trais neu ddychryn difrifol neu ofid i'r dioddefwr.

60. Gall ymddygiadau stelcio amrywio ond yn aml cânt eu hysgogi gan obsesiwn ac mae eu hymddygiad yn rhannu set gyson o nodweddion sy'n ymwneud ag ymddygiadau Sefydlog, Obsesiynol, Digroeso a/neu Ailadroddus (PEDWAR), ar-lein a/neu all-lein. Gall dioddefwyr cam-drin domestig fod yn agored i stelcwyr, yn arbennig pan fydd perthynas wedi dod i ben.

61. Nid oes unrhyw gyflawnwr stelcio na dioddefwr stelcio 'nodweddiadol'. Mae'r drosedd hon yn effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched, ond mae'n bwysig cydnabod bod dynion a bechgyn yn ddioddefwyr hefyd, a bod dynion a menywod yn gallu bod yn gyflawnwyr. Canfu data CSEW ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020 fod 9% o fenywod a 3% o ddynion 16 i 74 oed wedi profi stelcio domestig ers 16 oed.³⁴ Mae stelcio'n effeithio ar bobl o bob oed, a daw dioddefwyr o ystod eang o gefndiroedd – nid yw wedi'i gyfyngu i ffigurau cyhoeddus ac enwogion yn unig.

62. Ceir rhagor o wybodaeth am stelcio yn Atodiad A y [canllawiau statudol ar Orchmynion Amddiffyn rhag Stelcio](#). Gall ymddygiad stelcio ar yr wyneb ymddangos yn 'ddiniwed', yn arbennig os caiff ei ystyried ar ei ben ei hun yn hytrach nag fel rhan o batrwm ehangach o ymddygiad camdriniol a niweidiol posibl. Dylid ystyried cyd-destun yr ymddygiad, gan gynnwys y cymhellion y tu ôl i'r ymddygiad a'r effaith ar y dioddefwr.

Cam-drin economaidd

63. Mae cam-drin economaidd yn cyfeirio at ymddygiad sy'n cael effaith andwyol sylweddol³⁵ ar allu unigolyn i gaffael, defnyddio neu gynnal arian neu eiddo arall, neu i gael nwyddau neu wasanaethau.³⁶ Gall hyn gynnwys gallu unigolyn i gaffael bwyd

³⁴ ONS. [Mynychder yr achosion o gam-drin domestig a nodweddion dioddefwyr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](#): Y flwyddyn ddata a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020.

³⁵ Gellir erlyn cam-drin economaidd o dan y drosedd o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn adran 76 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015 ('Deddf 2015'). Fel y'i diffinnir yn Neddf 2015, mae'r drosedd o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn datgan: Mae trosedd yn cael ei chyflawni gan 'A' os:

- Mae A dro ar ôl tro neu'n barhaus yn ymddwyn tuag at berson arall, 'B', sy'n rheolaethol neu'n orfodaethol;
- Ar adeg yr ymddygiad, mae A a B yn "gysylltiedig yn bersonol";
- Mae'r ymddygiad yn cael effaith ddifrifol ar B; a
- Mae A yn gwybod neu fe ddylai wybod y bydd yr ymddygiad yn cael effaith ddifrifol ar B.
- Unwaith y bydd mewn grym, bydd adran 68 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021 yn diwygio'r diffiniad o "gysylltiedig yn personol" yn adran 76 o Ddeddf 2015 i ddileu'r gofyniad "byw gyda'i gilydd", sy'n golygu y bydd y drosedd o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn berthnasol i bartneriaid, cyn-aelodau o bartneriaid, p'un a yw'r dioddefwr a'r troseddwr yn byw gyda'i gilydd.

³⁶ Gweler Adams, AE, Sullivan, CM, Bybee, D, Greeson, MR [Datblygu Graddfa Cam-drin Economaidd: Trais yn Erbyn Menywod](#): 2008: 14(5):563-588.

neu ddillad, neu gyrchu cludiant neu gyfleustodau. Gall yr ymddygiadau hyn gynnwys ymgais i reoli trwy gyfyngu, ecsbloetio a/neu ddifrodi.

64. Gall cam-drin economaidd hefyd fod yn drosedd ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol, o dan adran 76 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015, lle mae'n digwydd dro ar ôl tro neu'n barhaus, mae'r dioddefwr a'r cyflawnwr yn "gysylltiedig yn bersonol" a bod gan yr ymddygiad effaith ddifrifol ar y dioddefwr. Mae hyn yn golygu bod yr ymddygiad yn achosi'r dioddefwr i ofni y bydd trais yn cael ei ddefnyddio yn ei erbyn ar ddau achlysur neu fwy, neu ei fod yn cael effaith andwyol sylweddol ar weithgareddau arferol y dioddefwr o ddydd i ddydd a bod y cyflawnwr yn gwybod, neu y dylai wybod, y bydd yn cael effaith ddifrifol ar y dioddefwr.

65. Gallai enghreifftiau o gam-drin economaidd gynnwys y dilynol:

- Rheoli incwm y teulu;
- Peidio â chaniatáu i ddiodeffwr ennill neu wario unrhyw arian oni bai y 'caniateir';
- Gwadu bwyd i'r diodeffwr neu ganiatáu iddynt fwyta math penodol o fwyd yn unig;
- Codi biliau a dyledion megis cardiau credyd neu gardiau siop yn enw diodeffwr, gan gynnwys heb yn wybod iddynt;
- Gwrthod cyfrannu at incwm neu gostau'r cartref;
- Gorfodi diodeffwr yn fwriadol i fynd i'r llysoedd teulu fel ei fod yn tynnu ffioedd cyfreithiol ychwanegol;
- Ymyrryd â diodeffwr neu ei atal rhag rheoleiddio ei statws mewn fudo fel ei fod yn economaidd ddibynnol ar y troseddwr;
- Atal diodeffwr rhag hawlio budd-daliadau lles, neu orfodi rhywun i gyflawni twyll budd-daliadau neu gamddefnyddio budd-daliadau o'r fath;
- Ymyrryd ag addysg, hyfforddiant, cyflogaeth a gyrfa diodeffwr fel eu bod yn economaidd ddibynnol ar y cyflawnwr;
- Peidio â chaniatáu i ddiodeffwr ddefnyddio ffôn symudol/car/cyfleustodau;
- Difrodi eiddo'r diodeffwr;
- Peidio â chaniatáu i ddiodeffwr brynu bwyd anifeiliaid anwes neu gyrchu gofal milfeddygol i'w anifail anwes;
- Gorfodi'r diodeffwr i lofnodi eiddo neu asedau drosodd;
- Gwrthod gwneud taliadau y cytunwyd arnynt neu sy'n ofynnol, er enghraifft ad-daliadau morgais neu daliadau cynhaliath plant; ac
- Yn fwriadol rwystro gwerthu asedau a rennir, neu gau cyfrifon ar y cyd neu forgeisi.

66. Gall cam-drin economaidd wneud dioddefwr yn ddibynnol yn economaidd ar y cyflawnwr, a/neu greu ansefydlogrwydd economaidd, gan gyfyngu ar eu gallu i ddianc a chyrchu diogelwch. Gall hyn arwain at ddioddefwr yn aros gyda chyflawnwr ac yn profi mwy o gam-drin a niwed o ganlyniad. Gall rhai mathau o gam-drin economaidd ddigwydd neu barhau ar ôl i'r dioddefwr wahanu oddi wrth y cyflawnwr. Gall plant brofi effeithiau cam-drin economaidd; mae hyn yn cynnwys lle mae'n creu amgylchedd lle mae diffyg hanfodion, ac a all, mewn achosion, waethygu i fathau difrifol o amddifadedd neu dlodi plant.

67. Amlygodd arolwg cenedlaethol cynrychioliadol ar effaith cam-drin economaidd fod 57% o ddioddefwyr cam-drin economaidd mewn dyled neu wedi bod mewn dyled, roedd gan 26% sgôr credyd yr effeithiwyd arni'n negyddol, a bod 25% wedi profi cam-drin yn ymwneud â gwariant a chredyd, megis cael dyled wedi ei rhoi yn eu henw heb yn wybod iddynt, neu oherwydd gorfodaeth.³⁷ Mae'r sefydliad Surviving Economic Abuse, mewn partneriaeth â Money Advice Plus, wedi creu [canllaw i ddeall cam-drin economaidd i ddioddefwyr](#).

Cam-drin emosiynol neu seicolegol

68. Mae cam-drin domestig yn aml yn cynnwys cam-drin emosiynol neu seicolegol. Bydd rhai o'r ymddygiadau hyn hefyd yn ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol. Gall cam-drin emosiynol neu seicolegol gynnwys:

- Trin pryderon neu gredoau person neu gamddefnyddio sefyllfa o ymddiriedaeth;
- Ymddygiadau gelyniaethus neu driniaeth ddistaw fel rhan o batrwm ymddygiad i wneud i'r dioddefwr deimlo'n ofnus;
- Cael eich sarhau, gan gynnwys o flaen eraill. Mae hyn yn cynnwys sarhau rhywun am ei hil, rhyw neu hunaniaeth rhywedd, modd aillbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, anabled, oedran, ffydd neu gred neu danseilio gallu unigolyn i rianta neu allu i weithio;
- Cael eich bychanu dro ar ôl tro;
- Cadw dioddefwr yn effro/atal rhag cysgu;
- Defnyddio trais neu fygythiadau tuag at gŵn cymorth ac anifeiliaid anwes i ddychryn y dioddefwr ac achosi gofid, gan gynnwys bygwth niweidio'r anifail yn ogystal â rheoli sut y gall y perchennog ofalu am yr anifail;
- Bygwth niweidio trydydd parti (er enghraifft teulu, ffrindiau neu gydweithwyr);
- Defnyddio gwefannau cyfryngau cymdeithasol i ddychryn y dioddefwr; a
- Perswadio dioddefwr i amau ei bwyll neu ei feddwl ei hun (gan gynnwys 'dibwyllo').

³⁷ Butt, E. [Gwybod cam-drin economaidd: Adroddiad 2020](#): Refuge: 2020.

Cam-drin geiriol

69. Gall cam-drin geiriol fod yn gyfystyr â cham-drin emosiynol neu seicolegol, ymddygiad bygythiol, neu ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Bloeddio a gweiddi dro ar ôl tro;
- Iaith sarhaus, difriol, bygythiol neu ddiraddiol;
- Bychanu ar lafar naill ai'n breifat neu mewn cwmni;
- Cael chwerthin am eich pen a chael hwyl am eich pen; a
- Gwahaniaethu yn erbyn rhywun neu eu gwatwar am eu hanabledd, rhyw neu hunaniaeth rhywedd, modd aillbennu rhywedd, crefydd neu gred ffydd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, ymddangosiad corfforol ac ati.

Cam-drin wedi'i hwyluso gan dechnoleg

70. Gall cyflawnwyr ddefnyddio technoleg, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol i gam-drin dioddefwyr. Gall hyn ddigwydd yn ystod ac ar ôl y berthynas. Canfu arolwg cynrychioliadol a gynhaliwyd gan Refuge fod un o bob chwe menyw a oedd wedi profi o leiaf un ymddygiad sy'n awgrymu cam-drin neu aflonyddu ar-lein, wedi dweud bod yr ymddygiad camdriniol yn cael ei gyflawni gan bartner presennol neu gyn-bartner.³⁸ Mae rhai enghreifftiau o gam-drin wedi'i hwyluso gan dechnoleg yn cynnwys:

- Rhoi gwybodaeth ffug neu faleisus am ddiodefwyr ar eu cyfryngau cymdeithasol neu gyfryngau cymdeithasol pobl eraill;
- Sefydlu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ffug yn enw'r diodefwyr;
- 'Trollo' gyda negeseuon sarhaus, atgas neu'n fwriadol bryfoclyd trwy blatfformau cyfryngau cymdeithasol neu fforymau ar-lein;
- Cam-drin ar sail delwedd – er enghraifft, creu delweddau ffug/wedi'u newid yn ddigidol a dosbarthu ffotograffau a ffilmiau rhywiol preifat heb gydsynio, neu fygwth hynny, gyda'r bwriad o achosi gofid i'r person a ddarlunnir ('porn dial');
- 'Uwchsgertio' sy'n golygu bod rhywun yn tynnu llun o dan ddillad person arall heb yn wybod iddynt;
- Hacio i mewn i gyfrifon e-bost, proffiliau cyfryngau cymdeithasol a galwadau ffôn, eu monitro neu eu rheoli;
- Rhwystro'r diodefwyr rhag defnyddio ei gyfrifon ar-lein, ymateb yn lle'r diodefwyr neu greu cyfrifon ffug ar-lein;
- Defnyddio ysbïwedd neu leolwyr GPS ar eitemau megis ffonau, cyfrifiaduron, technoleg gwisgadwy, ceir, beiciau modur ac anifeiliaid anwes;

³⁸ Refuge. 2021. [Mannau Anghymdeithasol: Gwneug manau ar-lein yn fwy diogel i fenywod a merched.](#)

- Hacio dyfeisiau sy'n galluogi'r rhyngwyd megis PlayStations neu iPads i gael mynediad at gyfrifon neu olrhain gwybodaeth megis lleoliad person;
- Defnyddio dyfeisiau personol fel wats clyfar neu ddyfeisiau cartref clyfar (megis Amazon Alexa, Google Home Hubs, ac ati) i fonitro, rheoli neu godi ofn; a
- Defnyddio camerâu cudd.

71. Diwygiodd adran 69 o Ddeddf 2021 y drosedd o dan adran 33 o [Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015](#), o ddatgelu ffotograff neu ffilm rywiol breifat gyda'r bwriad o achosi gofid i unigolyn sy'n ymddangos yn y llun neu'r ffilm, er mwyn cynnwys bygythiadau i ddatgelu ffotograffau a ffilmiau o'r fath. Mae hyn yn golygu ei bod yn drosedd i unigolyn fygwth rhannu delweddau personol heb ganiatâd yr unigolyn a ddarlunnir, gyda'r bwriad o achosi gofid.
72. Gellir defnyddio bygythiadau i rannu delweddau a ffilmiau personol neu rywiol fel rhan o batrwm ymddygiad i reoli, gorfodi neu beri gofid i'r dioddefwr yn ystod perthynas â'r troseddwr ac ar ôl gwahanu. Canfu arolwg a gynhaliwyd gan Refuge³⁹ fod un o bob 14 o oedolion yng Nghymru a Lloegr wedi profi bygythiadau i rannu delweddau neu fideos personol - sy'n cyfateb i 4.4 miliwn o bobl.
73. Canfu'r un arolwg fod bygythiadau i rannu delweddau personol yn fwyaf cyffredin ymhlith pobl ifanc (18 i 34 oed), ag un o bob saith o fenywod ifanc, ac un o bob naw dyn ifanc yn profi bygythiadau o'r fath. Gall 'porn dial' a mathau o gam-drin a gyflawnir ar-lein gael effaith sylweddol a hirdymor ar ddioddefwr. Mae hyn yn cynnwys aildrawmateiddio ac mae hyn yn rhannol oherwydd toriadau preifatrwydd hirdymor. Efallai y bydd angen cefnogi dioddefwyr i gymryd camau i riportio a dileu deunydd a gyhoeddir ar-lein.
74. Er y gellir defnyddio technoleg fel modd o barhau i gam-drin, gall dioddefwyr hefyd ei defnyddio wrth ei riportio. Mae sawl swyddogaeth sgwrsio byw yn cael eu rhedeg gan ddarparwyr gwasanaethau i hwyluso riportio ac mae offer arwahanol a sesiynau byw ar-lein i ddioddefwyr gael cyngor yn ddiennw, pe byddent yn dewis gwneud hynny.
75. Mae'r Llywodraeth yn cymryd camau i ddiogelu ymhellach ddioddefwyr cam-drin wedi'i hwyluso gan dechnoleg drwy'r Bil Diogelwch Ar-lein.⁴⁰ Bydd y ddeddfwriaeth hon yn rhoi mesurau cryfach ar waith i gwmnïau technoleg ddiogelu defnyddwyr gwasanaethau ar-lein.
76. Mae Refuge yn darparu [canllawiau ar gam-drin wedi'i hwyluso gan dechnoleg ac adnoddau diogelwch technoleg](#) i gefnogi dioddefwyr cam-drin a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda dioddefwyr.

³⁹ Refuge. [Y Bygythiad Noeth: Mae'n bryd newid y gyfraith i amddiffyn goroeswyr rhag cam-drin ar sail delwedd](#): 2020.

⁴⁰ Gweler [Bil Diogelwch Ar-lein: taflen ffeithiau - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#).

Cam-drin yn ymwneud â ffydd

77. Er y gall ffydd unigolyn fod yn ffynhonnell cymorth a chysur i ddioddefwyr, gall cam-drin domestig ddigwydd mewn perthynas ag ef, a thrwy ei ddefnyddio, ei drin neu ei ecsbloetio. Gall y cam-drin hwn gael effaith niweidiol iawn ar ddioddefwyr, a gallai gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, yr enghreifftiau dilynol:

- Trin a chamfanteisio trwy ddylanwad crefydd;
- Gofynion cyfrinachedd a distawrwydd;
- Treisio priodasol a'r defnydd o'r ysgrythur grefyddol i gyfiawnhau hynny;
- Gorfodaeth i gydymffurfio neu reolaeth trwy ddefnyddio testunau/dysgeidiaeth sanctaidd neu grefyddol e.e. cyfiawnhad diwinyddol dros orfodaeth neu gam-drin rhywiol;
- Achosi niwed, unigedd a/neu esgeulustod i gael gwared ar 'rym drwg' neu 'ysbryd' y credir ei fod wedi meddiannu'r dioddefwr; a
- Gofyniad ufudd-dod i'r sawl sy'n cyflawni cam-drin domestig, oherwydd crefydd neu ffydd, neu eu safbwynt 'dwyfol.

78. Gall cam-drin domestig hefyd gynnwys atal dioddefwr rhag ymarfer ei ffydd neu rwymedigaethau crefyddol. Gall hyn gynnwys lle mae'r cyflawnwr yn:

- Gorfodi'r dioddefwr i weithredu neu ymddwyn mewn ffyrdd sy'n gwrth-ddweud credoau crefyddol a/neu ddefodau ac arferion ysbrydol (e.e. gorfodi'r dioddefwr i dorri rheolau deietegol crefyddol);
- Atal y dioddefwr rhag cyflawni gweithredoedd o addoliad, gweddïau a/neu fynychu addoliad ar y cyd;
- Gorfodi gweithredoedd rhywiol sy'n gwrth-ddweud defodau crefyddol a/neu gyfraith grefyddol (e.e. yn ystod ac ar ôl mislif neu ryw cyn priodas); a
- Gorfodi neu gyfyngu mynediad i erthyliad, rheolaeth geni neu sterileiddio pan fydd hyn yn mynd yn groes i arferion crefyddol.

Priodas ac ysgariad crefyddol

79. Gall priodasau crefyddol yn unig, sef priodasau digofrestredig a gynhelir yn unol â defodau crefydd benodol ond heb statws cyfreithiol, gael eu defnyddio gan gyflawnwyr i:

- Annog neu atal y briodas rhag cael ei chofrestru yng nghyfraith Cymru a Lloegr gan sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu hamddifadu o'u hawliau cyfreithiol a'u hamddiffyniad os bydd y briodas yn torri i lawr. Nid yw llawer o fenywod yn ymwybodol nad oes gan eu priodas statws cyfreithiol oherwydd eu bod yn cael eu gorfodi neu eu twyllo i feddwl bod eu priodas yn gyfreithlon. Gall hyn ynghyd â statws mewnfudo ansicr y dioddefwr fod yn arf pwerus ar gyfer gorfodaeth a rheolaeth.

- Gorfodi neu dwyllo menywod i fod yn rhan o briodas amlbriod lle mae'r gŵr yn credu y gall gael mwy nag un wraig ar yr un pryd.

80. Gall cyflawnwr orfodi dioddefwr i ymrwymo i briodas, trwy ddefnyddio ffydd neu yng nghyd-destun gwerthoedd a ddelir o fewn cymuned grefyddol, a gall pobl ifanc fod mewn mwy o berygl o bwysau i briodi. Er y gallai hyn fod ar sail cymhellion crefyddol honedig, nid oes unrhyw ffydd fawr yn cydoddef priodas dan orfod. Gall rhai credoau neu arferion o fewn traddodiadau gael eu cam-ddefnyddio neu eu hecsbloetio. Am ragor o wybodaeth gweler yr adran ['Priodas dan Orfod'](#).
81. Gall math o gam-drin domestig gynnwys atal ysgariad crefyddol, fel modd o reoli a bygwth dioddefwyr. Gall hyn fod yn bresennol mewn gwahanol ffurfiau o dan crefyddau gwahanol. Mewn rhai achosion, bydd arwyddion eraill o gam-drin yn y briodas yn cyd-fynd ag ef. Gall cam-drin sy'n ymwneud â ffydd fod yn gyfystyr â cham-drin seicolegol neu emosiynol ac ymddygiad gorfodaethol neu reolaethol.
82. Mewn Iddewiaeth y mae hyn yn ymwneud â'r Get⁴¹ ac achosion lle gall gŵr cyndyn wrthod rhoi bil ysgariad Iddewig i'w wraig (neu gall gwraig wrthod yn afresymol i dderbyn bil ysgariad Iddewig).
83. Mae'r gallu i wrthod rhoi Get wedi'i gydnabod fel mater penodol sy'n rhoi pŵer a rheolaeth i wŷr camdriniol ac fe'i defnyddir weithiau i ddefnyddio pwysau mewn perthynas ag agweddau eraill ar yr ysgariad. Bydd y gwrthodiad yn cael effaith sylweddol ar amodau byw ehangach y wraig: yn aml bydd hi wedi'i chyfyngu'n ddifrifol yn ei bywyd cymdeithasol a phersonol.⁴² Mae'n effeithio ar ei gallu i ailbriodi ac yn effeithio'n uniongyrchol ar statws unrhyw blant a allai fod ganddi yn y dyfodol. Mewn achosion o'r fath, mae menywod yn gallu ymgynghori â'u Beth Din ar y cyfle cyntaf ar fater cyhoeddi'r Get. Mae Beth Din, fel awdurdodau llys crefyddol, yn gallu cynghori parau ar y sefyllfa yn y gyfraith Iddewig ar gyfer diddymu'r briodas grefyddol.
84. Mewn Islam gall hyn olygu bod gŵr yn gwrthod caniatáu ysgariad crefyddol, talaq⁴³ i'w wraig, sef dirymiad nickah,⁴⁴ fel ffordd o ymestyn y broses o ysgariad. Mae'n bosibl y bydd rhai dioddefwyr hefyd yn cyfeirio at y bygythiad y bydd talaq yn cael ei ddatgan a'r defnydd mympwyol o hyn gan gyflawnwyr. Er bod cyfraith Islamaidd yn galluogi menywod i gael ysgariad crefyddol o'u gwirfodd, efallai y byddant yn canfod eu bod

⁴¹ 'Get' –bil ysgariad Iddewig. Heb ddogfen o'r fath, mae cwpl yn parhau i fod yn briod yn grefyddol, hyd yn oed os ydynt wedi ysgaru yn y llysoedd sifil. Cofrestrir priodasau cyplau Iddewig yn sifil ar adeg eu priodas grefyddol. Fodd bynnag, mae ysgariad yn broses deul, sy'n cynnwys ysgariad sifil ac un grefyddol ('Get'). Mewn Iddewiaeth Uniongred, rhaid rhoi Get a'i dderbyn gyda chaniatâd. Os na fydd y gŵr yn cydsynio, ni all y wraig ailbriodi o dan nawdd Iddewig Uniongred a bydd unrhyw blant sydd ganddi mewn perthynas yn y dyfodol yn wynebu cyfyngiadau difrifol o ran pwyl y gallant eu priodi.

⁴² 'Aguna' -gelwir gwraig y gwadwyd Get iddi yn 'Aguna' (gwraig gadwynog). Mae hi wedi'i gwahardd rhag cael perthynas agos â dyn heblaw ei gŵr ac ni all ailbriodi o dan nawdd Iddewig Uniongred. Mae statws yn y gyfraith Iddewig a elwir yn 'Mamzer' yn effeithio ar unrhyw blant mewn perthynas yn y dyfodol, sy'n golygu eu bod yn wynebu cyfyngiadau difrifol o ran pwyl y gallant eu priodi. Gall y sefyllfa hon barhau am gyfnod amhenodol drwy'r cenedlaethau dilynol.

⁴³ 'Talaq' a gyfieithir fel "ymwadiad" neu yn syml "ysgariad". O dan gyfraith Islamaidd mae'n cyfeirio at hawl y gŵr i ddiddymu'r briodas trwy gyhoeddi i'w wraig ei fod yn ymwrthod â hi.

⁴⁴ 'Nikkah' – o dan gyfraith Islamaidd, cytundeb priodas rhwng dyn a menyw.

yn cael eu hatal rhag gwneud hynny, a gall dioddefwyr ofni ôl-ffeithiau ceisio gwneud hynny neu ofni cael eu diarddel gan aelodau o'r teulu neu'r gymuned.

85. Mewn rhai traddodiadau Cristnogol, mae ysgariad naill ai'n cael ei anghefnogi neu ddim yn cael ei gydnabod o gwbl. Mewn rhai traddodiadau, gellir goddef gwahanu oddi wrth gamdriniwr, ond nid yw ysgariad yn cael ei gydnabod ac felly nid yw unrhyw ailbriodas ddilynol yn cael ei chydabod gan yr Eglwys. Mewn rhai achosion, heb i'r gymuned dderbyn yr ysgariad, gall dioddefwr gael ei adael i aros yn y briodas neu gael ei ynysu gan y gymuned a'i atal rhag cymryd rhan yn yr Eglwys.
86. Diogelu yw'r flaenoriaeth uchaf ym mhob achos o hyd. Dylai dioddefwyr o bob ffydd gael eu hannog gan weithwyr proffesiynol a gwasanaethau y maent yn ymgysylltu â nhw i gymryd camau i amddiffyn eu hunain rhag niwed.

Cam-drin ar sail 'anrhydedd'

87. Mae cam-drin ar sail 'anrhydedd'⁴⁵ yn drosedd neu ddigwyddiad sydd wedi, neu a allai fod wedi, cael ei gyflawni i warchod neu amddiffyn anrhydedd canfyddedig y teulu a/neu'r gymuned, neu mewn ymateb i unigolion sy'n ceisio torri i ffwrdd oddi wrth 'normau' cyfyngu ymddygiad y mae eu teulu neu gymuned yn ceisio eu gosod.
88. Gall cam-drin ar sail 'anrhydedd' gynnwys cam-drin corfforol, emosiynol neu seicolegol a gall ddigwydd mewn cyd-destunau penodol, nad yw pob un ohonynt yn cynrychioli cam-drin domestig o dan Ddeddf 2021, er enghraifft mewn achosion lle nad yw'r dioddefwr a'r cyflawnwr yn "gysylltiedig yn bersonol". Fodd bynnag, mae cam-drin ar sail 'anrhydedd' fel arfer yn cael ei gyflawni gan aelod neu aelodau o'r teulu neu deulu estynedig ac mae'n debygol o gynnwys ymddygiadau a nodir yn y diffiniad statudol o gam-drin domestig yn Neddf 2021. Gall cyflawnwyr ddefnyddio ystod o dactegau yn erbyn y dioddefwr, gall hyn gynnwys cyfyngiadau ar eu rhyddid, ynysu, cam-drin corfforol, a bygythiadau i ladd. I gael rhagor o wybodaeth am gam-drin a gyflawnir gan aelod(au) o'r teulu, gweler yr adran '[Cam-drin gan aelodau'r teulu](#)' ym [Mhennod 2 – Deall Cam-drin Domestig](#)'.
89. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw fesur dibynadwy o fynychder cam-drin ar sail 'anrhydedd'; mae data troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu yn dangos bod 2,383 o droseddau'n ymwneud â cham-drin ar sail 'anrhydedd' yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021 yng Nghymru a Lloegr (ac eithrio Heddlu Manceinion Fwyaf).⁴⁶ Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 18% o gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020. Fodd bynnag, gallai'r cynnydd hwn adlewyrchu'n rhannol ffactorau ehangach megis gwelliannau cyffredinol o ran cofnodi troseddau a nodi cam-drin ar

⁴⁵ Defnyddir y term cam-drin ar sail 'anrhydedd' yma, fel term a gydnabyddir yn eang, ac er mwyn amlinellu'r math hwn o gam-drin, gyda'r materion unigryw sy'n codi yn ei sgil, er mwyn galluogi ymateb effeithiol gan asiantaethau statudol. Mae'n bwysig pwysleisio yma nad oes unrhyw anrhydedd mewn cam-drin a dyna pam mae'r term 'cam-drin ar sail anrhydedd bondigrybyll' hefyd yn cael ei ddefnyddio'n aml.

⁴⁶ Nid oedd Heddlu Manceinion Fwyaf yn gallu darparu data ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020 yn dilyn gweithredu system TG newydd ym mis Gorffennaf 2019.

sail 'anrhydedd'. O'r 2,725 o droseddau a gofnodwyd gan yr heddlu yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021, roedd 78 o droseddau Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM) a 125 o droseddau priodas dan orfod.⁴⁷

90. Gall y math hwn o gam-drin ddigwydd i unrhyw un. Ar brydiau mae wedi'i nodi mewn cymunedau clos neu gaeedig sydd â diwylliant cryf o 'anrhydedd' a 'chwylydd', megis rhai grwpiau lleiafrifol, neu grwpiau ethnig/crefyddol caeedig a grwpiau cymdeithasol hynod ynysig eraill.⁴⁸ Gallai dioddefwyr o grwpiau a chymunedau o'r fath wynebu rhwystrau ychwanegol wrth riportio'r cam-drin neu gyrchu gwasanaethau cymorth. Mae cam-drin ar sail 'anrhydedd' wedi'i nodi i ddeillio o syniadau traddodiadol am rolau patriarchaeth a rhywedd.⁴⁹ Fodd bynnag, gall dioddefwyr fod yn fenyw neu'n wryw a gall y rhai sydd mewn perygl gynnwys unigolion sy'n LHDT. Gall therapi trosi a'r hyn a elwir yn dreisio cywirol dioddefwyr sy'n LHDT fod yn fath o gam-drin ar sail 'anrhydedd'.⁵⁰
91. Mae priodas dan orfod ac FGM yn fathau posibl o gam-drin ar sail 'anrhydedd'. Mae rhagor o wybodaeth am briodas dan orfod ac FGM i'w chael yn y [canllawiau statudol amlasiantaethol a'r canllawiau ymarfer ar briodas dan orfod](#) a'r [canllawiau statudol amlasiantaethol ar FGM](#).

Priodas dan Orfod

92. Mae priodas dan orfod yn drosedd o dan adran 121 o [Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014](#) ('Deddf 2014'). Mae priodas dan orfod fel arfer yn digwydd yng nghyd-destun cam-drin ar sail 'anrhydedd', ac mae'n cynnwys defnyddio trais, bygythiadau neu unrhyw fath arall o orfodaeth yn erbyn person gyda'r bwriad neu'r gred y gallai'r ymddygiad achosi i berson ymrwymo i briodas heb gydsynio. Mae hyn yn cynnwys priodasau traddodiadol neu answyddogol nad ydynt yn rhwymol. Mae priodas dan orfod yn cael ei chydabod fel math o gam-drin domestig - os caiff ei chyflawni gan rywun sydd â chysylltiad personol â'r dioddefwr a lle mae'r ddau barti yn 16 oed o leiaf.
93. Fel arfer rhaid i rywun ddefnyddio trais, bygythiadau neu fath arall o orfodaeth i gyflawni'r drosedd o briodas dan orfod. Fodd bynnag, os nad yw person yn gallu cydsynio i briodi, o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005, gall unrhyw ymddygiad sydd wedi'i anelu at achosi iddo briodi fod yn briodas dan orfod, hyd yn oed os nad yw'n drais, yn fygythiadau neu'n fath arall o orfodaeth. Ym mhob achos, gallai gorfodi rhywun i briodi gynnwys gwneud trefniadau; gellid ystyried bod y drosedd wedi digwydd hyd yn oed pan nad yw'r briodas yn digwydd yn y pen draw.

⁴⁷ ONS. [Ystadegau ar droseddau cam-drin 'ar sail anrhydedd' fel y'u gelwir, Cymru a Lloegr, 2020 i 2021 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#): Y flwyddyn ddata a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021.

⁴⁸ SafeLives. [Adroddiad Sbotolau #Dioddefwyr Cudd: Eich dewis: trais ar sail 'anrhydedd', priodas dan orfod a cham-drin domestig: 2017](#).

⁴⁹ Mayeda, D, Vijaykumar, R. [Adolygiad o Lenyddiaeth ar Drais ar Sail Anrhydedd](#). Sociology Compass: 2016: 10(5): 353– 363.

⁵⁰ Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno gwaharddiad cyfreithiol ar therapi trosi. Bydd manylion y darpariaethau deddfwriaethol yn cael eu nodi yn y Bil drafft pan gaiff ei gyhoeddi.

94. Gall dioddefwyr priodas dan orfod fod o unrhyw oedran, ac mae llawer ohonynt o dan 18 oed. Er enghraifft, efallai y bydd dioddefwyr ifanc yn cael eu gorfodi i briodi dan fygythiad trais corfforol neu'r ofn o amharchu eu teuluoedd.
95. Yn ogystal, unwaith y daw darpariaethau [Deddf Priodasau a Phartneriaethau Sifil \(Isafswm Oed\) 2022](#) i rym, fe'i hystyrir yn briodas dan orfod, ac felly'n anghyfreithlon, i rywun achosi i blentyn o dan 18 oed ddod i mewn i briodas mewn unrhyw amgylchiad, hyd yn oed os nad yw'r person yn defnyddio trais, bygythiadau neu fath arall o orfodaeth i wneud hynny.
96. Gall Uned Priodasau dan Orfod y Llywodraeth roi cyngor a chymorth i unigolion sydd mewn perygl o, neu sydd wedi profi, priodas dan orfod, ac i'r gweithwyr proffesiynol ac eraill sy'n ceisio eu helpu. Cyhoeddir [canllawiau ar briodas dan orfod](#) ar GOV.UK.
97. Ar briodas dan orfod, mae'r canllawiau ymarfer amlasiantaethol yn cynnwys adrannau penodol ar gyfer gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol ac addysg plant ac athrawon, sy'n darparu cyngor clir i ymarferwyr i helpu i lywio ymateb effeithiol i ddiogelu plant a allai fod mewn perygl o briodas dan orfod. Cyfeirir at y canllawiau hyn yn [Cadw Plant yn Ddiogel mewn Addysg](#).⁵¹ Mae'r canllawiau arfer amlasiantaethol yn nodi'n glir drwyddi draw bwysigrwydd y 'rheol un cyfle': y gallai rhywun gael un cyfle yn unig i siarad â dioddefwr neu ddioddefwr posibl ac efallai mai dim ond un cyfle y bydd ganddo i achub bywyd.

Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM)

98. Mae FGM yn fath o drais yn erbyn menywod a merched sy'n achos ac yn ganlyniad i anghydraddoldeb rhwng y rhywiau.⁵² Mae fel arfer yn digwydd yng nghyd-destun cam-drin ar sail 'anrhydedd'. Gan fod FGM yn gyffredinol yn cael ei achosi i blant, mae'r Llywodraeth yn ystyried ei fod yn fath o gam-drin plant.⁵³ Fodd bynnag, fe'i cynhelir hefyd ar fenywod am amrywiaeth o resymau megis rhoi derbyniad cymdeithasol i fenyw cyn priodi neu sicrhau ei diweirdeb. Er y gall FGM fod yn ddigwyddiad unigol o gam-drin o fewn teulu, gall fod yn gysylltiedig ag ymddygiadau eraill sy'n gwahaniaethu yn erbyn, yn cyfyngu ar neu'n niweidio menywod a merched. Gall y rhain gynnwys mathau eraill o gam-drin ar sail 'anrhydedd' a cham-drin domestig. Mae Gorchymyn Amddiffyn Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGMPO)⁵⁴ yn orchymyn sifil y gellir ei wneud at ddibenion diogelu merch neu fenyw rhag cyflawni trosedd FGM – hynny yw, diogelu rhag y risg o FGM neu ddarparu amddiffyniad lle mae trosedd FGM wedi'i chyflawni. Ceir rhagor o wybodaeth yn y [canllawiau statudol ar FGM](#) ac yn y [pecyn adnoddau FGM](#).

⁵¹ Yng Nghymru, mae canllawiau i awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ar drefniadau ar gyfer diogelu plant o dan [Cadw Dysgwyr yn Ddiogel](#).

⁵² Sefydliad Iechyd y Byd. [Anffurfio organau cenhedlu benywod](#): 2020.

⁵³ NHS Digital. [Adroddiad Blynyddol Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod \(FGM\) – Ebrill 2020 i Fawrth 2021](#) (adroddiad ystadegau arbrofol): 2021. Noder mai dim ond 40% o fenywod a merched unigol oedd ag oedran hysbys pan gynhaliwyd FGM.

⁵⁴ [Cael gorchymyn amddiffyn anffurfio organau cenhedlu benywod - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#).

Tactegau cyflawnwyr

99. Nid oes byth unrhyw gyfiawnhad dros gyflawni cam-drin domestig ac er y gall y cyflawnwr ac eraill feio'r dioddefwr am achosi eu hymddygiad, nid bai'r dioddefwr yw hynny. Nid yw rhai cyflawnwyr yn cydnabod bod eu hymddygiad yn gyfystyr â cham-drin domestig, fodd bynnag, mae'r holl gyflawnwyr yn gyfrifol am eu hymddygiad a dylent fod yn atebol amdano.
¹³⁹ Fahmy, E, Williamson E, Pantazis, C. [Adolygiad o dystiolaeth a pholisi: Trais domestig a thlodi](#): Adroddiad ymchwil ar gyfer Sefydliad Joseph Rowntree: Prifysgol Bryste: 2016.

Pennod 6 – Ymateb Asiantaeth i Gam-drin Domestig

Mae'r bennod hon yn ymwneud â:

- Rôl asiantaethau unigol wrth nodi ac ymateb i gam-drin domestig, gan gynnwys asesu risg.
- Cyd-destun canllawiau a strategaethau presennol a rhai o'r offer sydd ar gael i sefydliadau.

Adnabod ac ymateb

223. Mae'r bennod hon yn amlinellu rôl asiantaethau unigol wrth ymateb i gam-drin domestig. Yn aml mae'n cymryd cyfnod sylweddol o amser i ddiodefwyr cam-drin domestig geisio cymorth effeithiol gan asiantaethau.¹⁴⁰ Yn ogystal â hyn, gall diodefwyr cam-drin domestig â nodweddion gwarchoddedig (fel y'u diffinnir gan adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010) wynebu rhwystrau ychwanegol i gyrchu cymorth.¹⁴¹ Gall plant a phobl ifanc hefyd wynebu rhwystrau gwahanol neu ychwanegol i ddatgelu eu cam-drin.¹⁴² 'Gweler ['Pennod 4 – Effaith Cam-drin Domestig'](#) a ['Pennod 5 – Gwahanol brofiadau, anghenion ac ystyriaethau cysylltiedig'](#).

224. O ystyried bod llai nag 1 o bob 5 diodefwr yn riportio eu cam-drin i'r heddlu¹⁴³, nid yw llawer o ddiodefwyr cam-drin domestig yn dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Mae'n bwysig felly bod ystod eang o asiantaethau a chyrrff yn gallu adnabod diodefwyr a gwybod sut i ddarparu'r ymateb cywir. Gall ymyrraeth gynnar gan y sector gwirfoddol ac asiantaethau statudol sy'n gweithio gyda'i gilydd helpu i amddiffyn oedolion a phlant rhag niwed pellach, yn ogystal ag atal cam-drin rhag gwaethygu ac ailadrodd.

225. Dylai asiantaethau cyhoeddus fuddsoddi mewn codi ymwybyddiaeth, hyfforddiant arbenigol a newid systemau o fewn eu gwasanaethau i sicrhau bod diodefwyr yn cael ymatebion effeithiol a diogel a bod gwybodaeth am eu gwasanaethau'n cyrraedd yr ystod o wahanol gymunedau a grwpiau gwarchoddedig yn eu hardaloedd.

226. Lle ymchwilir i dramgwydd troseddol, bydd diodefwyr cam-drin domestig yn cael eu trin fel diodefwyr troseddu o dan God y Diodefwyr yng Nghymru a Lloegr. Mae

¹⁴⁰ SafeLives. [Getting it right first time: 2015](#).

¹⁴¹ See the [Different experiences, needs and related considerations](#) section for further information.

¹⁴² See the [Impact on children](#) section.

¹⁴³ ONS. [Partner abuse in detail – Appendix tables - Office for National Statistics \(ons.gov.uk\)](#): Data year ending March 2018: Table 4.12.

Cod y Dioddefwyr yn nodi'r gwasanaethau, a'r safon ar gyfer y gwasanaethau hyn, y mae'n rhaid i sefydliadau perthnasol eu darparu i ddioddefwyr troseddau. Mae'r hawliau'n ymestyn i riant neu warcheidwad y dioddefwr os yw'r dioddefwr o dan 18 oed, neu lefarydd teulu enwebedig os oes gan y dioddefwr nam meddyliol neu os oes ganddo anghenion cyfathrebu gan gynnwys lle mae hyn wedi codi o ganlyniad i'r drosedd. Mae pa hawliau sy'n berthnasol yn dibynnu ar yr amgylchiadau (megis riportio i'r heddlu neu nodi rhywun a ddrwgdybir sy'n cael ei gyhuddo wedi hynny) fodd bynnag mae gan bob dioddefwr hawl 'i allu deall a chael ei ddeall', 'i gael ei atgyfeirio at wasanaethau sy'n cefnogi dioddefwyr a chael gwasanaethau a chymorth wedi'u teilwra i'w hanghenion ac 'i wneud cwyn nad yw eu hawliau'n cael eu bodloni'. Ceir rhagor o wybodaeth yng [Nghod y Dioddefwyr](#) a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu gosod egwyddorion allweddol Cod y Dioddefwyr yn y gyfraith yn y Bil Dioddefwyr.

227. Mae [Atodiad A](#) yn cyflwyno rhestr nad yw'n hollgynhwysfawr o asiantaethau y gall dioddefwyr cam-drin domestig a'u teuluoedd ddod i gysylltiad â nhw. Diben yr adrannau gwybodaeth isod yw cynorthwyo'r sefydliadau hynny sy'n arfer dyletswyddau diogelu'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol rheng flaen fel y gallant nodi holl ddioddefwyr y cam-drin, gan gynnwys plant a phobl ifanc, a sicrhau eu bod yn cael cymorth ac amddiffyniad wedi'u teilwra i'w hanghenion penodol.

228. Mae'n hanfodol bod asiantaethau yn nodi ac yn ymateb i bob math o gam-drin a phob dioddefwr. O ystyried natur gymhleth cam-drin domestig, mae ymateb amlasiantaethol yn hanfodol i adnabod dioddefwyr a'u teuluoedd yn gynnar a chyn i gam-drin gyrraedd pwynt argyfwng. Mae hyn yn ychwanegol at ddeall y rhagofalon a'r ymateb angenrheidiol ar gyfer rheoli argyfwng a risg gan gynnwys dealltwriaeth gydlynol o anghenion diogelu gan yr holl weithwyr proffesiynol perthnasol. Am fanylion gweler '[Pennod 7 – Ymateb Amlasiantaethol i Gam-drin Domestig](#)'.

Asesu risg

229. Gall gweithwyr proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi i wneud hynny ddefnyddio offer megis yr [asesiad risg Cam-drin Domestig, Stelcio ac Aflonyddu \(DASH\)](#) i helpu i nodi lefel y risg y mae unigolyn yn ei hwynebu ac i deilwra eu cymorth yn unol â hynny.¹⁴⁴ Nid yw offeryn risg DASH yn asesiad diffiniol o risg ond mae'n darparu ar gyfer nodi ac asesu risg yn seiliedig ar farn broffesiynol strwythuredig. Dylai gweithwyr proffesiynol sy'n defnyddio hwn, neu offer asesu risg eraill, fod yn effro i'r risg i blant yn ogystal ag oedolion. Mae'n hanfodol nodi newidiadau, megis difrifoldeb cynyddol a/neu amllder cam-drin.

¹⁴⁴ Mae heddluoedd yn y broses o fabwysiadu'r Asesydd Risg Cam-drin Domestig (DARA).

230. Dylai asesiadau risg gynnwys barn broffesiynol arbenigol yn gyfannol, canfyddiadau goroeswyr o risg, ynghyd â dangosyddion ychwanegol sy'n berthnasol i grwpiau lleiafrifol.¹⁴⁵

Ymateb i blant a phobl ifanc

231. Wrth ymateb i achosion o gam-drin sy'n ymwneud â'r rhai dan 18 oed, dylid dilyn gweithdrefnau diogelu plant fel y nodir yn y ddogfen ganllawiau statudol, [Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant \(2018\)](#). Gall plant a phobl ifanc brofi gwahanol fathau o gam-drin, gweler '[Pennod 2 – Deall Cam-drin Domestig](#)'. Dylai gweithwyr proffesiynol fod yn ymwybodol y gall pobl ifanc fod yn amharod i drafod perthnasoedd neu eu pryderon ynghylch cam-drin ag oedolion. Yn ogystal, gall pobl ifanc fod yn arbennig o analluog i ddelio â rhai heriau ymarferol, megis symud cartref i ddiac rhag y cam-drin neu reoli eu harian eu hunain.

232. Mae angen i bobl ifanc sy'n profi neu'n cyflawni cam-drin yn eu perthnasoedd eu hunain gael eu cefnogi mewn ffordd sydd wedi'i theilwra i'w hanghenion, er efallai y bydd rhaid iddynt ddibynnu'n aml ar wasanaethau arbenigol sydd wedi'u cynllunio ar gyfer oedolion sy'n ddiodefswyr¹⁴⁶ nad ydynt bob amser yn briodol. Mae'n hanfodol bod pobl ifanc sy'n profi cam-drin domestig o fewn eu perthnasoedd eu hunain yn cael eu hatgyfeirio trwy asesiad risg amlasiantaethol.

233. Dylid cynnig cymorth yn seiliedig ar eu hanghenion unigol i blant a phobl ifanc, ag amrywiaeth o ymyriadau, fel bod pob plentyn yn gallu cyrchu'r cymorth arbenigol sydd ei angen arnynt. Gallai hyn gynnwys mynediad at gymorth seicoaddysgol, gwasanaethau therapiwtig (er enghraifft, cwnsela) neu weithwyr cymorth diodefswyr arbenigol i blant neu Gynghorydd Trais Domestig Annibynnol (IDVA) sy'n gallu gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Dangoswyd bod ymagwedd sy'n seiliedig ar gryfderau at adferiad, sy'n adeiladu ar 'y blociau gwydn ym mywyd y plentyn', yn effeithiol mewn ymyriadau i blant.¹⁴⁷

234. Dylai gweithwyr proffesiynol fod wedi'u harfogi i nodi ac ymateb i blant a phobl ifanc sy'n profi cam-drin domestig, gan ddefnyddio'r ystod o gymorth sydd ar gael, o ymyrraeth gynnar i gyfnod o argyfwng. Mae ymatebion arfer gorau yn cynnwys ymateb integredig sy'n cyfuno arbenigedd ym meysydd diogelu plant a cham-drin domestig risg uchel, yn arbennig mewn perthynas ag asesu risg a chynllunio diogelwch. Ceir rhagor o fanylion am ymateb i bobl ifanc sy'n cael eu cam-drin yn y [Briff Ymarfer SafeLives, Canllawiau Respect 'Gweithio gyda thrais a cham-drin pobl](#)

¹⁴⁵ Er enghraifft, [offeryn asesu risg LHDT ROAR; Stay Safe East Asesiad risg diodefswyr anabl; a rhestr wirio risg DASH Pobl Ifanc SafeLives gyda chanllawiau](#).

¹⁴⁶ Gweler Donovan, C., Magic, J., West, S. 2021. [Astudiaeth Mapio Darpariaeth Gwasanaethau Cam-drin Domestig LHDT+](#). Galop, Comisiynydd Cam-drin Domestig, Prifysgol Durham.

¹⁴⁷ Holt, S. et al. 2008. 'Effaith dod i gysylltiad â cham-drin domestig ar blant a phobl ifanc; Adolygiad o'r llenyddiaeth'. Cam-drin Plant ac Esgeuluso 32:8.

[ifanc](#)’ a [Chanllawiau Arfer Da Cymorth i Fenywod ar gyfer gwasanaethau arbenigol i blant a phobl ifanc](#).

235. Dylai gweithwyr proffesiynol gydnabod dynameg, effaith a risg wrth ymateb i achosion o gam-drin plentyn-i-riant. Gall hyn gynnwys, comisiynu gwasanaethau cam-drin plentyn-i-riant lleol arbenigol neu wreiddio staff, o fewn system atgyfeirio ‘drws blaen’ amlasiantaethol, sydd wedi’u hyfforddi i nodi ac ymateb yn briodol i’r plentyn a’r rhiant sy’n ddiodefwr. Mae’n bwysig bod person ifanc sy’n defnyddio ymddygiad camdriniol yn erbyn rhiant neu aelod o’r teulu yn cael ymateb diogelu, a ddylai gynnwys atgyfeiriad i Hyb Diogelu Amlasiantaethol neu swyddog cyfatebol lleol yn y lle cyntaf lle gall rhiant-eiriolwr fod yn bresennol, ac yna atgyfeiriad i Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol os oes angen, ni waeth a gymerir unrhyw gamau gan yr heddlu.
236. Mae'r Swyddfa Gartref yn bwriadu cyhoeddi canllawiau wedi'u diweddarau yn ddiweddarach eleni ar gam-drin plentyn-i-riant. Bydd y canllawiau hyn yn cynnwys yr ymatebion a argymhellir gan yr heddlu, gweithwyr iechyd proffesiynol a gweithwyr cymdeithasol.
237. Mae ymateb sy'n ystyriol o drawma yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau adnabod arwyddion ac effaith trawma ac edrych ar anawsterau pobl drwy 'lens trawma', cydnabod y tebygolrwydd cynyddol o ymddieithrio o wasanaethau safonol a'r angen am wasanaethau sy'n drawma-benodol sy'n ystyried yr angen i ymddiriedaeth a chydweithio perthynol fod yn ganolog i ymyrraeth.¹⁴⁸ Mae ymarfer sy'n ystyriol o drawma yn ceisio mynd i'r afael â'r rhwystrau y gall y rhai yr effeithir arnynt gan drawma eu hwynebu wrth gyrchu gofal a gwasanaethau a gall rôl arfer o'r fath mewn ymyrraeth gynnar ac atal fod yn hollbwysig.
238. I gael gwybodaeth am weithio ar draws asiantaethau i ymateb i blant sy'n profi cam-drin domestig gweler yr adran '[Gweithio amlasiantaethol i ddiogelu plant](#)'.

Addysg

239. Nid yw addysg (gan gynnwys y blynyddoedd cynnar, gofal plant, ysgolion ac addysg uwch) yn fater a gedwir yn ôl ac mae o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, felly dim ond i Loegr y mae gwybodaeth yn yr adran hon yn gymwys.

Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

240. Gall darparwyr blynyddoedd cynnar chwarae rhan allweddol wrth atal a chanfod cam-drin domestig. Mae gan ddarparwyr blynyddoedd cynnar ddyletswydd o dan adran 40 o [Ddeddf Gofal Plant 2006](#) i gydymffurfio â gofynion lles fframwaith statudol Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar (EYFS).

¹⁴⁸ Taggart, D. [Gofal sy'n Ystyriol o Drawma i Bobl Ifanc, Ymchwil ar Waith](#): Darlington: 2018.

241. Rhaid i ddarparwyr blynyddoedd cynnar roi sylw i ['Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant'](#) sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt sicrhau eu bod yn effro i unrhyw faterion sy'n peri pryder ym mywyd y plentyn a bod ganddynt, a'u bod yn gweithredu, polisi a chyfres o weithdrefnau i ddiogelu plant. Rhaid i hyn gynnwys esboniad o'r camau i'w cymryd pan fo pryderon diogelu am blentyn ac os gwneir honiad yn erbyn aelod o staff. Rhaid i'r polisi hefyd gynnwys y defnydd o ffonau symudol a chamerau yn y lleoliad, bod staff yn cwblhau hyfforddiant diogelu sy'n eu galluogi i ddeall eu polisi a'u gweithdrefnau diogelu, meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am faterion diogelu, ac adnabod arwyddion o gam-drin ac esgeuluso posibl.

242. Rhaid i ddarparwyr blynyddoedd cynnar sicrhau bod ganddynt ymarferydd sydd wedi'i ddynodi i gymryd cyfrifoldeb arweiniol am ddiogelu plant ym mhob lleoliad blynyddoedd cynnar ac y mae'n rhaid iddo gysylltu â gwasanaethau plant statudol lleol fel y bo'n briodol. Rhaid i'r arweinydd hwn hefyd gwblhau hyfforddiant amddiffyn plant.

Ysgolion a cholegau

243. Mae staff ysgolion a cholegau yn arbennig o bwysig gan eu bod mewn sefyllfa unigryw i nodi pryderon yn gynnar, darparu cymorth i blant ac atal pryderon rhag gwaethygu. Gall lleoliadau ysgol hefyd gynyddu cyfleoedd i gam-drin rhywiol a pherthnasoedd ac ymddygiadau niweidiol eraill ddatblygu rhwng cyfoedion.¹⁴⁹

244. Rhaid i ysgolion a cholegau roi sylw i ganllawiau statudol [Cadw Plant yn Ddiogel mewn Addysg](#) (KCSIE).¹⁵⁰ Mae'r canllawiau hyn yn darparu, os yw plentyn wedi'i niweidio neu mewn perygl o gael ei niweidio, y dylid atgyfeirio'r achos i ofal cymdeithasol plant ar unwaith, ac, os yw'n briodol, i'r heddlu. Mae'r canllawiau'n cynnwys atodiad sy'n rhoi gwybodaeth ychwanegol i staff ar fathau penodol o niwed a cham-drin, gan gynnwys nodi ac ymateb i gam-drin domestig.

245. Mae KCSIE yn glir y dylai ysgolion a cholegau sicrhau bod yr holl staff yn cael hyfforddiant diogelu sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd fel y gallant gymryd camau priodol i nodi, amddiffyn a chefnogi plant. Gallai hyfforddiant gynnwys archwilio cam-drin domestig, gan gynnwys dymmeg anghydraddoldeb, pŵer a rheolaeth, sy'n sail i gam-drin domestig; y gwahanol ffurfiau y gall cam-drin domestig eu cymryd ac effaith cam-drin domestig ar blant a phobl ifanc. Gallai hyn gynnwys cam-drin domestig o fewn lleoliadau teuluol yn ogystal â cham-drin a gyflawnir rhwng plant a phobl ifanc naill ai yn eu perthnasoedd agos eu hunain neu tuag at eu teulu.

246. Dylai fod gan bob ysgol a choleg arweinydd diogelu dynodedig sy'n rhoi cymorth i aelodau staff gyflawni eu dyletswyddau diogelu ac a fydd yn cysylltu'n agos â gwasanaethau eraill, megis gofal cymdeithasol plant a'r heddlu. Dylai'r arweinydd fod

¹⁴⁹ Brown, S., Redmond, T., Rees, D., Ford, S. a King, S. (2020). [Adroddiad Thematig Prosiect Gwirionedd: Cam-drin plant yn rhywiol yng nghyd-destun ysgolion](#). Llundain: Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.iicsa.org.uk/publications/research/csa-schools>.

¹⁵⁰ Yng Nghymru, mae canllawiau i awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ar drefniadau ar gyfer diogelu plant o dan [Cadw Dysgwyr yn Ddiogel](#).

yn uwch aelod o staff, mae manylion llawn y rôl wedi'u nodi yn [Cadw Plant yn Ddiogel mewn Addysg](#). Wrth ystyried anghenion plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt, efallai y bydd ysgolion a cholegau hefyd am ystyried eu dyletswyddau mewn perthynas â phlant ag anghenion addysgol arbennig, gan gynnwys y rheini â phroblemau ymddygiad, a chyfeirio at God Ymarfer SEND.

247. Mae [canllawiau hefyd ar gael ar drais rhywiol plentyn-ar-blentyn ac aflonyddu rhywiol mewn ysgolion a cholegau](#) yn Lloegr.

248. Mae'r sefydliad Operation Encompass wedi creu protocol rhannu gwybodaeth rhwng heddluoedd ac ysgolion fel y gall yr heddlu hysbysu arweinwyr diogelu dynodedig am ddigwyddiadau cam-drin domestig sy'n ymwneud â phlentyn. Mae'r heddlu'n hysbysu ysgolion am bob digwyddiad cam-drin domestig cyn dechrau'r diwrnod ysgol nesaf fel bod staff ysgol priodol a hyfforddedig yn cael gwybod am ddigwyddiadau ac yn gallu cefnogi'r plentyn yn unol â hynny pan ydynt yn dod i mewn i'r ysgol. Er mai dim ond yn yr achosion mwyaf difrifol y mae gwasanaethau cymdeithasol plant yn ymyrryd, mae Operation Encompass yn galluogi pob plentyn i gael cymorth, ni waeth a yw'r digwyddiad wedi'i gofnodi fel trosedd neu beidio. Nid yw'n disodli gweithdrefnau diogelu statudol. Lle bo'n briodol, dylai'r heddlu a/neu ysgolion wneud atgyfeiriad i ofal cymdeithasol plant os ydynt yn pryderu am les plentyn. Mae [canllawiau statudol Cadw Plant yn Ddiogel mewn Addysg](#) yn ei gwneud yn glir, lle mae pryderon diogelu ynghylch plentyn neu berson ifanc, y dylai'r arweinydd diogelu dynodedig ac unrhyw ddirprwyon gysylltu â'r tri phartner diogelu a gweithio gydag asiantaethau eraill, yn unol â '[Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant](#)'.

249. Ceir rhagor o wybodaeth am Operation Encompass drwy'r astudiaeth achos ym Mluch 6.1. Mae holl heddluoedd Cymru a Lloegr bellach yn defnyddio Operation Encompass ac anogir pob ysgol i ymuno â'r cynllun.

250. Gall pryderon ynghylch cael lleoliad ysgol i'w plant fod yn rhwystr i ddioddefwyr ddianc rhag cam-drin domestig hanner ffordd drwy'r flwyddyn ysgol a cheisio lloches neu lety diogel, yn arbennig os yw'n golygu gadael yr ardal neu greu anhawster i blant barhau i fynychu ysgol ffydd. Fodd bynnag, gall rhieni wneud cais am le i'w plentyn mewn unrhyw ysgol ar unrhyw adeg; a phan fo lleoedd ar gael, rhaid derbyn y plentyn. Yn 2020, ymgynghorodd yr Adran Addysg ar becyn o newidiadau i'r [Cod Derbyn i Ysgolion](#) i wella'r broses dderbyn yn ystod y flwyddyn ac i leihau bylchau yn addysg plant. Roedd hyn yn cynnwys cynigion penodol i gefnogi derbyn plant dioddefwyr cam-drin domestig yn ystod y flwyddyn. Daeth y Cod Derbyn i Ysgolion newydd sy'n cynnwys y darpariaethau hyn i rym ym mis Medi 2021. Cyflwynodd y newidiadau categorïau newydd o blant y mae'n rhaid eu lleoli trwy Brotocolau Mynediad Teg (FAP) lleol - y mecanwaith i sicrhau bod lle mewn ysgol yn cael ei ddyrannu i blant agored i niwed ac sydd heb eu lleoli mor gyflym â phosibl i gynnwys "plant sy'n byw mewn lloches neu Lety Perthnasol arall" a phlant "sy'n destun Cynllun Plentyn mewn Angen neu Gynllun Amddiffyn Plant" (neu sydd wedi cael un o fewn y

12 mis diwethaf). Mae'n ofynnol i bob awdurdod derbyn gymryd rhan yn ei FAP lleol. Mae hyn yn cynnwys derbyn plant a atgyfeiriwyd i'w hysgol drwy'r FAP. Gwnaed newidiadau eraill hefyd i wella gweithrediad cyffredinol FAPs, gan gynnwys gofyniad bod rhaid dyrannu lle i blant o fewn 20 diwrnod ysgol o gael eu cyfeirio at y FAP. Gyda'i gilydd, bydd y newidiadau hyn o fudd i bob plentyn sydd angen symud ysgol ar ganol blwyddyn ysgol, ond byddant yn arbennig o fuddiol i'r rhai mwyaf agored i niwed, gan gynnwys y rhai sydd angen symud ysgol o ganlyniad i gam-drin domestig.

251. Mae deall perthnasoedd iach yn ganolog i Addysg Perthnasoedd, Rhyw ac Iechyd (RHSE) gorfodol plentyn yn yr ysgol. Mae'r testun 'Bod yn Ddiogel' yn cefnogi plant i adnabod ac adrodd am deimladau o fod yn anniogel ac mae'n ymdrin â chysyniadau, a chyfreithiau sy'n ymwneud â chydysyniad rhywiol, camfanteisio rhywiol, cam-drin, meithrin perthynas amhriodol, gorfodi, aflonyddu, trais rhywiol, cam-drin domestig, priodas dan orfod,' cam-drin ar sail anrhydedd ac FGM, a sut y gall y rhain effeithio ar berthnasoedd presennol ac yn y dyfodol. Rhaid i ysgolion roi sylw i [ganllawiau statudol RSHE](#), a lle mae eu harferion yn gwyro oddi wrth rannau o'r canllawiau sy'n nodi y dylent neu na ddylent wneud rhywbeth, bydd angen iddynt fod â rheswm da dros wneud hynny. Mae'r Llywodraeth yn cefnogi athrawon i gyflwyno addysgu o ansawdd uchel sy'n briodol i'r oedran ar y pwnc ac adeiladu ymwybyddiaeth o bob math o gam-drin trwy [fodiwlau hyfforddi athrawon sydd ar gael ar GOV.UK](#).

252. Nid oes unrhyw hawl i dynnu'n ôl o RSHE, lle mae'r testun Bod yn Ddiogel yn cael ei addysgu, yn yr ysgol gynradd neu'r ysgol uwchradd. Mae cynnwys y pwnc hwn yn hanfodol i gefnogi lles a chyrhaeddiad disgyblion a helpu pobl ifanc i ddod yn oedolion llwyddiannus a hapus sy'n gwneud cyfraniad ystyrlon i gymdeithas.

253. Os bydd ysgol gynradd yn dewis addysgu addysg rhyw a bod rhiant yn dymuno tynnu ei blentyn yn ôl, rhaid i'r pennaeth gydymffurfio â'i ddymuniad. Ar gyfer disgyblion mewn ysgolion uwchradd mae canllawiau statudol RSHE yn nodi, oni bai bod amgylchiadau eithriadol, y dylid caniatáu cais y rhieni i dynnu eu plentyn allan o addysg rhyw tan dri thymor cyn i'r disgybl droi'n 16 oed. Bryd hynny, os yw'r plentyn yn dymuno cymryd rhan mewn gwersi addysg rhyw, dylai'r pennaeth sicrhau ei fod yn ei dderbyn yn un o'r tymhorau hynny.

Blwch 6.1: Astudiaeth Achos – Operation Encompass

Astudiaeth Achos

Derbyniodd Arweinydd Diogelu Dynodedig (DSL) ysgol alwad gan Operation Encompass yn ymwneud ag un o'u disgyblion. Roedd digwyddiad wedi bod rhwng mam y plentyn a'i phartner y noson flaenorol.

Siaradodd y DSL ag athro dosbarth y plentyn a oedd wedyn yn barod i'r plentyn derbyn ifanc ymddwyn yn wahanol i'w hunan arferol ac a oedd yn barod i gynnig cymorth, boed yn ddistaw neu'n agored, yn unol â dymuniadau'r plentyn.

Cyrhaeddodd y plentyn y dosbarth gyda'i fam a'i dedi. Byddai ei athrawes ddosbarth fel arfer naill ai wedi gofyn iddo roi'r tedi mewn man diogel yn yr ystafell ddosbarth neu wedi gofyn iddo a oedd am i'w fam fynd â'r tedi adref er mwyn iddo fod yn ddiogel. Ni wnaeth y naill na'r llall, gan gydnabod bod ei dedi wedi'i ddwyn am reswm. Roedd y plentyn yn cofleidio ei dedi drwy'r dydd a hyd yn oed yn dod ag ef i'w therapi lleferydd yn yr ysgol. Roedd ei athro dosbarth yn ei gefnogi'n dawel drwy'r dydd, gan weithio wrth ei ymyl a rhoi gwybod iddo ei bod hi yno.

Wrth gael eu hysbysu cyn gynted â phosibl am brofiad y plentyn o gam-drin domestig, roedd yr athro a'r ysgol wedi bod yn barod i ymateb a chefnogi anghenion unigol y plentyn.

Addysg Uwch

254. Mae gan ddarparwyr Addysg Uwch (AU) gyfrifoldebau clir, gan gynnwys o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a dylai fod ganddynt bolisiâu a gweithdrefnau cadarn ar waith i gydymffurfio â'r gyfraith, ac i ymchwilio ac ymdrin yn gyflym ag adroddiadau o drais.
255. Mae'r Llywodraeth yn parhau i weithio'n agos gyda Universities UK (UUK) ar weithredu ei fframwaith [Newid y Diwylliant](#), sy'n ceisio mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, aflonyddu a throseddau casineb. Mae tan-gofnodi cam-drin a thrais domestig yn gyffredin ac mae'n bwysig bod darparwyr yn chwalu rhwystrau i adrodd a bod myfyrwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu adrodd am bob achos o gam-drin, aflonyddu a thrais.
256. Dylai pob darparwr AU gyflawni ei gyfrifoldebau'n llawn a chael polisiâu a gweithdrefnau cadarn ar waith i fynd i'r afael ag aflonyddu, gan wneud yn siŵr bod AU yn brofiad boddhaus a chroesawgar i bawb. Byddai'r Llywodraeth yn disgwyl i ddarparwyr sicrhau bod myfyrwyr yn parhau i gael mynediad at wasanaethau cymorth, a phrosesau cwyno, i sicrhau eu bod yn gallu adrodd am unrhyw faterion. Mae rhwydwaith HARM (Prifysgol Caerhirfryn) wedi datblygu a chyhoeddi ei [ganllawiau polisi ei hun ar gyfer Prifysgolion y DU](#), gan annog prifysgolion i roi polisiâu a gweithdrefnau penodol ar waith i fynd i'r afael â cham-drin domestig er mwyn amddiffyn myfyrwyr a staff.
257. Gall unrhyw fyfyrwr sy'n teimlo nad yw ei gŵyn wedi'i thrin yn briodol neu'n foddhaol godi ei gŵyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA).

Gofal Cymdeithasol

258. Nid yw gofal cymdeithasol yn fater a gedwir yn ôl ac mae o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, felly dim ond i Loegr y mae gwybodaeth yn yr adran hon yn gymwys.

259. Yng Nghymru, darperir canllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol a gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol o dan [Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#). Mae'r Ddeddf hon yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth, ac am drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Rhaid i Weithwyr Cymdeithasol yng Nghymru fodloni [safonau proffesiynol Gofal Cymdeithasol Cymru](#) a'r [Cod Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol](#). Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn rheoleiddio ac yn gosod safonau ar gyfer hyfforddiant addysg gwaith cymdeithasol yng Nghymru.

Gofal Cymdeithasol Plant

260. Cam-drin domestig yw'r ffactor risg mwyaf cyffredin a nodir gan weithwyr cymdeithasol mewn asesiadau ac mae'n ffactor allweddol sy'n sbarduno angen am ofal cymdeithasol plant.¹⁵¹ Mae gweithwyr cymdeithasol plant felly yn bartner pwysig o ran nodi cam-drin domestig ac ymateb y gwasanaeth - boed drwy ymgysylltu â theuluoedd i gadw plant yn ddiogel rhag niwed, cefnogi ymateb diogelu i ddiodefwrwr yn eu harddegau neu gyflawnwyr cam-drin partner agos, dod o hyd i'r gofal gorau posibl pan na all plant fyw gartref, neu greu'r amodau sy'n galluogi plant i ffynnu a chyflawni. Mae gweithwyr cymdeithasol plant yn chwarae rhan hanfodol yn yr ymateb amlasiantaethol ehangach, ochr yn ochr â phartneriaid diogelu eraill, statudol ac anstatudol, megis yr heddlu, ysgolion, ac iechyd, i helpu i amddiffyn plant.

261. Rhaid i bob gweithiwr cymdeithasol fodloni safonau proffesiynol Social Work England (SWE) ar gyfer cofrestru (a rhaid i hyfforddiant cychwynnol baratoi gweithwyr cymdeithasol newydd i fodloni'r safonau hyn). Mae'r [Canllawiau Safonau Proffesiynol](#) yn datgan bod rhaid i weithwyr cymdeithasol ddefnyddio damcaniaethau, modelau ac ymchwil gwaith cymdeithasol, ochr yn ochr â thystiolaeth o asesiadau, wrth lunio eu barn broffesiynol. Wrth ymateb i gam-drin domestig, gallai hyn gynnwys ystyried ffactorau risg hysbys sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig megis beichiogrwydd,¹⁵² yn ogystal â chyd-ddigwydd â ffactorau eraill, gan gynnwys afiechyd meddwl oedolion a defnyddio sylweddau.¹⁵³ Mae'n bwysig bod gweithwyr cymdeithasol yn parhau i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau trwy ddatblygiad proffesiynol parhaus; dylai hyn gynnwys dealltwriaeth o'r gwahanol fathau o gam-drin domestig. Mae'n ofynnol i bob

¹⁵¹ Yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021, cam-drin domestig (pryderon am riant) oedd y ffactor mwyaf cyffredin a nodwyd ar ddiwedd yr asesiad o hyd, a gofnodwyd mewn 168,960 o achosion o blant mewn angen (34% o'r holl gyfnodau lle cofnodwyd gwybodaeth ffactor asesu). ONS. [Nodweddion plant mewn angen](#): 2020 i 2021: Blwyddyn ddata a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021.

¹⁵² Yakubovich, A, et al. [Ffactorau risg ac amddiffynnol ar gyfer trais partner agos yn erbyn menywod: Adolygiad systematig a meta-ddadansoddiadau o ddarpar astudiaethau hydredol](#): American Public Health Association: 2018: 108(7).

¹⁵³ Humphreys, C, Regan, L, River, D, a Thiara, RK. [Trais Domestig a Defnyddio Sylweddau: Mynd i'r Afael â Chymhlethdod](#): The British Journal of Social Work: 2005: 35(8), 1303–1320.

gweithiwr cymdeithasol ymgymryd â datblygiad a hyfforddiant a lanlwytho cofnod o hyn i gynnal eu cofrestrriad gyda SWE. Dylai hyfforddiant fod yn bwrpasol ac yn mynd i'r afael yn benodol â phrofiadau ac anghenion plant a phobl ifanc o wahanol hunaniaethau a chefnidiroedd.

262. Unwaith y bydd gweithwyr cymdeithasol plant a theuluoedd wedi cymhwyso, mae disgwyliadau clir yn y Safonau Ôl-gymhwyso (PQS) o dan [Ddeddf Plant a Gwaith Cymdeithasol 2017](#). Mae'r 'Safon Ôl-gymhwyso: Datganiad Gwybodaeth a Sgiliau ar gyfer Ymarferwyr Plant a Theuluoedd' yn nodi, er enghraifft, y disgwyliad bod gan weithwyr cymdeithasol plant a theuluoedd y wybodaeth a'r sgiliau i nodi effaith cam-drin domestig a gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau bod oedolion sy'n agored i niwed yn cael eu diogelu a bod plant yn cael eu hamddiffyn.
263. O ystyried natur llechwraidd cam-drin domestig sydd yn aml yn gudd, mae'n hollbwysig bod gweithwyr cymdeithasol yn defnyddio chwilfrydedd proffesiynol i adnabod patrymau ymddygiad dros amser. Dylai gweithwyr cymdeithasol ddeall y stigma a'r ofn a all fod gan ddiodeffwyr wrth ddatgelu cam-drin domestig, gan gynnwys ofn y rhiant nad yw'n cam-drin y posibilrwydd y tynnnir eu plant, pe byddent yn datgelu cam-drin. Dylent hefyd fod yn effro i'r ffyrdd y gallai cyflawnwyr geisio eu trin hwy neu weithwyr proffesiynol eraill. Gall y stigma hwn gael ei waethygu gan ffactorau croestoriadol a allai greu rhwystrau pellach o ran datgelu. Dylai fod gan weithwyr cymdeithasol y gallu i feithrin perthnasoedd empathig ac ymddiriedus i geisio goresgyn hyn, gan ddeall naws pob sefyllfa a gweithio gyda dymuniadau'r diodeffwr lle bo modd.
264. Mae'r canllawiau statudol '[Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant](#)' yn glir y dylai ymarferwyr bob amser ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn, gan gadw'r plentyn mewn ffocws wrth wneud penderfyniadau am ei fywyd a gweithio mewn partneriaeth â nhw a'u teuluoedd. Dylai ymarferwyr weld a siarad â phlant, gwranddo arnynt, a chymryd eu barn o ddifrif, gan weithio gyda nhw a'u teuluoedd i benderfynu sut i gefnogi eu hanghenion. Dylid rhoi darpariaeth arbennig ar waith i gefnogi deialog gyda phlant sydd ag anawsterau cyfathrebu a/neu rwystrau iaith.
265. Mae ymarferwyr yn gweithio'n fwyaf effeithiol pan ydynt yn gallu cyfuno gwybodaeth ymarferol, damcaniaethol, therapiwtig a systemig. O fewn y system statudol, rhaid i weithwyr cymdeithasol geisio deall ac ystyried dymuniadau'r plentyn lle bo modd.
266. Bydd ymarfer gwaith cymdeithasol effeithiol yn adeiladu ar ddealltwriaeth y gall datgeliad llawn – gan oedolyn neu ddiodeffwr sy'n blentyn – gymryd amser ac ymddiriedaeth. Ni ddylai ymarferwyr ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar ddatgelu a chydnabod nad yw ei absenoldeb o reidrwydd yn golygu nad yw cam-drin yn digwydd. Mae hyn yn cynnwys deall yr effeithiau gwahanol y gall cam-drin domestig eu cael ar blant a sut mae'r effeithiau hyn yn bresennol yn eu hymddygiad (a nodir yn yr adran '[Effaith ar ddiodeffwyr sy'n blant](#)' ym [Mhennod 4 – Effaith Cam-drin Domestig](#)).
267. Dylid gwneud ymdrechion i ddarparu cymorth i blant i gynnal a pharhau perthnasoedd â'r rhiant nad yw'n cam-drin, ac i gyfeirio'r ffocws proffesiynol ar weithio gyda'r teulu cyfan, gan gynnwys unrhyw blant sy'n byw y tu allan i'r cartref, i'w helpu i

fod yn ddiogel ac adfer. Dylai gweithwyr cymdeithasol weld pob aelod o'r teulu fel un rhan o ddarlun cymhleth. Dylai ymarferwyr geisio deall y perthnasoedd rhiant-plentyn sy'n digwydd, gan nodi effeithiau niweidiol y cam-drin domestig, a chydabod y cysylltiadau rhwng cam-drin cyflawnwr a'u rhianta, gan eu dwyn i gyfrif yn unol â hynny. Fodd bynnag, dylid rhoi ystyriaeth ofalus i ddiogelwch y dioddefwr a'r rhiant nad yw'n cam-drin, ac efallai na fydd bob amser yn briodol nac yn ddiogel i wasanaethau ymgysylltu â'r cyflawnwr ar yr un pryd. Dylai gwasanaethau hefyd sicrhau cydbwysedd priodol o gyfrifoldeb ar amddiffyn y plentyn dan sylw a dylent fod yn glir mai'r cyflawnwr sy'n atebol am y niwed a achosir. Mae'n bwysig bod sawl sianel ymgysylltu i herio cyflawnwyr er mwyn nodi, deall a newid ymddygiad. Ni ddylai hyn eistedd o fewn y system cyfiawnder troseddol yn unig.¹⁵⁴

268. Dylai gweithwyr cymdeithasol hefyd fod yn ymwybodol o'r ffyrdd y gall cyflawnwyr geisio defnyddio'r berthynas rhwng y rhiant nad yw'n cam-drin a'r plentyn fel arf rheolaeth drwy orfodaeth. Gallant hefyd geisio dylanwadu ar y berthynas rhwng y plentyn a'r rhiant nad yw'n cam-drin.
269. Os yw plant a theuluoedd i gael cymorth ar yr adeg gywir, mae gan ymarferwyr sy'n dod i gysylltiad â nhw ran i'w chwarae wrth nodi pryderon, rhannu gwybodaeth a chymryd camau prydlon. Mae manylion am waith amlasiantaethol i ddiogelu plant wedi'u cynnwys ym '[Mhennod 7 - Ymateb Amlasiantaethol i Gam-drin Domestig](#)'.
270. Mae gan yr awdurdod lleol a'i weithwyr cymdeithasol rolau a chyfrifoldebau penodol i arwain yr asesiad statudol o blant mewn angen ac i arwain ymholiadau amddiffyn plant, gan gynnwys ar gyfer plant mewn teuluoedd nad oes ganddynt hawl i arian cyhoeddus.
271. O fewn un diwrnod gwaith i dderbyn atgyfeiriad, dylai gweithiwr cymdeithasol awdurdod lleol gydnabod ei dderbyn i'r atgyfeiriwr a gwneud penderfyniad ynghylch y camau nesaf a'r math o ymateb sydd ei angen. Bydd hyn yn cynnwys penderfynu:
- a oes angen amddiffyn ar y plentyn ar unwaith ac angen gweithredu ar frys;
 - a yw'r plentyn mewn angen ac a ddylid cael ei gyrchu o dan adran 17 o Ddeddf Plant 1989;
 - a oes achos rhesymol i amau bod y plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol, ac a ddylid gwneud ymholiadau ac asesu'r plentyn o dan adran 47 o Ddeddf Plant 1989;
 - a oes angen unrhyw wasanaethau ar y plentyn a'r teulu a pha fath o wasanaethau;
 - a oes angen asesiadau arbenigol pellach i helpu'r awdurdod lleol i benderfynu pa gamau pellach i'w cymryd;
 - a ddylid gweld y plentyn cyn gynted â phosibl, os penderfynir bod angen asesiad pellach o'r atgyfeiriad.

¹⁵⁴ Yr Adran Addysg. [Rhaglen Arloesedd Gofal Cymdeithasol Plant, Dulliau Teulu Cyfan o Fynd i'r Afael â Cham-drin Domestig](#): 2017.

Dylai pob asesiad dynnu gwybodaeth berthnasol a gasglwyd oddi wrth y plentyn a'i deulu ac ar gyfer ymarferwyr perthnasol gan gynnwys athrawon, staff ysgol, gweithwyr blynyddoedd cynnar, ymarferwyr iechyd, yr heddlu, a gofal cymdeithasol oedolion.

272. Mae'r arolygiad ardal wedi'i dargedu ar y cyd (JTAI) 2017 ar Yr ymateb amlasiantaethol i blant sy'n byw gyda cham-drin domestig - ymateb asiantaethol i blant sy'n byw gyda cham-drin domestig, a gynhaliwyd gan Ofsted, y Comisiwn Ansawdd Gofal, Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi a'r Gwasanaethau Tân ac Achub (HMICFRS), ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (HMIP), yn cynghori ar arfer da yn y maes hwn. Mae'r adroddiad yn amlygu pwysigrwydd cael cydbwysedd rhwng ymateb i argyfyngau unigol uniongyrchol, a datblygu atebion hirdymor i'r teulu, gan gynnwys rhoi sylw i anghenion cyffredinol plant. Mae deall effaith emosiynol a seicolegol cam-drin domestig yn hynod heriol, a bydd gweithwyr cymdeithasol yn defnyddio ystod eang o sgiliau wrth asesu ac ymateb yn effeithiol.

273. Amlygodd y JTAI hefyd yr angen i:

- ddatblygu offer sy'n briodol i'r oedran i ddeall yr ystod o risgiau y mae plant yn eu hwynebu;
- mabwysiadu ffocws systematig ar ymddygiad y cyflawnwr yn hytrach na chanolbwyntio ar y dioddefwr yn unig fel yr unig ateb; a
- helpu ysgolion i gefnogi dioddefwyr a theuluoedd, yn arbennig o ystyried y rôl amddiffynnol y gall addysg ei chwarae pan gaiff effaith cam-drin domestig ei deall yn llawn a'i hystyried.

274. Mae'n bwysig i weithwyr cymdeithasol weithio mewn partneriaeth â phlant, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol, gan fod yn awdurdodol ac yn empathig ac yn cydnabod y cywilydd, yr ofn a'r gwrthwynebiad a all ymwneud â cham-drin domestig. Wrth wneud hynny, gallant dynnu ar nodweddion allweddol arfer effeithiol, gan gynnwys defnyddio dull systemig sy'n seiliedig ar gryfderau, gwneud gwaith uniongyrchol medrus a goruchwyliaeth ac ymarfer myfyriol o fewn eu sefydliad, megis trafodaethau achos grŵp.

275. Mae dulliau teulu cyfan llwyddiannus yn defnyddio timau amlddisgyblaethol sy'n gallu mynd i'r afael â materion ar sawl agwedd a rhannu cyfrifoldeb a risg ar draws gweithwyr proffesiynol. Mae'n hanfodol bod gweithwyr cymdeithasol yn gweithio'n effeithiol ar draws yr holl asiantaethau diogelu, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol iechyd a'r heddlu, mewn ymateb i gam-drin domestig, gan gynnwys ymweliadau a dulliau gweithredu ar y cyd lle bo'n briodol, a mabwysiadu llif amserol o wybodaeth i sicrhau bod cynlluniau ac ymyriadau'n gyson. Mae hyn yn cynnwys arbenigwyr plant ac oedolion a, lle maent ar gael, dylid cynnwys gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol lleol. Mae ffocws ar faterion sylfaenol gan gynnwys iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau yn bwysig er mwyn torri cylchoedd ymddieithrio ac aildroseddu.

276. Gall cydleoli arbenigwyr helpu i hwyluso gwaith amlddisgyblaethol yn arbennig mewn manau y mae teuluoedd eisoes yn eu hadnabod ac yn teimlo'n gyfforddus

ynddynt. Dylid rhannu data o fewn timau a rhyngddynt, gan gynnwys cofnodi ansoddol profiadau teuluoedd o weithio gyda gweithwyr proffesiynol. Gall gweithwyr ar wahân ar gyfer dioddefwyr a chyflawnwyr ac ar gyfer oedolion a phlant, sy'n gweithredu o fewn yr un tîm, fod yn hanfodol i feithrin ymddiriedaeth teuluoedd a sicrhau diogelwch.¹⁵⁵

Blwch 6.2: Astudiaeth Achos – Dull system gyfan o ddiogelu plant

Astudiaeth Achos

Mae Diogelu Teuluoedd Swydd Hertford yn ddull system gyfan arloesol o ddiogelu plant a phobl ifanc. Fe'i datblygwyd yn 2014 gan Gyngor Swydd Hertford gan ddefnyddio cyllid Rhaglen Arloesi'r Adran Addysg. Mae'n cael ei gyflwyno ar hyn o bryd fel rhan o raglen Cryfhau Teuluoedd, Amddiffyn Plant yr Adran Addysg.

Mae'r dull yn gosod ymarferwyr iechyd meddwl arbenigol, gweithwyr cam-drin domestig, swyddogion prawf a gweithwyr cymdeithasol plant gyda'i gilydd mewn tîm Diogelu Teuluoedd i roi cymorth uniongyrchol i rieni. Dechreuodd Swydd Hertford fabwysiadu'r model arfer hwn yn 2015 ac mae wedi gweld canlyniadau sylweddol gwell i blant a'u teuluoedd.

Mae mabwysiadu dull teulu cyfan yn ei gwneud yn hawdd i rieni gyrchu'r holl gymorth sydd ei angen arnynt o fewn un tîm, i'w helpu i ymdrin â materion cymhleth cam-drin domestig, iechyd meddwl a cham-drin cyffuriau/alcohol sy'n niweidio eu bywydau a bywydau eu plant. Mae staff hefyd wedi'u hyfforddi mewn Cyfweld Ysgogiadol, techneg a ddefnyddir i gefnogi newid ymddygiad, gan fanteisio ar gryfderau ac adnoddau'r teulu a'r rhwydwaith cymorth ehangach i sicrhau bod plant a theuluoedd agored i niwed yn cael eu diogelu.

O ganlyniad, gwelodd Swydd Hertford nifer y plant ar gynlluniau amddiffyn plant yn gostwng 55% mewn dim ond 30 mis. Lleihaodd amlygiad plant i ymddygiadau niweidiol gan rieni'n sylweddol, ac ar yr un pryd gwelodd eu presenoldeb yn yr ysgol a'u cyfleoedd bywyd. Cyflawnodd hefyd leihad o 39% yn nifer y diwrnodau a dreuliyd gan blant mewn gofal, ar gyfer achosion a neilltuwyd i'r tîm diogelu, gostyngiad o 53% mewn derbyniadau i'r ysbyty ar gyfer oedolion yn y teulu hwnnw, a gostyngiad o 66% mewn cysylltiad â'r heddlu.

Mae'r dull hwn yn un o dri model sy'n cael eu cyflwyno i 17 o awdurdodau lleol fel rhan o'r [Rhaglen Cryfhau Teuluoedd, Amddiffyn Plant](#).

Gofal Cymdeithasol i Oedolion

277. Gall fod gan ddioddefwyr cam-drin domestig hefyd anghenion gofal a chymorth a'u bod eisoes yn ymwneud ag asiantaethau diogelu. Gall unigolion, sydd ag anghenion gofal a chymorth, fod yn arbennig o agored i gam-drin domestig gan bartneriaid agos neu aelodau o'r teulu, a all ddefnyddio'r ffaith bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu fel yswiriant ar gyfer eu cam-drin. Gweler yr adrannau ar '[Ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol](#)' a '[Cam-drin economaidd](#)' ym '[Pennod 3 – Cydnabod Cam-drin Domestig](#)'.

¹⁵⁵ Yr Adran Addysg. [Rhaglen Arloesi Gofal Cymdeithasol Plant](#): 2017.

278. Mae'r [Ddeddf Gofal 2014](#)¹⁵⁶ yn nodi bod rhyddid rhag cam-drin ac esgeulustod yn agwedd allweddol ar les person – mae hyn yn cynnwys cam-drin domestig. Mae'r darpariaethau diogelu oedolion yn Neddf Gofal 2014 yn berthnasol i oedolyn y mae'n ymddangos bod arno anghenion gofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod lleol yn diwallu'r anghenion hynny ai peidio), sydd yn profi neu sydd mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso, ac, o ganlyniad i'r anghenion gofal a chymorth hynny, yn methu ag amddiffyn eu hunain rhag y risg o'r cam-drin neu'r esgeulustod hwnnw, neu'r profiad ohono.¹⁵⁷

279. O dan [Ddeddf Gofal 2014](#), mae gan awdurdod lleol ddyletswyddau i:

- Gwneud, neu achosi i, ymholiadau gael eu gwneud os oes ganddo achos rhesymol i amau bod yr oedolyn yn profi neu mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso;
- Penderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau, os felly gan bwy, a pha gamau y dylid eu cymryd. Mae gan bob awdurdod lleol weithdrefnau diogelu oedolion i gefnogi ymholiadau o'r fath a chydgyssylltu camau gweithredu gyda sefydliadau partner;
- Trefnu bod eiriolaeth annibynnol ar gael i oedolion sy'n cael anhawster i gymryd rhan yn y broses, a lle nad oes oedolyn priodol arall i'w cynorthwyo;
- Cydweithio ag asiantaethau eraill;
- Sefydlu Bwrdd Diogelu Oedolion ar gyfer ei ardal i roi sicrwydd bod trefniadau diogelu lleol a phartneriaid yn gweithredu i helpu ac amddiffyn oedolion sydd mewn perygl o gam-drin neu esgeulustod. Mae gan Fyrddau Diogelu Oedolion yr awdurdod hefyd i gynnal Adolygiadau Diogelu Oedolion pan fo oedolyn ag anghenion gofal a chymorth wedi dioddef niwed difrifol, esgeulustod neu farwolaeth; a
- Sefydlu a chynnal gwasanaeth ar gyfer darparu gwybodaeth a chynghor i bobl yn ei ardal, gan gynnwys ar sut i godi pryderon am ddiogelwch neu les oedolyn sydd ag anghenion gofal a chymorth.

280. Yn ogystal â'r dyletswyddau statudol penodol i ddiogelu oedolion ag anghenion gofal a chymorth, mae gan awdurdodau lleol nifer o ddyletswyddau cyffredinol o dan Ran 1 o Ddeddf Gofal 2014. Mae'r rhain yn cynnwys dyletswydd i hybu lles unigolion ac atal anghenion gofal a chymorth rhag datblygu, drwy hybu urddas personol unigolion; lles emosiynol, cymdeithasol ac economaidd; cymryd rhan mewn cymdeithas; a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Yn ogystal, mae dyletswyddau penodol i gynnal asesiad o anghenion (a lle bo'n berthnasol) o anghenion gofalwr. Bydd protocolau cam-drin domestig lleol a diogelu oedolion yn berthnasol i sefyllfaoedd lle mae person, sydd ag anghenion gofal a chymorth sy'n ei atal rhag diogelu ei hun, yn profi cam-drin domestig. Dylai gwaith diogelu sicrhau bod

¹⁵⁶ Yng Nghymru, cyfeiriwch at [Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#).

¹⁵⁷ Gweler paragraff 14.2 o'r [Canllawiau Statudol Gofal a Chymorth](#).

y person sy'n profi cam-drin yn cael cymorth i gyrchu dewis o wasanaethau cam-drin domestig arbenigol a bod gweithio mewn partneriaeth â darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol, asiantaethau tai a chyfiawnder troseddol, yn ogystal â gwasanaethau cam-drin domestig ac eiriolaeth arbenigol.

281. Mae [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#) ('Deddf 2005') hefyd yn cynnig amddiffyniadau yn erbyn cam-drin, gan gynnwys cam-drin domestig, drwy greu troseddau cam-drin ac esgeuluso bwriadol o berson sydd heb alluedd o dan adran 44 o Ddeddf 2005. Gall y troseddau fod yn berthnasol i unrhyw un sydd â gofal y person, atwrnai sy'n gweithredu o dan atwrneiaeth arhosol neu atwrneiaeth barhaus, a dirprwyon a benodir gan y llys. Mae cosb o ddirwy, uchafswm o bum mlynedd o garchar, neu'r ddau. Creodd Deddf 2005 hefyd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG) sy'n cofrestru Atwrneiaeth Arhosol ac yn goruchwyllo dirprwyon a benodir gan y Llys Gwarchod. Os codir pryderon ynghylch cyllid neu iechyd a lles gyda'r OPG ynghylch atwrnai neu ddirprwy, gall ymchwilio, gan weithio gyda sefydliadau eraill (fel awdurdodau lleol neu'r GIG, lle bo'n briodol).
282. Mae dangosyddion posibl a allai ddangos y gallai fod angen adolygiad agosach ac ymchwiliad posibl i gynnwys newid mewn amodau byw, anallu i dalu biliau, prinder arian heb esboniad, colli neu gamleoli dogfennau ariannol heb esboniad a newidiadau sydyn neu annisgwyl mewn ewyllys neu ddogfennau ariannol eraill. Gweler hefyd yr adran '[Cam-drin economaidd](#)'. Mae'r [canllawiau statudol Gofal a chymorth](#) yn gweithredu fel canllawiau ategol allweddol i [Ddeddf Gofal 2014](#), gan gynnwys nodi rôl y Prif Weithiwr Cymdeithasol ac awdurdodau lleol, ac ymdrin â gweithdrefnau diogelu oedolion. Mae'n hanfodol bod gweithwyr cymdeithasol oedolion yn derbyn hyfforddiant cam-drin domestig rheolaidd, wedi'i ddiweddarau.

Iechyd

283. Nid yw iechyd yn fater a gedwir yn ôl ac mae o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, felly dim ond i Loegr y mae gwybodaeth yn yr adran hon yn gymwys. Mae'n berthnasol i weithwyr iechyd proffesiynol yn Lloegr p'un a ydynt yn gweithio o fewn gwasanaethau a gomisiynir gan y GIG neu wasanaethau iechyd a gomisiynir gan awdurdodau lleol megis gwasanaethau 0 i 19, iechyd rhywiol a gwasanaethau trin cyffuriau ac alcohol.

Rôl a strwythurau

284. Nid yn unig y mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn rhyngweithio'n rheolaidd â dioddefwyr cam-drin, ond gallant hefyd ryngweithio'n rheolaidd â phob aelod o'r cartref gan gynnwys plant. Maent yn weithwyr proffesiynol y gellir ymddiried ynddynt sy'n aml yn gallu cael mynediad at gleifion ar eu pen eu hunain yn ystod cyfnodau o fod yn fwy agored i niwed, gan gynnwys yn ystod beichiogrwydd i fenywod. Gall y mynediad hwn arwain at lawer iawn o ddatgeliadau o gam-drin. O ganlyniad, mae gweithwyr iechyd proffesiynol mewn sefyllfa ddelfrydol i nodi ac ymateb i anghenion dioddefwyr, cyflawnwyr a phlant a rhaid eu cefnogi'n briodol i wneud hynny.

285. Mae Adolygiadau Lladdiad Domestig (DHRs) yn aml yn dyfynnu gweithwyr iechyd proffesiynol fel y rhai sydd â'r siawns orau o weithredu, ac mae [dadansoddiad o Adolygiadau Lladdiad Domestig](#) wedi dangos y rôl sylweddol y mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn ei chwarae. Gall rhai dioddefwyr fod yn gleifion hirdymor sy'n atgyfnerthu pwysigrwydd y berthynas â gweithwyr iechyd proffesiynol.

286. Mae [Deddf Iechyd a Gofal 2022](#) yn adeiladu ar waith Systemau Gofal Integredig gwirfoddol, drwy sefydlu 42 o Fyrddau Gofal Integredig (ICBs), a'i gwneud yn ofynnol creu Partneriaethau Gofal Integredig (ICPs) ym mhob ardal system ledled Lloegr. Bydd hyn yn grymuso arweinwyr iechyd a gofal lleol i gynllunio a darparu gwasanaethau ar y cyd, o fewn y GIG a chydag awdurdodau lleol, ac yn helpu i ddarparu gofal ataliol sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn. Bydd yr ICB yn ymgymryd â swyddogaethau comisiynu'r CCG yn ogystal â rhai o swyddogaethau comisiynu GIG Lloegr. Bydd hefyd yn atebol ar y cyd am wariant a pherfformiad y GIG o fewn y system. Bydd hyn yn rhoi mwy o bŵer ac ymreolaeth yn nwylo systemau lleol, i gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol didor. Bydd yr ICP yn cael y dasg o hyrwyddo trefniadau partneriaeth, a datblygu cynllun i fynd i'r afael ag anghenion iechyd, gofal cymdeithasol ac iechyd y cyhoedd eu poblogaeth. Bydd rhaid i'r ICB ac awdurdodau lleol roi sylw i'r cynllun hwnnw wrth wneud penderfyniadau. Dylai ymateb i gam-drin domestig a'i atal fod yn flaenoriaeth strategol i'r ICBs a'r ICPs a dylai fod yn gyfrifoldeb ar bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio o fewn system. Disgwylir i ICS gael ymateb cydgysylltiedig, cydweithredol i gam-drin domestig ar draws ei ôl troed daearyddol.

287. Mewn perthynas â rolau a chyfrifoldebau:

- Uwch arweinwyr yr ICB – bydd ganddynt gyfrifoldebau diogelu statudol a byddant yn destun gofyniad statudol i gyfrannu at asesiad anghenion ar gyfer llety diogel. Diwygiodd Deddf Iechyd a Gofal 2022 Ddeddf y GIG 2006 i'w gwneud yn ofynnol i ICBs a'u Hymddiriedolaethau GIG partner ac Ymddiriedolaethau Sefydledig nodi unrhyw gamau y maent yn bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael ag anghenion penodol dioddefwyr cam-drin (gan gynnwys cam-drin domestig) wrth ddatblygu eu Blaengynlluniau 5-mllynedd ar y Cyd.
- ICPs – bydd ganddynt gyfrifoldeb statudol i ddatblygu strategaeth sy'n mynd i'r afael â sut y bydd comisiynwyr yn diwallu'r anghenion iechyd, iechyd y cyhoedd a gofal cymdeithasol, a nodir mewn Asesiadau Anghenion Strategol ar y Cyd. Dylai Byrddau Iechyd a Lles sicrhau bod anghenion iechyd a gofal y rhai y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt yn cael eu hadlewyrchu yn eu Cydasesiadau Strategol o Anghenion, fel y gellir mynd i'r afael â'r anghenion hyn wrth wneud penderfyniadau yn lleol ac ar draws y system.

Ymholiadau

288. Mae angen hyfforddi holl staff rheng flaen gwasanaethau cyhoeddus i wneud ymholiadau i gam-drin domestig i sicrhau eu bod yn Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif.¹⁵⁸ Er mwyn darparu'r cymorth gorau i ddioddefwyr cam-drin domestig, mae'n hanfodol bod gan staff gofal iechyd yr offer a'r hyder sydd eu hangen i nodi dioddefwyr posibl, yn sensitif, ymyrryd yn gynnar lle bo modd, ac atgyfeirio ymlaen fel y bo'n briodol. Mae'n hollbwysig bod pob gweithiwr iechyd proffesiynol yn deall yr angen i holi am gam-drin domestig, a sut i wneud hyn yn ddiogel, os ydynt yn pryderu y gallai claf fod yn ei brofi neu'n ei gyflawni.
289. Rhaid i bob aelod o staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn hyfforddiant diogelu lefel 1 o leiaf, ac mae'r hyfforddiant hwn yn cynnwys cam-drin domestig fel modiwl. Mae angen hyfforddiant pellach ar gyfer gwahanol grwpiau galwedigaethol (Lefelau 2-3) a rolau penodol (Lefelau 4-5). Mae'r dogfennau rhyng-golegol ar gyfer diogelu plant ac oedolion yn darparu fframweithiau clir i nodi'r rôl a'r cymwyseddau sydd eu hangen ar bob aelod o staff gofal iechyd. Mae'r fframweithiau hefyd yn cynnwys manylion penodol ar gyfer prif weithredwyr, cadeiryddion, aelodau bwrdd (gan gynnwys swyddogion gweithredol, anweithredol ac aelodau lleyg). Bydd gan bob lefel isafswm gofyniad hyfforddi penodedig.
290. Mae amrywiaeth o ganllawiau ar gael ac sy'n berthnasol i wahanol leoliadau gofal iechyd â'r nod o helpu staff i wneud ymholiadau perthnasol a phriodol mewn modd sensitif ac ar yr adeg gywir. Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) yn darparu adnodd cam-drin domestig ar-lein ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol, mae Safon Ansawdd ar gyfer Cam-drin Domestig wedi'i chyhoeddi gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) ac mae'r Sefydliad Gweithwyr Iechyd Proffesiynol wrth weithio ar y cyd â'r Colegau Brenhinol Nyrsio a Meddygon Teulu wedi datblygu cyfres o fodiwlau e-ddysgu a hyfforddi. Argymhellir bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn dilyn y canllawiau penodol sy'n ofynnol ar gyfer eu hymarfer ac ar y lefel ofynnol.
291. Mae canllawiau NICE yn nodi bod cael eich hyfforddi i ymateb i ddatgeliad (Lefel 1) a sut i ofyn am gam-drin domestig (Lefel 2) yn hanfodol ar gyfer ymholiad diogel am brofiadau o gam-drin domestig ac ymateb cyson a phriodol. Dylai staff ddeall epidemioleg trais a cham-drin domestig, sut mae'n effeithio ar fywydau pobl a'u rôl eu hunain, a rôl gweithwyr proffesiynol eraill, wrth ymyrryd yn ddiogel. Dylai staff gael hyfforddiant digonol i adnabod cam-drin domestig a sut i ymateb yn ymarferol. Dylent hefyd gael eu diweddarau ar bolisi lleol, protocolau ar gyfer nodi ac asesu risg, rhannu gwybodaeth, a llwybrau i ac o wasanaethau cam-drin domestig arbenigol.
292. Dylai rheolwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol sicrhau bod staff hyfforddedig mewn gofal cynenedigol, ôl-enedigol, gofal atgenhedlol, iechyd rhywiol, camddefnyddio alcohol neu gyffuriau, iechyd meddwl, gwasanaethau plant ac oedolion agored i niwed yn gofyn i ddefnyddwyr gwasanaethau a ydynt wedi

¹⁵⁸ Agenda. [Gofyn a Gweithredu](#): pam mae'n rhaid i wasanaethau cyhoeddus ofyn am gam-drin domestig: 2019.

profi cam-drin domestig. Dylai hyn fod yn rhan arferol o arfer clinigol da, hyd yn oed lle nad oes unrhyw arwyddion o gam-drin o'r fath.

293. Fe wnaeth canfyddiadau'r Prosiect Pathfinder¹⁵⁹ amlygu bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn teimlo eu bod yn gallu holi'n well am gam-drin domestig os oedd eu System Gofal Integredig a'u rhwydweithiau gofal sylfaenol yn cefnogi lleoli Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVAs) neu raglen eiriolaeth cymheiriaid cam-drin domestig achrededig arall. Mae'n bosibl wedyn mai'r gwasanaethau arbenigol hyn sy'n ystyriol o drawma sydd yn y sefyllfa orau i ddilyn i fyny ag unrhyw ddatgeliadau o gam-drin; gwell dealltwriaeth o lwybrau atgyfeirio lleol; gwasanaethau adfer arbenigol ac eiriolaeth cymheiriaid y gallant atgyfeirio neu gyfeirio dioddefwyr, goroeswyr neu gyflawnwyr atynt yn dibynnu ar eu sefyllfa unigryw.
294. Dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol geisio creu cyfleoedd i siarad â chleifion heb bresenoldeb eraill er mwyn hwyluso'r cyfle i ddatgelu cam-drin. Dylid defnyddio dehonglwyr proffesiynol â chymwysterau priodol lle bo angen i liniaru'r risg o ddibynnu ar y rhai a allai fod yn mynychu gyda'r dioddefwr. Ni ddylai gweithwyr iechyd proffesiynol fod yn dibynnu ar aelodau o'r teulu neu bartneriaid am wasanaethau dehongli wrth ymholi am gam-drin domestig. Mae risg sylweddol y gallai pobl sy'n profi cam-drin domestig fod yn llai tebygol o ddatgelu cam-drin gyda rhywun y maent yn ei adnabod yn yr ystafell. Gallai gynyddu'r risg i'r dioddefwr os bydd yn datgelu cam-drin o flaen y cyflawnwr neu rywun a allai rannu'r wybodaeth honno â'r cyflawnwr. Yn aml, gweithwyr iechyd proffesiynol yw'r unig weithwyr proffesiynol sydd â'r cyfle gorau posibl i siarad yn breifat ac yn ddiogel â dioddefwyr cam-drin domestig ac felly dylent sicrhau, lle bo modd, mai dim ond dehonglwyr proffesiynol ac annibynnol a ddefnyddir. Gall siarad â dioddefwyr yn unig fod yn anodd. Er enghraifft, gall siarad â menywod yn unig fod yn anodd o fewn gwasanaethau mamolaeth. Gall menywod beichiog ddod â'u partneriaid, aelodau o'u teulu neu ffrindiau gyda nhw i fynychu apwyntiadau cynenedigol neu wneud ymweliadau sgan uwchsaïn. Er bod hyn yn heriol, gall ystyried cam-drin domestig ddechrau neu waethygu yn ystod beichiogrwydd, a gall ceisio creu cyfleoedd ar gyfer trafodaeth breifat fod yn hollbwysig. Gweler yr adran '[Beichiogrwydd](#)' yn '[Pennod 5 – Gwahanol brofiadau, anghenion ac ystyriaethau cysylltiedig](#)'.

295. Gan gydnabod y cynnydd mewn asesiadau gofal iechyd o bell, mae [canllawiau wedi'u datblygu ar ymholi arferol o fewn lleoliadau iechyd 'rhithwir'](#). Mae'r canllawiau hyn yn nodi camau i helpu gweithwyr iechyd proffesiynol i nodi ac ymateb i'r rhai a allai fod mewn perygl, a gellir eu cymhwyso i lawer o feysydd lle mae ymholiadau arferol yn digwydd, er enghraifft gwasanaethau mamolaeth yn ogystal ag ymarfer cyffredinol.

Ymateb integredig

296. Er mwyn sicrhau bod Strategaethau Iechyd a Lles Lleol ar y cyd, a chomisiynu gwasanaethau iechyd ac iechyd y cyhoedd perthnasol, yn diwallu anghenion y

¹⁵⁹ [Gweler Pecyn Cymorth](#) Pathfinder 2020.

boblogaeth leol, dylai partneriaid iechyd ac iechyd y cyhoedd lleol gydweithio. Gellir cyflawni hyn drwy'r Bwrdd Iechyd a Lles, i gynhyrchu asesiad o anghenion a dylai hyn gynnwys ystyried dioddefwyr cam-drin domestig. Canfu'r CSEW ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2018, fod 33% o ddiodefwyr sy'n profi cam-drin gan bartner yn cael sylw meddygol o ganlyniad i anafiadau corfforol ac effeithiau eraill. Dywedodd oddeutu un o bob pump o ddiodefwyr cam-drin gan bartner iddynt ddweud wrth weithwyr gofal iechyd proffesiynol am y cam-drin hwn.¹⁶⁰ Felly, mae'n hanfodol bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn cael eu cefnogi, trwy hyfforddiant arbenigol a gweithio mewn partneriaeth, i ymateb yn effeithiol a sicrhau bod gan ddiodefwyr opsiwn cymorth effeithiol ar gael iddynt nad yw'n seiliedig ar gyfiawnder troseddol.

297. Mae cydweithio'n hollbwysig i wahanol gyrrff sydd â'r System Iechyd a Gofal. Gall gofal yn y gwasanaeth iechyd fod yn dameidiog ac efallai na fydd gan gleifion barhad gofal. Yn Lloegr, bydd [Deddf Iechyd a Gofal 2022](#) yn cynyddu'r integreiddio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol ac yn ymgorffori mwy o bŵer ac ymreolaeth yn nwylo systemau lleol, i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor.

298. Mae cofnodi gwybodaeth wael a rhannu gwybodaeth annigonol o fewn y gwasanaeth iechyd a rhwng iechyd a sefydliadau eraill yn themâu sy'n codi dro ar ôl tro mewn adolygiadau amlasiantaethol o farwolaeth a/neu niwed difrifol mewn achosion cam-drin domestig.¹⁶¹ Mae lluo o ffactorau'n rhwystro cofnodi a rhannu da - megis diffyg hyfforddiant, diffyg amser, a phryderon ynghylch troseddwy'r gweld y wybodaeth. Dylai gweithwyr iechyd proffesiynol gofnodi a rhannu gwybodaeth am amheuaeth o gam-drin a cham-drin gwirioneddol yn gywir er mwyn cefnogi diodefwyr cam-drin domestig yn well. Gall ICBs geisio mabwysiadu a gwreiddio'r argymhellion arfer da ar gyfer cofnodi a rhannu gwybodaeth am gam-drin domestig mewn gwasanaethau iechyd o'r adroddiad a gomisiynwyd gan y consortiwm Pathfinder ar gofnodi a rhannu gwybodaeth, lle bo'r rhain yn berthnasol.

299. Dylid annog a chefnogi gwasanaethau iechyd i sefydlu partneriaethau cadarn gyda gwasanaethau arbenigol cam-drin domestig lleol ac adeiladu llwybrau atgyfeirio sydd yn glir ac yn hawdd eu cyrraedd, er mwyn sicrhau bod staff yn teimlo'n hyderus i ymateb i ddiodefwyr. Mae gan y GIG rôl allweddol o ran darparu gofal a chymorth i ddiodefwyr cam-drin domestig, gan gynnwys plant, a babanod trwy ystod eang o wasanaethau gofal iechyd, gan gynnwys gwasanaethau ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol. Gall staff sy'n gweithio yn y GIG helpu i nodi diodefwyr a diodefwyr posibl a chyflawnwyr cam-drin domestig a'u darparu, eu cyfeirio neu eu hatgyfeirio at gymorth priodol, er enghraifft i drefniadau diogelu lleol, gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol, a/neu'r Llwybr Gwasanaethau Ymosodiadau a Cham-drin Rhywiol lleol ar gyfer achosion lle mae cam-drin domestig wedi cynnwys trais rhywiol.

¹⁶⁰ONS. 2018. [Cam-drin gan bartner yn fanwl – Tablau atodiad - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](#).

¹⁶¹Y Swyddfa Gartref. [Adolygiadau Dynladdiad Domestig, Canfyddiadau allweddol o ddadansoddiad o adolygiadau dynladdiad domestig](#): 2016.

300. Yn unol ag egwyddor allweddol y GIG y dylai gofal fod yn seiliedig ar flaenoriaeth glinigol, dylai gwasanaethau iechyd sicrhau nad yw unrhyw un a phob dioddefwr cam-drin domestig a'u plant o dan anfantais ormodol wrth gyrchu gwasanaethau iechyd corfforol a meddyliol pan gânt eu gorfodi i symud i lety newydd mewn ardal wahanol.

301. Mae cydweithio ar draws asiantaethau yn helpu i ddarparu cymorth i ddioddefwyr. Gall hyn gynnwys mynychu cyfarfodydd lleol grŵp strategol cam-drin domestig neu drais yn erbyn menywod a merched, Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaethol (MARACs) ac ymgysylltu â Threfniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA). I gael rhagor o wybodaeth am y rhain gweler '[Pennod 7 – Ymateb Amlasiantaethol i Gam-drin Domestig](#)'.

302. Cyhoeddodd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) ei [Safon Ansawdd ar gyfer Cam-drin Domestig](#) ym mis Mawrth 2016.¹⁶² Mae hyn yn cynnwys nodi a chefnogi pobl sy'n profi cam-drin domestig, yn ogystal ag atgyfeirio at wasanaethau arbenigol ar gyfer y rhai sy'n cyflawni cam-drin domestig. Mae hefyd yn cynnwys plant a phobl ifanc (dan 16 oed) sy'n byw gyda/sy'n profi cam-drin domestig.

303. Gall gweithwyr iechyd proffesiynol gyfeirio at y [pecyn cymorth Pathfinder](#) fel arfer da, gan gymryd ymateb gofal iechyd integredig i gam-drin domestig, a dull systematig o drawsnewid ymateb y sector iechyd i gam-drin domestig. Mae'r pecyn cymorth yn cyfuno holl elfennau arfer da sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys:

- gweithio mewn partneriaeth ar draws gwasanaethau iechyd ac arbenigol;
- ymyriadau arbenigol megis y rhaglen IRIS mewn practisau cyffredinol;
- Cydlynwyr Cam-drin Domestig ac IDVAs mewn lleoliadau aciwt ac iechyd meddwl;
- hyfforddiant, polisiau a gweithdrefnau arbenigol cynaliadwy; a
- casglu data cywir a rhannu gwybodaeth.

304. Mae'r model yn gweithio ar draws lleoliadau aciwt, iechyd meddwl a phractis cyffredinol, fel bod pob dioddefwr yn gallu cael mynediad i'r cymorth sydd ei angen arnynt ac y gellir atal niwed pellach. Fe wnaeth canfyddiadau ansoddol cynnar o werthusiad annibynnol Pathfinder¹⁶³ danlinellu gwerth y model iechyd cyfan wrth greu'r cyfleoedd a'r llwybrau sydd eu hangen fel y gallai dioddefwyr ddod o hyd i ddiogelwch.

¹⁶² Mae NICE hefyd yn cwmpasu Cymru, fodd bynnag, yn y cyd-destun hwn mae NICE yn rhyngweithio â gwasanaeth iechyd datganoledig sydd o dan ddyletswyddau deddfwriaethol gwahanol, ac mae angen i hyn gael ei ystyried gan weithwyr proffesiynol.

¹⁶³ Roedd Pathfinder yn brosiect peilot cyfnod penodol 3 blynedd a ddaeth ag arbenigedd a chyllid at ei gilydd ar gyfer ymyriadau cam-drin domestig arbenigol er mwyn sefydlu dull 'Iechyd Cyfan' o ymdrin â cham-drin domestig mewn 8 safle ledled Lloegr. Daeth y prosiect i ben ym mis Mawrth 2020 a chafodd ei arwain gan Standing Together mewn partneriaeth â phedwar partner arbenigol Yn Erbyn Trais a Cham-drin (AVA), Imkaan, IRISi a SafeLives.

305. Mae ymateb model iechyd cyfan i gam-drin domestig yn mynd y tu hwnt i hyfforddiant ac ymyriadau annibynnol. Mae'n galw am newid yn niwylliant gwasanaethau iechyd a gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol. Mae monitro ac atebolrwydd yn allweddol i weithredu'r newidiadau hyn. Mae dull cydgysylltiedig a systemig wrth wraidd y gwaith hwn ac mae'n hollbwysig i sicrhau cynaliadwyedd ac ymateb mwy diogel a mwy effeithiol i gam-drin domestig.

306. Mae'r fforwm Trais Domestig Rhyng-golegol ac Asiantaeth (INCADVA) yn fforwm polisi sy'n dwyn ynghyd arbenigedd a gwybodaeth cyrff iechyd a gofal cymdeithasol cenedlaethol, colegau brenhinol meddygol a'r sector cam-drin domestig. Mae INCADVA wedi argymhell rhestr o gamau gweithredu i amlygu rôl hanfodol y system gofal iechyd wrth ymateb i gam-drin domestig, gan gynnwys:

- Gweithredu'r Rhaglen IRIS¹⁶⁴ (Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch). Ymyrraeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth yw IRIS i wella ymateb practis cyffredinol i gam-drin domestig drwy hyfforddiant, cymorth i dimau ymarfer a chael arbenigwr cam-drin domestig wedi'i ymgorffori mewn practisau. Caiff ei gydnabod yn genedlaethol fel arfer gorau ac mae wedi llywio canllawiau NICE.
- Cydleoli IDVAs Iechyd arbenigol (Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol) o fewn lleoliadau iechyd. Mae adroddiad SafeLives A Cry for Health¹⁶⁵ yn darparu tystiolaeth helaeth am fanteision yr ymyriad hwn mewn ysbytai aciwt ac mae astudiaethau eraill yn canfod canlyniadau tebyg pan leolir arbenigwyr mewn lleoliadau iechyd meddwl.
- Sefydlu Cydgysylltydd Cam-drin Domestig a gweithredu Rhwydwaith Hyrwyddwyr Cam-drin Domestig. Mae'r rhain wedi bod yn elfennau craidd o'r arfer da sydd wedi dod i'r amlwg fel rhan o'r prosiect Pathfinder.
- Sicrhau bod dioddefwyr yn cael blaenoriaeth ac yn cael mynediad amserol at wasanaethau cymorth iechyd meddwl arbenigol, sydd wedi'u hariannu'n ddigonol ac yn gyson, ac sydd ar gael ledled y wlad i bob dioddefwr, waeth beth fo'u statws mewnfudo.¹⁶⁶
- Negeseuon iechyd cyhoeddus hirdymor i herio agweddau'r cyhoedd at gam-drin domestig.
- Cynrychiolaeth o wasanaethau iechyd meddwl ar baneli cynghori, yn ogystal â chynrychiolaeth ehangach y gwasanaeth iechyd.

¹⁶⁴ Gweler [Am y rhaglen IRIS - IRISi](#).

¹⁶⁵ SafeLives, [Gwaedd dros iechyd: Pam fod yn rhaid inni fuddsoddi mewn gwasanaethau cam-drin domestig mewn ysbytai](#). 2016.

¹⁶⁶ Mae taliadau ar gyfer pobl nad ydynt yn preswyllo fel arfer yn y DU mewn perthynas â gwasanaethau GIG perthnasol yn Lloegr wedi'u nodi yn [Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol \(Ffioedd Ymwelwyr Tramor\)](#). Mae triniaeth ar gyfer cyflwr corfforol neu feddyliol a achosir gan gam-drin domestig yn rhad ac am ddim i bawb.

307. Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol [y Weledigaeth ar gyfer Strategaeth Iechyd Menywod Lloegr](#), i'w dilyn gyda chyhoeddiad y strategaeth. Roedd y Weledigaeth yn nodi'r uchelgais cyffredinol o wella iechyd a lles menywod a merched yn Lloegr yn seiliedig ar y dull cwrs bywyd. Bydd y Strategaeth yn nodi camau gweithredu ar faterion sydd ond yn effeithio ar fenywod a merched, ac ar faterion sy'n effeithio ar bawb ond sydd â gwahaniaethau ar sail rhyw o ran mynychder, profiad neu ganlyniadau. Bydd yn manylu ar gynlluniau cyflawni yn erbyn y themâu (lleisiau menywod, polisïau a gwasanaethau gofal iechyd, gwybodaeth ac addysg, iechyd yn y gweithle, tystiolaeth a data ymchwil) ac yn erbyn anghenion a chyflyrau iechyd penodol.

308. Mae fferyllfeydd hefyd yn chwarae rhan mewn darparu cymorth yn y gymuned i ddiodefwyr cam-drin domestig, er enghraifft, mae'r Swyddfa Gartref yn ariannu'r cynllun gair cod [Gofyn am ANI](#) 'Action Needed Immediately' [Angen Gweithredu Ar Unwaith] sy'n caniatáu i ddiodefwyr cam-drin domestig ofyn am 'ANI' a mynediad cymorth brys o ddiogelwch eu fferyllfa leol.

Tai

309. Nid yw tai yn fater a gedwir yn ôl ac mae o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, felly dim ond i Loegr y mae gwybodaeth yn yr adran hon yn gymwys.

Rôl ac ymagwedd

310. Mae opsiynau tai eraill, boed yn llochesau, yn dai cymdeithasol neu'n llety preifat¹⁶⁷, yn allweddol i sicrhau bod diodefwyr yn gallu dianc rhag cam-drin domestig, ac yn ffactor cryf wrth i ddiodefwyr wneud penderfyniad ynghylch a yw'n aros neu'n gadael troseddwr. Gan fod y rhan fwyaf o gam-drin domestig yn cael ei gyflawni gartref¹⁶⁸, gall darparwyr tai chwarae rhan unigryw wrth gefnogi diodefwyr cam-drin sy'n denantiaid iddynt a riportio cyflawnwyr lle bo'n briodol. Mae rhai awdurdodau lleol yn cynnig cynlluniau noddfa a chymorth i ddiodefwyr aros yn eu cartrefi eu hunain lle mae'n ddiogel gwneud hynny. Gall gwasanaethau tai ystyried ailgartrefu'r cyflawnwr mewn rhai amgylchiadau yn hytrach na'r diodefwyr.

311. Mae'n hanfodol bod darparwyr tai yn gallu adnabod ac ymateb i arwyddion cam-drin domestig. Nododd adroddiad gan SafeLives y risg o gamddiagnosio effeithiau cam-drin domestig fel Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASB).¹⁶⁹ Dylai darparwyr tai ddefnyddio chwilfrydedd proffesiynol wrth wynebu pob achos, hyd yn oed os nad yw cam-drin domestig yn cael ei amau ar unwaith. Gall cam-drin ymddangos fel symudiadau lluosog yn olynol yn gyflym; gwrthod gadael i swyddogion tai ddod i mewn i'r eiddo; cwynion cymdogion neu ddifrod i eiddo. Dylai swyddogion tai gydnabod effaith troseddoli diodefwyr yn anghywir mewn achosion o'r fath ac

¹⁶⁷Nid yw hon yn rhestr hollgynhwysfawr, yn dibynnu ar amgylchiadau unigolyn efallai y bydd opsiynau gwahanol ar gael.

¹⁶⁸ HMICFRS. [Busnes pawb yn gynyddol: Adroddiad cynnydd ar ymateb yr heddlu i gam-drin domestig](#): 2015.

¹⁶⁹ SafeLives. [Diogel yn y Cartref: Yr achos dros ymateb i gam-drin domestig gan ddarparwyr tai](#): 2018.

ystyried cynllunio diogelwch a chefnogaeth arbenigol i'r dioddefwr os cymerir camau yn erbyn y troseddwr.

312. Mae'r Gynghrair Tai Cam-drin Domestig (DAHA) yn bartneriaeth sydd wedi sefydlu'r achrediad cam-drin domestig cyntaf ar gyfer darparwyr tai. Ei nod yw gwella ymateb y sector tai i gam-drin domestig trwy gyflwyno a mabwysiadu set sefydledig o safonau a phroses achredu. Mae'r DAHA wedi cynhyrchu pecyn cymorth sy'n nodi'r camau y dylai darparwyr tai eu cymryd i gael eu hachredu.
313. Yn ogystal, mae'r DAHA wedi arwain y gwaith o gyflwyno [Ymagwedd Tai Cyfan](#) at gam-drin domestig mewn partneriaeth â grwpiau sy'n cynnwys Surviving Economic Abuse a Safer London. Mae'r rhaglen yn cael ei threialu mewn tair ardal leol ('tair bwrdeistref' Llundain, Swydd Gaergrawnt a Stockton). Nod y rhaglen yw codi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig ym mhob sector tai a gwella canlyniadau i ddioddefwyr fel y gallant gael tai sefydlog a byw'n ddiogel. Mae'n cydnabod yr amrywiaeth yn anghenion tai dioddefwyr a'r dulliau gweithredu sydd eu hangen ar draws gwahanol ddeiliadaethau, gan gynnwys rhentu cymdeithasol a phreifat, a pherchnogaeth breifat, i nodi sut y gallant fod yn rhan o ymateb effeithiol.

Angen blaenoriaethol dioddefwyr digartrefedd a cham-drin domestig am lety

314. Mae'n rhaid i lawer o ddioddefwyr cam-drin domestig adael eu cartrefi a'r ardal lle maent yn byw i ddianc rhag cam-drin.
315. Mae gan ddioddefwyr sy'n ddigartref o ganlyniad i gam-drin domestig angen blaenoriaethol am lety. Mae hyn yn golygu bod gan awdurdodau tai lleol ddyletswydd i sicrhau llety i ddioddefwyr cam-drin domestig os ydynt yn ddigartref heb unrhyw fai arnynt eu hunain ac yn gymwys i gael cymorth. Rhaid i'r llety a ddarperir fod yn addas mewn perthynas â'r ymgeisydd ac i bob aelod o'i aelwyd sydd fel arfer yn preswyllo gydag ef, neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswyllo gydag ef.
316. Mae'r [Cod Canllawiau ar Ddigartrefedd i Awdurdodau Lleol](#)¹⁷⁰ yn datgan, wrth lunio eu strategaethau digartrefedd, y dylai awdurdodau tai ystyried yr anghenion penodol sydd gan ddioddefwyr cam-drin domestig am lety diogel, gallai hyn gynnwys gweithredu cytundeb dwyochrog ag awdurdodau tai a darparwyr tai eraill i hwyluso symud y tu allan i'r ardal i ddioddefwyr cam-drin domestig. Mae nifer o opsiynau llety posibl ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig, a bydd angen i awdurdodau tai ystyried pa rai sydd fwyaf priodol ar gyfer pob person fesul achos, gan ystyried eu hamgylchiadau a'u hanghenion.
317. Dylai awdurdodau tai ystyried a yw llety rhyw cymysg yn briodol a cheisio darparu llety un rhyw lle bo angen. Gallai rhai menywod deimlo'n fwy diogel mewn llety un rhyw. Mae [Deddf Cydraddoldeb 2010](#) yn caniatáu ar gyfer darparu gwasanaethau rhyw ar wahân neu un rhyw o dan rai amgylchiadau. Rhaid i gyfyngu ar wasanaeth ar sail rhyw (ac mewn rhai amgylchiadau ailbennu rhywedd) fod yn fodd cymesur o

¹⁷⁰ Yng Nghymru, cyfeiriwch at [Ran 2 o Ddeddf Tai \(Cymru\) 2014](#).

gyflawni nod cyfreithlon. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cydnabod y gallai nod cyfreithlon fod am resymau preifatrwydd, gwedduster, sicrhau iechyd a diogelwch neu atal trawma. Gallai enghraifft o hyn gynnwys gosod cyfyngiadau o'r fath ar fynediad gan wrywod, neu gan berson trawsryweddol p'un a oes ganddo Dystysgrif Cydnabod Rhywedd ai peidio, i loches cam-drin domestig sy'n cynnig llety brys i ddioddefwyr benywaidd. I gael manylion llawn gweler y canllaw [Darparwyr gwasanaeth ar wahân ac un rhyw: canllaw ar ddarpariaethau rhyw ac ailbennu rhywedd y Ddeddf Cydraddoldeb](#).

318. Mae'n bwysig bod gan ddioddefwyr fannau lle maent yn teimlo'n ddiogel ac y gellir darparu cymorth sy'n ystyriol o drawma iddynt. Dylai lleoliadau llety diogel fel llochesi cam-drin domestig fod yn un rhyw¹⁷¹, yn ddiogel ac yn ymroddedig i gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig. Dylai'r ymagwedd at y gwasanaethau a'r cymorth a gomisiynir ystyried anghenion penodol pob dioddefwr yn yr ardal a rhaid i awdurdodau ystyried eu Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o dan [Ddeddf Cydraddoldeb 2010](#). Dylai pob cymorth o fewn llety diogel gael ei ddarparu gan ddarparwyr arbenigol gwybodus a/neu brofiadol, elusennau, a sefydliadau gwirfoddol eraill sydd â'r diben o ddarparu cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig. Dylai'r cymorth hwn fodloni Safonau Ansawdd yr Adran ar gyfer Lefelu i Fyny, Tai a Chymunedau (DLUHC), Safonau Ansawdd Cenedlaethol Cymorth i Fenywod, Safonau Ansawdd Achrededig Imkaan, Safonau Gwasanaeth Rhwydwaith Cam-drin Domestig i Ddynion neu Fframwaith Achredu DAHA ar gyfer Darparwyr Tai.
319. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd o dan Ran 4 o [Ddeddf Cam-drin Domestig 2021](#) ('Deddf 2021') i ddarparu llety diogel. Mae'r ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau haen un asesu'r angen am gymorth seiliedig ar lety i ddioddefwyr cam-drin domestig yn eu hardal a defnyddio'r cyllid a ddarperir drwy Ran 4 o Ddeddf 2021 i gyflenwi hyn. Mae angen i awdurdodau lleol haen un a haen dau gydweithio i sefydlu pa gymorth sydd ei angen mewn llety diogel yn ardal yr awdurdod lleol.
320. Mae'r ddyletswydd o dan Ran 4 o Ddeddf 2021 yn ddyletswydd strategol yn hytrach na dyletswydd sy'n ddyledus i unigolion. Pan fo ceisydd cymwys yn mynd at ei awdurdod lleol fel person digartref o ganlyniad i fod yn ddioddefwr cam-drin domestig, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i drin yr aelwyd fel angen blaenoriaethol am gymorth digartrefedd, a darparu llety addas fel y nodir o dan Ran 7 o [Ddeddf Tai 1996](#) ac yn y Cod Canllawiau Digartrefedd, yn hytrach na dyletswydd i sicrhau llety diogel sy'n bodloni gofynion Rhan 4. Rhaid i awdurdodau tai ystyried holl amgylchiadau ac anghenion aelwyd wrth benderfynu ar addasrwydd llety, gan gynnwys diogelwch personol, a gall awdurdodau lleol adolygu lleoliadau ar gais. Mae'r rheoliadau a'r canllawiau statudol ar lety perthnasol yn darparu gwybodaeth i awdurdodau tai sy'n

¹⁷¹ Caniateir darparu llety a gwasanaethau un rhyw mewn llety diogel. Gweler y canllawiau statudol ar <https://www.gov.uk/government/publications/domestic-abuse-support-within-safe-accommodation/delivery-of-support-to-victims-of-domestic-abuse-in-domestic-abuse-safe-accommodation-services>.

sicrhau llety addas i ddiodefwyr sy'n ddigartref o ganlyniad i gam-drin domestig. Mae rhagor o wybodaeth am Ran 4 o Ddeddf 2021 isod.

321. Dylai awdurdodau tai hefyd ystyried anghenion pobl sy'n cysgu ar y stryd neu'n ddigartref cudd wrth lunio eu dull o roi llety i ddiodefwyr cam-drin domestig. Mae ystadegau digartrefedd statudol blynyddol ar gyfer 2020 i 2021 yn dangos bod 31,180 o aelwydydd (12%) wedi cofnodi 'cam-drin domestig' fel eu prif reswm dros fod yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd.¹⁷² Lle mae diodefwyr yn cysgu allan, mae'r risg o gam-drin pellach ar y strydoedd yn sylweddol.

Ymateb tai

322. Dylai fod gan ddarparwyr tai bolisiau ar waith i nodi ac ymateb i gam-drin domestig. Mae'r [Papur Gwyn ar Dai Cymdeithasol](#) yn nodi y bydd y Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol yn ei gwneud yn glir y dylai landlordiaid gael polisi sy'n nodi sut y maent yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â cham-drin domestig, gan weithio gydag asiantaethau eraill fel y bo'n briodol.¹⁷³

323. Gall diodefwyr brofi llawer o achosion o gam-drin cyn ffonio'r heddlu neu ei riportio i asiantaeth arall. Efallai y bydd darparwyr tai yn gallu nodi cam-drin yn gynharach a dylent ystyried y ffordd orau o ddarparu cymorth i'w preswylwyr. Trwy ddeall dangosyddion cam-drin domestig trwy hyfforddiant a datblygiad proffesiynol, gall swyddogion tai gynyddu eu hyder i siarad â phobl sy'n profi cam-drin, asesu risg a chynllunio diogelwch ochr yn ochr â nhw.

324. Dylai darparwyr tai ystyried yn ofalus natur ac effeithiau cam-drin domestig o ran anghenion diodefwyr, gan gynnwys tactegau a ddefnyddir gan gyflawnwr sydd â goblygiadau ariannol a diogelwch i ddiodefwyr. Er enghraifft, nododd ymchwil effeithiau yn ymwneud â'r ffaith, lle mae gan ddiodefwyr a chyflawnwr denantiaeth neu forgais ar y cyd, byddant yn gyfrifol ar y cyd ac yn unigol am unrhyw rwymedigaethau. Gall hyn olygu y bydd diodefwyr yn atebol am ôl-ddyledion neu atgyweiriadau pan fydd y cyflawnwr yn gwrthod talu – math o gam-drin economaidd – neu'n ofni am eu diogelwch os na allant newid cloeon heb gytundeb ymlaen llaw gan landlord, asiant gosod tai neu ddarparwr morgais.¹⁷⁴ Gweler yr adran ar '[Cam-drin economaidd](#)' am ragor o wybodaeth.

325. Dylai diogelwch fod wrth wraidd yr ymateb tai i gam-drin domestig. Dylai awdurdodau tai a darparwyr tai hefyd fod yn effro i'r rôl ehangach y maent yn ei

¹⁷² Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau bellach). [Adroddiad Blynyddol Digartrefedd Statudol, 2020-21, Lloegr](#): 2020.

¹⁷³ Bydd yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau yn cynnal ymgynghoriad ar effeithiau cyfraith tenantiaeth ar y cyd ar ddiodefwyr cam-drin domestig. Mae hyn i gydnabod y ffaith bod y rheolau presennol ar gyd-denantiaethau yn golygu y gall tenantiaethau cyfnodol a thai cymdeithasol gael eu terfynu gan y naill denant, heb ganiatâd y llall. Felly gall diodefwyr sydd mewn cyd-denantiaeth gyfnodol gyda chyflawnwr fod yn agored i fygythiad o gael eu gwneud yn ddigartref gan gyflawnwr. Nod yr ymgynghoriad yw ystyried ffyrdd o gefnogi diodefwyr a lleihau'r risg o ddigartrefedd.

¹⁷⁴ Walker, SJ, Hester, M. [Crynodeb Tystiolaeth Polisi 4: Cyfiawnder, tai a cham-drin domestig, profiadau perchnogion tai a rhentwyr preifat](#). Cynghrair Tai Cam-drin Domestig: 2019.

chwarae wrth sicrhau diogelwch dioddefwyr. Dylai gweithdrefnau fod yn eu lle i gadw'r holl wybodaeth am ddioddefwyr yn ddiogel. Mewn llawer o achosion, yn arbennig lle gall aelodau o'r teulu estynedig neu gyflawnwyr lluosog fod yn gysylltiedig, mae cyflawnwyr yn mynd i drafferth fawr i geisio gwybodaeth am ddioddefwyr. Dylai'r awdurdod tai a darparwyr fod yn effro i'r posibilrwydd bod cyflogeion yn gyflawnwyr, neu fod ganddynt gysylltiadau â throseddwyr. Ni ddylai awdurdodau tai ddatgelu gwybodaeth am ymgeisydd i unrhyw un y tu allan i'r sefydliad heb ganiatâd. Dylai awdurdodau ystyried diogelwch wrth rannu gwybodaeth a sicrhau bod rhannu gwybodaeth yn berthnasol, yn angenrheidiol ac yn gymesur at y diben y'i rhennir, a bod y sail gyfreithlon ar gyfer rhannu gwybodaeth yn glir. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd angen cyfyngu mynediad i achosion lle datgelir cam-drin i aelodau penodol o staff yn unig.

326. Dylai awdurdodau tai weithio ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill a chomisiynwyr i ddarparu gwasanaethau i fynd i'r afael â cham-drin domestig. Dylai awdurdodau lleol asesu anghenion cymorth seiliedig ar lety pob dioddefwr cam-drin domestig, gan gynnwys plant fel y nodir yn adran 57 o Ddeddf 2021. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cymorth penodol ar gael i ddioddefwyr ag anghenion unigryw a/neu gymhleth, megis cyngor a chymorth iechyd meddwl, cyngor a chymorth ar gyffuriau ac alcohol, yn ogystal â chyfeirio yn unol â hynny. Dylai awdurdodau lleol hefyd sicrhau bod y cymorth priodol a digonol o fewn llety diogel yn diwallu anghenion pob dioddefwr gan gynnwys y rheini ag anghenion lluosog a chymhleth ac y mae'n bosibl na fydd eu hanghenion cymorth yn gallu cael eu diwallu o fewn llety diogel cam-drin domestig generig, megis dioddefwyr ag anghenion ynghylch iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau. Gweler '[Pennod 5 – Gwahanol brofiadau, anghenion ac ystyriaethau cysylltiedig](#)' am ragor o wybodaeth.

327. Dylai swyddogion tai a chomisiynwyr digartrefedd fod yn rhan o waith amlasiantaethol, gan gynnwys drwy fod yn rhan o drefniadau diogelu lleol megis Hybiau Diogelu Amlasiantaethol (MASH) neu MARACs.

Llety Diogel

328. Mae Rhan 4 o Ddeddf 2021 yn cyflwyno dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol, gan osod atebolrwydd cliriach ar ardaloedd lleol i sicrhau bod anghenion dioddefwyr mewn llochesi a mathau eraill o lety diogel cam-drin domestig yn cael eu diwallu mewn ffordd gyson ledled Lloegr. O dan y dyletswyddau hyn, mae'n ofynnol i awdurdodau haen un (cynghorau sir, cynghorau unedol y tu allan i Lundain, ac Awdurdod Llundain Fwyaf a Chyngor Ynysoedd Sili) yn Lloegr benodi Bwrdd Partneriaeth Lleol Cam-drin Domestig i gefnogi asesiadau o anghenion lleol a strategaethau lleol.

329. Mae'n ofynnol i awdurdodau haen un gomisiynu gwasanaethau'n effeithiol yn seiliedig ar strategaeth leol wedi'i llywio gan asesiad cadarn o anghenion, ac adrodd yn ôl yn flynyddol i'r Llywodraeth. Bydd y gofyniad adrodd blynyddol yn helpu'r Llywodraeth ac eraill i fonitro sut mae'r dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol yn

gweithio, deall lle gall fod heriau a sut mae'r cyllid yn cael ei ddefnyddio, a helpu i nodi a lledaenu arfer da. Mae dyletswydd Rhan 4 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau haen dau mewn ardaloedd dwy haen (Cynghorau Dosbarth mewn ardaloedd â Chyngor Sir, a Bwrdeistrefi Llundain) gydweithredu â'r awdurdod haen un arweiniol.

330. O dan y dyletswyddau, dylai awdurdodau lleol ystyried anghenion cymorth seiliedig ar lety penodol yr holl ddiodefwyr yn eu hardal, gan gynnwys y rheini â nodweddion gwarchodedig penodol, a/neu anghenion cymhleth lluosog. Mae llety diogel perthnasol yn cynnwys llety lloches, llety diogel arbenigol, llety gwasgaredig, llety ail gam neu lety arall a ddynodwyd gan yr awdurdod lleol, landlord cymdeithasol cofrestredig neu elusen gofrestrredig fel llety brys cam-drin domestig.
331. O dan y dyletswyddau hyn, ni all awdurdodau ddarparu cymorth mewn llety 'gwely a brechwast'¹⁷⁵ac ni ddylid darparu cymorth mewn unrhyw lety rhyw cymysg a rennir gan na fyddai hyn yn cyd-fynd â'r disgrifiadau o lety diogel yn y rheoliadau neu ganllawiau perthnasol. Pan fo diodefwr yn y math hwn o lety a bod yr awdurdod yn nodi bod angen cymorth arno, gallai'r awdurdod ystyried ei bod yn briodol gweithio gyda'r awdurdod tai i sicrhau y gellir darparu cymorth yn y llety diogel perthnasol priodol. Os nad oes angen cymorth mewn llety diogel ar ddiodefwr, yna bydd angen i awdurdodau tai lleol barhau i gydymffurfio â'u dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth digartrefedd yn unol â Phennod 21 o'r [Cod Canllawiau Digartrefedd](#).
332. Mae gwasanaethau lloches yn elfen graidd o'r ymateb tai i gam-drin domestig sy'n darparu math hanfodol o ddarpariaeth i ddiodefwyr, gan gynnwys plant, nad ydynt bellach yn ddiogel gartref. Fodd bynnag, efallai na fydd rhai diodefwyr am fanteisio ar yr opsiwn hwn a gall rhai wynebu heriau wrth geisio cael cymorth. Gall y rhain gynnwys diodefwyr sy'n profi digartrefedd ac sy'n wynebu anfanteision lluosog yn ymwneud ag iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a bod ag anabledd. Yn ogystal, gall y rhai o gymunedau lleiafrifol wynebu heriau hefyd. Dylai comisiynwyr a darparwyr gymryd agwedd sy'n ystyriol o wahanol anghenion a phrofiadau, sut y gallant groestorri yn ogystal ag unrhyw rwystrau ychwanegol a haenau o wahaniaethu a wynebir gan y grwpiau hyn wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.
333. Mae angen sicrhau bod pob diodefwr yn gallu cyrchu llety diogel, ni waeth ble mae'n byw yn wreiddiol. Bydd llawer o ddiodefwyr sy'n ffoi rhag cam-drin domestig yn teithio ar draws ffiniau i geisio cymorth a symud i ffwrdd oddi wrth y cyflawnwr. Canfu arolwg blynyddol Cymorth i Fenywod yn 2017 fod dros ddwy ran o dair o fenywod mewn llochesi yn dod o ardal awdurdod lleol gwahanol.¹⁷⁶ Mae'r DLUHC wedi cyhoeddi canllawiau statudol sy'n ymwneud â Rhan 4 o Ddeddf 2021 sy'n ei gwneud yn glir bod rhaid i awdurdodau lleol haen un ddiwallu anghenion cymorth yr holl ddiodefwyr sy'n byw mewn llety perthnasol gan gynnwys y rhai sy'n dod yn

¹⁷⁵Fel y'i diffinnir yn [Rheoliadau Cymorth Cam-drin Domestig \(Llety Perthnasol\) 2021](#).

¹⁷⁶Cymorth i Fenywod. [Goroesi a Thu Hwnt: Adroddiad Cam-drin Domestig 2017](#): 2018.

wreiddiol o'r tu allan i'r ardal leol. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys cyfeiriad at y safonau ansawdd priodol i gadw atynt.

334. Mae DLUHC hefyd wedi cynhyrchu [canllawiau ar wella mynediad i dai cymdeithasol i ddiodefwrwr cam-drin domestig sydd mewn lloches neu fath arall o lety dros dro](#). Mae'r canllawiau'n annog awdurdodau tai i ddefnyddio eu pwerau presennol i gefnogi diodefwrwr i aros yn ddiogel yn eu cartrefi os ydynt yn dewis gwneud hynny. Mae'n nodi'n glir bod disgwyl i awdurdodau tai beidio â chymhwyso profion preswyllo ar gyfer diodefwrwr sydd wedi ffoi i ardal arall ac mae'n nodi sut y gallant sicrhau bod diodefwrwr yn cael blaenoriaeth briodol ar gyfer tai cymdeithasol. Yn unol ag adran 79 o Ddeddf 2021, mae'r canllawiau yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a darparwyr tai cymdeithasol cofrestredig preifat sicrhau bod diodefwrwr cam-drin domestig sydd â thenantiaeth oes, neu sydd wedi cael tenantiaeth oes ac sydd wedi ffoi o'r cartref cymdeithasol i ddianc rhag cam-drin domestig, yn cadw eu sicrwydd oes o ddeiliadaeth os yw'r landlord yn rhoi tenantiaeth newydd iddynt am resymau sy'n gysylltiedig â'r cam-drin.

Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol

335. Mae ymateb effeithiol gan y system cyfiawnder troseddol yn hanfodol i gefnogi diodefwrwr cam-drin domestig a sicrhau bod cyflawnwyr yn cael eu dwyn o flaen eu gwell. Mae byrddau cyfiawnder troseddol lleol (LCJBs) yn gyfrifol am uno asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol i gyflawni nodau ac amcanion cyffredin gan gynnwys lleihau troseddu, dod â mwy o droseddwrwr gerbron y llys, a chynyddu hyder y cyhoedd. Gall hyn gynnwys gweithgarwch i fwrw ymlaen â mabwysiadu'r [Fframwaith Arfer Gorau Cam-drin Domestig](#). Gallai uwch swyddogion ddefnyddio Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol i fonitro ymatebion cyfiawnder troseddol i gam-drin domestig o fewn asiantaethau sy'n eistedd ar y byrddau.

Plismona

336. Mae troseddau sy'n ymwneud â cham-drin domestig yn cynrychioli 18% o'r holl droseddau a gofnodir gan yr heddlu.¹⁷⁷ Canfu adolygiad o laddiadau domestig a hunanladdiadau a amheuyd ymhlith diodefwrwr yn ystod pandemig Covid-19 fod dros hanner y rhai a ddrwgdybiwyd (58%) yn hysbys i'r heddlu fel rhai a ddrwgdybiwyd am unrhyw droseddu blaenorol.¹⁷⁸ Mabwysiadodd yr adolygiad hwn ddiffiniad eang o farwolaethau cysylltiedig â cham-drin domestig a oedd yn cynnwys marwolaethau plant mewn lleoliad domestig, marwolaethau anesboniadwy neu

¹⁷⁷ ONS, [Mynychder a thueddiadau'r achosion o gam-drin domestig, Cymru a Lloegr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](#): blwyddyn ddata yn diweddu mis Mawrth 2021.

¹⁷⁸ Bates, I., Hoeger, K., Stoneman M-J, Whitaker, A. Rhaglen Gwybodaeth ac Ymarfer Bregusrwydd (VKPP): [Laddiadau Domestig a Hunanladdiadau a Amheuyd ymhlith Dioddefwrwr yn ystod Pandemig Covid-19 2020-2021](#): Y Swyddfa Gartref, VKPP, NPCC, Coleg Plismona: 2021.

amheus, a hunanladdiadau a amheuwyd gan unigolion â hanes hysbys o erledigaeth cam-drin domestig.

337. Ni ddylai achosion o gam-drin domestig gael eu gweld ar eu pen eu hunain; oherwydd ei natur mae cam-drin domestig yn golygu erledigaeth dro ar ôl tro. Dylai swyddogion ystyried yr hanes ac unrhyw batrymau ymddygiad er mwyn deall unrhyw ddigwyddiad o fewn ei gyd-destun ehangach. Mae adroddiadau Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EM (HMCIFRS) ar ymateb yr heddlu i gam-drin domestig wedi nodi bod nifer o resymau pam na all achosion cam-drin domestig arwain at erlyniadau.¹⁷⁹ Mae cyfran sylweddol o achosion cam-drin domestig yn cael eu tynnu'n ôl, gyda'r dioddefwr ddim yn cefnogi gweithredu gan yr heddlu. Mae'n hanfodol gweithio gyda dioddefwyr mewn ffordd sy'n ystyriol o drama i'w cefnogi trwy broses ymchwilio ac i atal aildrawmateiddio. Gall dioddefwyr dynnu eu cefnogaeth i erlyn yn ôl os ydynt yn profi diffyg cyfathrebu, empathi a chefnogaeth. Mae HMCIFRS wedi nodi amrywiaeth enfawr rhwng heddluoedd yng nghyfran yr achosion sy'n dod i ben ar y sail "nad yw'r dioddefwr yn cefnogi gweithredu gan yr heddlu". Roedd hyn yn amrywio ar draws heddluoedd o lai na 10 i dros 40 fesul 100 o droseddau yn ymwneud â cham-drin domestig yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020.¹⁸⁰ Mae ansawdd yr ymateb plismona yn chwarae rhan arwyddocaol mewn ymgysylltiad dioddefwyr mewn achosion cam-drin domestig a gall effeithio ar gyfraddau cyhuddiadau ac euogfarnau. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i adolygu'r data mewn achosion a gaewyd oherwydd anawsterau tystiolaethol neu lle nad yw'r dioddefwr yn cefnogi gweithredu gan yr heddlu.
338. Canfu'r adroddiad fod oedi mewn ymchwiliadau, diffyg cyswllt a phrosesau llys hir yn fwy cyffredinol yn arwain at lefelau uchel o ymddieithrio. Mae mynediad at gyfiawnder, gan gynnwys amseroedd aros hir rhwng cyhuddiad yn cael ei wneud ac achos yn cael ei glywed yn y llys yn cynyddu'r risg y bydd dioddefwyr yn ymddieithrio o'r broses.
339. Mae'r Coleg Plismona wedi datblygu canllawiau – [Arfer Proffesiynol Awdurdodedig](#) – sy'n nodi egwyddorion a safonau ar gyfer swyddogion sy'n ymchwilio i gam-drin domestig. Mae'r canllawiau'n amlinellu dyletswydd swyddogion i gymryd camau cadarnhaol ym mhob cam o ymateb yr heddlu i gam-drin domestig i sicrhau bod dioddefwyr, gan gynnwys plant yn cael eu hamddiffyn; bod achos troseddol yn cael ei ddilyn lle bo'n briodol; a bod cyflawnwyr yn cael eu rheoli'n effeithiol lle nad yw achos troseddol yn bosibl neu'n addas.¹⁸¹
340. Cyfeirir at [ganllawiau perthnasol y CPS](#) ar gam-drin domestig a throeddau cysylltiedig yn yr adran '[Gwasanaeth Erlyn y Goron](#)' lle ymdrinnir â phynciau sy'n ymwneud ag ymchwiliad yr heddlu ac felly maent yn berthnasol i swyddogion yn

¹⁷⁹ Mae [adroddiadau HMCIFRS, gan gynnwys adroddiadau diweddar, ar gam-drin domestig](#) yn cael eu cyhoeddi ar wefan y sefydliad.

¹⁸⁰ HMCIFRS. [Ymateb yr heddlu i drais yn erbyn menywod a merched: Adroddiad arolygu terfynol](#): 2021.

¹⁸¹ I gael rhagor o wybodaeth, gweler hefyd [Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Cyflawni: Blwyddyn 1](#) Plismona Trais yn Erbyn Menywod a Merched y Coleg Plismona a'r NPCC: a [rhwydwaith Canlyniadau a pherfformiad](#).

ogystal â gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio ar gam-drin domestig o fewn y system cyfiawnder troseddol.

341. Mae ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol mewn perthynas agos neu deuluol wedi bod yn drosedd ers 2015 yn rhinwedd adran 76 o [Ddeddf Troseddau Difrifol 2015](#) lle mae gofynion y drosedd wedi'u nodi. Ceir rhagor o wybodaeth yn y [canllawiau statudol a roddwyd i'r heddlu ac asiantaethau cyfiawnder troseddol o dan adran 77 o'r Ddeddf honno](#) ynghylch ymchwiliadau i'r drosedd hon. Dylid ystyried y canllawiau hyn wrth ymchwilio i'r drosedd. Gweler hefyd yr adran ar '[Ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol](#)'.
342. Dylai'r heddlu fabwysiadu dull sy'n ystyriol o drawma ac sy'n ymateb i drawma¹⁸²ac ystyried y dilynol wrth gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig:
- Ymwybyddiaeth o nodweddion gwarchoddedig (fel y nodir yn adran 4 o [Ddeddf Cydraddoldeb 2010](#)) ac unrhyw wendidau a allai effeithio ar y dioddefwr a sut mae'n ceisio cymorth, gan osgoi gwneud rhagdybiaethau ar sail stereoteipiau;
 - Rhwystrau a all fodoli i ddioddefwyr ddatgelu gwybodaeth neu geisio cymorth¹⁸³, er enghraifft: ofn y troseddwr; ofn na chredir hwy; pwysau gan y teulu neu'r gymuned – yn arbennig i'r dioddefwyr hynny mewn cymunedau gwledig neu gaeedig; profiadau negyddol yn y gorffennol gyda'r heddlu neu wasanaethau; awydd i wneud i'r berthynas weithio; rhwystrau economaidd; anawsterau cyfathrebu; ddim eisiau diwreiddio'r plant neu ofn y bydd y plant yn cael eu cymryd i ofal; ofn sgil-ffeithiau yn ymwneud â statws mewnfudo ansicr;
 - Gall meithrin ymddiriedaeth helpu pobl i ddatgelu;
 - Ymwybyddiaeth y gall cam-drin domestig gynnwys y teulu ehangach yn arbennig lle mae cam-drin ar sail 'anrhydedd' neu gyfrifoldebau gofalu ehangach;
 - Cynnal ymholiadau diogel, dilyn adnabod risg, gweithdrefnau asesu a rheoli, gan gynnwys yr angen i atgyfeirio at IDVA neu Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC),
 - Gwneud atgyfeiriadau at wasanaethau cymorth arbenigol lleol fel y bo'n briodol;
 - Dilyn gweithdrefnau lleol ar gyfer diogelu oedolion a phlant, gan gynnwys trefniadau diogelu amlasiantaethol a nodir gan brif swyddog yr heddlu fel partner diogelu statudol;
 - Cydnabod yr effaith y gall 'ymatebwyr cyntaf' ei chael ar blant sy'n gweld, clywed neu brofi'r cam-drin mewn digwyddiad cam-drin domestig, gan sicrhau bod safleoedd yn cael eu gwirio'n gyson am bresenoldeb plant (boed yn yr ystafell yn ystod digwyddiad ai peidio) a bod plant yn cael eu gwranddo arnynt yn

¹⁸² Gweler yr adran '[Effaith ar Ddioddefwyr](#)' yn '[Pennod 4 - Effaith Cam-drin Domestig](#)' am ragor o wybodaeth am ymateb sy'n ystyriol o drawma.

¹⁸³ Gall y rhwystrau hyn groestorri â rhwystrau sy'n deillio o nodwedd(ion) gwarchoddedig dioddefwr. Gweler Pennod 5 '[Profiadau, anghenion ac ystyriaethau cysylltiedig gwahanol](#)'.

astud. Dylai ymatebwyr hefyd gael eu hyfforddi i adnabod bregusrwydd ac arwyddion o gam-drin yn ystod galwad am wasanaeth ar gyfer cam-drin domestig. Gweler yr adran ar '[Addysg](#)' am ragor o wybodaeth am Ymgyrch Encompass;

- Gweithredu i ddiogelu plant drwy wneud atgyfeiriad i'r gwasanaethau cymdeithasol lle mae pryderon am les plentyn;
- Ystyried a oes angen ymateb hefyd ar y cyflawnwr sy'n cynnig y cyfle i newid ei ymddygiad a'i ddwyn i gyfrif os bydd yn parhau â'i gamdriniaeth. Gall [Linell Ffôn Respect](#) gynnig cyngor a gwybodaeth i gyflawnwyr, eu teulu a'u ffrindiau ac i weithwyr proffesiynol, a gallant gyfeirio at raglenni achrededig Respect lleol;
- Ymchwilio i hanes y berthynas (yn ogystal â hanes y troseddwr â dioddefwyr eraill) ac adnabod y ddeinameg gan gynnwys unrhyw anghydbwysedd pŵer;
- Lle mae camddefnyddio sylweddau wedi digwydd, byddwch yn effro i'r ddeinameg fwy cymhleth a allai fodoli sy'n golygu nad yw'r cam-drin o reidrwydd yn 'drais sy'n gysylltiedig ag alcohol' ac y gallai'r trais fod yn symptomatig o gam-drin domestig;¹⁸⁴
- Cofnodi unrhyw droseddau ac unrhyw ddigwyddiadau blaenorol a gosod baner cam-drin domestig arnynt, gan ddilyn y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cofnodi Troseddau. Ystyried y gall ymddygiadau megis aflonyddu a stelcio ffurfio rhan o'r cam-drin ond gael eu cofnodi fel troseddau ar wahân;
- Ystyried a oes angen gwneud cais o dan lwybr 'Hawl i Wybod' y [Cynllun Datgelu Trais Domestig](#), a elwir hefyd yn 'Ddeddf Clare';
- Rhoi gwybodaeth hygyrch i'r dioddefwr am y broses cyfiawnder troseddol a'i hawliau o dan [God y Dioddefwyr](#);
- Byddwch yn ymwybodol y gall cyflawnwyr godi gwrth-honiadau neu groes-honiadau pan fyddant yn cael eu riportio gan ddiodefwyr cam-drin, a dylid cymryd gofal i asesu tystiolaeth ac adnabod diodefwyr a chyflawnwyr yn gywir, a all gynnwys aelodau o'r teulu.¹⁸⁵ Os bydd diodefwr cam-drin yn cael ei riportio fel cyflawnwr gan y cyflawnwr go iawn, mae'n bwysig bod y diodefwr yn dal i gael cefnogaeth fel diodefwr.
- Sicrhau bod gan ddiodefwyr cam-drin domestig ddehonglwr¹⁸⁶ (gan gynnwys BSL i ddiodefwyr byddar) neu gymorth hygyrchedd cyfathrebu arall lle bo angen;

¹⁸⁴ Gweler, er enghraifft, Ward, M, et al. [Cam-drin Domestig ac Yfwyr sy'n Gwrthsefyll Newid: atal a lleihau'r niwed](#). Dysgu gwersi o Adolygiadau Lladdiadau Domestig: Alcohol Concern, Yn Erbyn Trais a Cham-drin (AVA): 2016.

¹⁸⁵ I gael rhagor o wybodaeth, gweler er enghraifft [Pecyn Cymorth 2019 Respect ar gyfer Gwaith gyda Dioddefwyr Gwryw Cam-drin Domestig](#).

¹⁸⁶ Mae [Arfer Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona ar Gam-drin Domestig](#) yn darparu canllawiau ar ddefnyddio a dewis dehonglwr yn y lleoliad ac yn ystod cyfweiliadau.

- Lle bo'n briodol, darparu cyfryngwr (os yw'r dioddefwr yn arbennig o agored i niwed)¹⁸⁷ neu ganiatáu i rywun eistedd gyda'r dioddefwr yn ystod cyfweiliadau â'r heddlu. Gallai hwn fod yn ffrind cefnogol neu aelod o'r teulu (nad yw'n dyst posibl); ni ddylai'r person hwn fod yn blentyn i'r dioddefwr neu'r troseddwr nac yn unrhyw unigolyn neu aelod o'r gymuned lle mae risg y gallent ddatgelu gwybodaeth a rennir gan y dioddefwr gyda'r cyflawnwr; ac
- Ystyried a dilyn polisi gweithredu cadarnhaol eich llu.

Cysylltiad rhwng erledigaeth a throseddu

343. Dylai'r heddlu ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill gydnabod y rhan y gall cam-drin domestig ei chwarae mewn ymddygiad troseddol; amlygir y cyswllt hwn yn [Strategaeth Troseddwr Benywaidd](#) y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Gall yr ymateb gan asiantaethau cyfiawnder troseddol i'r rhai yr effeithir arnynt fod yn hollbwysig wrth nodi cam-drin domestig ar y cyfle cyntaf, cynnig cymorth, a helpu i dorri'r cylch o erledigaeth a throseddu.
344. Gall amrywiaeth o droseddau ddeillio o brofiad dioddefwr o gam-drin, gan gynnwys: trin nwyddau wedi'u dwyn dan fygythiad o drais gan bartner; meddu ar sylwedd rheoledig sy'n perthyn i bartner camdriniol; defnyddio grym yn erbyn partner neu gyn bartner camdriniol; methiant i sicrhau presenoldeb yn yr ysgol rhag ofn cyfarfod â phartner neu gyn bartner camdriniol.¹⁸⁸ Dylai asiantaethau bob amser ystyried cyd-destun posibl cam-drin domestig ymhlith menywod sy'n troseddu a phwysleisio dull sy'n ymateb i rywedd a thrawma ar gyfer cefnogi menywod sydd mewn perygl o fynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol. Gweler hefyd yr adran ar '[Troseddu](#)'.

Dioddefwyr â statws mewnfudo ansicr

345. Gall cyflawnwyr trais domestig ddefnyddio statws mewnfudo ansicr fel ffordd o gam-drin y dioddefwr, er enghraifft, drwy fygwth dweud wrth yr heddlu neu'r Swyddfa Gartref. Wrth ymdrin â dioddefwyr sydd â statws mewnfudo ansicr, dylai'r heddlu drin pob unigolyn sy'n riportio cam-drin domestig fel dioddefwyr yn gyntaf. Gweler yr adran '[Statws mewnfudo a dioddefwyr mudol](#)' am ganllawiau ynghylch pa gymorth y gallai dioddefwyr â statws mewnfudo ansicr ei gyrchu o bosibl.

Cynllun Datgelu Trais Domestig

346. Mae'r Cynllun Datgelu Trais Domestig ('DVDS'), a adwaenir hefyd fel 'Cyfraith Clare', fel y'i cyflwynwyd yn dilyn llofruddiaeth Clare Wood, gan ei chyn bartner ym Manceinion Fwyaf yn 2009, yn fframwaith polisi, sy'n darparu ar gyfer gweithdrefnau

¹⁸⁷ Fel yr amlinellir yn y [Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau yng Nghymru a Lloegr \('Cod y Dioddefwyr'\)](#), Tachwedd 2020: efallai y bydd angen cymorth Cyfryngwr Cofrestredig ar ddiodeffwr, neu dyst, oherwydd ei oedran, anabledd dysgu, anhwylder meddwl neu anabledd corfforol sy'n effeithio ar eu gallu i gyfathrebu. Yn aml, dyma'r gwahaniaeth rhwngbod dyst yn gallu rhoi tystiolaeth ai peidio.

¹⁸⁸ I gael rhagor o wybodaeth am adnabod cyflawnwyr fel dioddefwyr gweler [Pecyn Cymorth Respect am waith gyda Dioddefwyr Gwryw Cam-drin Domestig](#): rhifyn 2019.

sy'n galluogi datgelu gwybodaeth yn ymwneud ag ymddygiad treisgar blaenorol. Gwneir datgeliadau o dan y cynllun hwn gan ddefnyddio pwerau cyfraith gwlad yr heddlu i ddatgelu gwybodaeth i atal troseddu, yma trwy ddatgelu i A, wybodaeth yn ymwneud â throseddau camdriniol, neu dreisgar, gan bartner agos presennol, neu flaenorol A, B. Er mwyn bod yn gyfreithlon, rhaid i unrhyw ddatgeliad gwybodaeth o'r fath am B fod yn angenrheidiol i atal troseddu, yn yr achos hwn, niwed i A. Rhaid i unrhyw ddatgeliad fod yn gymesur â'r nod hwnnw, a rhaid iddo fod yn unol â deddfwriaeth gyffredinol berthnasol, er enghraifft [Deddf Hawliau Dynol 1998](#), [Deddf Diogelu Data 2018](#) a [Deddf Adsefydlu Troseddwy'r 1974](#). Dylai'r heddlu ystyried yr angen i geisio cyngor cyfreithiol ar gyfreithlondeb defnyddio eu pwerau datgelu cyfraith gwlad yng nghyd-destun y DVDS fesul achos.

347. Mae'r DVDS yn cynnwys dau lwybr ar gyfer datgelu gwybodaeth:

- Mae "Hawl i Ofyn" yn cael ei sbarduno gan aelod o'r cyhoedd ("A" neu rywun sy'n gweithredu ar ran "A") yn gwneud cais i'r heddlu am ddatgeliad; a
- Mae "Hawl i Wybod" yn cael ei sbarduno gan yr heddlu yn gwneud penderfyniad rhagweithiol i ddatgelu gwybodaeth i amddiffyn dioddefwr posibl ("A neu rywun yn gweithredu ar ran A").

Rhoddwyd y DVDS ar waith ar draws holl heddluoedd Cymru a Lloegr ym mis Mawrth 2014. Unwaith y daw i rym, bydd adran 77(1) o Ddeddf 2021 yn gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi canllawiau ar DVDS i brif swyddogion yr heddlu. Mae adran 77(2) yn gosod dyletswydd ar brif swyddogion yr heddlu i roi sylw i ganllawiau a gyhoeddwyd o dan adran 77(1). Bydd gosod dyletswydd statudol ar yr heddlu i roi sylw i'r canllawiau, sy'n golygu bod rhaid iddynt gael rheswm da a chlir i wroddi wrthynt, yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun, cynyddu nifer y datgeliadau a wneir i atal niwed a sicrhau bod y cynllun yn cael ei ddefnyddio a'i gymhwyso'n gyson ar draws yr holl heddluoedd. Mae [canllawiau anstatudol](#) yn bodoli ar y cynllun DVDS, a bydd y canllawiau hyn yn cael eu diweddarau a'u hailgyhoeddi fel canllawiau statudol yn ddiweddarach yn 2022.

Mechnïaeth

348. Mae amodau mechnïaeth yn ffordd bwysig o gefnogi cam cadarnhaol arestio.

Maent yn cynnig amddiffyniad i'r dioddefwr honedig a thystion tra ymchwilir i droseddau neu yn ystod achos troseddol. Os bydd y sawl a ddrwgdybir yn torri amodau mechnïaeth, dylid ei ddwyn i gyfrif yn gyflym. Gellir gwneud cais am fechnïaeth ar gyfer y camau cyn cyhuddo ac ar ôl cyhuddo:

- **Mechnïaeth cyn cyhuddo:** Gall cyflawnwyr gael eu rhyddhau o ddalfa'r heddlu a bod yn destun mechnïaeth cyn cyhuddo cyn cael eu cyhuddo, os yw'n angenrheidiol ac yn gymesur gwneud hynny. Os nad yw'n angenrheidiol ac yn gymesur i'w ryddhau ar fechnïaeth ac nad oes sail i gadw'r sawl a ddrwgdybir ymhellach, rhaid i'r sawl a ddrwgdybir naill ai gael ei 'Ryddhau dan Ymchwiliad' neu

ei ryddhau gyda 'Dim Camau Pellach' wedi'u cymryd. Os caiff ei ryddhau ar fechnïaeth, gellir gosod amodau mechnïaeth priodol os oes angen o dan yr amgylchiadau, er enghraifft i amddiffyn yr un a ddrwgdybir gan ymyrryd â thystion.¹⁸⁹

- Mewn achosion cam-drin domestig, dylai'r heddlu ystyried na fydd y sawl a ddrwgdybir a ryddhawyd dan ymchwiliad yn destun unrhyw amodau. Gall hyn arwain y dioddefwr honedig i deimlo'n ddiameddiffyn, yn arbennig os yw'n byw gyda'r sawl a ddrwgdybir a bod y sawl a ddrwgdybir yn gallu dychwelyd adref. Gall amgylchiadau o'r fath gynyddu'r tebygolrwydd y bydd dioddefwyr yn ffoi o'u cartrefi neu'n tynnu eu cefnogaeth i ymchwiliadau yn ôl. Dylid cydbwysu'r canlyniadau posibl hyn yn erbyn effaith rhyddhau ar fechnïaeth ag amodau ar y sawl a ddrwgdybir.
- Gall rhywun a ddrwgdybir sy'n torri amodau mechnïaeth cyn cyhuddo gael ei arestio a'i ryddhau eto ar yr un amodau mechnïaeth. Gellir defnyddio Hysbysiadau a Gorchmynion Amddiffynnol hefyd lle nad ydynt eisoes ar waith, ceir rhagor o fanylion yn [Atodiad D](#), sy'n crynhoi gwahanol orchmynion diogelu y gellir eu cyhoeddi.¹⁹⁰ Bydd y Mesur Heddlu, Trosedd, Dedfrydu a Llysoedd yn diwygio'r gyfraith ynghylch mechnïaeth cyn cyhuddo ac mae'n cynnwys darpariaethau i amddiffyn dioddefwyr a thystion bregus yn well.
- **Mechnïaeth ar ôl cyhuddo:** Gellir gosod amodau mechnïaeth priodol unwaith y bydd troseddwr wedi'i gyhuddo er mwyn amddiffyn dioddefwyr, tystion a'r cyhoedd. Gellir defnyddio mechnïaeth ar ôl cyhuddo i amddiffyn dioddefwyr a thystion rhag y risg o berygl, bygythiadau, pwysau neu droseddau ailadroddus.

Cyfweliad Presenoldeb Gwirfoddol

349. Gellir defnyddio Cyfweliad Presenoldeb Gwirfoddol (VA) hefyd ar gyfer bwrw ymlaen ag ymchwiliadau. Dylid nodi na ellir gosod amodau ar gyflawnwr pan yw'n mynychu cyfweliad gwirfoddol. Gallai cyfweliadau rwystro effeithiolrwydd ymchwiliadau o ran rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r rhai a ddrwgdybir a'r cyfle i ddinistrio tystiolaeth (er enghraifft ar ddyfeisiau digidol) neu siarad â thystion ymlaen llaw. O'r herwydd, dim ond pan fo hynny'n briodol y dylid defnyddio VA oherwydd efallai na fydd yn rhoi digon o amddiffyniad i'r dioddefwr mewn achosion o gam-drin domestig. Darllenwch [ragor o wybodaeth am Gyfweliadau Presenoldeb Gwirfoddol](#).

Hysbysiadau a Gorchmynion Amddiffynnol

¹⁸⁹ Cynhaliodd y Llywodraeth ymgynghoriad ar ddiwygio mechnïaeth cyn cyhuddo yn 2020. Ymgynghorodd y Llywodraeth ar sawl cynnig i wneud yn siŵr bod gennym system sy'n blaenoriaethu diogelwch dioddefwyr a thystion ac sy'n cefnogi rheolaeth effeithiol o ymchwiliadau; a chynnydd amserol achosion i'r llysoedd. Ymatebodd y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar 14 Ionawr 2021 a [gellir gweld copi o'r ymateb i'r ymgynghoriad ar fechnïaeth cyn cyhuddo ar GOV.UK](#).

¹⁹⁰ Y Coleg Plismona. [Rheoli'r sawl a ddrwgdybir a'r ffeil achos ar ôl arestio](#): 2018. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth hefyd yng nghanllawiau'r Coleg Plismona ar [Adnabod, asesu a rheoli cyflawnwyr cam-drin domestig a stelcio cyfresol neu a allai fod yn beryglus: Wyth egwyddor i gynorthwyo heddluoedd \(college.police.uk\)](#).

350. Gall Hysbysiadau Diogelu Trais Domestig a Gorchmynion Diogelu Trais Domestig (DVPNs/DVPOs) (a lywodraethir gan adrannau 24-33 o [Ddeddf Troseddu a Diogelwch 2010](#), 'Deddf 2010') ganiatáu i fesurau amddiffynnol gael eu rhoi ar waith ar gyfer dioddefwr yn dilyn digwyddiad domestig o drais neu fygythiad o drais yn ymwneud â chyflawnwr 18 oed neu hŷn. Gellir defnyddio'r rhain, er enghraifft, lle nad oes trosedd sylweddol i'w herlyn. Nid yw torri DVPO yn drosedd ond gellir cymryd camau gorfodi mewn llys ynadon fel dirmyg llys.
351. Mae DVPN a gyhoeddir gan yr heddlu yn gwahardd y cyflawnwr rhag ymyrryd â'r dioddefwr, fel lleiafswm, a allai gynnwys gwahardd y cyflawnwr rhag cysylltu â'r dioddefwr mewn unrhyw fodd. Gall DVPN hefyd wahardd y cyflawnwr o'r eiddo os yw'n byw gyda'r dioddefwr. Mae hefyd yn amddiffyn y dioddefwr ac yn atal cam-drin pellach nes bod y mater yn mynd gerbron ynad. Mae'r DVPN yn cael ei ddilyn gan gais am DVPO mewn llys ynadon o fewn 48 awr i gyflwyno'r hysbysiad (heb gynnwys dydd Sul, gwyliau banc, dydd Nadolig na dydd Gwener y Groglith). Mae'r DVPO canlyniadol, os caiff ei ganiatáu, yn parhau rhwng 14 a 28 diwrnod.¹⁹¹
352. Mae Deddf 2021 yn cyflwyno Gorchmynion Diogelu Cam-drin Domestig ("DAPOs") a Hysbysiadau Diogelu Cam-drin Domestig ("DAPNs"). Unwaith y byddant wedi'u dwyn i rym yn llawn, bydd DAPOs yn dod ag elfennau cryfaf y drefn gorchmynion amddiffynnol bresennol ynghyd mewn un gorchymyn cynhwysfawr i ddarparu amddiffyniad hyblyg, hirdymor i ddioddefwyr cam-drin domestig. Yn ogystal â gosod gwaharddiadau negyddol megis gwahardd cyflawnwr o ardal benodol, bydd y DAPO yn gallu gosod gofynion monitro electronig, a gofynion cadarnhaol megis presenoldeb ar raglenni newid ymddygiad cyflawnwyr.
353. Bydd DAPNs a DAPOs yn cael eu treialu i ddechrau mewn ardaloedd dethol ledled Cymru a Lloegr am ddwy flynedd i brofi effeithiolrwydd ac effaith y model newydd cyn ei gyflwyno'n genedlaethol. Bydd canllawiau ar wahân i'r heddlu ar DAPNs a DAPOs yn cael eu cyhoeddi cyn y peilot. Bydd DVPNs/DVPOs yn parhau i fod yn berthnasol mewn ardaloedd nad ydynt yn rhai peilot hyd nes y bydd DAPNs/DAPOs, yn ôl y disgwyl, wedi'u cyflwyno'n llawn ar sail genedlaethol. Bryd hynny, bydd y darpariaethau presennol yn Neddf 2010 sy'n ymwneud â DVPN/DVPO yn cael eu diddymu – bydd DVPNs/DVPOs a'r canllawiau sy'n sail iddynt yn dod yn ddarfodedig. Mae'r paragraffau dilynol yn ystyried rhai o'r gorchmynion diogelu eraill y gellir eu cyhoeddi, efallai y bydd gorchmynion pellach ar gael yn dibynnu ar yr amgylchiadau.
354. Mae hysbysiadau a gorchmynion amddiffynnol eraill yn cynnwys:
- Gorchmynion Atal
 - Gorchmynion Diogelu rhag Stelcio
 - Gorchmynion Amddiffyn Priodas dan Orfod

¹⁹¹ I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch y [canllawiau ar Orchmynion Diogelu Trais Domestig](#).

- Gorchmynion Amddiffyn FGM
- Gorchmynion rhag molestu a Gorchmynion Deiliadaeth
- Gorchmynion Risg Rhywiol
- Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol
- Gorchmynion Hysbysu

355. Ceir tabl sy'n rhoi crynodeb o'r gorchmynion yn [Atodiad D](#) a cheir rhagor o fanylion yn Arfer Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona a chanllawiau'r CPS.

Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

356. Mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (PCCs)¹⁹² yn gyfrifol am gyhoeddi cynlluniau heddlu a throseddu sy'n nodi eu blaenoriaethau ar gyfer ardal yr heddlu yn ystod eu cyfnod yn y swydd. Fel rhan o'r broses o baratoi'r cynllun, mae'r Comisiynwyr yn trefnu i'r cyhoedd a dioddefwyr troseddau roi eu barn cyn iddo gael ei gyhoeddi. Wrth baratoi cynlluniau, dylid ystyried y rhai a allai fod yn profi gwahaniaethau mewn canlyniadau gwasanaeth neu eu profiad o droseddu a phlismona. Bydd angen i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

357. Mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn gyfrifol am ddwyn eu Prif Gwnstablaid i gyfrif am arfer swyddogaethau'r Prif Gwnstabl a swyddogaethau'r personau o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y Prif Gwnstabl. Gall hyn gynnwys gosod disgwyliadau clir ar ymateb yn ddigonol ac yn effeithiol i ddiodefwyr troseddau gan gynnwys diodefwyr digwyddiadau troseddau sy'n ymwneud â cham-drin domestig.

358. Dylai Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ystyried sut y maent yn gweithio gyda phartneriaid eraill i ddarparu system cyfiawnder troseddol effeithlon ac effeithiol ar gyfer eu hardaloedd lleol gan gynnwys mewn perthynas â throseddau a digwyddiadau sy'n ymwneud â cham-drin domestig i gefnogi atal, ymyrraeth gynnar a darparu gwasanaethau. Gall hyn olygu dod â phartneriaid ynghyd trwy gynnull ac arwain fforymau fel [Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol](#) (LCJBs) a bydd gan rai ardaloedd fyrddau partneriaeth eraill yn gweithio ochr yn ochr â'r Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol neu'n adrodd iddynt. Er enghraifft, yn aml ceir byrddau, a strwythurau eraill, gyda ffocws penodol ar gam-drin domestig a thrais rhywiol. Bydd y Comisiynwyr yn chwarae rhan flaenllaw yn y rhain, o ystyried eu cyfrifoldebau o ran diodefwyr troseddau a chomisiynu gwasanaethau cymorth lleol i ddiodefwyr.

Gwasanaeth Erlyn y Goron

359. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron (y 'CPS') yn erlyn achosion troseddol yr ymchwiliwyd iddynt gan yr heddlu a sefydliadau ymchwilio eraill yng Nghymru a

¹⁹² Gan gynnwys meiri a etholwyd yn uniongyrchol gyda phwerau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, fodd bynnag mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn nodi rhai o'r gwahaniaethau rhwng y modelau llywodraethu yn benodol mewn perthynas â Swyddfa'r Maer ar gyfer Plismona a Throseddu.

Lloegr. Mae'r CPS yn annibynnol ac yn gwneud ei benderfyniadau yn annibynnol ar yr heddlu a'r Llywodraeth. Mae'r CPS yn penderfynu pa achosion y dylid eu herlyn gan ddefnyddio'r Prawf Cod Llawn, yn pennu'r cyhuddiadau priodol mewn achosion mwy difrifol neu gymhleth ac yn cynghori'r heddlu yn ystod camau cynnar ymchwiliadau, yn paratoi achosion, ac yn eu cyflwyno yn y llys. Mae'r CPS yn erlyn achosion troseddol yng Nghymru a Lloegr ar ran y wladwriaeth yn erbyn diffynnydd. Mae'r CPS yn gweithio gyda phartneriaid i hysbysu, cefnogi a gwasanaethu dioddefwyr a thystion i helpu i sicrhau a chyflawni cyfiawnder. Mae'r Twrnai Cyffredinol yn goruchwyllo'r CPS, ond mae'r CPS yn weithredol annibynnol. Mae'r berthynas rhwng yr heddlu a'r CPS mewn perthynas â phenderfyniadau erlyn wedi'i nodi yng [Nghanllawiau'r Cyfarwyddwr ar Gyhuddo](#).

360. Nid yw'r CPS yn penderfynu a yw person yn euog o drosedd – gadewir hynny i'r rheithgor, barnwr, neu ynad – ond rhaid iddo wneud y penderfyniad allweddol a ddylai achos gael ei roi gerbron llys. Mae pob penderfyniad cyhuddo'n seiliedig ar yr un prawf dau gam a amlinellir yn y [Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron](#):

- A yw'r dystiolaeth yn rhoi gobaith realistig o gael euogfarn? Mae hynny'n golygu, ar ôl clywed y dystiolaeth, a yw llys yn fwy tebygol na pheidio o ganfod y diffynnydd yn euog?
- A yw erlyn er budd y cyhoedd? Mae hynny'n golygu gofyn cwestiynau gan gynnwys pa mor ddifrifol yw'r drosedd, yr effaith ar gymunedau ac a yw erlyniad yn ymateb cymesur.

361. Mae'r CPS yn ystyried bod achosion sy'n ymwneud â cham-drin domestig yn arbennig o ddifrifol o ystyried y camddefnydd o ymddiriedaeth dan sylw. Mae'r CPS yn cydnabod pwysigrwydd deall y rhwystrau y gall dioddefwyr eu hwynebu wrth riportio a chyrchu cyfiawnder. Mae'r CPS yn cydnabod y penderfyniad anodd y gall fod rhaid i ddiodefwyr ei wneud cyn iddynt riportio cam-drin a'r sefyllfa fregus y mae llawer yn ei hwynebu. Gall fod bygythiad parhaus i ddiogelwch diodefwyr gan y gallai eu bywyd gydblythu'n agos â bywyd y troseddwr, er enghraifft, efallai fod ganddynt ddiabynddion ac efallai eu bod yn byw, neu wedi byw, gyda'i gilydd.

362. Mae [canllawiau cyfreithiol y CPS](#) a'u hyfforddiant i erlynwyr ar ymdrin ag achosion o gam-drin domestig yn berthnasol i bob diodefwyr, ac yn nodi sut yr ymdrinnir â phob agwedd ar droseddu sy'n ymwneud â cham-drin domestig gan gynnwys cydnabod y trawma parhaus y gall diodefwyr a'u teuluoedd estynedig ei wynebu ac yn atgoffa erlynwyr y gall cam-drin gynnwys ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol ac y gall fod yn seicolegol, corfforol, rhywiol, economaidd ac emosiynol. Gall canllawiau ehangach y CPS ar droseddau gan gynnwys [ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol](#); stelcio ac aflonyddu; [seiberdroseddu](#); a [cham-drin ar sail 'anrhydedd' a phriodas dan orfod](#) hefyd fod yn berthnasol i achosion cam-drin domestig.

363. Mae'r CPS yn gweithio'n agos gyda'r heddlu i adeiladu'r achos cryfaf posibl er mwyn dod â throseddwr gerbron y llys ac mae wedi ymrwymo i gymryd pob cam ymarferol i helpu diodefwyr trwy'r profiad anodd yn aml o ymwneud â'r system

cyfiawnder troseddol. Gan weithio gyda'r heddlu, mae'r CPS wedi datblygu dull erlyn rhagweithiol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i erlynwyr asesu cyn gynted â phosibl a oes digon o dystiolaeth arall i ddwyn erlyniad heb fod angen i'r dioddefwr fynychu'r llys. Gallai'r dystiolaeth arall hon gynnwys deunydd fideo a wisgir ar gorff yr heddlu a recordiadau 999 lle bo'n briodol.

Cynllun Hawl Dioddefwr i Adolygiad

364. Mae'r heddlu a'r CPS ill dau yn gweithredu Hawl Dioddefwr i Adolygiad (VRR) sy'n ei gwneud yn haws i bobl ofyn am adolygiad o benderfyniad i beidio â dwyn cyhuddiadau neu i derfynu achos mewn achosion cymwys. Mae'r hawl i adolygu penderfyniadau'r heddlu yn hawl o dan y Cod Dioddefwyr a dylai'r heddlu wneud dioddefwyr yn ymwybodol o'r hawl hon wrth roi esboniad am benderfyniad yr heddlu i beidio â chyhuddo.
365. Ar gyfer y ddau gynllun VRR, mae terfyn amser o dri mis ar gyfer gwneud cais. Bydd adolygiadau'n cael eu hystyried gan berson sy'n annibynnol ar yr ymchwiliad a'r penderfyniad gwreiddiol. Mae VRR yr heddlu yn cynnwys un cam adolygu, a gynhelir gan swyddog o leiaf un safle yn uwch na'r penderfynwr gwreiddiol. Gall VRR y CPS gynnwys dau gam yn cynnwys cam datrysiad lleol ac, os oes angen, adolygiad gan yr Uned Apeliadau ac Adolygu genedlaethol.
366. Mae'r canllawiau cenedlaethol ar VRR yr heddlu yn cael eu hadnewyddu a bydd copi wedi'i ddiweddarau yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni. Gellir dod o hyd i fanylion hefyd ar wefannau lluoedd unigol. Mae canllawiau pellach ar VRR y CPS ar gael yn y [cynllun Hawl Dioddefwr i Adolygiad](#) a [Pholisi a Chanllawiau Hawl Dioddefwr i Adolygiad 2020](#). Yn ogystal, mae gan y CPS, ochr yn ochr â sefydliadau eraill, rwymedigaethau o dan God y Dioddefwyr.

Fframwaith Arfer Gorau Cam-drin Domestig ar gyfer y Llysoedd

367. Mae'r CPS, ynghyd â'r heddlu a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (HMCTS) yn arwain ymdrechion i roi fframwaith arfer gorau ar waith i'w ddefnyddio ar draws yr holl lysoedd ynadon. Mae'r fframwaith wedi'i ddatblygu drwy nodi elfennau cyffredin o lysoedd sy'n perfformio'n dda a'i nod yw gwella capasiti a gallu'r system cyfiawnder troseddol i ymateb yn effeithiol i adroddiadau o droseddau cam-drin domestig. Mae'r fframwaith hefyd yn gwasanaethu i ddarparu lefel o wasanaeth i ddioddefwyr, sy'n cynyddu eu diogelwch a'u boddhad yn y system cyfiawnder troseddol.
368. Mae'r fframwaith wedi nodi cydrannau cyffredin gan gynnwys:
- Dull amlasiantaethol/cymunedol clir sy'n mynd i'r afael â gweithdrefnau rheoli risg a diogelu. Mae fforymau amlasiantaethol yn galluogi asiantaethau sy'n cymryd rhan i drafod ymdrin ag achosion cam-drin domestig gan sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei darparu mewn modd amserol, diogel ac effeithlon a

bod y cymorth cywir yn cael ei roi ar waith i'r dioddefwr. Dylai asiantaethau graffu ar eu data lleol a rhoi camau lliniaru ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg;

- Mae cymorth Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol (IDVA) yn sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu hysbysu ar bob cam o'r broses erlyn, gan weithio gydag erlynwyr i gefnogi'r dioddefwr;
- Staff hyfforddedig sy'n cael eu defnyddio'n gyson ar draws yr holl asiantaethau (gan gynnwys barnwyr); a
- Gwasanaethau yn y llys - gwasanaethau rhagweithiol i dystion /ymweliadau ymgysylltiedig cyn treial/defnydd priodol o fesurau arbennig. Fel rhan o hyn, mewn rhai ardaloedd, maent wedi ystyried systemau llwybr cyflym neu dreialu cyflym.

369. Yn dilyn profi'r Fframwaith Arfer Gorau Cam-drin Domestig (DA BPF) mewn tri safle prawf, fe wnaeth pob safle wella eu perfformiad o ran rheoli achosion cam-drin domestig, gan symud o fod yn ardaloedd â pherfformiad isel i fod yn unol â'r cyfartaledd perfformiad cam-drin domestig cenedlaethol neu'n well. Cyflwynwyd y fframwaith yn y llysoedd ynadon ym mis Ionawr 2019.

370. Mae gan bob rhanbarth grwpiau strategol a gweithredol, gan gynnwys [Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol](#), a ddylai hybu'r broses o fabwysiadu'r DA BPF ym mhob ardal leol. Maent yn cael eu cefnogi gan grŵp gweithredu cenedlaethol – y mae ei aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o HMCTS, yr Heddlu, y CPS, Cymorth i Ddioddefwyr, a gwasanaethau cymorth cam-drin domestig arbenigol.

Carchar a Phrawf

371. Rôl Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) yw goruchwyllo dedfrydau a roddir gan y Llysoedd naill ai yn y ddalfa neu yn y gymuned, cefnogi pobl i'w cwblhau'n llwyddiannus neu gymryd camau gorfodi lle nad ydynt yn cydymffurfio. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â cham-drin domestig fel rhan o rôl ehangach HMPPS o ddiogelu'r cyhoedd a lleihau aildroseddu. Mae HMPPS yn gweithio'n agos ag amrywiaeth o asiantaethau eraill, i reoli'r risgiau y mae cyflawnwyr yn eu hachosi ac i sicrhau bod cynlluniau rheoli risg yn mynd i'r afael â diogelwch a lles dioddefwyr, gan gynnwys plant.

372. Mae [Fframwaith Polisi Cam-drin Domestig HMPPS](#) yn nodi ymrwymiad y sefydliad i leihau aildroseddu sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, y risg o niwed difrifol sy'n gysylltiedig ag ef ac i ddarparu ymyriadau i gefnogi adsefydlu. Mae'n sicrhau bod staff ar bob lefel yn deall yr hyn a ddisgwyllir ganddynt ac yn cymryd camau i ddiogelu oedolion a phlant sy'n wynebu risg. Mae'n annog staff i fynd i'r afael â'r mater gyda chwilfrydedd proffesiynol ym mhob achos ac yn nodi egwyddorion arfer da mewn perthynas â gweithio gyda cham-drin domestig.

373. Mae'r Fframwaith Polisi yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer gweithio gyda phobl y mae eu hymddygiad yn cynnwys cam-drin domestig, yn ogystal â'r rhai ag euogfarnau. Nid yw nodi cam-drin domestig yn weithgaredd untro sy'n digwydd ar adeg adroddiad llys neu ar ddechrau'r ddedfryd yn unig. Drwy gydol y ddedfryd, mae angen i bob aelod o staff ddefnyddio dull ymchwiliol, gan fod yn wyliadwrus ac yn chwilfrydig wrth chwilio am wybodaeth o ystod eang o ffynonellau i lywio asesiad parhaus i weld a yw cam-drin domestig yn rhan o berthnasoedd presennol neu flaenorol. Mae asesiad risg yn galw am ddadansoddiad o'r holl ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael ac mae'n cymryd i ystyriaeth achosion hysbys blaenorol o gam-drin domestig (e.e. gwybodaeth ynghylch galw allan gan yr heddlu) yn ogystal ag euogfarnau. Rhaid i Gynlluniau Rheoli Risg fynd i'r afael â'r holl ffactorau risg a nodwyd a nodi camau gweithredu i ddiogelu unigolion a nodwyd yr aseswyd eu bod mewn perygl o niwed difrifol.
374. Mae HMPPS yn rhoi cyngor i lysoedd i gefnogi dedfrydu diogel ac yn gweithio'n agos ag amrywiaeth o asiantaethau eraill i reoli'r risgiau a berir gan y rhai sydd dan eu goruchwyliaeth. Mae rhannu gwybodaeth mewn perthynas â risg eisoes yn elfen ddisgwylidig o arfer yr holl staff. Mae'r Fframwaith Polisi'n manylu ar ddisgwyliadau gwaith amlasiantaethol yng nghyd-destun cam-drin domestig, gan amlygu'r ystod o drefniadau ar gyfer llywodraethu gwaith amlasiantaethol a thrafod achosion unigol. Bydd angen i staff fod yn gyfarwydd â threfniadau lleol ar gyfer Trefniadau Amlasiantaethol i Ddiogelu'r Cyhoedd (MAPPA), Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC), cynadleddau achos diogelu plant, Rheoli Troseddwy'r Integredig (IOM) yn ogystal ag ymgyfarwyddo ag asiantaethau cam-drin domestig arbenigol y sector gwirfoddol. Dylai ymarferwyr prawf a'u rheolwyr ddisgwyl gweithio gydag amrywiaeth o asiantaethau eraill, i reoli'r risgiau y mae cyflawnwyr yn eu hachosi ac i sicrhau diogelwch a lles dioddefwyr, gan gynnwys plant. Dylai cyfranogiad asiantaethau eraill a'r angen i rannu gwybodaeth fod yn rhan o Gynllun Rheoli Risg a bydd angen i staff ystyried pa drefniadau amlasiantaethol sy'n debygol o fod y mecanwaith mwyaf effeithiol ar gyfer pob cynllun.
375. Lle bo'n briodol, dylid cynnig y cyfle i gyflawnwyr ymgysylltu â rhaglen ymddygiad troseddol a dylid atgyfeirio'r rhai sy'n gymwys ar gyfer rhaglenni achrededig HMPPS. Bydd y rhai nad ydynt yn addas ar gyfer rhaglen achrededig yn gallu cyrchu gweithgareddau adsefydlu amgen a gynlluniwyd i leihau aildroseddu. Mae angen ystyried ymyriadau a rhaglenni ymddygiad troseddol achrededig yn ofalus ar gyfer y rhai sydd â hanes o gam-drin, gan gynnwys a yw grwpiau rhyw cymysg yn briodol.
376. Gall cam-drin barhau o'r tu mewn i'r carchar trwy alwadau ffôn, llythyrau, cyfarfodydd wyneb yn wyneb, neu drwy aelodau o'r teulu. Dylai Rheolwyr Troseddwy'r Carchar asesu a yw carcharor yn peri risg barhaus tra yn y ddalfa a pharatoi cynlluniau i reoli a mynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd. Gall rhyddhau cyflawnwr o'r carchar hefyd fod yn gyfnod peryglus i ddioddefwyr a dylai Rheolwyr Troseddwy'r Carchar ac ymarferwyr prawf sicrhau bod materion sy'n codi yn y ddalfa yn cael eu bwydo i mewn i gynllunio rhyddhau. Mae sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol wedi'i chasglu i lywio ac asesu addasrwydd y cyfeiriad a chynllunio llety digonol hefyd

yn allweddol i sicrhau nad yw cyflawnwyr yn dychwelyd ar unwaith at ddiodefwyr, gan gynnwys plant neu oedolion diamddiffyn eraill.

377. Mae HMPPS yn gweithredu Gwasanaeth Cyswllt Carcharorion Diangen¹⁹³ sydd ar gael i ddiodefwyr neu asiantaethau trydydd parti sy'n gweithredu ar ran diodefwyr a chyda'u caniatâd, i atal cyswllt digroeso gan garcharor gan gynnwys atal cyflawnwyr cam-drin domestig rhag cysylltu â diodefwyr o'r tu mewn i'r carchar, hyd yn oed pan fo'r carcharor yn bwrw dedfryd am drosedd digyswllt. Cysylltir â'r gwasanaeth yn uniongyrchol dros y ffôn neu drwy e-bost gan yr unigolyn dan sylw neu asiantaeth trydydd parti. Gall y gwasanaeth hefyd roi dyddiadau rhyddhau bras i ddiodefwyr a bydd unrhyw bryderon ynghylch rhyddhau fel arfer yn arwain at adroddiad yn cael ei anfon at y sefydliad dal.
378. Mae diogelwch diodefwyr yng nghyd-destun cam-drin domestig yn cynnwys diodefwyr yn y gorffennol ac oedolion neu blant a nodwyd sydd mewn perygl o ddod yn ddiodefwyr yn y dyfodol. O ystyried pa mor gyffredin yw cam-drin domestig, mae HMPPS yn cydnabod y bydd rhai o'r bobl y maent yn eu goruchwylio eu hunain yn ddiodefwyr cam-drin domestig. Fel rhan o gynllunio dedfrydau a rheoli risg, bydd staff yn cydweithio ag asiantaethau lleol, gwasanaethau cam-drin domestig a gwasanaethau arbenigol i sicrhau'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau diogelwch y rhai y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt.
379. Mae gan ddiodefwyr cyflawnwyr a gafwyd yn euog o drosedd rywiol neu dreisgar benodedig ac a ddedfrydwyd i 12 mis neu fwy dan glo hawl statudol i gymryd rhan yng Nghynllun Cyswllt Diodefwyr HMPPS. Os yw diodefwyr wedi dewis ymuno â'r Cynllun Cyswllt Diodefwyr, mae disgwyliadau o'r Swyddog Cyswllt Diodefwyr a rheolwyr achos wedi'u nodi yn y Fframwaith Polisi; mae rôl y Swyddog Cyswllt Diodefwyr yn cynnwys rhoi gwybod i'r diodefwyr am ddatblygiadau allweddol yn y ddedfryd o droseddwr megis a ydynt i fod i gael eu rhyddhau o'r carchar neu, ar gyfer carcharorion â dedfryd amhenodol, diweddariadau ar wrandawiadau'r Bwrdd Parôl. Dylai'r ymarferydd prawf gynnwys y trefniadau ar gyfer hysbysu'r diodefwyr bod carcharor yn cael ei ryddhau o'r ddalfa fel rhan o elfen diogelwch diodefwyr ei gynllun rheoli risg gan gynnwys mewn amgylchiadau lle mae'r person yn peri risg uchel o niwed i ddiodefwyr nad yw'n syrthio i'r cynllun. Ceir rhagor o wybodaeth yn y Fframwaith Polisi.

Timau Troseddau Ieuencid

380. Mae Timau Troseddau Ieuencid yn chwarae rhan arwyddocaol wrth asesu a nodi diodefwyr a chyflawnwyr cam-drin domestig. Mae'r timau'n aml yn un o'r prif atgyfeirwyr at ofal cymdeithasol plant ac yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gyflawni gwaith sy'n canolbwyntio ar drosedd yn ymwneud â cham-drin domestig a

¹⁹³ [Cael cefnogaeth fel diodefwyr trosedd – GOV.UK.](#)

darparu dysgu ar berthnasoedd iach. Mae'r gwasanaethau cyffredinol a ddarperir ganddynt yn cynnwys:

- rhedeg rhaglenni atal troseddu lleol;
- helpu pobl ifanc yng ngorsaf yr heddlu os cânt eu harestio;
- helpu pobl ifanc a'u teuluoedd yn y llys;
- goruchwyllo pobl ifanc sy'n cyflawni dedfryd gymunedol; a
- cadw mewn cysylltiad â pherson ifanc os caiff ei ddedfrydu i garchar.

381. Er mai'r heddlu fel arfer yw'r bobl gyntaf i gysylltu â'r tîm troseddau ieuencid, gall unrhyw asiantaeth gysylltu â nhw a gall aelodau o'r teulu a ffrindiau gysylltu â nhw hefyd os ydynt yn poeni am ymddygiad person ifanc.

System Cyfiawnder Troseddol a Sifil - Llysoedd Troseddol, Sifil a Theulu

Llysoedd troseddol a mesurau arbennig yn y llysoedd troseddol

382. Ymdrinnir â cham-drin domestig o dan y gyfraith droseddol a sifil. Mae'r ddwy system ar wahân ac yn cael eu gweinyddu'n bennaf gan lysoedd ar wahân. Mae llysoedd troseddol yn ymdrin yn bennaf â throseddwyr sydd wedi cyflawni trosedd, o ymosodiad cyffredin hyd at droseddau mwy difrifol megis llofruddiaeth. Bydd y llysoedd troseddol yn cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod dioddefwyr a thystion yn gallu rhoi eu tystiolaeth orau mewn achosion o'r fath.

383. Cyflwynodd [Deddf Cyfiawnder Ieuencid a Thystiolaeth Droseddol 1999](#) ('Deddf 1999') amrywiaeth o fesurau y gellir eu defnyddio i hwyluso'r gwaith o gasglu a rhoi tystiolaeth gan dystion sy'n agored i niwed ac wedi'u bygwth. Gelwir y mesurau hyn gyda'i gilydd yn 'fesurau arbennig' ac maent yn cynnwys y dilynol:

- Sgriniau i warchod y tyst rhag y diffynnydd
- Tystiolaeth a roddir gan dystion trwy gyswllt byw
- Tystiolaeth a roddir yn breifat
- Barnwyr a bargyfreithwyr yn tynnu wigiau a gynau
- Cyfweliad wedi'i recordio'n weledol
- Croesholi neu ail-holi gweledol wedi'i recordio cyn y treial
- Holi tyst trwy gyfryngwr
- Cymhorthion cyfathrebu

384. Mae'r CPS yn rhoi [canllawiau pellach ar fesurau arbennig](#). Mae Deddf 2021 yn darparu ar gyfer cymhwysedd awtomatig i achwynwyr troseddau sy'n ymwneud â cham-drin domestig gael eu hystyried ar gyfer mesurau arbennig mewn achosion troseddol. Unwaith y bydd mewn grym yn llawn, bydd adran 62 o Ddeddf 2021 yn diwygio'n uniongyrchol y darpariaethau perthnasol yn Neddf 1999. Bydd y newid hwn

yn rhoi cymhwysedd awtomatig i achwynwyr ar gyfer mesurau arbennig fel tystion wedi'u bygwth (o dan adran 17(4) o Ddeddf 1999). Bydd hyn yn golygu na fydd rhaid iddynt ddangos ofn neu ofid i fod yn gymwys ar gyfer mesurau arbennig. Mae mesurau arbennig yn berthnasol i dystion yr erlyniad a'r amddiffyniad, ond nid i'r diffynnydd a rhaid eu gwneud trwy gais i'r llys. Bydd tystion yn cael eu hystyried yn awtomatig fel tystion wedi'u bygwth o dan Ddeddf 1999 a gallant ddewis pa fesur(au) arbennig yr hoffent i'r cais gael ei wneud i'r llys ar ei gyfer, fodd bynnag, mae caniatáu ceisiadau mesur arbennig bob amser yn benderfyniad barnwrol.

Llysoedd sifil a mesurau arbennig yn y llysoedd sifil

385. Mae'r llysoedd sifil yn datrys anghydfodau rhwng unigolion neu sefydliadau yn bennaf. Nid oes ganddynt gategori ar wahân o drosedd ar gyfer cam-drin domestig, fodd bynnag, mae achosion gerbron y llysoedd hyn yn ymwneud â chategori eang o ddyled i'r rhai sy'n ymwneud â hawliau tai, iawndal, ac anghydfodau contractiol. Fel yn awdurdodaethau'r llysoedd eraill, mae cydnabyddiaeth bod cyflawnwyr weithiau'n defnyddio'r llysoedd i barhau â'u cam-drin, yn aml yn dod â dioddefwyr yn ôl i'r llys dro ar ôl tro, a all yn ei hun fod yn broses drawmatig.
386. Mae adran 64 o Ddeddf 2021, a gychwynwyd ar 14 Mehefin 2022, yn ei gwneud yn ofynnol i Reolau'r Llys gynnwys darpariaeth sy'n galluogi llys i wneud cyfarwyddyd mesurau arbennig i ddarparu bod dioddefwyr neu ddioddefwyr honedig o droseddau penodedig yn gymwys ar gyfer mesurau arbennig (er enghraifft, i'w galluogi i roi tystiolaeth trwy gyswllt fideo neu y tu ôl i sgrin). Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Reolau'r Llys ddarparu ar gyfer y rhai sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig neu sydd 'mewn perygl' o fod yn ddioddefwr i fanteisio ar fesurau arbennig yn y llysoedd sifil. Diben y ddarpariaeth yw sicrhau bod rheolau'n cael eu gwneud sy'n nodi pryd a sut y dylid rhoi cyfarwyddiadau mesurau arbennig mewn achosion o'r fath. Gwnaed rheoliadau¹⁹⁴ yn pennu pa droseddau sy'n berthnasol at ddibenion y rheolau hyn. Bydd p'un a gaiff unrhyw fesurau arbennig eu darparu yn y pen draw mewn achos sifil penodol yn dibynnu ar a yw'r llys o'r farn y byddent yn debygol o wella ansawdd tystiolaeth y tyst, neu gyfranogiad parti yn yr achos. Efallai mai dim ond mewn rhai achosion sifil penodol ac nid mewn achosion eraill y bydd mesurau arbennig yn briodol, ond mae'r rheolau newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r llys ystyried a ddylid gwneud cyfarwyddyd mesur arbennig.
387. Unwaith y daw i rym, bydd adran 66 o Ddeddf 2021 hefyd yn gwahardd cyflawnwyr rhag croesholi eu dioddefwyr yn bersonol ac i'r gwrthwyneb o dan amgylchiadau penodol mewn achosion sifil yng Nghymru a Lloegr. Gall croesholi o'r fath yn bersonol fod yn fodd i ail-drawmateiddio dioddefwyr a'u hatal rhag rhoi eu tystiolaeth orau yn y llys. Bydd hyn yn berthnasol er enghraifft, pan fo parti neu dyst yn ddioddefwr trosedd benodedig neu pan fo gwaharddeb berthnasol yn ei lle. Bydd Ddeddf 2021 hefyd yn caniatáu i ddioddefwyr cam-drin domestig gyflwyno tystiolaeth (er enghraifft llythyr gan feddyg neu gyflogwr) o gam-drin domestig a gyflawnir gan barti yn yr achos tuag at dyst (neu i'r gwrthwyneb) er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y gwaharddiad hwn.

¹⁹⁴ [Rheoliadau Mesurau Arbennig mewn Achosion Sifil \(Troseddau Penodedig\) 2022 \(legislation.gov.uk\)](#).

Gwnaed rheoliadau¹⁹⁵ yn nodi'r mathau o droseddau penodedig, gwaharddebau amddiffynnol a thystiolaeth sy'n berthnasol at ddiben gwahardd croesholi mewn achosion sifil.

Llysoedd teulu a mesurau arbennig yn y llysoedd teulu

388. Ymdrinnir ag achosion teulu yng Nghymru a Lloegr yn y llys teulu neu yn Adran Deulu'r Uchel Lys. Mae gweinyddu'r llysoedd hyn yng Nghymru a Lloegr yn fater a gadwyd yn ôl ac felly'n gyfrifoldeb Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, yn Lloegr, mae'r Gwasanaeth Cynghori Llys i Blant a Theuluoedd (Cafcass) yn darparu cyngor arbenigol ac argymhellion i'r llys ar fuddiannau'r plentyn mewn achosion cyfraith gyhoeddus yn ogystal ag mewn achosion cyfraith breifat lle mae risgiau diogelu, gan gynnwys y rhai cysylltiedig i gam-drin domestig.¹⁹⁶ Yng Nghymru, Cafcass Cymru yw'r asiantaeth allweddol sydd â'r dasg o ofalu am fuddiannau plant. Mae Cafcass Cymru wedi'i ddatganoli ac yn rhan o Lywodraeth Cymru.¹⁹⁷
389. Mae'r llysoedd teulu'n gwrandao'n rheolaidd ar achosion sy'n ymwneud â cham-drin domestig honedig neu a gyfaddefir mewn achosion cyfraith gyhoeddus – fel arfer anghydfodau rhwng rhieni a'r wladwriaeth (megis achosion gofal), ac achosion cyfraith breifat – fel arfer anghydfodau rhwng aelodau'r teulu ynghylch trefniadau plant. Mae adolygiad llenyddiaeth a gynhaliwyd ar achosion plant cyfraith breifat yn tynnu sylw at amcangyfrifon bod honiadau neu ganfyddiadau o gam-drin domestig yn bresennol mewn rhwng 49% a 62% o achosion trefniadau plant.¹⁹⁸
390. Mae [Rheolau'r Weithdrefn Deuluol 2010](#) yn nodi'r arferion a'r weithdrefn sydd i'w dilyn mewn achosion teulu. Mae [Cyfarwyddyd Ymarfer 12J](#), sy'n ategu'r rheolau hynny, yn nodi'r hyn y mae'n ofynnol i'r llys ei wneud mewn achosion trefniadau plant lle mae cam-drin domestig yn cael ei honni neu ei gyfaddef, neu lle mae rheswm arall dros gredu bod y plentyn neu barti mewn perygl o gam-drin domestig. Rhaid i les y plentyn fod yn brif ystyriaeth i'r llys wrth wneud unrhyw orchymyn trefniadau plentyn.¹⁹⁹ Mae'n rhaid i'r llys fod yn fodlon nad yw unrhyw gyswllt a orchymynnir â rhiant sydd wedi parhau i gyflawni cam-drin domestig yn peri bod y plentyn neu'r rhiant y mae'r plentyn yn byw gydag ef/hi yn agored i risg o niwed pellach.
391. Cododd adroddiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2020 [Asesu Risg o Niwed i Blant a Rhieni mewn Achosion Plant Cyfraith Breifat](#) bryderon ynghylch profiad dioddefwyr cam-drin domestig, gan gynnwys plant yn yr achosion teulu. Ystyriodd y panel arbenigol (y 'Panel Niwed') dros 1,200 o gyflwyniadau gan unigolion a sefydliadau ledled Cymru a Lloegr, ynghyd â byrddau crwn a grwpiau ffocws a gynhaliwyd gyda

¹⁹⁵ [Rheoliadau Gwahardd Croesholi yn Bersonol \(Achosion Sifil a Theuluol\) 2022 \(legislation.gov.uk\)](#).

¹⁹⁶ Mae Cafcass yn darparu [adnoddau ar gyfer asesu cam-drin domestig wedi'i dargedu at Gynghorwyr Llys Teulu](#).

¹⁹⁷ Mae rhagor o wybodaeth am Cafcass Cymru ar gael yn: [Cafcass Cymru | GOV.WALES](#).

¹⁹⁸ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. [Achosion Plant o Gam-drin Domestig a Chyfraith Breifat, adolygiad llenyddiaeth](#) Tabl 4.1: Prifysgol Brunel Llundain: 2020.

¹⁹⁹ Adran 1(1) o'r Ddeddf Plant 1989.

gweithwyr proffesiynol, rhieni a phlant sydd â phrofiad o'r llysoedd teulu. Mae themâu allweddol yr adroddiad yn cynnwys:

- Y diwylliant o blaid cyswllt - roedd ymatebwyr yn teimlo bod llysoedd yn rhoi gormod o flaenoriaeth i sicrhau cyswllt â'r rhiant dibreswyl, a oedd yn arwain at leihau honiadau o gam-drin domestig yn systemig.
- Gweithio mewn seilos –roedd cyflwyniadau'n amlygu gwahaniaethau mewn ymagweddau a diwylliant rhwng cyfiawnder troseddol, amddiffyn plant (cyfraith gyhoeddus) ac achosion plant cyfraith breifat, a diffyg cyfathrebu a chydlynu rhwng llysoedd teulu a llysoedd ac asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda theuluoedd, a oedd yn arwain at benderfyniadau anghyson a dryswch.
- System wrthwynebus – gyda rhieni'n cael eu gwrthwynebu ar yr hyn nad yw'n aml yn faes chwarae gwastad mewn achosion sy'n ymwneud â cham-drin domestig, cam-drin plant yn rhywiol a hunan-gynrychiolaeth, heb fawr ddim cyfranogiad gan y plentyn, os o gwbl.

392. Mewn ymateb, cyhoeddodd y Llywodraeth [Gynllun Gweithredu](#) yn nodi ymrwymïadau i wella profiad dioddefwyr cam-drin domestig, gan gynnwys plant mewn achosion cyfraith breifat.

393. Roedd y cynllun hwn yn cynnwys ymrwymïad i fynd i'r afael â chasgliad y Panel Niwed bod cyflawnwyr weithiau'n defnyddio'r llys teulu fel ffordd o barhau â'u cam-drin, gan ddod â dioddefwyr yn ôl dro ar ôl tro, a all fod yn broses drawmatig ynddi'i hun. Gall y llys wneud gorchymyn o dan adran 91(14) o Ddeddf Plant 1989 ('Deddf 1989') (a elwir hefyd yn orchymyn gwahardd) i'w gwneud yn ofynnol i unigolion geisio caniatâd cyn y gallant wneud cais eto am orchymynion penodol. Daeth y Panel Niwed i'r casgliad yn ei adroddiad nad yw'r pŵer hwn wedi'i ddefnyddio'n ddigonol. Mae'r Llywodraeth felly wedi cyflwyno adran 91A i Ddeddf 1989, a fewnosodwyd gan adran 67 o Ddeddf 2021. Mae adran 67 yn ei gwneud yn glir y gall y llys wneud gorchymynion adran 91(14) pan fo'n fodlon y byddai gwneud cais pellach am orchymyn o dan y Ddeddf honno, yn rhoi'r plentyn dan sylw, neu unigolyn arall, mewn perygl o niwed. Mae risg o niwed yn cynnwys risg o niwed o gam-drin domestig, gan gynnwys ei weld neu ei glywed.

394. Unwaith y daw i rym, bydd adran 65 o Ddeddf 2021 yn atal cyflawnwyr rhag croesholi eu dioddefwyr yn bersonol ac i'r gwrthwyneb o dan amgylchiadau penodol mewn achosion teulu yng Nghymru a Lloegr. Gall croesholi o'r fath yn bersonol fod yn fodd i ail-drawmateiddio dioddefwyr a'u hatal rhag rhoi eu tystiolaeth orau yn y llys. Bydd hyn yn berthnasol er enghraifft, pan fo parti neu dyst yn ddioddefwr trosedd benodedig neu pan fo gwaharddeb berthnasol yn ei lle. Bydd Deddf 2021 hefyd yn caniatáu i ddioddefwyr cam-drin domestig mewn achosion teuluol gyflwyno tystiolaeth (er enghraifft, llythyr gan feddyg neu gyflogwr) o gam-drin domestig a gyflawnir gan barti yn yr achos tuag at dyst (neu i'r gwrthwyneb) er mwyn cymhwyso am y

gwaharddiad hwn. Gwnaed rheoliadau²⁰⁰ yn pennu'r mathau o droseddau penodedig, gwaharddebau amddiffynnol a thystiolaeth sy'n berthnasol at ddiben gwahardd croesholi mewn achosion teulu.

395. Mae adran 63 o Ddeddf 2021 yn darparu ar gyfer mesurau arbennig mewn achosion teulu. Mae'n mandadu diwygiad i'r Rheolau Gweithdrefn Deuluol presennol yn Rhan 3A, i'w hystyried yn awtomatig fel dioddefwyr "agored i niwed" cam-drin domestig at ddibenion penderfynu a ddylid gorchymyn cyfarwyddyd cyfranogi. Yn benodol, mae'n ei gwneud yn ofynnol i reolau'r llys ddarparu, pan fo parti neu dyst mewn achos teuluol, neu mewn perygl o fod, yn ddioddefwr cam-drin domestig a gyflawnir gan barti, yn berthynas i barti, neu'n dyst, ei fod i'w gymryd yn ganiataol bod ansawdd eu tystiolaeth, a'u cyfranogiad yn yr achos yn debygol o leihau oherwydd bregusrwydd. Gellir cynnwys eithriad mewn rheolau ar gyfer achosion lle nad yw person yn dymuno cael ei ystyried yn gymwys ar gyfer cyfarwyddyd mesurau arbennig.

Gorchmynion Amddiffyn

396. Gall dioddefwyr neu asiantaethau proffesiynol eraill, yn dibynnu ar natur y cam-drin, wneud cais am fesur amddiffyn i amddiffyn dioddefwr neu berson a allai ddod yn ddioddefwr cam-drin. Gellir gwneud ceisiadau am waharddebau – naill ai gorchmynion peidio ag ymyrryd neu feddiannaeth – i'r llys teulu a gellir gorchymyn gwaharddebau brys yn ôl disgrisiwn y barnwr, heb yn wybod i'r cyflawnwr.

397. Gall llysoedd wneud gorchmynion diogelu o'u gwirfodd, i amddiffyn dioddefwr neu berson sy'n wynebu risg, lle mae statud yn darparu ar gyfer hyn.

398. Ceir tabl cryno o orchmynion diogelu ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig yn [Atodiad D](#).

Canolfan Byd Gwaith

399. Mae cyflogaion yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn debygol iawn o ddod i gysylltiad â dioddefwyr cam-drin domestig ac mae staff yn ymgymryd â dysgu i allu cefnogi cwsmeriaid. Mae pob canolfan gwaith wedi neilltuo pwyntiau cyswllt cam-drin domestig sydd wedi cael hyfforddiant i nodi a chefnogi anghenion unrhyw un sy'n profi cam-drin domestig a bydd yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau lleol i rannu gwybodaeth a chyfeirio dioddefwyr at gymorth allanol ychwanegol. Ymhellach, mae'r Cynllun Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig yn ymrwmo i dreialu'r cynllun gair cod Gofyn am ANI 'Angen Gweithredu ar Unwaith' mewn canolfannau gwaith (ar hyn o bryd yn gweithredu mewn fferyllfeydd yn unig), fel y gall unigolion wneud datgeliadau yn ddiogel a chyrchu cymorth brys.

²⁰⁰ [Rheoliadau Gwahardd Croesholi yn Bersonol \(Achosion Sifil a Theuluol\) 2022 \(legislation.gov.uk\)](#).

400. Mae ystod o fesurau a allai helpu dioddefwyr cam-drin domestig, gan gynnwys:

- Gall dioddefwyr cam-drin domestig gael eu hesemptio o ofynion cysylltiedig â gwaith am hyd at 26 wythnos;
- Y Consesiwn Trais Domestig Amddifad (DDVC) (gweler yr adran '[Statws Mewnfudo a Dioddefwyr Mudol](#)');
- Taliadau ymlaen llaw;
- Eithriad i'r polisi o gefnogi uchafswm o ddau o blant. Mae'r eithriad yn berthnasol i'r trydydd plentyn a'r plant dilynol hynny sy'n debygol o fod wedi'u geni o ganlyniad i genhedlu anghydsyniol (sydd, at y diben hwn, yn cynnwys trais rhywiol neu lle'r oedd yr hawlydd mewn perthynas reolaethol neu orfodaethol gyda rhiant biolegol arall y plentyn ar adeg cenhedlu);
- Mae Budd-dal Tai a delir i hawliwr Credyd Cynhwysol (ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig sy'n byw mewn lloches) wedi'i eithrio o'r cap ar fudd-daliadau;
- Hepgor ffi gais am y Cynllun Cynhaliaeth Plant;
- Cymorth tai deuol - os bydd yn rhaid i ddiodeswyr aros dros dro mewn llety amgen ond eu bod yn bwriadu dychwelyd i'w cyn gartref, efallai y byddant yn gallu derbyn yr elfen tai o'r Credyd Cynhwysol ar gyfer eu cartref parhaol arferol a'r llety amgen dros dro;
- Dileu'r cymhorthdal ystafell sbâr nad yw'n berthnasol i ddiodeswyr sy'n aros mewn llety wedi'i esemptio;
- Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai (DHP) - Mae'r Llawlyfr Canllawiau DHP yn amlygu unigolion neu deuluoedd sy'n ffoi rhag cam-drin domestig fel grŵp blaenoriaeth ar gyfer DHP;
- Trefniadau talu amgen, gan gynnwys taliadau wedi'u rhannu (ni roddir gwybodaeth i'r cyflawnwr pam y caniatwyd y cais am daliad wedi'i rannu);
- Newid i'r negeseua hawlwr o fewn y gwasanaeth Credyd Cynhwysol i annog hawlwr sydd â hawliadau ar y cyd lle mae plant yn y cartref i enwebu cyfrif banc y prif ofalwr i dderbyn taliad Credyd Cynhwysol; a
- Cymorth i wneud cais newydd am Gredyd Cynhwysol os nad oes un yn ei le, neu i rannu hawliad ar y cyd presennol os yw'r goroeswr wedi gadael y cyflawnwr.

401. Dylai staff y Ganolfan Byd Gwaith fod yn ymwybodol y gall cyflawnwyr wneud honiadau blinderus o dwyll budd-daliadau mewn ymgais i reoli a cham-drin partneriaid neu gyn-bartneriaid.

Cyflogwyr

402. Mae gan gyflogwyr ran bwysig i'w chwarae wrth helpu dioddefwyr cam-drin domestig i aros mewn gwaith, yn y gweithle ei hun, ac i helpu dioddefwyr i gyrchu'r

cymorth sydd ei angen arnynt drwy gyfeirio at wasanaethau arbenigol a chodi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig. Mae angen i bob cyflogwr ystyried pa gamau y gallant eu cymryd mewn perthynas â'r rôl hon a'u cyfrifoldebau. Mae gan gyflogwyr rôl ganolog o hyd wrth i ffyrdd newydd o weithio mewn ymateb i bandemig Covid-19, gan gynnwys gweithio gartref a gweithio hybrid, gael eu sefydlu. I'r rhai sy'n profi cam-drin, gall y gweithle yn aml gynnig lle diogel a seibiant i ffwrdd oddi wrth y cyflawnwr. Yn aml, cydweithwyr a rheolwyr yw'r unig bobl y tu allan i'r cartref y mae dioddefwyr yn siarad â nhw bob dydd ac felly maent mewn sefyllfa unigryw i helpu i adnabod arwyddion o gam-drin.

403. Mae llawer o gyflogwyr yn debygol o ddod ar draws cyflogeion y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt, naill ai fel dioddefwyr, gofalwyr, tystion i gam-drin, neu fel cyflawnwyr. Gellir dod o hyd i'r unigolion hyn mewn unrhyw swydd o fewn sefydliad.
404. Gall cam-drin domestig effeithio ar allu dioddefwyr i gyrchu gwaith a'u rhagolygon gyrfa. Mae enghreifftiau o sut y gall cyflawnwyr atal dioddefwyr rhag gweithio yn cynnwys trwy fygythiadau, achosi anafiadau corfforol neu eu hatal. Gall cyflawnwyr hefyd geisio aflonyddu ar ddioddefwyr tra yn y gwaith, cam-drin neu fygwth eu cydweithwyr neu gyflogwr, neu reoli eu hincwm. Mae'n bosibl y bydd dioddefwyr yn cael eu gorfodi i roi'r gorau i weithio pan ydynt yn ffoi rhag cyflawnwyr oherwydd eu bod yn gorfod symud ardal neu fynd i loches.²⁰¹
405. Mae gan gam-drin domestig gostau sylweddol i'r economi, ag amcangyfrif o £14 biliwn yn deillio o allbwn a gollir oherwydd amser i ffwrdd o'r gwaith a chynhyrchiant is gan ddioddefwyr cam-drin domestig yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2017.²⁰²
406. Mae gan gyflogwyr ddyletswydd gofal tuag at eu cyflogeion. Yn gyfreithiol, mae hyn yn golygu bod angen iddynt gadw at ddeddfau iechyd a diogelwch a chyflogaeth perthnasol, yn ogystal â dyletswydd gofal y gyfraith gyffredin. Rhaid i gyflogwyr sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, iechyd, diogelwch a lles eu cyflogeion yn y gwaith. Dylai cyflogwyr ystyried effaith cam-drin domestig ar eu cyflogeion fel rhan o'u dyletswydd ofal.
407. Fel arfer gorau, dylai cyflogwyr ddatblygu polisïau i nodi eu hymagwedd at gam-drin domestig o fewn eu gweithlu gan gynnwys, er enghraifft, cyfeirio at sefydliadau arbenigol, rolau a chyfrifoldebau o fewn y sefydliad, unrhyw addysg a hyfforddiant sydd ar gael, y cymorth ymarferol y gallant ei gynnig i ddioddefwyr yn eu gweithlu a'u hymagwedd at gyflawnwyr yn y gweithle. Gall y cymorth hwn gynnwys mynediad at absenoldeb â thâl neu drefniadau gweithio hyblyg a all fod o gymorth i ddioddefwyr mewn rhai sefyllfaoedd, er enghraifft, rheoli apwyntiadau sy'n ymwneud â cham-drin domestig neu ddod o hyd i lety diogel. Dylai cyflogwyr ymgynghori â staff, undebau llafur, cynrychiolwyr cyflogeion neu elusennau cam-drin domestig i ddatblygu,

²⁰¹ TUC. [Trais yn y cartref a'r gweithle: Adroddiad Arolwg TUC](#): 2014.

²⁰² Y Swyddfa Gartref. [Costau economaidd a chymdeithasol cam-drin domestig: Adroddiad Ymchwil 107](#): 2019.

gweithredu a chynnal polisi cam-drin domestig gan ystyried y gyfraith, canllawiau ac arfer da a nodwyd.

408. Yn 2020, cynhaliodd yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol [adolygiad i archwilio sut y gellir cefnogi dioddefwyr cam-drin domestig yn y gweithle](#) a sut i roi'r hyder a'r wybodaeth i gyflogwyr i gefnogi dioddefwyr yn well. Mae'r adroddiad yn nodi'r angen i fynd i'r afael â cham-drin domestig fel mater yn y gweithle a'r rôl gadarnhaol y gall cyflogwyr ei chwarae wrth gefnogi dioddefwyr. Mae'r [adroddiad ar gymorth yn y gweithle i ddioddefwyr cam-drin domestig](#) yn cynnwys astudiaethau achos arfer gorau ac awgrymiadau i helpu'r rhai sy'n profi cam-drin domestig.
409. Mae ystod o ganllawiau ymarferol cyfoes y gall cyflogwyr eu cyrchu. Dylai cyflogwyr nodi [Menter y Cyflogwyr ar gyfer Cam-drin Domestig \(EIDA\)](#), rhwydwaith busnes sy'n grymuso cyflogwyr i gymryd camau yn erbyn cam-drin domestig, ar gyfer eu staff, a'u sectorau. Mae'r EIDA yn dod â phrofiad, arbenigedd ac arfer gorau eu haelodau a'u partneriaid ynghyd i fynd i'r afael â cham-drin a chodi ymwybyddiaeth. Mae aelodaeth am ddim i unrhyw gyflogwr sydd am weithredu. Mae'r rhwydwaith yn darparu canllawiau ymarferol, yr offer a'r deunyddiau diweddaraf, yn ogystal â chyfeirio at wasanaethau cymorth. Er enghraifft, mae eu llawlyfr yn ganllaw cyfeirio sengl, gyda lluo o gamau ymarferol i gyflogwyr eu cymryd i sefydlu a chynnal polisi cam-drin domestig a chefnogi cyflogwyr sy'n gwneud datgeliad. Mae'r canllawiau wedi'u llunio gyda chymorth partneriaid EIDA, sylfaenwyr, ac aelodau Beacon ac maent ar gael i'w lawrlwytho i aelodau'r rhwydwaith. Mae ganddynt hefyd becyn cymorth cyflogwyr am ddim i'w lawrlwytho sydd wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu gwaith pandemig ar ôl Covid-19.
410. Dylai cyflogwyr hefyd nodi [Cyfamod Cam-drin Domestig y Cyflogwyr \(EDAC\)](#), sef ymrwymiad gan fusnesau i gefnogi'r rhai y mae cam-drin yn effeithio arnynt i fynd i mewn i'r gweithle neu ddychwelyd i'r gweithle. Gwahoddir cyflogwyr i lofnodi'r Cyfamod a nodi sgiliau gweithle a chyfleoedd i ddioddefwyr sy'n chwilio am gyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy. Nod y fenter yw harneisio newid cymdeithasol gwirioneddol ac ystyrlon, creu cyfleoedd cynhwysol a chadarnhaol, datblygu atebion cynaliadwy hirdymor i ddioddefwyr cam-drin er mwyn meithrin eu hyder, eu gwytnwch, eu sgiliau, a mynediad i'r gweithle. Mae'r EDAC wedi'i gyflwyno ledled Lloegr o fis Mehefin 2021 ac mae'n gydweithrediad rhwng Prosiect Sharan a'r Adran Gwaith a Phensiynau, gyda chymorth gan y Swyddfa Gartref a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.
411. Dylai cyflogwyr hefyd gyfeirio at [Becyn Cymorth Cam-drin Domestig PHE BITC i Gyflogwyr](#). Mae'r becyn cymorth hwn yn helpu cyflogwyr o bob maint a sector i wneud ymrwymiad i ymateb i'r risg o gam-drin domestig ac adeiladu dull sy'n sicrhau bod pob cyflogai'n teimlo bod eu gweithle yn eu cefnogi a'u grymuso i ddelio â cham-drin domestig. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r Sefydliad Siartredig ar gyfer Datblygu Personél hefyd wedi cyhoeddi [canllaw i gyflogwyr ar reoli a chefnogi cyflogwyr sy'n profi cam-drin domestig](#), sy'n amlinellu sut y gallai fframwaith cymorth

edrych. Mae UNSAIN hefyd wedi cynhyrchu [cytundeb enghreifftiol i'r gweithle ar drais a cham-drin domestig](#).

412. Gall cyflogwyr ddefnyddio [Llinell Gymorth ac offeryn digidol y Cyflogwyr Ymateb i Gam-drin](#) Hestia, sydd ar gael i unrhyw fusnes neu sefydliad yn y Deyrnas Unedig a hoffai canllawiau a gwybodaeth am ddim ynghylch sut i gefnogi cyflogeion sy'n dioddef cam-drin domestig yn y gweithle. Gweler [Atodiad A](#) am restr o'r cymorth sydd ar gael i ddiodefwyr.

Gwasanaethau Ariannol

413. Mae rheoli cyllid – trwy gyfyngu, ecsbloetio neu ddifrodi – yn rhan sylweddol o gam-drin economaidd. Mae [Datganiad Disgwyliadau Cenedlaethol VAWG](#) yn argymhell bod comisiynwyr lleol yn archwilio'r hyn y mae sefydliadau ariannol lleol yn ei wneud i nodi a chefnogi diodefwyr rheolaeth drwy orfodaeth, gan gynnwys a allant ddarparu pwynt datgelu diogel i ddiodefwyr. Gweler yr adran ar '[Cam-drin economaidd](#)' am ragor o wybodaeth.
414. Yn 2015, cyhoeddodd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA), sy'n rheoleiddio'r diwydiant gwasanaethau ariannol yn y DU ac yn helpu i ddiogelu defnyddwyr, ymchwil²⁰³ i herio cwmnïau i gefnogi cwsmeriaid agored i niwed yn well. Mae'r FCA wedi gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod defnyddwyr agored i niwed yn cael eu trin yn deg yn gyson ar draws sectorau gwasanaethau ariannol. Yn dilyn proses ymgynghori, [fe wnaeth yr FCA derfynu canllawiau terfynol i gwmnïau ar drin cwsmeriaid agored i niwed yn deg](#). Mae'r canllawiau hyn yn nodi, ochr yn ochr â nodweddion eraill, y gall digwyddiadau bywyd penodol, gan gynnwys tor-perthynas a cham-drin domestig, gynyddu'r risg y bydd defnyddwyr yn dod yn agored i wahanol fathau o niwed neu anfantais. Mae'n amlygu'r camau y dylai cwmnïau eu cymryd i ddeall anghenion defnyddwyr o dan yr amgylchiadau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu trin yn deg.
415. Wrth gydnabod y rhan y mae gwasanaethau ariannol yn ei chwarae wrth ymateb i gam-drin domestig, mae UK Finance a'r Gymdeithas Cymdeithasau Adeiladu wedi sefydlu [Cod Cam-drin Ariannol](#). Mae'r Cod gwirfoddol yn nodi sut y dylai banciau a chymdeithasau adeiladu sy'n cymryd rhan gefnogi cwsmeriaid sy'n dioddef cam-drin domestig ac ariannol neu economaidd. Fe'i cynlluniwyd hefyd i ymestyn i fathau eraill o gam-drin – h.y. cam-drin gan bobl nad ydynt wedi'u cysylltu fel y'u diffinnir gan Ddeddf 2021 – er enghraifft cam-drin yr henoed gan ofalwyr nad ydynt "yn gysylltiedig yn bersonol" â'r diodefwyr. Nod y Cod yw cyflwyno ymwybyddiaeth gynyddol a gwell dealltwriaeth o'r hyn y mae cam-drin ariannol yn ei olygu i gwmnïau, cydweithwyr (e.e. staff sy'n delio â chwsmeriaid), a'r rhai y mae cam-drin ariannol yn effeithio arnynt.

²⁰³ FCA. [Papur Achlysurol Rhif 8: Defnyddwyr sy'n Agored i Niwed](#): 2015.

416. Mae nifer cynyddol o sefydliadau ariannol a brandiau cysylltiedig, sy'n cynrychioli cyfran fawr o gyfrifon cyfredol, wedi ymrwymo i'r Cod ers ei lansio. Maent yn gweithredu'r egwyddorion a nodir yn y Cod, gan wella'r modd y maent yn cefnogi cwsmeriaid i ddeall ac adennill rheolaeth ar eu harian, sy'n aml yn gam cyntaf pwysig i adennill eu hannibyniaeth.

Cysylltiadau â'r sector gwirfoddol

417. Mae'r sector gwirfoddol yn chwarae rhan allweddol wrth ddarparu cymorth arbenigol i ddiodefwr, eu teuluoedd a chyflawnwyr. Mae gan lawer o ardaloedd wasanaethau cymorth gwirfoddol, gan gynnwys gwasanaethau arbenigol a 'gan ac ar gyfer', sy'n darparu cymorth yn y gymuned a thu hwnt, megis:

- llinellau cymorth cenedlaethol a lleol;
- gwasanaethau lloches;
- eiriolaeth (gan gynnwys Eiriolwyr Trais Domestig Annibynnol ac Eiriolwyr Atal Cam-drin Domestig);
- allgymorth a chymorth fel y bo'r angen;
- cymorth i blant a phobl ifanc;
- gwasanaethau galw heibio;
- gwasanaethau cwnsela a therapiwtig;
- gwaith grŵp a chymorth cymheiriaid;
- rhaglenni adfer i ddiodefwr, gan gynnwys plant;
- ymchwil a chasglu tystiolaeth;
- datblygu polisi a safonau gwasanaeth; a
- rhaglenni newid ymddygiad ar gyfer cyflawnwyr.

418. Mae'r Llywodraeth yn ariannu Llinell Gymorth Cam-drin Domestig Genedlaethol Rhadffôn ar gyfer Lloegr (0808 2000 247) a redir gan Refuge. Mae'r Llinell Gymorth yn cynnig gwybodaeth gyfrinachol, anfeirniadol a chymorth arbenigol i gadw diodefwr yn ddiogel a rhoi gwybodaeth iddynt er mwyn gwneud dewisiadau gwybodus. Mae'r Llywodraeth hefyd yn ariannu'r unig linell gymorth cam-drin domestig LHDT arbenigol, sy'n cael ei rhedeg gan Galop, elusen gwrth-drais LHDT a llinell gymorth Cyngor i Ddynion benodol sy'n cael ei rhedeg gan Respect (0808 801 0327). Mae Southall Black Sisters yn gweithredu llinell gymorth arbenigol ar gyfer menywod o leiafrifoedd ethnig a mudol nad oes ganddynt hawl i arian cyhoeddus (020 8571 9595). Mae hefyd cymorth llinell gymorth i gyflawnwyr trwy Linell Ffôn Respect (0808 8024 040). Llinell gymorth Byw Heb Ofn yw llinell gymorth genedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru (0808 80 10 800) ac fe'i hariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r llinellau

cymorth hyn a rhestr nad yw'n hollgynhwysfawr o gymorth cam-drin domestig arbenigol arall i'w gweld yn [Atodiad A](#).

419. Fel ymarferwyr hyfforddedig arbenigol, mae Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVAs) yn gweithredu fel pwynt cyswllt i ddioddefwyr, gan gefnogi'r rhai sy'n wynebu risg uchel o niwed gan gyflawnwyr. Mae IDVAs yn gweithio gyda'u cleientiaid o bwynt argyfwng i asesu lefelau risg, trafod opsiynau a chreu cynlluniau diogelwch. Mae hyn yn cynnwys camau gweithredu o Gynadleddau Asesu Risg Amlasiantaethol (MARACs) yn ogystal â sancsiynau a rhwymedïau sydd ar gael drwy'r llysoedd troseddol a sifil, opsiynau tai a gwasanaethau sydd ar gael drwy sefydliadau eraill.²⁰⁴ Gall IDVAs weithio'n agos gyda Chynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVAs) mewn achosion sy'n ymwneud ag ymosodiad rhywiol neu dreisio ac mae rôl IDVA Plant a Phobl Ifanc yn darparu cymorth arbenigol mewn achosion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc sy'n wynebu risg uchel.
420. Er mwyn i waith amlasiantaethol fod yn effeithiol, mae'n hanfodol bod y wladwriaeth yn gweithio'n agos gyda'r sector gwirfoddol i sicrhau cyfuniad llawn a phriodol o arbenigedd i ddarparu cymorth cyffwrdd. Er enghraifft, mae gweithwyr cymorth cam-drin domestig arbenigol wedi'u hyfforddi'n drylwyr i gefnogi teuluoedd y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt, ac maent yn cyfrannu'n werthfawr at drafodaethau ac asesiadau risg sy'n gysylltiedig â Hybiau Diogelu Amlasiantaethol (MASHs) neu gynlluniau Plant mewn Angen ac Amddiffyn Plant, gan gynnwys presenoldeb mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant Cychwynnol. Ceir rhagor o fanylion am waith amlasiantaethol yn '[Pennod 7 – Ymateb Amlasiantaethol i Gam-drin Domestig](#)'.

²⁰⁴ SafeLives. [Diffiniad Cenedlaethol ar gyfer gwaith IDVA](#): 2014.

Pennod 7 – Ymateb Amlasiantaethol i Gam-drin Domestig

Mae'r bennod hon yn cynnwys:

- Cyfrifoldeb asiantaethau i gydweithio a rhannu gwybodaeth, gan gynnwys diogelu plant.
- Egwyddorion arfer gorau ar gyfer gwaith amlasiantaethol.
- Cydweithio i fynd i'r afael ag ymddygiad cyflawnwyr.
- Adolygiadau Lladdiad Domestig.

Gweithio amlasiantaethol

421. Mae'r ymateb i gam-drin domestig yn un cymhleth sy'n rhychwantu nifer o asiantaethau statudol ac anstatudol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i awdurdodau lleol, asiantaethau yn y gymuned, gwasanaethau plant, ysgolion, tai, iechyd (gan gynnwys iechyd meddwl), gwasanaethau cyffuriau ac alcohol, asiantaethau cam-drin domestig arbenigol, yr heddlu a'r system cyfiawnder troseddol. Mae gan sefydliadau ehangach, megis cyflogwyr a sefydliadau gwasanaethau ariannol rôl i'w chwarae hefyd. Mae gan asiantaethau gyfrifoldeb i gydweithio'n effeithiol i ddarparu cymorth ac amddiffyniad i ddioddefwyr cam-drin domestig. Gall hyn fod trwy gynllunio strategol, cyd-gomisiynu a chreu gwasanaethau cydgysylltiedig. Mae cydweithio'n hanfodol i helpu i adnabod cam-drin domestig yn gynnar ac i ymateb i gam-drin domestig mewn modd a all leihau'r risg o waethygu. Mae'n hanfodol diogelu dioddefwyr, gan gynnwys plant, yn briodol, waeth beth fo lefel y risg.

422. Mae ymateb amlasiantaethol effeithiol yn golygu bod pob asiantaeth rheng flaen yn ystyried cam-drin domestig ac wedi'u hyfforddi i ddeall dymameg cymhleth ac arwyddion cam-drin domestig. Mae sefydliadau cam-drin domestig arbenigol yn cynnig amrywiaeth o hyfforddiant i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn cyd-destunau diogelu amlasiantaethol. Dylai'r hyfforddiant hwn ystyried nodweddion gwarchoddedig dioddefwr, ei amgylchiadau unigol a chyd-nabod y gall ffurfiau croestoriadol o gam-drin fod ar waith. Gall y ffactorau hyn atal dioddefwyr rhag cyrchu cymorth a gwasanaethau ac amlygu'r angen am wasanaethau arbenigol 'gan ac ar gyfer' i fod yn rhan o'r holl arferion gwaith amlasiantaethol. Yng Nghymru, mae dyletswydd statudol ar Awdurdodau Perthnasol i hyfforddi eu staff hyd at lefelau priodol yn unol â'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol y canllawiau statudol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a gyhoeddwyd o dan adran 15 o [Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol \(Cymru\) 2015](#) ac adran 60 o [Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006](#).

423. Rhaid i asiantaethau weithio gyda'i gilydd a rhannu gwybodaeth i sicrhau eu bod yn gallu defnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael ym mhob asiantaeth i greu darlun llawn o'r dioddefwyr, gan gynnwys plant, a'r cyflawnwyr. Mae hyn yn cynnwys edrych yn gyfannol ar achos ac amgylchiadau unigolyn i nodi cymorth amlasiantaethol priodol.
424. Mae gan bob asiantaeth ddyletswydd i asesu a oes angen ymateb diogelu cyn atgyfeirio digwyddiad at bartneriaeth amlasiantaethol. Gall cydleoli gwasanaethau neu ddarparwyr cam-drin domestig arbenigol fod yn ffordd effeithiol o weithio amlasiantaethol. Er enghraifft, mae gan rai ardaloedd lleol Gynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVAs) mewn gorsafoddedd heddlu ac ysbytai.²⁰⁵ Gall cydleoli fod yn arbennig o effeithiol wrth gefnogi'r rhai sydd wedi profi cam-drin domestig, lle gall fod stigma ynghylch cyrchu gwasanaethau.
425. Mae Standing Together wedi cynhyrchu [In Search of Excellence](#), canllaw ar gyfer hwyluso partneriaethau Ymateb Cymunedol Cydgysylltiedig (CCR) sy'n ailadrodd pwysigrwydd gwaith cydgysylltu ymhlith darpariaeth rheng flaen.²⁰⁶
426. Mae [Deddf Cam-drin Domestig 2021](#) ('Deddf 2021') a sefydlodd yn gyfreithiol swydd y Comisiynydd Cam-drin Domestig (CCR), i roi arweiniad cyhoeddus ar faterion cam-drin domestig, yn chwarae rhan allweddol wrth oruchwylio a monitro darpariaeth gwasanaethau cam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr a hyrwyddo arfer gorau, gan gynnwys gwaith amlasiantaethol.²⁰⁷
427. Dylai gwaith amlasiantaethol gael ei ymgorffori mewn dulliau o ymateb i gam-drin domestig a dylai gynnig amrywiaeth o ymyriadau a chymorth, o ymyrraeth gynnar i gymorth ar gyfer achosion risg uchel drwy drefniadau diogelu ffurfiol. Gall yr ymatebion hyn gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:
- Cyngor a chanllawiau;
 - Eiriolaeth;
 - Atgyfeiriadau ymlaen neu gyfeirio at asiantaethau neu wasanaethau eraill;
 - Cefnogaeth tai;
 - Cyngor a chymorth ariannol;
 - Cwmsela un-wrth-un neu grŵp;

²⁰⁵ Mae'r Pecyn Cymorth Pathfinder yn cynnwys adran ar gydleoli IDVAs seiliedig ar iechyd.

²⁰⁶ Mae Standing Together hefyd yn darparu [hyb Rhwydwaith CCR ar gyfer rhannu arfer gorau gan gynnwys gwybodaeth am hyfforddiant proffesiynol](#).

²⁰⁷ Datblygodd y Swyddfa Gartref, mewn ymgynghoriad â'r Comisiynydd Cam-drin Domestig, ddogfen fframwaith y bydd y Comisiynydd yn gweithredu oddi mewn iddi. Ymgynghorwyd hefyd â Gweinidogion Cymru fel sy'n ofynnol o dan adran 11(7) o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021. Diben y ddogfen, a gyhoeddir o dan adran 11 o'r Ddeddf, yw nodi sut y bydd yr Ysgrifennydd Cartref a'r Comisiynydd Cam-drin Domestig yn cydweithio.

- Gofal seibiant;
- Cynlluniau amddiffyn plant;
- Cynlluniau diogelwch a chymorth;
- Cymorth trwy broses cyfiawnder troseddol, neu achos llys sifil;
- Cymorth cyffuriau ac alcohol; a
- Rhaglenni newid ymddygiad cyflawnwyr.

428. Mae Hyb Diogelu Amlasiantaethol (MASH) yn un ffordd o gydgyssylltu gweithgarwch yn ymwneud ag atgyfeiriadau diogelu, asesiadau ac ymatebion cydgysylltiedig. Gall ardaloedd lleol eraill alw strwythurau diogelu amlasiantaethol yn rhywbeth gwahanol. Mae'r rhain yn dod â gweithwyr proffesiynol arbenigol ynghyd o amrywiaeth o wasanaethau sy'n dod i gysylltiad â phlant, pobl ifanc, oedolion a theuluoedd, gan wneud y defnydd gorau posibl o'u gwybodaeth a'u gwybodaeth gyfunol i ddiogelu plant sydd mewn perygl o niwed neu esgeulustod. Mae gan lawer o ardaloedd lleol MASH neu fforymau eraill, gyda'r nod o ddarparu model 'un drws blaen', lle mae gweithwyr proffesiynol yn casglu gwybodaeth ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch pa lwybrau i'w dilyn ar gyfer gwahanol gysylltiadau ac atgyfeiriadau. Gall hyn arwain at asesiad gan ofal cymdeithasol plant, cymorth cynnar neu ymateb gan wasanaethau cyffredinol. Lle nad oes gan ardaloedd lleol drefniadau MASH ar waith, dylai trefniadau diogelu amlasiantaethol amgen fod yn eu lle sy'n cyflawni'r egwyddorion bras a nodir isod. Mae SafeLives wedi cyhoeddi [Gweld y Darlun Cyfan: Gwerthusiad o Un Drws Blaen SafeLives](#) sy'n nodi sut olwg ddylai fod ar fodel effeithiol.

429. Dylai fod gan sefydliadau ac asiantaethau lleol ffyrdd effeithiol ar waith i nodi problemau sy'n dod i'r amlwg ac anghenion sydd o bosibl heb eu diwallu gyda phlant unigol a theuluoedd. Dylai awdurdodau lleol weithio gyda sefydliadau ac asiantaethau i ddatblygu gwasanaethau cymorth cynnar cydgysylltiedig yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o anghenion lleol. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bob ymarferydd, gan gynnwys y rheini mewn gwasanaethau cyffredinol a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau i oedolion â phlant, ddeall eu rôl o ran nodi problemau sy'n dod i'r amlwg a rhannu gwybodaeth ag ymarferwyr eraill i gefnogi nodi ac asesu'n gynnar.

430. Gweithio amlasiantaethol effeithiol (er enghraifft MASH):

- Mae angen iddo weld ac ymateb i'r darlun cyfan;
- Dylai ymgorffori anghenion, diogelwch a dymuniadau dioddefwyr;
- Dylai fod â ffocws strategol clir;

- Mae angen iddo gael partneriaid gweithgar i gymryd rhan mewn cydweithio ystyrlon;
- Mae angen iddo gael sgiliau arbenigol;
- Mae angen iddo rannu gwybodaeth yn ddiogel ac yn effeithiol;
- Mae'n gwerthfawrogi ac yn cyflogi staff gyda'r gwerthoedd cywir; a
- Mae'n mynd i'r afael ag ymddygiad y troseddwr.

431. Gweler yr adran '[Egwyddorion ar gyfer gweithio amlasiantaethol](#)'.

432. Cyflwynodd [Deddf yr Heddlu, Troseddau, Dedfrydu a Llysoedd \(PCSC\) 2022](#) ('Deddf PCSC 2022') Ddyletswydd Trais Difrifol i sicrhau bod awdurdodau penodedig ledled Cymru a Lloegr, sef yr heddlu, gwasanaethau tân ac achub, iechyd, awdurdodau lleol, timau troseddau ieuenctid a gwasanaethau prawf yn cydweithio, ac yn rhannu data a gwybodaeth er mwyn rhoi strategaeth ar waith i atal a lleihau trais difrifol. Mae adran 13 o Ddeddf PCSC 2022 yn cynnwys cam-drin domestig a throseddau rhywiol yn benodol o fewn y diffiniad o "drais" at ddiben y Ddyletswydd Trais Difrifol.²⁰⁸

Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaethol

433. Mae Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC) yn broses anstatudol sy'n dod ag asiantaethau statudol a gwirfoddol ynghyd i gefnogi ar y cyd oedolion a phlant sy'n ddiodefwrwr cam-drin domestig sy'n wynebu risg uchel o niwed difrifol neu laddiad, ac i darfu ar a dargyfeirio ymddygiad y cyflawnwr(wyr). Rhagdybiaeth weithio MARAC yw na all unrhyw asiantaeth neu unigolyn unigol weld y darlun cyflawn o fywyd diodefwrwr, ond efallai y bydd gan bob un fewnwelediad sy'n hanfodol i'w ddiogelwch. Yr asiantaethau MARAC craidd yw: yr heddlu, gwasanaethau IDVA, tai, gwasanaethau plant, y Gwasanaeth Prawf, iechyd sylfaenol, iechyd meddwl, gwasanaeth camddefnyddio sylweddau a gofal cymdeithasol oedolion.

434. Ar ddechrau'r broses MARAC, bydd asiantaethau lleol yn atgyfeirio diodefwrwr i'r MARAC lleol. Cyn y cyfarfod, bydd yr holl asiantaethau sy'n cymryd rhan yn casglu gwybodaeth berthnasol, cymesur ac angenrheidiol am y diodefwrwr, gan gynnwys plant, a'r cyflawnwr(wyr). Bydd cynrychiolwyr yr asiantaethau lleol yn mynychu cyfarfod MARAC, (fel arfer yn cael ei gynnal bob mis neu bob pythefnos) i drafod y wybodaeth a'r arbenigedd a rennir ac awgrymu camau gweithredu. Dylai asiantaethau sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n rheolaidd â'i gilydd rhwng cyfarfodydd MARAC – mae hyn yn rhan hanfodol o broses MARAC ac yn sicrhau bod ymateb cydgysylltiedig i

²⁰⁸ Ar adeg ysgrifennu, mae canllawiau statudol drafft ar y Ddyletswydd Trais Difrifol, a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 19 o Ddeddf PCSC 2022, yn cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

gam-drin domestig. Ni ddylai cyfathrebu ynghylch achosion aros i gyfarfodydd MARAC gael eu cynnal.

435. Mae'r IDVA yn ymarferydd arbenigol sy'n gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i roi'r cynllun gweithredu ar waith, gan ddefnyddio adnoddau ar ran y dioddefwyr, gan gynnwys plant, i gynyddu eu diogelwch. Maent yn cynrychioli'r dioddefwr yn hollbwysig yn y MARAC, gan sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed.
436. Nid yw'r dioddefwyr, gan gynnwys plant, a'r cyflawnwr(wyr) yn mynychu'r cyfarfod. Hysbysir y dioddefwr bod yr achos yn cael ei ddwyn drwy'r broses MARAC, oni bai y bernir ei bod yn anniogel i wneud hynny. Os yw'r dioddefwr yn gwrthwynebu datgelu gwybodaeth bersonol, dylid ystyried hyn yn gymesur â'r risgiau sy'n bresennol. Os credir bod dal gwybodaeth yn ôl yn rhoi plentyn mewn perygl o niwed sylweddol, neu oedolyn arall mewn perygl o niwed difrifol, yna gellir cyfiawnhau datgelu er budd y cyhoedd a/neu er mwyn diogelu buddiannau hanfodol y trydydd parti. Os yw'r dioddefwr mewn perygl sylweddol o niwed, yna byddai hyn er budd y cyhoedd. Rhaid i'r broses gydymffurfio â GDPR y DU a [Deddf Diogelu Data 2018](#) a dyletswydd cyfrinachedd y gyfraith gyffredin. Rhaid cadw at y Protocol Rhannu Gwybodaeth ac Egwyddorion Caldicott a rhaid cofnodi'r penderfyniad i rannu fel un cymesur a pherthnasol mewn perthynas â'r risgiau. Gallwch ddarllen y [Canllawiau Ymarferol ar gymhwyso Egwyddorion Gwarcheidwad Caldicott i Drais Domestig a MARACs](#). Yn dibynnu ar ba drefn y mae'r prosesu yn perthyn iddi, bydd angen i chi sicrhau bod yr amodau priodol ar gyfer prosesu (gan gynnwys ar gyfer prosesu sensitif) yn cael eu diwallu. [Mae cyngor ar rannu data ar gael i ymarferwyr sy'n darparu gwasanaethau diogelu i blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr](#).

Gwaith amlasiantaethol i ddiogelu plant

437. Dylai asiantaethau gydnabod effaith cam-drin domestig ar blant a'u cefnogi yn unol â hynny. Dylai'r rhai sy'n ymateb i blant sy'n profi cam-drin domestig ddilyn prosesau a gweithdrefnau diogelu, asesu risg ac atgyfeirio presennol.
438. Ategir gwaith amlasiantaethol i ddiogelu plant gan y system o drefniadau diogelu amlasiantaethol, y darperir ar eu cyfer gan Ddeddf Plant 2004, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Plant a Gwaith Cymdeithasol 2017. Mae'r trefniadau hyn yn gosod dyletswydd statudol ar yr heddlu, iechyd, ac arweinwyr awdurdodau lleol i gydweithio ar drefniadau diogelu lleol. Maent yn gyd-gyfrifol am gydlynu gwasanaethau diogelu i gadw plant yn ddiogel ac maent yn atebol am ba mor dda y mae asiantaethau lleol yn cydweithio i amddiffyn plant rhag cam-drin ac esgeulustod. Dylai'r tri phartner diogelu (yr awdurdod lleol, iechyd a'r heddlu) gytuno ar ffyrdd o gydlynu eu gwasanaethau diogelu; gweithredu fel grŵp arweinyddiaeth strategol wrth gefnogi ac ymgysylltu ag eraill; a gweithredu dysgu lleol a chenedlaethol gan gynnwys o ddigwyddiadau diogelu difrifol gyda phlant.

439. Mae'r ddogfen ganllawiau statudol, [Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant \(2018\)](#), yn nodi'r hyn y mae angen i weithwyr proffesiynol a sefydliadau ei wneud, yn unigol ac mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc. Mae hyn yn parhau i fod yn ganllawiau craidd ar gefnogi plant sy'n ddiodefwr cam-drin domestig. Mae Gweithio Gyda'n Gilydd hefyd yn amlygu bod gan bawb sy'n gweithio gyda phlant gyfrifoldeb i'w cadw'n ddiogel a bod gweithio amlasiantaethol a rhannu gwybodaeth yn hanfodol i sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael y cymorth cywir ar yr amser cywir. Pwysleisir pwysigrwydd cymorth cynnar i hyrwyddo lles plant. Mae [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#) yn berthnasol yng Nghymru yn ogystal â'r [canllawiau Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl](#) a [Gweithdrefnau Diogelu Cymru](#) ar gyfer plant ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso.

440. Mae canllawiau Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant hefyd yn nodi rolau allweddol ar gyfer sefydliadau ac asiantaethau unigol i gyflawni trefniadau effeithiol ar gyfer diogelu ac yn gosod dyletswydd gyfartal a rennir ar y tri phartner diogelu (yr awdurdod lleol, iechyd a'r heddlu) i wneud trefniadau i gydweithio er mwyn diogelu a hyrwyddo lles pob plentyn mewn ardal leol. Mewn perthynas â phlant mewn angen (adran 17 o Ddeddf Plant 1989) ac ymholiadau amddiffyn plant (adran 47 o Ddeddf 1989), mae'r canllawiau'n nodi rolau a chyfrifoldebau penodol yr awdurdod lleol a'i weithwyr cymdeithasol wrth arwain asesiadau statudol. Mae Gweithio Gyda'n Gilydd yn ei gwneud yn glir, ym mhob ymholiad lles a diogelu, y dylai ymarferwyr fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn er mwyn sicrhau bod buddiannau gorau'r plentyn yn cael eu hystyried bob amser. Gweler yr adran ar '[Effaith Cam-drin Domestig ar Blant](#)' ac '[Ymateb i blant a phobl ifanc](#)' am ragor o wybodaeth.

Egwyddorion ar gyfer gweithio amlasiantaethol

Gweld ac ymateb i'r darlun cyfan

441. Mae'n hanfodol bod gwasanaethau'n cydweithio i nodi ac ymateb yn gydlynol ac ystyried y darlun cyfan o gyd-destun cam-drin domestig. Dylai'r egwyddor hon fframio'r ymateb amlasiantaethol i ddiodefwr, gan gynnwys plant. Dylai asiantaethau:

- **Datblygu ymagwedd gydweithredol sy'n seiliedig ar gydlynu sgiliau, profiad a safbwyntiau pobl o bob asiantaeth.** Dylai unrhyw broses asesu gydnabod a chaniatáu ar gyfer amrywiadau yn anghenion a diogelwch y diodefwr a dylai gael ei llywio gan yr asesiad a ddarperir gan y gwasanaeth cam-drin domestig arbenigol.
- **Bod yn ymwybodol o'r potensial i gam-drin domestig groestorri â niwed arall, gan ystyried swyddogaethau diogelu eraill wrth ystyried anghenion diodefwr, ochr yn ochr â llwybrau ymyrryd ar gyfer cyflawnwyr.** Mae llawer o niwed a phrofiadau anffafriol yn croestorri â'i gilydd naill ai i ysgogi ymddygiad camdriniol, neu i waethygu gwendidau yn y rhai sydd wedi profi cam-

drin - er enghraifft, lle mae risg yr amheuir o drais difrifol, caethwasiaeth fodern neu gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

- **Defnyddio proses asesu sy'n seiliedig ar dystiolaeth** i sicrhau bod dealltwriaeth gyffredin o'r risg a chynllun ar y cyd i fynd i'r afael â risg. Dylai'r asesiad gynnwys nodi'r risg i/gan bob aelod o'r teulu ac anghenion pob aelod o'r teulu. Prif nod yr asesiad hwn ddylai fod mwy o ddiogelwch a lles i bob aelod o'r teulu nad yw'n cam-drin, gyda'r ymateb wedi'i deilwra i'w sefyllfa benodol a'r safbwyntiau y maent wedi'u mynegi. Dylai'r broses asesu hon fod â thystiolaeth dda, gael ei phrofi gyda defnyddwyr gwasanaeth, a dylai fod yn destun hyfforddiant rheolaidd o ansawdd uchel ar sut y dylid (ac na ddylid) ei defnyddio. Dylai gyfeirio at ddulliau asesu presennol megis y gwaith asesu risg Cam-drin Domestig, Stelcio, Aflonyddu a Thrais ar sail 'Anrhydedd' (DASH) a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs). Mae risg yn gyfnewidiol a rhaid ei ailasesu'n rheolaidd a dylai'r broses hwyluso hynny.
- **Datblygu prosesau a llwybrau** sy'n sicrhau bod aelodau'r teulu'n cael y cymorth mwyaf priodol cyn gynted â phosibl unwaith y bydd anghenion a risgiau wedi'u nodi.

Blwch 7.1: Astudiaeth Achos – Cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig

Astudiaeth Achos

Mae Gwasanaeth Allgymorth Trais Domestig a Rhywiol Hounslow yn wasanaeth trais yn erbyn menywod a merched (VAWG) ar gyfer holl ddioddefwyr trais ar sail rhywedd. Gall dioddefwyr sy'n byw ym Mwrdeistref Hounslow yn Llundain gyrchu'r gwasanaeth eu hunain neu gall asiantaethau partner atgyfeirio. Mae enghreifftiau o'r ffordd y mae Hounslow yn darparu cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig yn cynnwys:

IDVA Gofal Cymdeithasol i Oedolion – yn cefnogi oedolion agored i niwed, gan gynnwys y rhai ag anabledau, yr henoed a'r rhai ag anghenion cymhleth.

IDVA Iechyd - wedi'i gydleoli gyda'r Grŵp Comisiynu Clinigol ac yn cefnogi dioddefwyr a nodir ac a atgyfeiriwyd gan Feddygon Teulu, yr ysbyty Mamolaeth a'r ysbyty lleol. Mae'r llwybr atgyfeirio drwy System 1 y GIG gan sicrhau atgyfeiriadau cyflym gan staff meddygol prysur.

Heddlu Metropolitan – Mae'r IDVA wedi'i gyd-leoli gyda'r Uned Ddiogelu i ymateb yn gyflym i adroddiadau o achosion o gam-drin domestig risg uchel a thrwy hynny ddarparu ymyrraeth gynharach a chynlluniau diogelwch.

Rhaglen Rhyddid – rhaglen 12 wythnos a gynllunir i rymuso dioddefwyr benywaidd cam-drin domestig.

Siop Un Stop Hounslow – Lleoliad dynodedig sy'n cynnig sesiwn galw heibio wythnosol am ddim sy'n darparu gwybodaeth a chynghor gan amrywiaeth o bartneriaid i ddioddefwyr VAWG. Partneriaethau gyda gwasanaethau tai, cynghorwyr budd-daliadau lles, cyfreithwyr cyfraith teulu, cyfreithwyr mewnfudo, gweithwyr cymorth plant, gweithwyr cymorth lleiafrifoedd ethnig ac IDVAs yn cydweithio i gefnogi teuluoedd yn Hounslow.

Prosiect plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt – yn darparu ymateb cymorth cynnar cydgysylltiedig sy'n sicrhau canlyniadau gwell i blant a theuluoedd y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt. Mae'r prosiect yn cefnogi Ymgyrch Encompass sy'n hysbysu ysgolion o fewn 24 awr ar ôl i'r heddlu ymateb i ddigwyddiad lle mae disgybl yn byw yn y cyfeiriad. Mae Gweithwyr Arbenigol Trais yn y Cartref Rhiant a Phlant (PCDAWs), sydd wedi'u cydleoli mewn ysgolion, yn derbyn pob hysbysiad ac yn gweithio gyda'r ysgolion i ddarparu cymorth therapiwtig cyfannol i blant a rhieni nad ydynt yn cam-drin. Maent hefyd yn gweithio gyda rhieni nad ydynt yn cam-drin gan eu grymuso i wneud dewisiadau gwybodus a'u cefnogi i helpu i fynd i'r afael ag anghenion eu plentyn. Mae'r PCDAWs yn cysylltu'n rheolaidd â'r Arweinwyr Diogelu Dynodedig yn yr ysgolion, gan wella'r cymorth y gall ysgolion ei gynnig i blant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt. Mae'r ymarferwyr hyn hefyd yn gwella'r broses o rannu gwybodaeth ag ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol, gofal a gwasanaethau arbenigol eraill drwy'r Arweinydd Cymorth Cynnar Cam-drin Domestig (DAEHL) sydd wedi'i gydleoli yn y MASH. Mae'r DAEHL yn brysbennu'r holl gysylltiadau cam-drin domestig sy'n dod i mewn i'r MASH, gan weithio mewn partneriaeth ag aelodau MASH y fwrdeistref megis yr Heddlu, Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol Plant i nodi'r anghenion a'r risgiau i'r teulu – gan lywio penderfyniadau ac arferion gofal cymdeithasol yn well. Mae canlyniadau'r asesiadau hyn wedi cynnwys atgyfeiriadau i'r prosiect, Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC), y rhaglen cyflawnwyr lleol, a gwasanaethau therapiwtig plant.

Cynllunio ymyriadau ac ymatebion o amgylch anghenion dioddefwyr

442. Mae angen gwreiddio llais ac anghenion dioddefwyr, gan gynnwys plant, mewn ymateb amlasiantaethol. Mae gwasanaethau sydd wedi'u cynllunio o amgylch anghenion dioddefwyr, ac sydd wedi'u seilio ar brofiad dioddefwyr, yn golygu bod dioddefwyr yn fwy tebygol o barhau i gymryd rhan yn y broses.²⁰⁹ Dylai asiantaethau:

- **Ystyried anghenion pob cymuned leol** gan ddefnyddio data demograffig lleol i ddeall cyfansoddiad yr ardal a gwneud darpariaeth briodol, gan gynnwys mewn cymunedau gwledig ac ar gyfer y rhai sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol i geisio ac ymgysylltu â'r cymorth sydd ar gael, megis iaith, symudedd, anabledd corfforol, anawsterau dysgu neu agweddau cymdeithasol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, adeiladu perthnasoedd cynaliadwy ac ymddiriedus ar draws ffydd a chynghreiriaid diwylliannol yn y gymuned i sicrhau bod anghenion dioddefwyr yn

²⁰⁹ Standing Together. [Chwilio am Ragoriaeth](#): Canllaw wedi'i adnewyddu i waith partneriaeth cam-drin domestig effeithiol – Ymateb y Gymuned Gydgyssylltiedig (CCR): 2020.

cael eu cynrychioli – gweler y prosiect [Cymunedau Diogel ar Draws Ffydd ac Ethnig \(SAFE\)](#) gan yr elusen cam-drin domestig Standing Together fel enghraifft o arfer da yn y maes hwn. Dylid datblygu asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a'i adolygu'n rheolaidd, gan gynnwys gwerthuso effeithiolrwydd dulliau gweithredu yn ôl nodau arfaethedig, gyda mewnbwn gan ddefnyddwyr gwasanaeth ac arbenigwyr i nodi rhwystrau a darparu ymatebion a brofir gan rai grwpiau. Dylai sefydliadau crefyddol, cymunedol neu ddiwylliannol flaenoriaethu lles dioddefwyr bob amser.

- **Gwrando ar farn a phrofiadau dioddefwyr ac aelodau o'u teuluoedd.** Dylai'r broses hon gael ei gwreiddio yn yr ymateb amlasiantaethol a dylai ystyried y ffordd orau o gyrraedd pob dioddefwr, gan gynnwys plant a phobl ifanc a allai wynebu rhwystrau ychwanegol rhag cyrchu gwasanaethau neu leisio'u barn. Dylid defnyddio eu barn i asesu'r risg y mae'r sawl sy'n cyflawni'r cam-drin yn ei pheri i aelodau eraill o'r teulu ac effaith hyn ar eu hanghenion, megis diogelwch, iechyd, tai a lles. **Dylai diogelwch a chymorth y dioddefwr fod yn ganolog i unrhyw ymagwedd neu ymgysylltiad ag aelodau eraill o'r teulu.**
- **Cael eu hyfforddi i nodi a deall y gwahanol fathau o gam-drin a chyflawnwyr,** pa mor gyffredin yw gwahanol fathau o gam-drin yn yr ardal leol, a'r strategaethau priodol i leihau ymddygiad camdriniol gan gydnabod bod angen lefelau gwahanol o hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ar wahanol grwpiau o weithwyr proffesiynol yn seiliedig ar lefel eu cysylltiad â phlant a theuluoedd.
- **Meddu ar fewnbwn wedi'i ymgorffori, neu gael mynediad at fewnbwn sydd ar gael yn rhwydd, gan asiantaethau arbenigol a gwasanaethau 'gan ac ar gyfer'** sydd â hanes profedig o gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig ac sy'n ymwybodol ac yn brofiadol o weithio gyda dioddefwyr gwrywaidd a benywaidd â nodweddion gwarchoddedig, gan gynnwys rhai o leiafrif ethnig, sydd yn anabl, sy'n LHDT neu sydd o grefydd neu ffydd arbennig.
- **Hysbysu dioddefwyr yn llawn am ddiben a nodau'r tîm diogelu amlasiantaethol lle mae tîm o'r fath yn ei le.** Mae angen i'r tîm fod yn ymwybodol y gall dioddefwyr ganfod cyfranogiad asiantaethau statudol yn eu sefyllfa mewn ffordd negyddol. Efallai eu bod yn ofni na fyddant yn cael eu credu, y byddant yn cael eu beio am y cam-drin ac y byddant yn colli eu plant. Dylid hyfforddi asiantaethau i ddeall y gwahanol fathau o gam-drin gan gynnwys ymddygiad gorfodaethol, rheolaethol a threisgar a'r effaith a gaiff ar ddioddefwyr gwrywaidd a benywaidd, a dylai hyn lywio arfer proffesiynol.
- **Datblygu prosesau i sicrhau nad oes rhaid i unigolion ailadrodd eu stori i sawl gweithiwr proffesiynol mewn gwahanol asiantaethau.** Dylai'r tîm ystyried dull pwynt cyswllt sengl gyda'r person sy'n gweithredu fel arweinydd sy'n ceisio caniatâd i rannu gwybodaeth â phartneriaid perthnasol ym mhob sefyllfa lle bo hynny'n bosibl ac yn gyfreithiol ofynnol.

- **Datblygu prosesau sy'n sicrhau y ceisir diogelwch, anghenion a dymuniadau pob aelod o'r teulu nad yw'n cam-drin ar y cyfle cyntaf** a bod cynlluniau'n cael eu datblygu sy'n ymateb i'r safbwyntiau a roddwyd ganddynt.
- **Ymgorffori arfer adfyfyriol drwy gydol y gwasanaeth** sy'n canolbwyntio ar adborth gan ddiodefwr (oedolion a phlant). Ymgynghori â nhw'n rheolaidd a defnyddio hwn i ailasesu sefyllfaoedd lle bo angen, ystyried gwybodaeth newydd, llywio datblygiad parhaus a gwelliant yng ngwaith cydweithredol yr asiantaethau.
- **Ystyried rôl diodefwr drwy gydol y broses** o ddatblygu gwasanaethau i gomisiynu, darparu a gwerthuso. Dylai fod proses barhaus o ymgysylltu â diodefwr drwy gydol cylch oes unrhyw drefniant amlasiantaethol.
- **Ystyried y baich ar y diodefwr drwy gydol y broses**, er ei bod weithiau'n briodol i gamau gweithredu gael eu canolbwyntio ar y diodefwr neu'r rhiant nad yw'n cam-drin, gall hyn hefyd roi beichiau ychwanegol ar y diodefwr pan mai'r sawl sy'n gyfrifol am y sefyllfa yw'r troseddwr.

Ffocws strategol clir

443. Er mwyn i waith amlasiantaethol fod yn effeithiol, rhaid i bob asiantaeth weithio gyda ffocws clir a chyffredin. Er mwyn cyflawni hyn dylai partneriaethau:

- **Bod â strwythur llywodraethu a gweithredu integredig**, fel bod asiantaethau'n cyfarfod yn rheolaidd ar lefel strategol, gweithredol a gwneud penderfyniadau. Mae atebolrwydd ac arweinyddiaeth yn glir ac yn effeithiol ac wedi'u cysylltu'n briodol â chyrrff lleol megis y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, Partneriaid Diogelu a Byrddau Diogelu Oedolion.
- **Cytuno ar ddatganiad o ddiben cyffredin** sy'n nodi gweledigaeth ac uchelgais a rennir a llawlyfr gweithredu lefel uchel a phrotocolau ar gyfer y tîm diogelu amlasiantaethol.
- **Cytuno ar fframwaith canlyniadau cyffredin**, a fydd yn canolbwyntio ar bedwar mesur allweddol: cymorth gwybodus effeithiol a ddarperir i ddiodefwr ac aelodau o'r teulu, sy'n cynyddu eu lefel o ddiogelwch a lles cyn gynted â phosibl; cynyddu ymddiriedaeth a hyder diodefwr mewn diogelu; ymddygiad cyflawnwyr yn cael sylw cyn gynted â phosibl gan asiantaethau; anghenion teuluoedd yn cael eu hystyried yn gyfannol gan asiantaethau, nid ar wahân i'w gilydd.
- **Cymryd perchnogaeth o'r angen i ddeall llwybrau atgyfeirio lleol a'r ddarpariaeth sydd ar gael**, gan nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth ac ystyried o fewn llywodraethu strategol sut y gellir mynd i'r afael â'r bylchau hyn.

- **Gyda'i gilydd, dadansoddi data perfformiad a data mesur canlyniadau yn rheolaidd**, cynnal archwiliadau manwl o achosion i wirio am gyfleoedd a gollwyd ac ystyried yr adborth a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth a sefydliadau arbenigol. Dylai elfen allweddol o'r broses fonitro gynnwys craffu ynghylch a yw'r data a gesglir yn adlewyrchu unrhyw anghymesuredd o ran penderfyniadau neu arferion ar gyfer grwpiau penodol, e.e. lleiafrifoedd ethnig, LHDT, dioddefwyr anabl, neu ddioddefwyr sy'n perthyn i ffydd benodol. Ystyrir bod data personol sy'n ymwneud ag unrhyw un o'r grwpiau hyn yn ddata 'categori arbennig' ac fe'i hamlygir yn Erthygl 9 GDPR y DU. Rhaid i brosesu (gan gynnwys rhannu) unrhyw ddata personol 'categori arbennig' ddiwallu amodau pellach a nodir yn yr Erthygl hon. Darperir [canllawiau pellach ar ddata categori arbennig](#) gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Gellid defnyddio'r data a gesglir i wella arfer parhaus. Gallai'r broses hon gael ei hwyluso gan ffrind beirniadol – tîm amlasiantaethol cymheiriaid neu sefydliad lleol neu genedlaethol annibynnol.
- **Nodi cydlynedd neu reolwr tîm amlasiantaethol pwrpasol** gyda chyfrifoldeb penodol am adeiladu tîm, datblygu diwylliant cyffredin o bartneriaeth ystyrion trwy greu llawlyfrau gweithredu, protocolau ar y cyd, gweithdrefnau asesu cytûn, rhaglenni sefydlu a hyfforddi ar y cyd a phrosesau monitro a gwerthuso cyffredin. Mae pob partner amlasiantaethol yn glir ynghylch rôl, cyfrifoldeb, awdurdod ac atebolrwydd cydlynedd/rheolwr y tîm diogelu amlasiantaethol; mae proses uwchgyfeirio diogelu amlasiantaethol glir ar gyfer unrhyw bryderon.
- **Rhannu gwybodaeth mewn ffordd sy'n amserol, yn gymesur, yn gyfreithlon ac yn ddiogel.** Bydd protocol yn ei le rhwng asiantaethau i lywodraethu'r broses rhannu gwybodaeth hon a bydd yn destun adolygiad blynyddol. Bydd yr holl TG a'r defnydd o'r TG hwnnw yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Bydd y tîm diogelu amlasiantaethol wedi datblygu a chyhoeddi asesiad effaith ar gyfer diogelu data (DPIA). **Rhaid** i DPIA fod yn ar waith lle mae cyfran arfaethedig o ddata yn risg uchel neu lle mae'n ymwneud â data sensitif. Mae Canllawiau Pellach ar gael yma; [Asesiadau effaith diogelu data ICO](#).
- **Darparu data cywir gan gynnwys cynllunio allan dyblygu achosion** lle bo hynny'n ymarferol a deall y llwybr gwasanaeth a ddilynir gan ddioddefwyr cam-drin domestig.

Cymryd rhan fel partneriaid gweithredol a chydgyssylltiedig

444. Yn ogystal â chael ffocws strategol cyffredin, dylai partneriaethau amlasiantaethol hefyd sicrhau bod y bobl a'r sefydliadau cywir mewn cyfarfodydd a bod dull teulu cyfan yn cael ei fabwysiadu i sicrhau bod gwaith ystyrion yn cael ei gyflawni. Dylai asiantaethau:

- **Ymgysylltu â'r asiantaethau craidd y bydd angen eu cydweithio** i wella canlyniadau i ddioddefwyr, gan gynnwys plant. Mae hyn yn debygol o gynnwys

yr heddlu, y gwasanaeth prawf, gwasanaethau plant, iechyd (corfforol a meddyliol), tai, gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol, addysg, gwasanaethau diogelu oedolion, cymorth cyffuriau ac alcohol a Cafcass (Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant). Gallai hyn hefyd gynnwys cael hyfforddiant mewn gweithdrefnau diogelu eraill i gynnal dealltwriaeth lawn o sut mae gwahanol niweidiau a gwendidau yn croestorri â'i gilydd.

- **Ceisio cael hyfforddiant mewn gweithdrefnau diogelu eraill** er mwyn cynnal dealltwriaeth lawn o'r ffordd y mae gwahanol niweidiau a gwendidau'n cydblethu â'i gilydd. Gallai arfer da gynnwys timau'n cael hyfforddiant ar weithdrefnau diogelu ei gilydd, i wella'r ymateb a'r cymorth a roddir i ddioddefwyr.
- **Dangos mewn polisi ac ymarfer bod asiantaethau'n ystyried angen diogelu holl aelodau'r teulu**, h.y. bod yr asiantaethau hynny sy'n bennaf gyfrifol am ddiogelu plant yn ystyried diogelwch a lles y rhiant nad yw'n cam-drin ac aelodau eraill o'r teulu, a'r asiantaethau sy'n bennaf gyfrifol am ddiogelu plant. Bydd diogelu oedolion hefyd yn ystyried anghenion cymorth y plentyn/plant.

Sgiliau arbenigol

- **Gwahodd gwasanaeth cam-drin domestig arbenigol i fod yn rhan annatod o'r tîm.** Dylai fod gan yr arbenigwr sgiliau a phrofiad o nodi amgylchiadau unigol y risg a'r angen y gallai rhywun fod yn eu hwynebu. Dylai hyn gynnwys arbenigedd proffesiynol ar gefnogi plant sy'n profi neu'n cyflawni cam-drin domestig, gan gynnwys mewn lleoliad teuluol neu yn eu perthnasoedd agos eu hunain.
- **Dylid trin gweithwyr proffesiynol o'r gwasanaeth hwnnw fel rhai sydd â statws cyfartal** â chyrrff statudol yn y tîm diogelu amlasiantaethol (dylent, er enghraifft, gael eu cynnwys ym mhob cyfarfod perthnasol, bod yn rhan o gytundebau rhannu gwybodaeth, cael mynediad da o amgylch yr adeilad, disgwyl y bydd eu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad yn cael eu defnyddio ar gyfer penderfyniadau allweddol ac y caiff canlyniad penderfyniadau ei rannu gyda nhw).
- **Gosod disgwyliad** y bydd y gwasanaeth a wahoddir i ymuno â'r tîm diogelu amlasiantaethol yn gallu dangos ei fod yn diwallu'r [safonau sector a rennir](#) y cytunwyd arnynt rhwng Imkaan, Respect, SafeLives a Chymorth i Fenywod a gyhoeddwyd yn 2016.

Rhannu gwybodaeth yn ddiogel ac yn effeithiol

445. Mae gwaith amlasiantaethol effeithiol ac ystyrllon yn dibynnu'n fawr ar rannu gwybodaeth yn amserol ac yn briodol, tra'n gyfreithlon, gan sicrhau bod gan bob asiantaeth y wybodaeth angenrheidiol i gymryd rhan yn sylweddol mewn cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau gwybodus. Dylai asiantaethau:

- Sicrhau bod hyfforddiant rhannu gwybodaeth gorfodol, priodol ar gael** i'r tîm diogelu amlasiantaethol fel eu bod yn broffesiynol gymwys ac yn hyderus ynghylch pryd a sut i rannu (neu beidio â rhannu) gwybodaeth, yn unol â phrotocol y tîm diogelu amlasiantaethol (gweler uchod), deddfwriaeth diogelu data (Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU a Deddf Diogelu Data 2018, 'Deddf 2018') a [Chod Ymarfer Rhannu Data'r ICO](#). Wrth rannu data personol, rhaid ystyried a yw'n gyfreithlon, dim ond os oes sail gyfreithlon dros wneud hynny y gellir rhannu data personol. Dylai hyfforddiant gael ei lywio gan adborth defnyddwyr gwasanaeth a dysgu o Adolygiadau Ymarfer Diogelu Plant lleol, adolygiadau cenedlaethol a gyhoeddir gan y Panel Adolygu Arferion Diogelu Plant ac Adolygiadau Lladdiad Domestig.
- Datblygu cysylltiadau a phrotocolau rhannu gwybodaeth sy'n gosod diogelwch y dioddefwyr, gan gynnwys plant, yn y canol** gyda strwythurau diogelu amlasiantaethol gan gynnwys MAPPA (Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd), MARAC (Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol), Ymgyrch Encompass, grwpiau gweithredol CSE (camfanteisio'n rhywiol ar blant), Prevent, y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a Chefnogi Teuluoedd.
- Dylai penderfyniadau ynghylch beth i'w rannu, a phryd, gael ei lywodraethu gan ddealltwriaeth glir, gyfunol** o'r risgiau i ddiogelwch ar gyfer unigolyn a theulu, a sut y gellir mynd i'r afael â'r risgiau hynny ac anghenion eraill o fewn y teulu hwnnw. Dylid rhannu gwybodaeth gyda'r bwriad penodol o leihau risg i un neu fwy o aelodau'r teulu. Rhaid cael sail gyfreithlon i brosesu (gan gynnwys rhannu) unrhyw ddata personol. Bydd pa sail gyfreithlon sy'n briodol yn dibynnu ar ddiben penodol y prosesu. Mae'r chwe sail gyfreithiol wahanol wedi'u nodi yn Erthygl 6 GDPR y DU, y mae'n rhaid diwallu un ohonynt cyn y gellir prosesu neu rannu data personol. Os defnyddir caniatâd fel sail gyfreithlon, rhaid i hyn fod yn arwydd clir, gwybodus a diamwys, a dylai unigolyn allu tynnu caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg. Efallai nad caniatâd yw'r sail gyfreithlon fwyaf priodol a dylid ystyried pob sefyllfa; er enghraifft prosesu data personol i gydymffurfio â rhwymedigaeth statudol megis cyfarwyddeb llys, yn yr achos hwn y sail gyfreithlon fyddai cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol. Os oes newid gwirioneddol mewn amgylchiadau sy'n galw am ddiwygio'r sail gyfreithlon, dylid dogfennu hyn a hysbysu'r unigolyn; er enghraifft, os defnyddiwyd caniatâd fel y sail gyfreithlon wreiddiol, ond bod risg nas rhagwelwyd i unigolyn wedi dod i'r amlwg, yna gellir cyfiawnhau newid y sail gyfreithlon i fudd hanfodol. Darperir rhagor o fanylion ar sail gyfreithlon ar-lein gan [Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#). Lle bo angen, dylai asiantaethau olygu gwybodaeth neu ystyried rhannu cyfarfodydd lle credir y gallai gwneud hynny leihau'r risg i'r dioddefwyr, gan gynnwys plant. Mewn perthynas â phrosesu gorfodi'r gyfraith gan awdurdodau cymwys o dan Ran 3 o Ddeddf 2018, megis heddluoedd, bydd rheolau gwahanol o dan y Rhan honno o Ddeddf 2018 yn berthnasol.
- Dogfennu'r penderfyniadau hyn** i ddangos cydymffurfiaeth â diogelu data.

- **Cofnodi'r holl ddata perthnasol**, mae rhannu gwybodaeth ond cystal ag ansawdd y wybodaeth sy'n cael ei rhannu, a gall lefel y manylder fod yn hanfodol i asesiad risg cywir. Er enghraifft, nid yw cofnodi "mae hanes o gam-drin domestig" yn rhoi'r lefel o fanylder sydd ei angen ar weithwyr proffesiynol eraill i allu asesu risg. Wrth rannu data personol, rhaid ystyried a yw'n gyfreithlon, dim ond os oes sail gyfreithlon dros wneud hynny y gellir rhannu data personol.

Gwerthfawrogi a chyflogi staff sydd â'r gwerthoedd cywir

446. Mae'r gwaith a gyflawnir gan asiantaethau'n dibynnu'n fawr ar allu staff i wneud y gwaith, a dylai asiantaethau sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi'n ddigonol. Gellir gwneud hyn trwy:

- **Arddangos mewn polisi ac ymarfer eu bod yn cymryd y ddyletswydd gofal tuag at eu staff o ddifrif.** Dylai hyn gynnwys ffocws ar ymarfer myfyriol, rhaglenni hyfforddi ar y cyd sy'n dod â staff gwahanol sefydliadau ynghyd, rhaglenni goruchwyliaeth glinigol a chymorth i gyflogeion;
- **Arddangos chwilfrydedd proffesiynol** wrth ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth. Yn aml, bydd dioddefwyr yn cysylltu ag ystod o wasanaethau cyn datgelu eu cam-drin. Mae'r cysylltiadau hyn yn cynrychioli cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth gynnar, felly mae'n hanfodol bod yr holl staff yn cael eu hyfforddi i adnabod cam-drin domestig a gofyn y cwestiynau cywir;
- **Creu cyfleoedd i staff weld unrhyw ganlyniadau cadarnhaol**, megis astudiaethau achos neu straeon lleol, a gallu cysylltu'n ôl â theuluoedd y buont mewn cysylltiad â nhw ar y dechrau, er mwyn deall effaith eu gwaith;
- **Cydnabod natur arbenigol y gwaith**, gan ddewis staff sydd â chymwysterau arbenigol, hyfforddiant, achrediad, neu safon broffesiynol gydnabyddedig arall sy'n rhoi statws cyfartal i gydweithwyr asiantaeth; a
- **Bod â pholisi cam-drin domestig yn ei le**, sy'n ategu'r polisiâu sydd gan bob asiantaeth unigol, sy'n mynd i'r afael â'r potensial i staff fod yn ddioddefwyr, neu'n gyflawnwyr, neu'n profi trawma dirprwyol, y maent yn ei weithredu ac yn berchen arno.

447. Mae nifer o fentrau a phrosesau gwahanol sy'n bodoli eisoes y tu hwnt i MASHs (neu gyfwerth) y dylai asiantaethau fod yn bwydo iddynt. Bydd rhai o'r mentrau a'r prosesau hyn fwy neu lai'n briodol yn dibynnu ar lefel y risg a'r cam y mae asiantaethau'n ymyrryd arno, e.e. ymyrraeth gynnar neu achos sydd wedi'i hen sefydlu. Mae'r rhain yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i Gynadleddau Asesu Risg Amlasiantaethol, Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd, Paneli Cyflawnwyr a Rhaglenni Cyflawnwyr (gweler hefyd yr adran ['Mynd i'r afael ag ymddygiad y cyflawnwr'](#)).

Mynd i'r afael ag ymddygiad y cyflawnwr

448. Mae mynd i'r afael ag ymddygiad cyflawnwyr yr un mor bwysig â diogelu a chefnogi dioddefwyr. Yn aml, y camau gweithredu a ystyrir yw'r rhai sydd wedi'u hanelu at y dioddefwyr a rhieni nad ydynt yn cam-drin, gan roi beichiau ychwanegol arnynt. Dylai mynd i'r afael ag ymddygiad cyflawnwyr a rhoi'r cyfrifoldeb arnynt fod yn ystyriaeth allweddol ar gyfer gwaith partneriaeth.
449. Dylai asiantaethau achub ar y cyfle cyntaf sydd ar gael i ystyried sut y gellir amharu neu gyfyngu ar ymddygiad y cyflawnwr, gan roi'r pwyslais am newid ar yr unigolyn hwnnw. Rhaid i'r ymateb i'r troseddwr fod yn briodol ar gyfer cyd-destun ac anghenion unigryw'r dioddefwr. Er enghraifft, gall dioddefwyr sy'n destun cam-drin ar sail 'anrhydedd' fod yn profi sbectrwm o ymddygiadau gan gyflawnwyr lluosog.
450. Lle nad oes ymyriadau statudol Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) ar gael, dylai asiantaethau ystyried opsiynau creadigol i fynd i'r afael ag ymddygiad y cyflawnwr, gan gynnwys troi at Dimau Troseddau Ieuenctid, Rheoli Troseddwyr Integredig (IOM), Targedu a Chydlynu Amlasiantaethol (MATAC), Rhaglenni Cyflawnwyr Cam-drin Domestig, diogelu, tai, yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a'r ystod lawn o raglenni cyflawnwyr gyda sicrwydd ansawdd. Dylai unrhyw ddulliau a fabwysiedir weithio'n agos gyda threfniadau presennol, gan gynnwys MARAC i sicrhau bod gan dimau rheoli cyflawnwyr wybodaeth allweddol gan baneli sy'n canolbwyntio ar ddioddefwyr.
451. Rhaid cefnogi pobl ifanc sy'n cam-drin yn eu perthnasoedd mewn ffordd briodol sy'n rhoi pwyslais ar fynd i'r afael â'r hyn sy'n ysgogi eu hymddygiad. Rhaid i'r llys ac asiantaethau sy'n ymateb ystyried canllawiau cyfiawnder ieuenctid wrth ymateb i achosion o gam-drin mewn perthnasoedd yn yr arddegau, osgoi troseddoli pobl ifanc yn ddiangen, a nodi ymyriadau priodol i fynd i'r afael ag ymddygiadau a allai fod yn gyfystyr â cham-drin neu a allai arwain at gam-drin. Mae canllawiau cyfiawnder ieuenctid perthnasol yn cynnwys:
- [Canllawiau rheoli achosion ar gyfer Timau Troseddau Ieuenctid](#)
 - [Safonau ar gyfer plant yn y System Cyfiawnder Ieuenctid](#)
 - [Canllawiau Gwasanaeth Erllyn y Goron ar droseddwyr ifanc](#)
 - [Canllawiau'r Cyngor Dedfrydu ar ddedfrydu plant a phobl ifanc](#)
452. Dylai asiantaethau hefyd sicrhau bod timau diogelu amlasiantaethol yn cael hyfforddiant gorfodol ar:
- yr ystod lawn o ymddygiadau a all fod yn gamdriniol, yn orfodaethol neu'n rheolaethol;
 - cydnabod y ffactorau risg a bregusrwydd allweddol a pherthnasoedd pŵer;
 - deall dymameg cam-drin domestig a theipolegau sylfaenol y gwahanol gyflawnwyr, gan gynnwys dymameg gwadu a lleihau a sut i bwysu a mesur hygredd gwahanol fersiynau o ddigwyddiadau'n briodol. Dylai staff wybod bod

tactegau allweddol cyflawnwyr yn aml yn cynnwys ceisio trin gwasanaethau rheng flaen gan wneud y gweithwyr proffesiynol hynny'n fwy tebygol o nodi a bod yn hyderus i fynd i'r afael yn gymwys ag ymddygiadau gorfodaethol, rheolaethol a chyfrwys;

- cydnabod effaith cam-drin domestig ar blant a phobl ifanc, gan gynnwys effaith bod yn agored i gam-drin domestig, a chael eu defnyddio gan y cyflawnwr i achosi cam-drin ar y dioddefwr targed; a
- sgiliau i ffurfio cynghreiriau gyda dioddefwyr ac ymgysylltu'n gynnar â chyflawnwyr gyda'r nod o newid ymddygiad.

453. Bydd hyn yn gwneud y gweithwyr proffesiynol hynny'n fwy tebygol o nodi a bod yn hyderus i fynd i'r afael yn gymwys ag ymddygiadau gorfodaethol, rheolaethol a chyfrwys. Mae angen i staff fod yn ymwybodol o gymhlethdod gwahanol fathau o gyflawniad nad ydynt efallai'n ffitio'n daclus naill ai i 'ddioddefwr' neu 'gyflawnwr'. Er enghraifft, gall person ifanc fod yn cyflawni cam-drin domestig ond gall fod yn ddioddefwr camfanteisio rhywiol ar blant eu hunain neu gall fenyw fod yn cyflawni cam-drin o fewn cyd-destun priodas dan orfod ond gallant hefyd fod yn dioddef cam-drin domestig ei hun.

Mynd i'r afael ag ymddygiad y cyflawnwr

Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd

454. Mae Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) yn set o drefniadau statudol i asesu a rheoli'r risg a berir gan rai troseddwr rhywiol, treisgar a therfysgol. Cânt eu sefydlu yn rhinwedd adrannau 325 i 327 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 ac maent yn gymwys i bob ardal heddlu yng Nghymru a Lloegr. Mae MAPPA yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol a chyrrff eraill gydweithio mewn partneriaeth er mwyn ymdrin â throeddwr rhywiol, treisgar, terfysgol neu droseddwr peryglus eraill er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag niwed difrifol. Mae MAPPA yn dod â'r Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaethau Carchardai ynghyd i'r hyn a elwir yn 'Awdurdod Cyfrifol' MAPPA ar gyfer pob Ardal MAPPA (sy'n cyd-ffinio ag ardaloedd heddluoedd). Mae gan nifer o asiantaethau eraill ddyletswydd statudol i gydweithredu â'r Awdurdod Cyfrifol (e.e. Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd, Timau Troseddau Ieuencid, Gorfodi Mewnfudo'r Swyddfa Gartref). Mae Byrddau Rheoli Strategol Lleol yn gyfrifol am oruchwylio trefniadau eu hardaloedd heddlu priodol.

455. Mae MAPPA ar gyfer troseddwr a gafwyd yn euog, nid oes rhaid i'r euogfarn fod am drosedd dreisgar neu rywiol ond mae angen i'r amgylchiadau o'i amgylch fod yn arwydd bod risg o niwed. Gall unrhyw un atgyfeirio unigolyn a gafwyd yn euog i MAPPA. Mae'n arbennig o addas mewn achosion cam-drin domestig wrth ymdrin â chyflawnwyr cyfresol neu droseddwr eraill sy'n peri risg uchel o niwed difrifol lle mae

angen parhau i adolygu cynllun amlasiantaethol ffurfiol. Dylid cynnwys IDVAS a chynrychiolwyr dioddefwyr eraill o fewn partneriaethau MAPPA. Gweler Canllawiau MAPPA am ragor o wybodaeth [Cam-drin Domestig a Stelcio - Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd - MAPPA](#).

Paneli Cyflawnwyr

456. Dylai fod gan bob ardal leol fforwm trafod sy'n canolbwyntio ar y cyflawnwr; gall hyn fod fel rhan o drafodaeth â ffocws mewn MARAC neu rywle arall. Mae llawer o ardaloedd lleol yn cyflwyno paneli cyflawnwyr amlasiantaethol, megis y cyfarfod Tasgio a Chydgysylltu Amlasiantaethol (MATAC), sydd wedi'i dreialu yn Northumbria ac a gyflwynwyd ar draws chwe heddlu arall yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr a Swydd Efrog. Mae'r rhaglen Drive²¹⁰ hefyd wedi defnyddio paneli cyflawnwyr yn llwyddiannus mewn heddluoedd eraill yng Nghymru a Lloegr. Mae paneli o'r fath yn dod ag asiantaethau lleol ynghyd i nodi strategaethau ar gyfer ymateb i'r cyflawnwyr cam-drin domestig mwyaf niweidiol. Gall ymyriadau a nodir trwy MATAC neu Drive gynnwys addysg, atal, dargyfeirio, tarfu, a gorfodi.

457. Bydd yr egwyddorion dilynol yn helpu asiantaethau i ddarparu fforymau amlasiantaethol effeithiol i droseddwyr:

- **Adnabod** – Mae gan asiantaethau panel yr offer i adnabod ac asesu lefel y risg a'r niwed a achosir gan gyflawnwyr cam-drin domestig, gan gynnwys troseddwyr cyfresol. Mae unigolion a geir yn euog o drosedd o dan atodlen 15 o [Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003](#), sy'n destun gofynion Hysbysu o dan [Ddeddf Troseddau Rhyw 2003](#) (a adwaenir yn gyffredin fel y Gofrestr Troseddwyr Rhyw) neu sy'n cael eu dedfrydu i fwy na 12 mis o garchar yn gymwys yn awtomatig ar gyfer Rheolaeth MAPPA. Ar gyfer cyflawnwyr eraill sydd wedi'u collfarnu sy'n peri risg uchel o niwed, dylid bob amser ystyried atgyfeirio i MAPPA yn ôl disgrisiwn.
- **Ymgysylltu Amlasiantaethol** – Mae asiantaethau sy'n ymwneud â rheoli troseddwyr, diogelu, tarfu a newid ymddygiad yn mynychu'r Panel ac yn ymwneud â llywodraethu fel y bo'n briodol.
- **Rhannu Gwybodaeth** – Mae asiantaethau'n rhannu gwybodaeth berthnasol a chymesur, yn unol â'r protocol a GDPR y DU.
- **Tarfu** – Mae'r Panel yn datblygu cynllun gweithredu cydgysylltiedig amlasiantaethol i darfu ar gam-drin a lleihau aildroseddu, gan ddefnyddio'r ystod lawn o offer a chymau gweithredu sydd ar gael.
- **Achosion Dal** – Mae'r Panel yn darparu trosolwg ac yn sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu cwblhau a'u dilyn i fyny, bod achosion yn cael eu cynnal gan yr asiantaeth briodol (gan osgoi dyblygu ag asiantaethau eraill a mentrau amlasiantaethol megis MAPPA, IOM a MARAC) a'u bod yn cael eu hail-glywed pan fo angen.

²¹⁰ Mae [partneriaeth Drive](#) yn gweithio gyda chyflawnwyr risg uchel i atal eu hymddygiad ac amddiffyn dioddefwyr.

- **Diogelu a Llais Dioddefwyr** – Mae'r Panel yn cydnabod lleisiau dioddefwyr a goroeswyr, yn ystyried effaith camau gweithredu arfaethedig ar risg i ddiodeswyr, gan gynnwys plant ac yn gweithio gyda'r asiantaethau perthnasol i ddiogelu.
- **Nifer yr Achosion** – Bydd gan y Panel feini prawf lleol clir sy'n sicrhau bod y nifer priodol o achosion yn cael eu clywed.
- **Cydraddoldeb** – Mae'r Panel yn cydnabod anghenion diodeswyr a chyflawnwyr sydd â nodweddion gwarchoddedig.
- **Cymorth Gweithredol** – Bydd gan y Panel ddigon o gymorth ac adnoddau i sicrhau ei weithrediad effeithiol.
- **Llywodraethu** – Mae strwythur llywodraethu clir ac atebol ac arweinyddiaeth strategol gan yr asiantaethau perthnasol. Dylai fod cysylltiadau â Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA.

Rhaglenni Cyflawnwyr

458. Mae'n bwysig bod ardaloedd lleol yn comisiynu rhaglenni cyflawnwyr diogel ac effeithiol sy'n ystyried anghenion eu hardaloedd ac sy'n cyd-fynd â chymorth i unrhyw ddiodeswyr cysylltiedig. Dylai'r rhain fod 'yn ogystal â' chymorth i ddiodeswyr, nid 'yn lle'. Mae nifer o wahanol gynlluniau achredu a safonau yn gweithredu ym maes gwaith cyflawnwyr.

459. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ddatblygu set o safonau ac egwyddorion cenedlaethol troswaol ar gyfer ymyriadau i gyflawnwyr cam-drin domestig. Bydd y rhain yn darparu fframwaith i gomisiynwyr helpu i bennu ansawdd ymyriadau cyflawnwyr, yn arbennig ar ddiogelu a diogelwch diodeswyr a goroeswyr.

460. Mae sefydliad arbenigol y trydydd sector Respect wedi datblygu safonau ansawdd a phroses achredu ar gyfer gwasanaethau sy'n gweithio gyda chyflawnwyr. Cydnabyddir y [Safon Respect](#)²¹¹ yn genedlaethol ac mae'n nodi fframwaith sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch sydd yn nodi arfer da ac yn cynnig canllawiau i sefydliadau i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn ddiogel ac yn effeithiol, gyda diogelwch diodeswyr, gan gynnwys plant, yn ganolog iddo.

461. Dylai'r rhaglenni hyn fod yn hygyrch hefyd, felly mae'n bosibl y bydd angen asesiadau perthnasol o anghenion er mwyn gallu nodi ac ymateb yn briodol.

462. Mae gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) eu rhaglenni achrededig eu hunain ar gyfer y rhai a gollfarnir ac a ddedfrydir gan y llysoedd. Mae'r Panel Cynghori ac Achredu Gwasanaethau Cywirol (CSAAP), sef pwyllgor annibynnol o arbenigwyr rhyngwladol, yn helpu HMPPS i achredu rhaglenni drwy adolygu cynllun rhaglenni, gweithdrefnau a chanfyddiadau sicrhau ansawdd, a gwerthusiadau

²¹¹Yng Nghymru, cyfeirir hefyd at [Safonau Gwasanaeth Cyflawnwyr](#) VAWDASV.

rhaglenni. Maent yn gwneud argymhellion ynghylch a ddylid achredu rhaglenni yn seiliedig ar feini prawf penodol ac yn sicrhau bod rhaglenni yn:

- seiliedig ar y dystiolaeth a'r syniadau rhyngwladol diweddaraf ynghylch yr hyn sy'n gweithio i leihau aildroseddu;
- mynd i'r afael â ffactorau sy'n berthnasol i aildroseddu ac ymatal;
- cael eu targedu at ddefnyddwyr priodol;
- datblygu sgiliau newydd (yn hytrach na chodi ymwybyddiaeth yn unig);
- ysgogi, ymgysylltu a chadw cyfranogwyr;
- cael eu darparu yn ôl y bwriad; ac
- destun monitro, gwerthuso ac adolygu.

Ymyriadau Newid Ymddygiad

463. Nod rhaglenni fel yr un a redir gan Ahisma a 'Talk, Listen, Change' yw herio a chefnogi cyflawnwyr cam-drin i wneud newidiadau hirdymor i'w hymddygiad treisgar a chamdriniol. Mae ymyriadau newid ymddygiad hefyd yn ystyried anghenion ychwanegol megis camddefnyddio alcohol a sylweddau ac anawsterau iechyd meddwl.

464. Mae'r model Tasgio a Chydgyssylltu Amlasiantaethol (MATAC) yn rhan o'r Ymagwedd System Gyfan tuag at Gam-drin Domestig a dreialwyd yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr a Swydd Efrog. Mae'r model yn cynnwys dadansoddi data i nodi cyflawnwyr niwed uchel sydd wedyn yn cael eu hatgyfeirio i banel amlasiantaethol i gydlynu camau gweithredu gan gynnwys addysg, dargyfeirio, tarfu, a gorfodi i atal cam-drin a lleihau aildroseddu. Mae canfyddiadau gwerthusiad dwy flynedd un llun yn dangos gostyngiadau mewn aildroseddu ar draws gwahanol fathau o gam-drin domestig.²¹²

Blwch 7.2: Astudiaeth Achos – Gwaith Aml-asiantaeth

Astudiaeth Achos Ymateb Cymunedol Cydgysylltiedig

²¹² Davies, P, Biddle, P. Ymyriadau Cyflawnwyr Cyfresol Cam-drin Domestig. Tasgio a Chydlynu Amlasiantaethol (MATAC): Mynd i'r afael â chyflawnwyr cam-drin domestig. Gwerthusiad – Adroddiad Terfynol: 2017 Prifysgol Northumbria.

Mae [Ymateb Cymunedol Cydgysylltiedig](#) (CCR) yn cynnig ymagwedd gynhwysfawr, cynhwysol a chyfannol tuag at fynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais yn erbyn menywod a merched, drwy ddod ag asiantaethau a sefydliadau statudol, gwirfoddol a chymunedol ochr yn ochr â gwasanaethau arbenigol 'gan ac ar gyfer' i atal, nodi ac ymateb i anghenion lluosog a chroestoriadol dioddefwyr a phlant sy'n destun y gormes hwn, tra'n dal troseddwr i gyfrif.

Sut y gall gweithio mewn partneriaeth weithredu'n ymarferol:

Disgrifiodd K brofi cam-drin emosiynol gan ei chyn bartner trwy gydol eu perthynas tair blynedd ac mae'n dweud bod bygythiad cyson o drais corfforol tua diwedd y berthynas ac roedd K yn teimlo mai dim ond mater o amser oedd hi cyn iddo ei tharo. Yn ystod y berthynas, roedd y cyflawnwr yn rheolaethol ac yn genfigennus iawn. Byddai weithiau'n troi i fyny'n annisgwyl pan oedd K allan gyda ffrindiau a bob amser yn mynnu gwybod beth oedd hi'n ei wisgo, i ble roedd hi'n mynd a gyda phwy roedd hi. Disgrifiodd K y cyflawnwr fel un a oedd yn rhywiol dreisgar. Roedd yn arw iawn yn ystod rhyw. Nid oedd yn cydsynio i hyn ac weithiau byddai'n crio wedyn - doedd dim ots ganddo. Roedd gan y troseddwr fynediad at arfau ac roedd ganddo brofiad mewn seiberddiogelwch, felly roedd K yn pryderu y gallai fod yn ei holrhain neu fod ganddo fynediad at ei ffôn. Roedd K yn ofni ei chyn bartner yn fawr.

Ar ôl iddynt wahanu, cysylltodd cyn bartner K dro ar ôl tro gan aflonyddu ar K a'i ffrindiau a'i theulu. I ddechrau, roedd yn cysylltu â hi bob tri i bedwar diwrnod dros y ffôn. Anfonodd hefyd negeseuon ac anrhegion digroeso at K ar achlysuron arbennig, er i K nodi nad oedd yn dymuno cael unrhyw gyswllt pellach.

O ganlyniad i'r cam-drin, canfuwyd bod gan K anhwylder straen ôl-drawmatig. Roedd hi wedi bod yn cyrchu cwnsela preifat ond ni allai fforddio parhau i wneud hyn.

Atgyfeiriwyd K at arweinydd Partneriaeth Angelou, Advance²¹³, a gynigiodd gymorth i K gan IDVA. Dechreuodd yr IDVA gefnogi K a'i helpu i greu cynllun diogelwch. Roedd y cynllun yn cynnwys atgyfeiriad i Rape Crisis a gwasanaeth Cynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA) Partneriaeth Angelou, a ddarperir gan Gymorth i Fenywod Solace, i gefnogi K gyda'i phrofiad o drais a cham-drin rhywiol. Hefyd atgyfeiriodd yr IDVA K at Ymddiriedolaeth y Menywod, ar gyfer cwnsela cam-drin domestig arbenigol a oedd yn rhad ac am ddim i K ei gyrchu. Eglurodd yr IDVA Advance y gwahanol opsiynau a oedd ar gael i K a chefnogodd K yn y ffyrdd dilynol (fel y dewiswyd gan K) ar y cyd â phartneriaid allanol: llys sifil (e.e., cael gwaharddeb gyda chymorth cwmni cyfreithiol arbenigol); cael llety mwy diogel drwy Gynllun Noddfa'r awdurdod lleol er mwyn targedu caledu ei heiddo gan gynnwys gwella cloeon drysau a ffenestri; gweithio'n agos gyda'r heddlu i riportio'r cam-drin; gwella diogelwch digidol a thechnoleg K; a rhoi cynllun diogelwch ar waith o ran yr aflonyddu a'r stelcio.

Darparodd yr IDVA hefyd gymorth emosiynol i K a chymorth mwy manwl i ddeall dymuniadau cam-drin domestig.

²¹³ [Darperir gwybodaeth am Advance a'i rôl o fewn Partneriaeth Angelou ar wefan y bartneriaeth.](#)

Ar ôl cael cymorth arbenigol ar gyfer ei phrofiad croestoriadol o drais a cham-drin gan dri sefydliad mewn partneriaeth, dywedodd K ei bod yn teimlo'n llai unig, roedd ei diogelwch wedi cynyddu, ac roedd yn teimlo'n hyderus i wybod ble y gallai gyrchu cymorth pellach pe byddai ei angen.

Adolygiadau Lladdiad Domestig

465. Mae Adolygiad Lladdiad Domestig ('DHR') o dan adran 9(1) o Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004 ('Deddf 2004') yn adolygiad o'r amgylchiadau pan yw marwolaeth person 16 oed neu drosodd, neu pan yw'n ymddangos ei fod, wedi deillio o drais, cam-drin neu esgeulustod gan berson yr oeddent yn perthyn iddo neu yr oeddent mewn perthynas bersonol agos ag ef, neu gan aelod o'r un aelwyd. Lle cymerodd dioddefwr ei fywyd ei hun (hunanladdiad) a bod yr amgylchiadau'n peri pryder, megis ei fod yn dod i'r amlwg bod ymddygiad rheolaethol gorfodaethol yn y berthynas, dylid cynnal DHR hefyd. Cynhelir adolygiadau o'r fath mewn ardaloedd lleol gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol (CSP), sy'n cynnwys un neu fwy o'r cyrff a'r personau a restrir yn adran 9(4) o Ddeddf 2004. Cynhelir yr adolygiadau gyda'r bwriad o nodi'r gwersi i'w dysgu o'r farwolaeth, yn arbennig o ran y ffordd y mae gweithwyr proffesiynol a sefydliadau'n cydweithio i ddiogelu dioddefwyr.
466. Pan yw lladdiad domestig yn digwydd, dylai'r heddlu perthnasol hysbysu'r CSP perthnasol yn ysgrifenedig o'r digwyddiad. Y PDC lleol sy'n bennaf gyfrifol am sefydlu adolygiad gan eu bod mewn sefyllfa ddelfrydol i gychwyn DHR a phanel adolygu oherwydd eu cynllun amlasiantaethol a'u lleoliadau ledled Cymru a Lloegr. Mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn cynnwys cynrychiolwyr o rai, ond nid pob un, o'r 'awdurdodau cyfrifol' a restrir yn adran 5 o [Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998](#) ('Deddf 1998'), sydd â'r swyddogaethau a nodir yn adran 6 o Ddeddf 1998 mewn perthynas ag ardal llywodraeth leol sy'n cydweithio i amddiffyn eu cymunedau lleol rhag troseddu. Gweler [canllawiau pellach ar gynnal DHRs](#). Mae'n ddyletswydd ar unrhyw berson neu sefydliad a restrir yn isadran (4) o Ddeddf 2004 i roi sylw i ganllawiau statudol y DHR.

Atodiad A – Cymorth sydd ar gael i Ddiodefwyr

- **Llinell Gymorth Cam-drin Domestig Genedlaethol 24 awr (Lloegr)** – a redir gan Refuge, rhadffôn: 0808 2000 247. Mynediad Iaith Arwyddion Prydain o 10am - 6pm yn ystod yr wythnos. Mae'r wefan yn cynnig gwasanaeth sgwrsio byw rhwng 3pm - 10pm yn ystod yr wythnos.
- **Eiriolaeth ar ôl Cam-drin Domestig Angheuol** – sefydliad sy'n cefnogi'r rhai sydd wedi colli aelod o'r teulu (neu ffrind) oherwydd cam-drin domestig angheuol.
- **Age UK** – sefydliad sy'n cefnogi pobl hŷn a diodefwyr cam-drin yr henoed.
- **Ask for ANI** – cynllun codair i ddiodefwyr gyrchu cymorth o ddiogelwch eu fferyllfa leol.
- **Broken Rites** – grŵp sy'n cynnig cymorth a gwybodaeth i wŷr a gwragedd priod sydd wedi gwahanu ac ysgaru a phartneriaid clerigwyr, gweinidogion, a Swyddogion Byddin yr Eglwys.
- **Childline** – gwasanaeth 24 awr am ddim sy'n darparu cymorth i unrhyw un o dan 19 oed yn y DU. 0800 1111.
- **Clinks** – mudiad sy'n cefnogi'r sector gwirfoddol sy'n gweithio gyda phobl yn y system cyfiawnder troseddol a'u teuluoedd. Mae gan Clinks gyfeiriadur o wasanaethau, er nad yw'n hollgynhwysfawr, ac mae ganddynt brofiad o gefnogi menywod sydd wedi dioddef cam-drin domestig.
- **Prosiect Rhyddid Dogs Trust** – gwasanaeth maethu cŵn arbenigol ar gyfer diodefwyr sy'n ffoi rhag cam-drin domestig.
- **Galop** – sefydliad arbenigol ac elusen gwrth-drais LHDT sy'n cynnig cymorth i ddiodefwyr LHDT.
- **Llinell Gymorth Ymateb i Gam-drin Hestia** – llinell gyngor arbenigol sy'n cefnogi cyflogwyr i helpu staff sy'n profi cam-drin domestig ar 0203 879 3695 neu drwy e-bost Adviceline.EB@hestia.org. 9am - 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.
- **Gwasanaeth Cyswllt Dioddefwyr Carcharorion Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM** – gwasanaeth i ddiodefwyr gysylltu â HMPPS i riportio llythyrau, galwadau ffôn, negeseuon testun neu negeseuon digroeso gan garcharor neu i fynd ati'n rhagweithiol i geisio atal cyswllt. Gallwch gyrchu'r gwasanaeth drwy lenwi'r ffurflen ar Gov.uk gan ddefnyddio'r ddolen gov.uk/stop-prisoner-contact (mynediad 24 awr) neu ffonio 03000606699 neu drwy e-bostio unwantedprisonercontact@justice.gov.uk Dydd Llun i ddydd Gwener 9am – 4pm. Mae'r gwasanaeth Cyswllt Carcharorion Digroeso hefyd yn cynnig cyfle i ddiodefwyr gysylltu â HMPPS i godi pryderon ynghylch carcharor yn cael ei ryddhau.
- **Hourglass** – sefydliad arbenigol sy'n ceisio rhoi terfyn ar niwed, cam-drin a chamfanteisio ar bobl hŷn yn y DU. Gellir cyrchu eu llinell gymorth dros y ffôn ar 0808 808 8141, tecstiwch ar 07860 052906 neu e-bostiwch helpline@wearehourglass.org.

- **Jewish Women's Aid** – sefydliad arbenigol sy'n cefnogi menywod a phlant Iddewig y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt. Eu llinell gymorth yw 0808 801 0500 ac mae ar agor o ddydd Llun i ddydd Iau o 9.30 am - 9.30 pm (ac eithrio gwyliau Iddewig a gwyliau banc).
- **Llinell gymorth Cam-drin ar Sail 'Anrhydedd' Karma Nirvana** – sefydliad arbenigol sy'n cefnogi dioddefwyr cam-drin ar sail 'anrhydedd' a phriodas dan orfod. Eu llinell gymorth yw 0800 599 9247 ac mae ar agor 9am - 5pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener.
- **Loving me** – sefydliad arbenigol sy'n darparu cymorth ar-lein un-wrth-un ac eiriolaeth ar gyfer dioddefwyr risg uchel Trawsrywiol, Rhywedd Cwiar ac Anneuaidd cam-drin domestig.
- **ManKind Initiative** – sefydliad arbenigol sy'n cefnogi dynion sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig a'u plant.
- **Llinell Gymorth i Ddynion** – a redir gan Respect. 0808 801 0327 ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener 9am - 8pm neu e-bostiwch info@mensadvice.org.uk
- **Rhwydwaith Menywod Mwslimaidd** – sefydliad arbenigol sy'n cefnogi menywod a merched Mwslimaidd.
- **Llinell gymorth genedlaethol Cam-drin Domestig LHDT+** – 0800 999 5428 o ddydd Llun i ddydd Gwener 10am - 5pm.
- **Llinell gymorth Stelcio Genedlaethol** – sy'n cael ei rhedeg gan Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh. 0808 802 0300 9.30am - 4pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.
- **NSPCC** – prif elusen plant y DU sy'n gweithio i atal cam-drin, ailadeiladu bywydau plant a chefnogi teuluoedd.
- **Llinell gymorth FGM yr NSPCC** – 0800 028 3550.
- **Llinell Gymorth Genedlaethol Athrawon Ymgyrch Encompass** – 0204 513 9990 ar agor 8am -1pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae'r llinell gymorth ar gyfer staff ysgol i geisio canllawiau a thrafod ymholiadau a allai fod ganddynt yn dilyn hysbysiad Ymgyrch Encompass ac wrth baratoi ar gyfer cefnogi plentyn sy'n profi cam-drin domestig.
- **Paladin** – sefydliad sy'n rhoi cymorth i ddioddefwyr stelcian.
- **Cymorth Twf Addysg i Rieni (PEGS)** – sefydliad sy'n cefnogi dioddefwyr cam-drin plentyn i riant.
- **Rail to Refuge** – cynllun sy'n darparu teithiau trên am ddim i lety lloches i fenywod, dynion a phlant sy'n ffoi rhag cam-drin domestig trwy aelod-sefydliad Cymorth i Fenywod, Cymorth i Fenywod Cymru, Imkaan neu Respect (sy'n rhedeg y Llinell Gyngor i Ddynion).

- **Rape Crisis Cymru a Lloegr** –sefydliad sy'n cynrychioli canolfannau argyfwng trais rhywiol ledled Cymru a Lloegr sy'n darparu cymorth i fenywod a merched o bob oed sydd wedi profi unrhyw fath o drais rhywiol. Eu rhif ffôn yw 0808 802 9999. Mae eu gwefan hefyd yn cynnig gwasanaeth Sgwrs Fyw.
- **Refuge** – sefydliad a weithredir gan staff sy'n fenywaidd i gyd sy'n darparu cymorth i bawb sy'n dioddef cam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod a merched.
- **Respect** – sefydliad sy'n gweithio gyda dynion sy'n dioddef cam-drin domestig a chyflawnwyr cam-drin domestig. Mae Respect yn gweithredu'r Llinell Cyngor i Ddynion, cymorth cyfrinachol i ddynion sy'n dioddef cam-drin domestig a Llinell Ffôn Respect ar gyfer cyflawnwyr cam-drin domestig a'r rhai sy'n eu cefnogi.
- **Restored** – sefydliad arbenigol sy'n gweithio i fynd i'r afael â cham-drin domestig drwy weithio mewn partneriaeth ag eglwysi a sefydliadau Cristnogol.
- **Llinell gymorth Porn Dial** – ar agor rhwng 10am a 4pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. 0345 600 0459 neu help@revengepornhelpline.org.uk.
- **Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARCs)** – canolfannau sy'n darparu cymorth meddygol, ymarferol ac emosiynol i bob dioddefwr ymosodiad rhywiol.
- **Gwasanaeth Cam-drin Domestig Sign Health** – gwasanaeth cam-drin domestig arbenigol i gefnogi iechyd a lles pobl fyddar.
- **Cymorth i Fenywod Sicaidd** – sefydliad sy'n darparu cymorth i fenywod a merched Sicaidd.
- **Southall Black Sisters** – sefydliad sy'n darparu cymorth i ddioddefwyr lleiafrifoedd ethnig a menywod mudol. Eu llinell gymorth yw 020 8571 9595 ac mae ar agor rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.
- **Stay Safe East** – sefydliad arbenigol sy'n darparu cymorth i ddioddefwyr byddar ac anabl cam-drin domestig ledled Llundain. Dylid gwneud atgyfeiriadau at enquiries@staysafe-east.org.uk.
- **Goroesi Cam-drin Economaidd** – sefydliad arbenigol sy'n ymroddedig i gefnogi dioddefwyr cam-drin economaidd, gan weithio mewn partneriaeth â Money Advice Plus i roi cyngor ar arian a dyled i ddioddefwyr sy'n profi anawsterau ariannol.
- **Uned Priodasau dan Orfod y DU (FMU)** – uned bolisi'r Llywodraeth sy'n arwain ar bolisi priodas dan orfod, allgymorth a gwaith achos. Mae FMU yn gweithredu llinell gymorth gyhoeddus i roi cyngor a chymorth i ddioddefwyr a dioddefwyr posibl priodas dan orfod. 020 7008 0151.

- **Cymorth i Ddiodefswyr** – gwasanaeth arbenigol sy'n helpu unrhyw un y mae unrhyw fathau o droseddau yn effeithio arnynt, nid yn unig y rhai sy'n ei brofi'n uniongyrchol, ond hefyd eu ffrindiau, teulu ac unrhyw bobl eraill sy'n gysylltiedig.
- **Women's Aid Federation England (WAFE)** – sefydliad sy'n cefnogi menywod yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig. Mae eu gwefan yn cynnig gwasanaeth Sgwrs Fyw sydd ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener 10am i 6pm a dydd Sadwrn a dydd Sul 10am i 6pm. Mae Cymorth i Fenywod hefyd yn darparu cyfeiriadur, sy'n rhestru gwasanaethau cymorth lleol ar draws y DU, er nad yw'n hollgynhwysfawr mae'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd.

Sefydliadau sy'n benodol i Gymru:

- **Llinell Gymorth Genedlaethol 24 awr (Cymru) 'Byw Heb Ofn'** – 0808 801 0800 ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

Mae llinell gymorth Byw Heb Ofn yn wasanaeth rhad ac am ddim i bawb sy'n dioddef cam-drin domestig a thrais rhywiol a'r rhai sy'n agos atynt, gan gynnwys teulu, ffrindiau, cydweithwyr a phartion pryderus eraill.

Gellir cysylltu â Byw Heb Ofn yn y ffyrdd dilynol hefyd;

Testun: 0786 007 7333

E-bost: info@livefearfreehelpline.wales

Sgwrs fyw: llyw.cymru/bywhebofn

- **BAWSO** – sefydliad arbenigol sy'n ymroddedig i gefnogi cymunedau lleiafrifoedd ethnig.

- **Llinell gymorth Dyn Cymru** – sefydliad sy'n cefnogi dynion sy'n ddiodefswyr cam-drin domestig. 0808 801 0321 neu e-bostiwrch support@dynwales.org (cymorth i ddiodefswyr gwrywaidd)

- **Meic** – gwasanaeth llinell gymorth cyfrinachol, dienw a dwyieithog am ddim i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed yng Nghymru sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth defnyddiol. Mae Meic ar agor 8am - hanner nos, 7 diwrnod yr wythnos, dros y ffôn, neges destun SMS a negeseua gwib.

Ffôn: 0808 80 23456

Testun: 54001

Sgwrs fyw: www.meiccymru.org

- **Canolbarth, Gorllewin, Dwyrain a De Cymru**, y prif ddarparwr gwasanaeth cymorth trais rhywiol yw Llwybrau Newydd a gellir cysylltu â nhw ar 01685 379 310 neu enquiries@newpathways.org.uk.

• **Gogledd Cymru** (Ynys Môn, Conwy, Gwynedd, Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Wrecsam), mae dau brif wasanaeth cymorth trais rhywiol:

- **Canolfan Gymorth Trais a Cham-drin Rhywiol (RASASC)** – mae'n darparu gwybodaeth, cymorth arbenigol a therapi i unrhyw un sydd wedi profi unrhyw fath o gam-drin rhywiol a thrais; gellir cysylltu â nhw ar 01248 670 628 neu info@rasacymru.org.uk.
 - **Stepping Stones** - mae'n darparu gwasanaethau therapiwtig i oedolion sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol pan oeddent yn blant; gellir cysylltu â nhw ar 01978 352 717 neu info@steppingstonesnorthwales.co.uk.
- **Cymorth i Fenywod Cymru** – sefydliad sy'n cefnogi menywod Cymru y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt.

Atodiad B – Geirfa Acronymau

- ACE – Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod
- APVA – Trais a Cham-drin Glasoed i Rieni
- CAPVA – Trais a Cham-drin Plant a Glasoed i Rieni
- CCR – Ymateb Cymunedol Cydlynol
- CJS – System Cyfiawnder Troseddol
- CPS – Gwasanaeth Erlyn y Goron
- CQC – Comisiwn Ansawdd Gofal
- CSE – Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant
- CSEW – Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr
- CSP – Partneriaeth Diogelwch Cymunedol
- DA BPF – Fframwaith Arfer Gorau Cam-drin Domestig
- DAEHL – Arweinydd Cymorth Cynnar Cam-drin Domestig
- DAHA – Cynghrair Tai Cam-drin Domestig
- DAPNs – Hysbysiadau Gwarchod Cam-drin Domestig
- DAPOs – Gorchmynion Gwarchod Cam-drin Domestig
- DAPPs – Rhaglenni Cyflawnwyr Cam-drin Domestig
- DASH – Cam-drin Domestig, Stelcio, Aflonyddu a Thrais ar Sail 'Anrhydedd'
- DDVC – Consesiwn Trais Domestig Anghenus
- DHR – Adolygiad Lladdiad Domestig
- DHSC – Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- DLUHC – Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau
- DVDS – Cynllun Datgelu Trais Domestig, a adwaenir hefyd fel "Deddf Clare"
- DVILR – Trais Domestig, Caniatâd Amhenodol i Aros
- DVPNs – Hysbysiadau Gwarchod Trais Domestig
- DVPOs – Gorchmynion Gwarchod Trais Domestig
- DWP – Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- FCA – Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol
- FGM – Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod

- **FGMPO** - Gorchmynion Gwarchod Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod
- **FOUR** – Sefydlog, Obsesiynol, Digroeso a/neu Ailadroddus
- **HMCTS** – Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi
- **HMICFRS** – Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi
- **HMIP** – Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi
- **HMPPS** – Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi
- **ICB** – Bwrdd Gofal Integredig
- **ICP** – Partneriaeth Gofal Integredig
- **ICS** – System Gofal Integredig
- **IDVA** – Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol
- **INCADVA** - Cam-drin Trais Domestig Rhyng-golegol ac Asiantaeth
- **IOM** – Rheoli Troseddwyd Integredig
- **ISVA** – Cynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol
- **JTAI** – Cyd-Arolygiad Ardal wedi'i Dargedu
- **KSS** – Datganiadau Gwybodaeth a Sgiliau
- **LCJBs** – Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol
- **LHDT** – Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thraws
- **MAPPA** – Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd
- **MARAC** – Cynhadledd Asesu Risg Aml-Asiantaeth
- **MASH** – Hyb Diogelu Amlasiantaethol
- **MATAC** – cyfarfod pennu tasgau a chydgyssylltu amlasiantaethol
- **NICE** – Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal
- **NRM** – Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol
- **NRPF** – Dim Hawl i Arian Cyhoeddus
- **NSE** – Datganiad Cenedlaethol o **Ddisgwyliadau**
- **ONS** – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- **PCC** – Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
- **PCDAW** – Gweithiwr Cam-drin Domestig Rhieni a Phlant
- **RSHE** – Addysg Perthnasoedd, Rhyw ac Iechyd
- **VAWDASV** – Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- **VAWG** – Trais yn Erbyn Menywod a Merched

Atodiad C – Dogfennau Cyfarwyddyd

Gallai'r holl adnoddau a restrir yma ac yn y canllawiau gael eu newid a'u diweddarau. Pan fydd diweddariadau sydd ar ddod yn hysbys ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, rhoddir arwydd o hyn.

Arfer Proffesiynol Awdurdodedig ar Gam-drin Domestig²¹⁴

<https://www.app.college.police.uk/domestic-abuse-index/>

Canllawiau Cam-drin Plant i Rien²¹⁵

<https://safelives.org.uk/sites/default/files/resources/HO%20Information%20APVA.pdf>

Cod Ymarfer i Ddiodefwr Troseddau

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/476900/code-of-practice-for-victims-of-crime.PDF

Canllawiau Statudol ar Ymddygiad sy'n Rheolaethol neu Orfodaethol²¹⁶

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/482528/Controlling_or_coercive_behaviour_-_statutory_guidance.pdf

Canllawiau Gwasanaeth Erlyn y Goron ar Gam-drin Domestig²¹⁷

<https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/domestic-abuse>

Pecyn cymorth DAHA (Cynghrair Tai Cam-drin Domestig)

<http://accreditation.dahalliance.org.uk/>

Rhestr wirio risg Cam-drin Domestig, Stelcio, Aflonyddu a Thrais ar Sail 'anrhydedd' (DASH)

<https://www.dashriskchecklist.co.uk/wp-content/uploads/2021/12/DASH-2009.pdf>

Pecyn Cymorth Cam-drin Domestig i Gyflogwyr

<https://www.bitc.org.uk/toolkit/domestic-abuse-toolkit/>

Canllawiau Adolygu Lladdiad Domestig (DHR)²¹⁸

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/575273/DHR-Statutory-Guidance-161206.pdf

²¹⁴ Ar adeg ysgrifennu, mae'n hysbys bod y cyhoeddiad hwn wedi'i gynllunio ar gyfer ei ddiweddaru.

²¹⁵ Ibid.

²¹⁶ Ibid.

²¹⁷ Ibid.

²¹⁸ Ibid.

Canllawiau Cynllun Datgelu Trais Domestig (DVDS)²¹⁹

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/575361/DVDS_guidance_FINAL_v3.pdf

Hysbysiad Gwarchod Trais Domestig (DVPN) a Chanllawiau Gorchymyn Gwarchod Trais Domestig (DVPO)

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/575363/DVPO_guidance_FINAL_3.pdf

Canllawiau Statudol Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod

<https://www.gov.uk/government/publications/multi-agency-statutory-guidance-on-female-genital-mutilation>

Canllawiau Statudol Priodas dan Orfod a Chanllawiau Ymarfer Amlasiantaethol

<https://www.gov.uk/government/publications/the-right-to-choose-government-guidance-on-forced-marriage/multi-agency-statutory-guidance-for-dealing-with-forced-marriage-and-multi-agency-practice-guidelines-handling-cases-of-forced-marriage-accessible>

Canllawiau ar gyfer Strategaethau Lleol (Cymru)

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/guidance-for-local-strategies.pdf>

Fframwaith Polisi Cam-drin Domestig Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS)

<https://www.gov.uk/government/publications/domestic-abuse-policy-framework>

Cod Canllawiau Digartrefedd

https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a969da940f0b67aa5087b93/Homelessness_code_of_guidance.pdf

Rhannu Gwybodaeth: Cyngor i Ymarferwyr sy'n Darparu Gwasanaethau Diogelu i Blant, Pobl Ifanc, Rhieni a Gofalwyr²²⁰

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/721581/Information_sharing_advice_practitioners_safeguarding_services.pdf

Canllawiau Statudol Cadw Plant yn Ddiogel mewn Addysg²²¹

<https://www.gov.uk/government/publications/keeping-children-safe-in-education--2>

Datganiad Dioddefwyr Gwryw (Gwasanaeth Erllyn y Goron)

<https://www.cps.gov.uk/publication/cps-public-statement-male-victims-crimes-covered-cps-vawg-strategy>

Dogfen Cefnogi Dioddefwyr Gwryw (Y Swyddfa Gartref)

<https://www.gov.uk/government/publications/supporting-male-victims>

²¹⁹ Ar adeg ysgrifennu, mae'n hysbys bod y cyhoeddiad hwn wedi'i gynllunio ar gyfer ei ddiweddarau.

²²⁰ Ibid.

²²¹ Ibid.

Caethwasiaeth Fodern: Canllawiau Statudol ar gyfer Cymru a Lloegr (o dan a49 o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015) a Chanllawiau Anstatudol ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1059234/Modern_Slavery_Statutory_Guidance_EW_Non-Statutory_Guidance_SNI_v2.8.pdf

Prosiect Gweithio Amlasiantaethol a Rhannu Gwybodaeth

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/338875/MASH.pdf

Safon Ansawdd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) <https://www.nice.org.uk/guidance/qs116>

Datganiad Disgwyliadau Cenedlaethol

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1064571/National_Statement_of_Expectations_2022_Final.pdf

Pecyn Cymorth Pathfinder

<https://www.standingtogether.org.uk/blog-3/pathfinder-toolkit>

Safonau Gwasanaeth Cyflawnwyr (Cymru)

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/perpetrator-service-standards.pdf>

Canllawiau Mechniaeth Rhag-gyhuddo a Rhyddhau o dan Ymchwiliad ²²²

<https://cdn.prgloo.com/media/832fb4a76353450ab555b7db1c93ed48.pdf>

Blaenoriaethau ar gyfer Gwasanaethau Cam-drin Domestig

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/721495/Fund_for_domestic_abuse_services_2018-20_prospectus.pdf

Canllawiau Achredu Safonol Respect

<https://www.respect.uk.net/pages/64-respect-standard>

Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion Mewn Perygl yn y GIG: Fframwaith Diogelu Atebolrwydd a Sicrwydd

<https://www.england.nhs.uk/wp-content/uploads/2015/07/safeguarding-children-young-people-adults-at-risk-saaf.pdf>

Canllawiau Cynhadledd Amlasiantaethol Asesu Risg (MARAC) SafeLives

<https://safelives.org.uk/practice-support/resources-marac-meetings>

Cynlluniau Noddfa ar gyfer Aelwydydd Mewn Perygl o Drais Domestig: Canllaw i Asiantaethau <https://www.gov.uk/government/publications/sanctuary-schemes-for-households-at-risk-of-domestic-violence-guide-for-agencies>

²²² Ar adeg ysgrifennu, mae'n hysbys bod y cyhoeddiad hwn wedi'i gynllunio ar gyfer ei ddiweddarau.

Canllawiau'r Cyngor Dedfrydu ar gyfer Dedfrydu Plant a Phobl Ifanc

<https://www.sentencingcouncil.org.uk/overarching-guides/magistrates-court/item/sentencing-children-and-young-people/>

Trais Rhywiol ac Aflonyddu Rhwng Plant mewn Ysgolion a Cholegau

<https://www.gov.uk/government/publications/sexual-violence-and-sexual-harassment-between-children-in-schools-and-colleges>

Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd: 0 i 25 oed Canllawiau statudol ar gyfer sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig neu anableddau ac yn eu cefnogi (Lloegr)

<https://www.gov.uk/government/publications/send-code-of-practice-0-to-25>

Deddf Diogelu rhag Stelcio: Canllawiau Statudol ar gyfer yr Heddlu

<https://www.gov.uk/government/publications/stalking-protection-act-statutory-guidance-for-the-police>

Safonau ar gyfer Plant yn y System Cyfiawnder Ieuencid 2019

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/780504/Standards for children in youth justice services 2019.doc.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/780504/Standards_for_children_in_youth_justice_services_2019.doc.pdf)

Canllawiau Statudol ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yng Nghymru

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/statutory-guidance-for-the-commissioning-of-vawdasv-services-in-wales.pdf>

Fframwaith Canllawiau Statudol: Ymddygiad Rheolaethol neu Orfodaethol mewn Perthynas Bersonol neu Deuluol ²²³

<https://www.gov.uk/government/publications/statutory-guidance-framework-controlling-or-coercive-behaviour-in-an-intimate-or-family-relationship>

Rhaglen Cryfhau Teuluoedd ac Amddiffyn Plant

<https://www.gov.uk/guidance/strengthening-families-protecting-children-sfpc-programme>

Mynd i'r Afael â Thrais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: Pecyn Cymorth Comisiynu Cydweithredol ar gyfer Gwasanaeth yng Nghymru

https://www.lloydsbankfoundation.org.uk/media/jmun2m2n/vawdasv-toolkit_wales_web.pdf

Yr Ymateb Amlasiantaethol i Blant sy'n Byw gyda Cham-drin Domestig [The multi-agency response to children living with domestic abuse \(publishing.service.gov.uk\)](#)

Pecyn Cymorth Comisiynu Trais yn Erbyn Menywod a Merched

<https://www.gov.uk/government/publications/violence-against-women-and-girls-national-statement-of-expectations-and-commissioning-toolkit>

²²³Ar adeg ysgrifennu, mae'n hysbys bod y cyhoeddiad hwn wedi'i gynllunio ar gyfer ei ddiweddarau.

Trais yn Erbyn Menywod a Merched: Safonau Craidd a Rennir gan y Sector
<https://1q7dqy2unor827bqjls0c4rn-wpengine.netdna-ssl.com/wp-content/uploads/2016/11/Shared-Standards-Whole-Document-Final-30.11.2016.pdf>

Canllawiau Statudol Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant²²⁴
<https://www.gov.uk/government/publications/working-together-to-safeguard-children--2>

Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant Mewn Perygl <https://gov.wales/safeguarding-children-risk-abuse-or-neglect>

Canllawiau Cyfreithiol y CPS i Droseddwy'r Ifanc <https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/youth-offenders>

Canllawiau Rheoli Achosion y Tîm Troseddau Ieuencid a Rheolwyr
<https://www.gov.uk/government/collections/case-management-guidance>

²²⁴Ar adeg ysgrifennu, mae'n hysbys bod y cyhoeddiad hwn wedi'i gynllunio ar gyfer ei ddiweddarau.

Atodiad D – Tabl o Orchmynion Amddiffyn

Awdurdodaeth	Enw	Pwrpas	Proses	Deddfwriaeth Berthnasol	Ydy torri amodau'n Drosedd?	Sanctiwn am dorri amodau
Achosion sifil (Llys yr Ynadon)	Gorchmynion Amddiffyn Trais Domestig	Y bwriad yw rhoi terfyn uniongyrchol a thymor byr ar gyswllt rhwng y cyflawnwr a'r dioddefwr.	Ar wahân i achosion troseddol (os oes rhai). Mae'r heddlu'n gwneud cais i'r llys ynadon.	Deddf Trosedd a Diogelwch 2010	Nac ydy	Uchafswm o ddwy flynedd o garchar (am ddirmyg sifil)
Achosion sifil (Llys yr Ynadon)	Gorchmynion Troseddwy Treisgar	Ar gyfer y rhai a gafwyd yn euog o droseddau treisgar difrifol penodol i amddiffyn y cyhoedd rhag y risg o niwed treisgar difrifol.	Ōl-golfarnu. Mae'r heddlu'n gwneud cais i'r llys ynadon.	Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008	Ydy	Uchafswm o bum mlynedd o garchar
Achosion sifil (Llys yr Ynadon)	Gorchymyn Risg Rhywiol	Amddiffyn rhag niwed lle dangosir bod risg gan berson sydd wedi cyflawni ymddygiad rhywiol penodol.	Ddim yn dibynnu ar gollfarn. Mae'r heddlu'n gwneud cais i'r llys ynadon.	Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014	Ydy	Uchafswm o bum mlynedd o garchar

Awdurdodaeth	Enw	Pwrpas	Proses	Deddfwriaeth Berthnasol	Ydy torri amodau'n Drosedd?	Sanctsiwn am dorri amodau
Achosion sifil (Llys yr Ynadon)	Gorchymyn hysbysu	Yn gwneud troseddwr rhyw sydd wedi'i gollfarnu neu ei rybuddio dramor yn ddarostyngedig i'r gofynion hysbysu. Defnyddir lle bo angen i atal niwed rhywiol.	Ar ôl collfarn dramor. Mae'r heddlu'n gwneud cais i'r llys ynadon.	Deddf Troseddau Rhyw 2003	Ydy	Uchafswm o bum mlynedd o garchar
Achosion sifil (Llys yr Ynadon)	Gorchymyn Diogelu rhag Stelcio	Ymyrraeth gynnar i atal ymddygiad stelcio rhag gwaethygu neu ymwreiddio. Gellir ei ddefnyddio lle mae tystiolaeth ddigonol o ymddygiad stelcio (ond nid o reidrydd collfarn) cyn i gyhuddiad gael ei ddwyn.	Ddim yn ddibynnol ar achosion troseddol. Mae'r heddlu'n gwneud cais.	Deddf Diogelu rhag Stelcio 2019	Ydy	Uchafswm o bum mlynedd o garchar
Achosion sifil (Llys Sirol neu Uchel Lys)	Gwaharddeb	I'w ddefnyddio os nad yw dioddefwyr yn gysylltiedig yn gyfreithiol â'r troseddwr (e.e. priodas, rhannu cyfrifoldebau rhiant, cyd-fyw), yn darparu ar gyfer gorchymyn atal a gall y dioddefwr hawlio iawndal.	Dioddefwr yn dwyn achos sifil.	Deddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 (a.3)	Ydy	Dirmyg uchafswm o ddwy flynedd o garchar; neu gollfarn am bum mlynedd
Achosion troseddol (llys yr	Gorchymynion Atal	Caniatáu i lys amddiffyn dioddefwr rhag troseddwr/diffynnydd	Erlynydd yn gwneud cais i lys troseddol ar	Deddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997	Ydy	Uchafswm o bum mlynedd o garchar

Awdurdodaeth	Enw	Pwrpas	Proses	Deddfwriaeth Berthnasol	Ydy torri amodau'n Drosedd?	Sanctsiwn am dorri amodau
Ynadon neu Lys y Goron)			gollfarn neu ryddfarn am unrhyw drosedd.			
Achosion troseddol (Llys Ynadon neu Lys y Goron)	Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol	Diogelu'r cyhoedd rhag niwed rhywiol gan droseddwr.	Ôl-gollfarn. Erlynydd yn gwneud cais i'r llys troseddol ar gollfarn.	Deddf Troseddau Rhyw 2003	Ydy	Uchafswm o bum mlynedd o garchar
Achosion troseddol (Llys Ynadon neu Lys y Goron)	Gorchymynion Ymddygiad Troseddol	Gellir ei ddefnyddio i atal digwyddiadau pellach o gam-drin domestig.	Erlynydd yn gwneud cais i'r llys troseddol ar gollfarn.	Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014	Ydy	Uchafswm o bum mlynedd o garchar
Achosion teulu	Gorchymynion Meddiannaeth	Yn penderfynu pwy all a/neu na all feddiannu eiddo penodol am gyfnod o amser.	Dioddefwr yn gwneud cais i'r llys teulu.	Deddf Cyfraith Teulu 1996	Nac ydy	Amherthnasol
Achosion teulu	Gorchymyn Amddiffyn Priodas dan Orfod	Gellir ei ddefnyddio pan fo person wedi bod yn destun neu mewn perygl o briodas dan orfod.	Ddim yn ddibynnol ar achosion troseddol. Mae'r person sydd i'w warchod, yr awdurdod lleol, neu unrhyw barti arall gyda chaniatâd y llys,	Deddf Cyfraith Teulu 1996	Ydy	Dirmyg - uchafswm o ddwy flynedd o garchar; neu gollfarn - bum mlynedd

Awdurdodaeth	Enw	Pwrpas	Proses	Deddfwriaeth Berthnasol	Ydy torri amodau'n Drosedd?	Sanctsiwn am dorri amodau
			yn gwneud cais i'r llys teulu.			
Achosion teulu	Gorchmynion peidio ag ymyrryd	Gwahardd person rhag ymyrryd â pherson arall.	Gan lys o'i wirfodd os yw plentyn yn gysylltiedig fel arall ar gais. Dioddefwr yn gwneud cais i'r Llys Teulu.	Deddf Cyfraith Teulu 1996	Ydy	Uchafswm o bum mlynedd o garchar
Achosion teuluol neu achosion troseddol	Gorchymyn Amddiffyn FGM	Gellir ei ddefnyddio pan fo person wedi bod yn destun neu mewn perygl o FGM.	Ddim yn ddibynnol ar achosion troseddol. Mae'r person sydd i'w warchod, yr awdurdod lleol neu unrhyw barti arall gyda chaniatâd y llys yn gwneud cais i'r Llys Teulu neu'r Uchel Lys (neu gellir ei wneud gan lys troseddol mewn	Deddf FGM 2003	Ydy	Dirmyg - uchafswm o ddwy flynedd o garchar; neu gollfarn - bum mlynedd

Awdurdodaeth	Enw	Pwrpas	Proses	Deddfwriaeth Berthnasol	Ydy torri amodau'n Drosedd?	Sanctsiwn am dorri amodau
			achos troseddol am drosedd FGM).			